



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 16 June 2010
Wednesday, 16 June 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Questions to the Minister for Business and Budget
- 24 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions to the Minister for Heritage
- 38 Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Statement by the Secretary of State for Wales
- 72 Araith y Frenhines
The Queen's Speech
- 141 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 148 Dadl Fer: Yr Hawl i Anadlu
Short Debate: The Right to Breathe

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb.

The Presiding Officer: Order for questions to the Minister for Business and Budget.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget

Cyllideb

Q1 Nerys Evans: What recent discussions has the Minister had regarding the overall budget allocation for the children, education and lifelong learning portfolio? OAQ(3)1080(BB)

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): Budget planning processes that will set the budgets for the Assembly Government for 2011-12 and beyond are under way. I have held discussions across all portfolios, including discussions with the Minister for Children, Education and Lifelong Learning and the Deputy Minister for Children.

Nerys Evans: You will be aware that the coalition Government in London has introduced a policy of pupil premium. Has any discussion taken place between the Assembly Government and the new UK Government about how that would affect the overall allocation to the Assembly Government's budget?

Jane Hutt: Fortunately, education is a devolved issue. We can therefore seek to continue to support our pioneering educational policies, such as Flying Start, the foundation phase, the Welsh bacalaureate, and the 14-19 learning pathways, which improve educational opportunities as well as a school's effectiveness. However, I fear that the cuts agenda may undermine these programmes.

Alun Cairns: What discussions has the Minister had with the Minister for Children, Education and Lifelong Learning on the freeing up of schools in order to prevent the top-slicing of school budgets by local authorities, which could have a positive

Budget

C1 Nerys Evans: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes? OAQ(3)1080(BB)

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Mae prosesau cynllunio'r gyllideb a fydd yn pennu cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12 a thu hwnt ar y gweill. Yr wyf wedi cynnal trafodaethau ar draws pob portffolio, gan gynnwys trafodaethau â'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Dirprwy Weinidog dros Blant.

Nerys Evans: Byddwch yn ymwybodol bod y Llywodraeth glymbleidiol yn Llundain wedi cyflwyno polisi premiwm disgyblion. A oes unrhyw drafodaeth wedi'i chynnal rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth newydd y DU ynghylch sut y byddai hynny'n effeithio ar y dyraniad cyffredinol i gyllideb Llywodraeth y Cynulliad?

Jane Hutt: Yn ffodus, mae addysg yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Felly, gallwn geisio parhau i gefnogi ein polisïau addysgol blaengar, megis Dechrau'n Deg, y cyfnod sylfaen, bagloriaeth Cymru, a'r llwybrau dysgu 14-19, sy'n gwella cyfleoedd addysgol yn ogystal ag effeithiolrwydd ysgol. Fodd bynnag, ofnaf y gallai'r agenda doriadau danseilio'r rhaglenni hyn.

Alun Cairns: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch rhyddhau ysgolion er mwyn atal awdurdodau lleol rhag brigdorri cyllidebau ysgolion, a allai gael effaith gadarnhaol yn y rheng flaen,

effect at the sharp end, particularly in this tight financial climate?

Jane Hutt: As I said, I have been working on budget planning with the Ministers, particularly the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, on the importance of safeguarding our funding. Funding for schools is primarily routed through the revenue support grant and we must ensure that we safeguard our spend at the sharp end to back our pupils. It is important that we link this to the cross-cutting investment that we are making in the new child poverty strategy, with specific policy commitments by the Assembly Government to reduce educational inequalities through our school effectiveness framework, community-focused schools and the foundation phase. That is the backing that I will give, with this Government, to ensure that those pioneering policies reach those children and pupils at the sharp end.

Brian Gibbons: Despite commitments from the Westminster Government that the first round of the £6 billion cuts would only tackle inefficiencies, you will be aware that front-line children's expenditure has been very much at the forefront of those cuts. Proposals that would lead to an increase in value added tax, for example, are bound to hit low-income families the hardest. Do you agree, therefore, that there is a special onus on the Assembly Government to continue with its policies, which are intended to give our children the best start in life?

Jane Hutt: I agree with you, Brian; I refer you to my earlier responses to Nerys Evans and Alun Cairns. The Assembly Government has always supported, and will continue to support, the most vulnerable in our society. That includes children and young people, and is backed by the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which was discussed in the Chamber yesterday. The Assembly Government has key policies, such as Flying Start and the foundation phase, to ensure that children have the best possible start to life.

However, I am sure that, like me and the

yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol anodd hon?

Jane Hutt: Fel y dywedais, bûm yn gweithio ar gynllunio cyllidebau gyda'r Gweinidogion, yn enwedig y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac ar bwysigrwydd diogelu ein cyllid. Daw cyllid ar gyfer ysgolion drwy'r grant cynnal refeniw yn bennaf, a rhaid inni sicrhau ein bod yn diogelu ein gwariant yn y rheng flaen er mwyn cefnogi ein disgyblion. Mae'n bwysig ein bod yn cysylltu hynny â'r buddsoddiad trawsbynciol a wnawn yn y strategaeth newydd ar dlodi plant, gydag ymrwymadau penodol o ran polisi gan Lywodraeth y Cynulliad i leihau anghydraddoldebau addysgol drwy ein fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, ysgolion bro a'r cyfnod sylfaen. Dyna'r gefnogaeth a roddaf, gyda'r Llywodraeth hon, i sicrhau bod y polisiau blaengar hynny'n cyrraedd y plant a'r disgyblion hynny yn y rheng flaen.

Brian Gibbons: Er gwaethaf ymrwymadau gan Lywodraeth San Steffan y byddai rownd gyntaf y toriadau gwerth £6 biliwn yn mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn unig, gwyddoch fod gwariant yn y rheng flaen ar blant wedi bod yn flaenllaw iawn yn y toriadau hynny. Bydd cynigion a fyddai'n arwain at gynnydd mewn treth ar werth, er enghraifft, yn siŵr o effeithio waethaf ar deuluoedd sydd ag incwm isel. A gytunwch, felly, fod cyfrifoldeb arbennig ar Lywodraeth y Cynulliad i barhau â'i pholisiau, y bwriedir iddynt roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant?

Jane Hutt: Cytunaf â chi, Brian; hoffwn eich cyfeirio at fy atebion cynharach i gwestiynau Nerys Evans ac Alun Cairns. Mae Llywodraeth y Cynulliad bob amser wedi cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a bydd yn parhau i'w cefnogi. Mae'r rheini'n cynnwys plant a phobl ifanc, a chaiff hynny ei gefnogi gan y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) a drafodwyd yn y Siambr ddoe. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad bolisiau allweddol, megis Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen, i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr eich bod

Welsh Assembly Government, Brian, you were also disappointed to hear the UK coalition Government announce on Monday, 24 May, that it intends to reduce and then stop all Government contributions to child trust funds. That will affect around 32,000 children in Wales annually, who will miss out on a child trust fund account altogether, as well as at least 135,000 children who will now not receive the additional UK Government contribution at the age of seven. The greatest effect will be felt by those who are already living in relative poverty.

One Wales

Q2 Andrew R.T. Davies: What progress is the Minister making towards meeting the 'One Wales' commitments in her portfolio? OAQ(3)1092(BB)

Jane Hutt: We publish quarterly updates to the 'One Wales' delivery plan to enable people to review progress against specific 'One Wales' commitments. Good progress has been achieved on all four 'One Wales' objectives in my portfolio.

Andrew R.T. Davies: Thank you very much for that answer, Minister. In your ministerial portfolio, as set out by the Assembly Government, all your measures for spending and saving money need to be based on evidence and evaluation techniques. The 'One Wales' agreement places an obligation on the One Wales Government to rule out the independent sector in the NHS. How can you tell me that this is based on evidence and fair evaluation rather than political ideology? Does this deliver fair value for money when money is very tight, when good service provision is already being provided, for example, at the IVF clinic in Singleton Hospital, Swansea?

Jane Hutt: Value for money and ensuring that we get the best out of the Welsh pound has been driving our efficiency agenda for the last five years. It is very important, and I am sure that you would agree, Andrew, that

chithau, Brian, fel Llywodraeth y Cynulliad a minnau, yn siomedig o glywed Llywodraeth glymbleidiol y DU yn cyhoeddi ddydd Llun, 24 Mai, ei bod yn bwriadu lleihau ac yna atal holl gyfraniadau'r Llywodraeth i gronfeydd ymddiriedolaeth plant. Bydd hynny'n effeithio ar oddeutu 32,000 o blant yng Nghymru bob blwyddyn, a fydd yn colli'n gyfan gwbl y cyfle i gael cyfrif cronfa ymddiriedolaeth plant, a bydd yn effeithio hefyd ar o leiaf 135,000 o blant na fyddant yn awr yn cael cyfraniad ychwanegol gan Lywodraeth y DU pan fyddant yn saith oed. Y sawl yr effeithir arnynt fwyaf fydd y rheini sydd eisoes yn byw mewn tlodi cymharol.

Cymru'n Un

C2 Andrew R.T. Davies: Pa gynnydd y mae'r Gweinidog yn ei wneud at ddiwallu'r ymrwymïadau 'Cymru'n Un' yn ei phortffolio? OAQ(3)1092(BB)

Jane Hutt: Yr ydym yn cyhoeddi'r newyddion diweddaraf bob chwarter am gynllun cyflenwi 'Cymru'n Un' er mwyn galluogi pobl i adolygu cynnydd yn erbyn ymrwymïadau penodol 'Cymru'n Un'. Gwnaed cynnydd da yng nghyswllt pob un o'r pedwar amcan 'Cymru'n Un' sy'n perthyn i'm portffolio i.

Andrew R.T. Davies: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn eich portffolio gweinidogol, fel y cafodd ei bennu gan Lywodraeth y Cynulliad, mae angen i'ch holl fesurau ar gyfer gwario ac arbed arian gael eu seilio ar dystiolaeth a thechnegau gwerthuso. Mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn gorfodi Llywodraeth Cymru'n Un i ddiystyru defnyddio'r sector annibynnol yn y GIG. Sut y gallwch ddweud wrthyf bod hynny wedi'i seilio ar dystiolaeth a gwerthusiad teg yn hytrach nag ideoleg wleidyddol? A yw'r penderfyniad hwnnw'n sicrhau gwerth teg am arian pan fo arian yn dynn iawn, pan fo darpariaeth dda o ran gwasanaethau eisoes yn cael ei chynnig, er enghraifft, yn y clinig IVF yn Ysbyty Singleton, Abertawe?

Jane Hutt: Mae gwerth am arian a sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r bunt Gymreig wedi bod yn gyrru ein hagenda effeithlonrwydd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n bwysig iawn, ac yr wyf yn

'One Wales' offers a progressive agenda for improving the quality of life of people in all communities in Wales and from all walks of life, especially the most vulnerable and disadvantaged. We are now faced with a very difficult time in terms of the cuts agenda, where we are being expected to reduce the deficit over the coming years. We are certainly playing our part in that, but we must ensure that public expenditure is not cut too early thus jeopardising the economic recovery. I am sure that you would join me in recognising our responsibility to ensure that we have a national health service that delivers nationally and locally and provides value for money.

Nick Ramsay: The report 'A Picture of Public Services', which was prepared by the Wales Audit Office, set out in the starkest possible terms the challenges facing public sector bodies across Wales in the months ahead. It states among other things that public services in Wales need to undergo considerable changes if they are to face up to the tougher financial situation that you have just spoken about.

The Westminster Government has correctly identified the need for improvements in this regard. However, much will depend in Wales on what your Government decides. What assessment have you made of the recommendations of the Audit Committee's report in assessing your own spending commitments to ensure that, on the one hand, front-line services are prioritised, while, at the same time, the Assembly Government plays the fullest role possible in helping to reduce the UK national budget deficit?

Jane Hutt: It is important that we pause for a moment to look at the efficiencies achieved to date. I mentioned the Welsh Assembly Government's five-year improvement programme to achieve £600 million of efficiency gains across the public sector by 2010. We are already doing this work prior to the new UK coalition Government coming forward with its expectation in terms of cuts in the deficit for this financial year, as well as moving to a very difficult and challenging

siŵr y byddech yn cytuno, Andrew, bod 'Cymru'n Un' yn cynnig agenda flaengar ar gyfer gwella ansawdd bywyd pobl o bob cefndir ac ym mhob cymuned yng Nghymru, yn enwedig y bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig. Yr ydym yn awr yn wynebu cyfnod anodd iawn o ran yr agenda doriadau, lle disgwylir inni leihau'r diffyg dros y blynyddoedd nesaf. Yr ydym yn bendant yn chwarae ein rhan yn y broses honno, ond rhaid inni sicrhau na chaiff gwariant cyhoeddus ei dorri'n rhy gynnar gan beryglu'r adferiad economaidd. Yr wyf yn siŵr y byddech chithau fel finnu'n cydnabod ein cyfrifoldeb i sicrhau bod gennym wasanaeth iechyd gwladol sy'n cyflawni ar lefel genedlaethol a lleol ac sy'n darparu gwerth am arian.

Nick Ramsay: Mae'r adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus', a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn egluro yn y modd mwyaf pendant posibl yr heriau sy'n wynebu cyrff yn y sector cyhoeddus ledled Cymru yn ystod y misoedd sydd i ddod. Ymysg pethau eraill, dywed fod angen i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru newid yn sylweddol os ydynt am ymdopi â'r sefyllfa ariannol anos yr ydych newydd sôn amdani.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi nodi'n gywir yr angen am welliannau yn hynny o beth. Fodd bynnag, bydd llawer yng Nghymru yn dibynnu ar yr hyn y bydd eich Llywodraeth yn ei benderfynu. Pa asesiad yr ydych wedi'i gynnal o argymhellion adroddiad y Pwyllgor Archwilio wrth asesu eich ymrwymadau gwario eich hun i sicrhau y caiff blaenoriaeth ei rhoi i wasanaethau rheng flaen ar y naill law, gan sicrhau ar yr un pryd bod Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae'r rôl lawnaf posibl i helpu i leihau'r diffyg yng nghyllideb genedlaethol y DU?

Jane Hutt: Mae'n bwysig ein bod yn oedi am ennyd i ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd hyd yma. Soniais am raglen wella pum mlynedd Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau gwerth £600 miliwn o arbedion effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus erbyn 2010. Yr oeddem eisoes yn gwneud y gwaith hwn cyn i Lywodraeth glymbleidiol newydd y DU gyflwyno'i disgwyliad ynghylch toriadau yn y diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, yn

comprehensive spending review for the next three years.

The Wales Audit Office recognises the work that we have done and that we are on track to deliver in terms of achieving our target of £600 million to ensure that we can reduce any inefficiencies that mean that we cannot give our funding directly to the front line. The front line is what we seek to protect and safeguard, particularly focusing on schools and skills and the health service. We must ensure—and I said this to the Chief Secretary to the Treasury last week—that we are responsible partners in contributing to reducing the deficit, but it is about how we reduce that deficit. We will play our part in the difficult adjustments that need to be made, but in reducing that deficit, we do not want to jeopardise the economic recovery or threaten damage to our public services, particularly on the front line of education and health.

Nick Ramsay: Thank you for that answer. I welcome the commitment to protecting front-line services as much as possible and also the efforts that have been made in terms of the efficiency savings that are already in the system. However, I have had helpful meetings with you and I think that there is an understanding among all parties that these efficiencies will not be enough. On the back of that, there is a perception that your Government failed to make meaningful contingency plans prior to the coalition Government being formed. You failed to prepare contingency plans that would have anticipated the situation in which we now find ourselves and included an appropriate response.

1.40 p.m.

Minister, not every detail has come to light about the capital-to-revenue ratio of cuts at Westminster—I understand that and accept it; I hear what you are saying. Even so, your Government should know roughly how it is going to save £1 out of every £100 that it spends—or a different ratio, if that is the case. Only recently, I found £100 million of

ogystal â symud i adolygiad cynhwysfawr anodd a heriol iawn o wariant ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y gwaith a wnaed gennym, ac yn cydnabod ein bod ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed o £600 miliwn er mwyn sicrhau y gallwn leihau unrhyw aneffeithlonrwydd sy'n golygu na allwn roi ein cyllid yn uniongyrchol i'r rheng flaen. Y rheng flaen yw'r hyn yr ydym am geisio'i warchod a'i ddiogelu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgolion a sgiliau a'r gwasanaeth iechyd. Rhaid inni sicrhau—a dywedais hyn wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yr wythnos diwethaf—ein bod yn bartneriaid cyfrifol wrth gyfrannu at leihau'r diffyg, ond mae a wnelo â sut yr ydym yn lleihau'r diffyg hwnnw. Byddwn yn chwarae ein rhan yn yr addasiadau anodd y mae angen eu gwneud, ond wrth leihau'r diffyg hwnnw, nid ydym am beryglu'r adferiad economaidd neu fygwth niweidio ein gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ar y rheng flaen ym maes addysg ac iechyd.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw. Croesawaf yr ymrwymiad i warchod gwasanaethau rheng flaen gymaint ag sy'n bosibl, a'r ymdrechion a wnaed hefyd yng nghyswllt yr arbedion effeithlonrwydd sydd eisoes yn y system. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael cyfarfodydd defnyddiol â chi, a chredaf fod yr holl bleidiau'n deall na fydd yr arbedion effeithlonrwydd hynny'n ddigon. Yn sgil hynny, teimlir i'ch Llywodraeth fethu â llunio cynlluniau ystyrllon wrth gefn cyn i'r Llywodraeth glymbleidiol gael ei ffurfio. Bu ichi fethu â pharatoi cynlluniau wrth gefn a fyddai wedi rhagweld y sefyllfa yr ydym ynddi'n awr, ac a fyddai wedi cynnwys ymateb priodol.

Weinidog, nid yw pob manylyn wedi ymddangos am gymhareb cyfalaf-i-refeniw y toriadau yn San Steffan—yr wyf yn deall ac yn derbyn hynny; yr wyf yn clywed yr hyn a ddywedwch. Er hynny, dylai eich Llywodraeth fod yn gwybod yn fras sut mae'n bwriadu arbed £1 o bob £100 y mae'n ei wario—neu gymhareb wahanol, os yw'n

potential cuts, for which I was criticised. It was not an easy thing to do, but it needs to be done. In the spirit of openness, would you agree that it is now time for you and your Government to come clean on where these cuts are going to fall?

Jane Hutt: Nick, as you know, I gave a statement to Plenary on 25 May, setting out the way in which the Welsh Assembly Government is responding to the UK Government's announcement of £6.2 billion-worth of cuts in public spending. As you know, I have managed to reduce the figure for Wales as a result of my meeting with the Chief Secretary to the Treasury last week, where he confirmed that we will not be levelled with a negative consequential of £1.6 million in relation to the Olympic Games. That has been removed from our total savings requirement. I know that you would welcome that achievement because it was recognition that the Treasury had got it wrong in relation to the £187 million that it was asking us to find.

As I have discussed with you, and with the Chief Secretary, we need more clarity, because they are cuts that we will have to consider making this year and/or next on top of the challenging comprehensive spending review. As I have already said, all my Ministers have been set the task of looking at very challenging revenue and capital reductions for 2011-12.

I am pleased that we received confirmation yesterday from the Treasury of the capital and revenue split of the required savings. That gives us more information to enable us to come to a view, which I will bring to the Chamber before the end of this session, on how we are going to tackle the expectations of the emergency budget, without threatening those front-line services—which, I believe, is something on which we share a commitment—and without destabilising the fragile recovery of the economy.

berthnasol. Yn ddiweddar, deuthum o hyd i werth £100 miliwn o doriadau posibl, a chefais fy meirniadu am hynny. Nid oedd yn beth hawdd i'w wneud, ond mae angen ei wneud. Gan ateb yn onest, a fyddech yn cytuno ei bod yn bryd yn awr i chi a'ch Llywodraeth ddweud y gwir ynghylch ble bydd y toriadau hyn yn cael eu gwneud?

Jane Hutt: Nick, fel y gwyddoch, gwneuthum ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Mai, a oedd yn egluro'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth y DU am doriadau gwerth £6.2 biliwn mewn gwariant cyhoeddus. Fel y gwyddoch, yr wyf wedi llwyddo i leihau'r ffigur ar gyfer Cymru o ganlyniad i'm cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yr wythnos diwethaf, lle cadarnhaodd na fyddwn yn wynebu swm canlyniadol negyddol o £1.6 miliwn yng nghyswllt y Gemau Olympaidd. Mae'r swm hwnnw wedi'i dynnu o'r cyfanswm y gofynnir inni ei arbed. Gwn y byddech yn croesawu'r gamp honno, oherwydd yr oedd yn gydnabyddiaeth i'r Trysorlys wneud camgymeriad yng nghyswllt y £187 miliwn yr oedd yn gofyn inni ddod o hyd iddo.

Fel yr wyf wedi trafod â chi, ac â'r Prif Ysgrifennydd, mae angen mwy o eglurder arnom, oherwydd maent yn doriadau y bydd yn rhaid inni ystyried eu gwneud eleni a/neu'r flwyddyn nesaf ar ben yr adolygiad cynhwysfawr a heriol o wariant. Fel yr wyf eisoes wedi dweud, gofynnwyd i'm holl Weinidogion edrych ar ostyngiadau heriol iawn mewn refeniw a chyfalaf ar gyfer 2011-12.

Yr wyf yn falch inni gael cadarnhad ddoe gan y Trysorlys am swm y cyfalaf a swm y refeniw y bydd yn ofynnol eu harbed. Mae hynny'n rhoi mwy o wybodaeth i'n galluogi i lunio barn, y byddaf yn ei rhannu â'r Siambr cyn diwedd y sesiwn hon, am sut mae mynd i'r afael â disgwyliadau'r gyllideb frys, heb fygwth y gwasanaethau rheng flaen hynny—sy'n rhywbeth yr ydym i gyd, mi gredaf, wedi ymrwymo iddo—a heb ansefydlogi adferiad bregus yr economi.

Additional Supplementary Budget**Cyllideb Atodol Ychwanegol**

Q3 William Graham: Does the Minister have any plans for an additional supplementary budget for 2010-11? OAQ(3)1102(BB)

Jane Hutt: Our usual practice is to have two in-year supplementary budgets each year and I propose to continue with this arrangement for 2010-11. I propose to lay the first supplementary budget of 2010-11 next week and the second supplementary budget later in the financial year.

William Graham: Thank you, Minister. In your initial supplementary budget, delivered on 16 March, you included an extra £87 million to the NHS, £26.4 million for education and skills and £63 million for capital projects. In the light of fiscal cuts that will be necessary for all services in Wales, how do you attempt to explain this to the Assembly—as my colleague has already asked you—in terms of a later supplementary budget?

Jane Hutt: Those were allocations that I made to the supplementary budget for 2009-10. We debated it and everybody welcomed the fact that we were able to make those additional allocations. Therefore, to remind ourselves, there was an additional allocation to the education budget of £38 million, including £4.3 million to ReAct, £7.7 million to the Open University, £14.4 million to student finance and £11.9 million to the strategic capital investment fund. These were important adjustments that we made as a result of prudent management of the budget to ensure that we could then invest in those front-line services. The first supplementary budget will mainly include technical changes at this early stage of the financial year. Decisions about how to handle 2010-11 will emerge in the supplementary budget that I will table later in the year.

Chris Franks: Minister, there will be a reduction of £184 million in our budget due to the actions of the Conservatives and Liberal Democrats in London. This will hit

C3 William Graham: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau am gyllideb atodol ychwanegol ar gyfer 2010-11? OAQ(3)1102(BB)

Jane Hutt: Ein harfer fel rheol yw cael dwy gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn bob blwyddyn, a bwriadaf barhau â'r trefniant hwnnw ar gyfer 2010-11. Bwriadaf gyflwyno cyllideb atodol gyntaf 2010-11 yr wythnos nesaf, a'r ail gyllideb atodol yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol.

William Graham: Diolch, Weinidog. Yn eich cyllideb atodol gyntaf, a gyhoeddwyd ar 16 Mawrth, bu ichi gynnwys £87 miliwn ychwanegol i'r GIG, £26.4 miliwn ar gyfer addysg a sgiliau, a £63 miliwn ar gyfer prosiectau cyfalaf. Yng ngoleuni'r toriadau ariannol a fydd yn angenrheidiol ar gyfer pob gwasanaeth yng Nghymru, sut yr ydych yn bwriadu ceisio esbonio hynny wrth y Cynulliad—fel y mae fy nghydweithiwr eisoes wedi gofyn ichi—mewn cyllideb atodol ddiweddarach?

Jane Hutt: Yr oedd y dyraniadau hynny'n rhai a wneuthum i'r gyllideb atodol ar gyfer 2009-10. Buom yn ei thrafod, a chroesawodd pawb y ffaith ein bod yn gallu gwneud y dyraniadau ychwanegol hynny. Felly, er mwyn ein hatgoffa ein hunain, cafwyd dyraniad ychwanegol o £38 miliwn i'r gyllideb addysg, gan gynnwys £4.3 miliwn i ReAct, £7.7 miliwn i'r Brifysgol Agored, £14.4 miliwn i gyllid myfyrwyr ac £11.9 miliwn i'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Yr oedd y rhain yn addasiadau pwysig a wnaethom ar ôl rheoli'r gyllideb yn ofalus er mwyn sicrhau y gallem fuddsoddi wedyn yn y gwasanaethau rheng flaen hynny. Bydd y gyllideb atodol gyntaf yn cynnwys newidiadau technegol yn bennaf, ar yr adeg gynnwys hon yn y flwyddyn ariannol. Bydd penderfyniadau ynghylch sut i ymdrin â 2010-11 yn ymddangos yn y gyllideb atodol y byddaf yn ei chyflwyno yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Chris Franks: Weinidog, bydd gostyngiad o £184 miliwn yn ein cyllideb oherwydd camau gweithredu'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain.

the communities that I represent in many ways. In relation to its impact on our schools and colleges, the reduction will mean £39 million less to spend on education, contrary to the constant demands from the Conservatives and Lib Dems in the Senedd. Minister, do you agree that it is strange that the Liberal Democrats and the Tories do not understand that the cuts will affect sections of public life, such as education—

The Presiding Officer: Order. This is 'question' time.

Chris Franks: My question is this. Given the statement by the chief constable of North Wales Police that there will be fewer police officers, what recent talks have you had regarding the supplementary budget?

Jane Hutt: I understand that you are talking about the impact of the £185 million or £186 million cuts to the health service, education and the police. Clearly, with other Ministers, I am seeking to protect the budget for our devolved responsibilities, such as health and education. We have made clear our commitment to protecting front-line services, and schools, skills and health are at the forefront of that agenda. As I said, I will be making a statement to the Assembly in due course about our approach to the cuts imposed by the UK Government for 2010-11.

I took the opportunity to discuss this in a very constructive and productive meeting with the Chief Secretary to the Treasury last week. He recognised that we have to make responsible decisions about protecting front-line services. I am glad to acknowledge that there was a recognition in Her Majesty's Treasury's spending review framework, published last week, of the needs of regions that are dependent on public services and of the need to protect vulnerable people. There was also a recognition of the need to consult the devolved administrations. Therefore, I recognise that as an opportunity to help me and the Government to make responsible decisions to protect front-line services.

Bydd y gostyngiad hwnnw'n effeithio mewn llawer o ffyrdd ar y cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli. O ran ei effaith ar ein hysgolion a'n colegau, bydd y gostyngiad yn golygu £39 miliwn yn llai i'w wario ar addysg, yn groes i'r galwadau cyson gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Senedd yn y fan hon. Weinidog, a gytunwch ei bod yn rhyfedd nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn deall y bydd y toriadau'n effeithio ar rannau o fywyd cyhoeddus, megis addysg—

Y Llywydd: Trefn. Amser 'cwestiynau' yw hwn.

Chris Franks: Dyma fy nghwestiwn. O gofio'r datganiad gan brif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, sef y bydd llai o swyddogion heddlu, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch y gyllideb atodol?

Jane Hutt: Deallaf eich bod yn sôn am effaith y toriadau gwerth £185 miliwn neu £186 miliwn i'r gwasanaeth iechyd, addysg a'r heddlu. Wrth gwrs, gyda Gweinidogion eraill, yr wyf yn ceisio gwarchod y gyllideb ar gyfer ein cyfrifoldebau datganoledig, megis iechyd ac addysg. Yr ydym wedi egluro ein hymrwymiad i warchod gwasanaethau rheng flaen, ac mae ysgolion, sgiliau ac iechyd ar frig yr agenda honno. Fel y dywedais, byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad maes o law ynghylch ein dull o ymdrin â'r toriadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2010-11.

Achubais ar y cyfle i drafod y mater hwn mewn cyfarfod adeiladol a chynhyrchiol iawn â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yr wythnos diwethaf. Yr oedd yn cydnabod bod yn rhaid inni wneud penderfyniadau cyfrifol am warchod gwasanaethau rheng flaen. Yr wyf yn falch o ddweud bod fframwaith adolygu gwariant Trysorlys Ei Mawrhydi, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn cydnabod anghenion rhanbarthau sy'n dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus, ac yn cydnabod yr angen i warchod pobl sy'n agored i niwed. Yr oedd hefyd yn cydnabod yr angen i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig. Felly, yr wyf yn ystyried hynny'n gyfle i'm helpu i a'r Llywodraeth i wneud penderfyniadau cyfrifol i warchod

gwasanaethau rheng flaen.

The Holtham Commission

Q4 Alun Davies: Will the Minister provide an update on the work of the Holtham commission? OAQ(3)1112(BB)

Jane Hutt: The Holtham commission is due to present its final report to the Assembly Government before the summer recess. The report is expected to propose a way forward for the development of a needs-based formula and to consider the case for devolving tax and borrowing powers to Wales.

Alun Davies: Thank you for that, Minister. I am sure that we all look forward to the final report of the commission, and I trust that it will be as well founded as its previous reports. The first report by the Holtham commission has established the parameters and the context for a vigorous debate on how the Assembly Government and our public services in Wales are funded. Do you agree that it is profoundly disappointing that the new UK Government has not sought to progress the Holtham agenda at all? That is made all the worse when compared with the position in Scotland. We will be debating the Queen's Speech later this afternoon, but we know that a Scotland Bill has been proposed in it. The position of Wales is being undermined by the lack of any commitment to look again at the Barnett formula or to ensure that the recommendations of Holtham are progressed. That demonstrates the lack of strength on the front benches of the Liberals and Conservatives here.

Jane Hutt: As you can imagine, in that famous meeting that I had at the Treasury last week with the Chief Secretary to the Treasury, I took the opportunity to press for progress in furthering the work commenced by the former Secretary of State for Wales, Peter Hain, on the impact of convergence funding in relation to the Barnett formula. I asked the Chief Secretary to progress the recommendation of part 1 of the Holtham report in particular, on establishing a funding floor to prevent the need for further convergence funding.

Comisiwn Holtham

C4 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith comisiwn Holtham? OAQ(3)1112(BB)

Jane Hutt: Mae comisiwn Holtham i gyflwyno ei adroddiad terfynol i Lywodraeth y Cynulliad cyn toriad yr haf. Disgwylir i'r adroddiad gynnig ffordd ymlaen i ddatblygu fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i ariannu Llywodraethau datganoledig Prydain, ac i ystyried yr achos dros ddatganolni pwerau trethu a benthyca i Gymru.

Alun Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr ein bod ni i gyd yn edrych ymlaen at adroddiad terfynol y comisiwn, a hyderaf y bydd mor gadarn â'r adroddiadau blaenorol. Mae adroddiad cyntaf comisiwn Holtham wedi pennu'r terfynau a'r cyd-destun ar gyfer trafodaeth fywiog ynghylch sut y caiff Llywodraeth y Cynulliad a'n gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru eu cyllido. A gytunwch ei bod yn eithriadol o siomedig nad yw Llywodraeth newydd y DU wedi ceisio hyrwyddo agenda Holtham o gwbl? Mae hynny'n fwy siomedig fyth o gymharu sefyllfa Cymru â'r sefyllfa yn yr Alban. Byddwn yn trafod Araith y Frenhines yn nes ymlaen y prynhawn yma, ond gwyddom fod Mesur ar gyfer yr Alban wedi'i gynnig ynddi. Mae sefyllfa Cymru yn cael ei thanseilio gan ddiffyg ymrwymiad o unrhyw fath i ailystyried fformiwla Barnett neu sicrhau y caiff argymhellion Holtham eu symud yn eu blaen. Dengys hynny'r diffyg cryfder ar feinciau blaen y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr yn y fan hon.

Jane Hutt: Fel y gallwch ddychmygu, yn y cyfarfod enwog hwnnw a gefais yn y Trysorlys yr wythnos diwethaf gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, achubais ar y cyfle i bwysu am gynnydd o ran hyrwyddo'r gwaith a ddechreuwyd gan gyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain, ar effaith cyllid cydgyfeirio yng nghyswllt fformiwla Barnett. Gofynnais i'r Prif Ysgrifennydd symud argymhelliad rhan 1 adroddiad Holtham yn enwedig yn ei flaen, ynghylch sefydlu arian gwaelodol i atal yr angen am gyllid cydgyfeirio pellach.

I also took the opportunity to tell him that I did not feel that it was appropriate or relevant to say in the coalition agreement document that the coalition Government would not do anything about Holtham until after a referendum and after it had tackled the deficit reduction. I said that of course we would play our part in tackling the deficit reduction, but that he would know full well if he read the Holtham report—and he promised that he would do so—that implementing the recommendations of part 1 and reforming the Barnett formula would help to deal with the deficit. I am not the only one to say that; only last week, not only did Lord Barnett say that in the House of Lords, but I believe that Lord Lawson also backed him up.

Yn ogystal, achubais ar y cyfle i ddweud wrtho nad oeddwn yn teimlo'i bod yn briodol neu'n berthnasol dweud yn nogfen cytundeb y glymblaid na fyddai'r Llywodraeth glymbleidiol yn gwneud dim ynghylch Holtham tan ar ôl refferendwm ac ar ôl iddi fynd i'r afael â lleihau'r diffyg. Dywedais y byddem, wrth gwrs, yn chwarae ein rhan i fynd i'r afael â lleihau'r diffyg, ond y byddai'n gwybod yn iawn, pe bai'n darllen adroddiad Holtham—ac addawodd y byddai'n gwneud hynny—y byddai gweithredu argymhellion rhan 1 a diwygio fformiwla Barnett yn helpu i ymdrin â'r diffyg. Nid fi yw'r unig un sy'n dweud hynny; mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, dywedodd nid yn unig yr Arglwydd Barnett hynny yn Nhŷ'r Arglwyddi, ond credaf i'r Arglwydd Lawson ei gefnogi hefyd.

1.50 p.m.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I am very pleased, Minister, that you have committed to playing your part in reducing the deficit that your Government left us with. That is gratifying to hear. I am also pleased to hear that you are committed to the reform of the Barnett formula. Of course, that is the first time the Treasury has ever been committed to it in any document by any Government, and Labour had 13 years in which to deal with it. You spoke of Lord Lawson, quite correctly, and he has a view that it should be reformed. However, when the matter goes to Westminster, it would help if you could have a word with Alistair Darling, given that he said as recently as April, in Cardiff,

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Yr wyf yn falch iawn, Weinidog, eich bod wedi ymrwymo i chwarae eich rhan i leihau'r diffyg a adawyd inni gan eich Llywodraeth chi. Mae'n braf clywed hynny. Yr wyf hefyd yn falch o glywed eich bod wedi ymrwymo i ddiwygio fformiwla Barnett. Wrth gwrs, dyna'r tro cyntaf erioed i'r Trysorlys ymrwymo i hynny mewn unrhyw ddogfen gan unrhyw Lywodraeth, a chafodd y Blaid Lafur 13 blynedd i ymdrin â'r mater. Yr oeddech yn sôn am yr Arglwydd Lawson, yn gywir ddigon, ac mae ef o'r farn y dylid diwygio'r fformiwla. Fodd bynnag, pan fydd y mater yn mynd i San Steffan, byddai o gymorth pe gallech siarad ag Alistair Darling, o gofio iddo ddweud mor ddiweddar â mis Ebrill, yng Nghaerdydd,

'We intend to maintain the Barnett formula because it works'.

Yr ydym yn bwriadu cadw fformiwla Barnett fel y mae, oherwydd mae'n gweithio.

Alternatively, you could take the matter up with Liam Byrne, who, in February, said that

Fel arall, gallech godi'r mater gyda Liam Byrne, a ddywedodd ym mis Chwefror

'The Government has no plans to change the Barnett formula'.

nid oes gan y Llywodraeth ddim bwriad i newid fformiwla Barnett.

It would also help if Plaid Cymru's Members would have a word with the Scottish National Party, given that its manifesto said that it wanted a 'fair application' of the Barnett

Byddai hefyd o gymorth pe gallai Aelodau Plaid Cymru siarad â Phlaid Genedlaethol yr Alban, o gofio i fanifesto'r Blaid honno nodi ei bod am i fformiwla Barnett gael ei

formula. Will the Minister undertake to have those discussions?

Jane Hutt: I think that the leader of the opposition—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. The Minister should have an opportunity to respond.

Jane Hutt: I do not know whether the leader of the opposition has read the House of Lords Hansard transcript to see what Lord Barnett said about the need to reform the formula that bears his name, or whether he saw what Lord Lawson said, in putting a Government Minister right and agreeing that we should reduce the size of the deficit, as we have said. If he had, he would discover that Lord Lawson said that the House of Lords select committee's recommendations

'would assist that task, not fly in the face of it.'

That is a clear argument for the case that we, united in the Chamber, have to make to the new UK coalition Government. It is a coalition Government in which you opposition parties have an influence, as do I as an Assembly Government Minister.

Let us look at the forecasts from the Office for Budget Responsibility earlier this week. They are consistent with the forecasts that the former Chancellor, Alistair Darling, published and gave to the House in March. In fact, they forecast that borrowing and the deficit would be lower than was forecast at the time of the last budget. Alistair Darling was therefore quite right to say that the borrowing and the deficit would be lower than forecast at the time of his last budget.

Just to put the record straight, I have checked again what happened last October, and not only did the whole Chamber, backed by the former Minister for finance, Andrew Davies, back the Holtham commission's recommendations from part 1 of its work, but we also took them to the UK Government.

defnyddio'n deg. A wnaiff y Gweinidog addo cael y trafodaethau hynny?

Jane Hutt: Credaf fod arweinydd yr wrthblaid—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Dylai'r Gweinidog gael cyfle i ymateb.

Jane Hutt: Ni wn a yw arweinydd yr wrthblaid wedi darllen trawsgrifiad Hansard Tŷ'r Arglwyddi i weld beth a ddywedodd yr Arglwydd Barnett am yr angen i ddiwygio'r fformiwla sy'n dwyn ei enw, ac ni wn a welodd yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd Lawson, wrth gywiro Gweinidog yn y Llywodraeth a chytuno y dylem leihau maint y diffyg, fel yr ydym wedi dweud. Pe bai wedi gwneud hynny, fe welai i'r Arglwydd Lawson ddweud y byddai argymhellion pwyllgor dethol Tŷ'r Arglwyddi

yn cynorthwyo'r dasg honno, yn hytrach na mynd yn groes iddi.

Mae hynny'n ddadl glir dros yr achos y mae'n rhaid i ni, yn unedig yn y Siambr, ei gyflwyno gerbron Llywodraeth glymbleidiol newydd y DU. Mae'n Llywodraeth glymbleidiol lle mae gennych chi, y gwrthbleidiau yn y fan hon, ddylanwad, fel y mae gennyf i fel Gweinidog yn Llywodraeth y Cynulliad.

Gadewch inni edrych ar y rhagolygon o'r Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn gynharach yr wythnos hon. Maent yn gyson â'r rhagolygon a gyhoeddwyd ac a roddwyd gan y cyn-Ganghellor, Alistair Darling, i Dŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth. Mewn gwirionedd, yr oeddent yn rhagweld y byddai lefelau benthyca a'r diffyg yn is nag a ragwelwyd adeg y gyllideb ddiwethaf. Felly, yr oedd Alistair Darling yn llygad ei le wrth ddweud y byddai lefelau benthyca a'r diffyg yn is nag a ragwelwyd adeg ei gyllideb ddiwethaf.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r ffeithiau, yr wyf wedi ailwirio beth a ddigwyddodd fis Hydref diwethaf. Yn ogystal â chael cefnogaeth y Siambr gyfan, gyda sêl bendith y cyn-Weinidog dros gyllid, Andrew Davies, i argymhellion comisiwn Holtham o ran 1 ei waith, aethom â'r

The Secretary of State for Wales, Peter Hain, agreed in November that work would commence—and it has, as it took place after I met Liam Byrne—on preparing the way to address this issue of convergence so that it could inform the comprehensive spending review.

This is the most important message that I have for our opposition colleagues here: get the message over to your colleagues at Westminster. If they looked at part 1 of the Holtham commission's report and at the impact of convergence, which we recognise costs us £300 million as a shortfall in our funding, and if they implemented a floor, at least then Welsh Assembly Government policies would be backed by the whole Assembly to get a fairer funding deal for Wales.

Gareth Jones: Deallaf y bydd rhan 2 Holtham yn adrodd y mis nesaf ar bwerau trethu a benthyca i Gymru. Yr ydych eisoes wedi cyfeirio at ran 2. Heb geisio achub y blaen ar yr adroddiad, a yw Llywodraeth Cymru'n rhagweld y byddai mwy o bwerau trethu a benthyca yma yn helpu gwella ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth a gwerth ychwanegol crynswth yn y dyfodol? Pe bai'r pwerau hyn ar gael yma eisoes, a fyddent wedi galluogi Cymru i wrthsefyll y dirwasgiad yn well a dod allan ohono'n gryfach?

Jane Hutt: We await the second part of the report. In fact, it will be a final report, bringing together the first and second parts of the commission's work. We will need to study its conclusions carefully, and we will be debating it fully in the autumn as we did the timeline for the first part of the Holtham commission's work. I am sure that there will be agreement across the Assembly that we should focus on the impact of implementing the first part of this report, as well as carefully consider the second part of it. If that were to be progressed by the new UK coalition Government, it would help to address the deficit, given that shortfall of £300 million, and we could have a floor that would inform the allocations for the baselines of the comprehensive spending review. I hope that all Assembly Members will unite

argymhellion at Lywodraeth y DU hefyd. Ym mis Tachwedd, cytunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain, y byddai gwaith yn dechrau—ac mae wedi dechrau, oherwydd digwyddodd ar ôl imi gwrrd â Liam Byrne—ar baratoi'r ffordd i roi sylw i'r mater hwn sy'n ymwneud â chydgyfeirio, fel y gallai llywio'r adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Dyma'r neges bwysicaf sydd gennyf ar gyfer ein cydweithwyr yn yr wrthblaid yn y fan hon: trosglwyddwch y neges i'ch cydweithwyr yn San Steffan. Pe baent yn edrych ar ran 1 adroddiad comisiwn Holtham ac effaith cydgyfeirio, yr ydym yn cydnabod ei bod yn costio £300 miliwn inni ar ffurf diffyg yn ein cyllid, a phe baent yn gweithredu arian gwaelodol, yna byddai polisïau Llywodraeth y Cynulliad o leiaf yn cael cefnogaeth y Cynulliad llawn i sicrhau cytundeb tecach i Gymru o ran cyllid.

Gareth Jones: I understand that part 2 of Holtham will report next month on taxation and borrowing powers for Wales. You have already referred to part 2. Without wishing to pre-empt the report, does the Welsh Government anticipate that having more powers over taxation and borrowing here would help to improve the gross domestic product and gross value added figures in the future? If those powers were already in place, would they have enabled Wales to withstand the recession better and to come out of it stronger?

Jane Hutt: Yr ydym yn disgwyl am ail ran yr adroddiad. Mewn gwirionedd, bydd yn adroddiad terfynol, a fydd yn cyfuno rhan gyntaf ac ail ran gwaith y comisiwn. Bydd angen inni astudio ei gasgliadau'n ofalus, a byddwn yn ei drafod yn llawn yn yr hydref fel y bu inni drafod yr amserlen ar gyfer rhan gyntaf gwaith comisiwn Holtham. Yr wyf yn siŵr y bydd pawb ar draws y Cynulliad yn cytuno y dylem ganolbwyntio ar effaith gweithredu rhan gyntaf yr adroddiad hwn, yn ogystal ag ystyried ei ail ran yn ofalus. Pe bai Llywodraeth glymbleidiol newydd y DU yn symud y mater yn ei flaen, byddai o gymorth i fynd i'r afael â'r diffyg yng nghyllideb y DU, o gofio'r diffyg hwnnw o £300 miliwn yn ein cyllid ni, a gallem gael arian gwaelodol a fyddai'n llywio'r dyraniadau ar gyfer llinellau sylfaen yr adolygiad

behind that.

cynhwysfawr o wariant. Gobeithiaf y bydd pob un o Aelodau'r Cynulliad yn ymuno i gefnogi hynny.

Reducing Inefficiencies

Q5 David Melding: What procedures are used to reduce inefficiencies in Welsh Assembly Government budgets? OAQ(3)1084(BB)

Jane Hutt: The Assembly Government has always maintained a focus on the delivery of efficient services. The current financial climate underlines the importance of continued action across Welsh public services to drive efficiencies and improve effectiveness to deliver the greatest benefit from the available budget.

David Melding: Minister, during a time of retrenchment in the public finances, it is important that we identify programmes that are no longer effective and have become redundant, as some do over the course of time, and seek to cut waste, where it exists, rather than go for a piecemeal, across-the-board approach. When the Welsh Assembly Government makes the difficult choices ahead, I urge it to try to maintain those programmes that keep private sector demand as high as possible, because our current problems are principally caused by a lack of demand in the private sector, which is particularly acute in Wales. When you operate along those prudent lines and make these difficult choices, you can expect support from these benches.

Jane Hutt: I agree with the approach that you propose today, which accords with our efficiency and innovation programme. I will make a statement to the Chamber in a couple of weeks' time to highlight the progress that we are making in this regard. This reflects the intentions of the paper published in December, 'Better Outcomes for Tougher Times', and it is also having an impact on support for small businesses. The Assembly Government's 'Barriers to Procurement Opportunity Research' action plan for small and medium-sized businesses, which was

Lleihau Aneffeithlonrwydd

C5 David Melding: Pa weithdrefnau a ddefnyddir i leihau aneffeithlonrwydd yng nghyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1084(BB)

Jane Hutt: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi canolbwyntio bob amser ar gyflenwi gwasanaethau effeithlon. Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni'n amlygu pwysigrwydd parhau i weithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i hybu effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r gyllideb sydd ar gael.

David Melding: Weinidog, yn ystod cyfnod o gwtogi ar arian cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn adnabod rhaglenni nad ydynt yn effeithiol mwyach, ac sydd bellach wedi mynd yn ddiangen, fel y bydd rhai gyda threigl amser, ac mae'n bwysig ein bod yn ceisio torri ar wastraff, lle mae'n bodoli, yn hytrach na thorri fesul tipyn yn gyffredinol. Pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud y dewisiadau anodd sydd o'i blaen, yr wyf yn ei hannog i geisio cynnal y rhaglenni hynny sy'n sicrhau bod y galw yn y sector preifat mor uchel ag sy'n bosibl, oherwydd caiff ein problemau ar hyn o bryd eu hachosi'n bennaf gan ddiffyg galw yn y sector preifat, sy'n arbennig o ddifrifol yng Nghymru. Os byddwch yn gweithredu'n ofalus yn y modd hwnnw, ac yn gwneud y dewisiadau anodd hynny, gallwch ddisgwyl cael cefnogaeth gan y meinciau hyn.

Jane Hutt: Cytunaf â'r dull gweithredu yr ydych yn ei gynnig heddiw, sy'n cyd-fynd â'n rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi. Byddaf yn gwneud datganiad i'r Siambr cyn pen rhai wythnosau i dynnu sylw at y cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran hynny. Mae'n adlewyrchu bwriadau'r papur a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach', ac mae hefyd yn effeithio ar gymorth i fusnesau bach. Mae cynllun gweithredu 'Ymchwil i Rwystrau - Cyfleoedd Caffael' Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer busnesau bach a

published last year, is already delivering positive outcomes.

Let us look at those outcomes. More than 50 per cent of public sector business has been won by Wales-based companies, which is an increase of 35 per cent on 2004, including 56 per cent of local government business, because it is pan-public sector. More than 46,000 suppliers, more than half of which are based in Wales, are registered on our national procurement web portal, where some £11 billion-worth of opportunities are advertised. We are working with the Confederation of British Industry and business on procurement, and we are winning awards on that, through Value Wales. We are taking a parallel or twin-tracked approach to developing these efficiencies and opportunities.

David Lloyd: Fel Gweinidog, sut yr ydych yn dylanwadu ar y broses o gyllido Cymru o hyn ymlaen wedi cyhoeddi rhan gyntaf comisiwn Holtham, gan gofio nad yw Holtham yn flaenoriaeth i'r Ceidwadwyr na'r Rhyddfrydwyr yn San Steffan?

Jane Hutt: I hope that it will become a priority through these questions this afternoon and the debates that we will have later. It is important that it becomes a priority for the new UK Government. I know that it has been a subject of discussion between the First Minister, the Deputy First Minister and the Secretary of State for Wales, and I believe that my meeting with the Chief Secretary to the Treasury has opened a door. He has agreed to meet Gerry Holtham, and we are going to have a bilateral meeting in the next few weeks to progress this, after the publication of the second part of Gerry Holtham's report. There will also be a quadrilateral meeting with my colleagues from the devolved administrations. It should be at the forefront of the Assembly's call for action from the new UK coalition Government.

2.00 p.m.

The Leader of the Welsh Liberal Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol

chanolig eu maint, a gyhoeddwyd y llynedd, eisoes yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol.

Gadewch inni edrych ar y canlyniadau hynny. Mae dros 50 y cant o fusnes y sector cyhoeddus wedi'i ennill gan gwmnïau sydd yng Nghymru, sy'n gynydd o 35 y cant o'i gymharu â 2004, gan gynnwys 56 y cant o fusnes llywodraeth leol, oherwydd mae'n fusnes ar draws y sector cyhoeddus i gyd. Mae dros 46,000 o gyflenwyr, y mae dros eu hanner yng Nghymru, wedi cofrestru ar ein porth caffael cenedlaethol ar y we, lle caiff gwerth oddeutu £11 biliwn o gyfleoedd eu hysbysebu. Yr ydym yn gweithio gyda Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain a busnesau ar gaffael, ac yr ydym yn cael ein gwobrwyo am hynny, drwy Werth Cymru. Yr ydym yn gweithredu ar hyd dau lwybr neu mewn dwy ffordd gyfochrog i ddatblygu'r cyfleoedd a'r effeithlonrwydd dan sylw.

David Lloyd: As a Minister, how are you influencing the process of funding Wales from now on following the publication of the first part of the Holtham commission, bearing in mind that Holtham is not a priority for the Conservatives or Liberal at Westminster?

Jane Hutt: Gobeithiaf y bydd yn dod yn flaenoriaeth drwy'r cwestiynau hyn y prynhawn yma a'r dadleuon y byddwn yn eu cael yn nes ymlaen. Mae'n bwysig bod y mater yn dod yn flaenoriaeth i Lywodraeth newydd y DU. Gwn iddo fod yn destun trafodaeth rhwng Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a chredaf fod fy nghyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi agor drws. Mae wedi cytuno i gyfarfod â Gerry Holtham, ac yr ydym yn bwriadu cael cyfarfod dwyochrog yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf i symud y mater yn ei flaen, ar ôl i ail ran adroddiad Gerry Holtham gael ei chyhoeddi. Yn ogystal, bydd cyfarfod pedairochrog yn cael ei gynnal â'm cydweithwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig. Dylai'r mater fod ar frig y camau gweithredu y mae'r Cynulliad yn galw amdanynt gan Lywodraeth glymbleidiol newydd y DU.

Democrats (Kirsty Williams): Minister, you have made great play of the efficiency drives in which your Government has already been involved and also of your desire to act responsibly and to do your bit to reduce the deficit. Do you think that it is responsible of the Welsh Assembly Government to have brought in-house the three largest quangos that existed in Wales and then not to monitor any savings accrued as a result?

Jane Hutt: Not only are we monitoring the savings as a result of those mergers, but we were at the forefront of delivering, through those mergers, the reduction or abolition of quangos, before the new UK coalition Government took on board that policy action. Not only have we reduced the number of back-office functions and separate institutional arrangements to make those savings, but we immediately delivered one-stop front-line services, not only to our citizens but to our businesses. We are delivering innovation as well as efficiency.

Kirsty Williams: If it is the case that you have been monitoring carefully the savings accrued from those mergers, why were you not able to give me, in a written answer, a figure for those savings? In fact, in your written answer to me, you stated that your Government had not monitored the savings accrued from the mergers of the Welsh Development Agency, the Welsh Tourist Board and Education and Learning Wales, that, instead, you had been looking at other factors and, therefore, you were unable to give a figure. Surely that flies in the face of what you have just said, namely that you have been carefully monitoring the effectiveness and savings accrued from the mergers. Is it therefore responsible, if you failed to do that, also to fail to keep track of any budget that the Assembly Government spends that has an underspend of 10 per cent in any one year? When we asked you that question, you said that you were unable to supply an answer because, again, those figures were not available. Are those the actions of a Government that is truly committed to the effective spend of Welsh taxpayers' money?

Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, yr ydych wedi gwneud yn fawr o'r ymgyrchoedd effeithlonrwydd y mae eich Llywodraeth eisoes wedi bod yn rhan ohonynt, a'ch awydd hefyd i weithredu'n gyfrifol a chwarae eich rhan i leihau'r diffyg. A gredwch i Lywodraeth y Cynulliad weithredu'n gyfrifol wrth gynnwys y tri chwango mwyaf a fodolai yng Nghymru yn y Llywodraeth, ac yna peidio â monitro unrhyw arbedion a gronnwyd o ganlyniad i hynny?

Jane Hutt: Yr ydym yn monitro'r arbedion o ganlyniad i'r achosion o uno, ond at hynny, yr oeddem yn flaenllaw wrth sicrhau, drwy'r achosion o uno, bod cwangos yn cael eu lleihau neu'u dileu, cyn i Lywodraeth glymbleidiol newydd y DU gymryd y cam hwnnw o ran polisi. Yn ogystal â lleihau nifer y swyddogaethau cefn swyddfa a'r gwahanol drefniadau sefydliadol er mwyn gwneud yr arbedion hynny, aethom ati'n syth i ddarparu gwasanaethau rheng flaen un stop, nid yn unig ar gyfer ein dinasyddion ond ar gyfer ein busnesau hefyd. Yr ydym yn arloesi'n ogystal â sicrhau effeithlonrwydd.

Kirsty Williams: Os yw'n wir ichi fonitro'n ofalus yr arbedion a gronnwyd o'r achosion hynny o uno, pam na allech roi ffigur imi ar gyfer yr arbedion hynny, mewn ateb ysgrifenedig? Mewn gwirionedd, yn eich ateb ysgrifenedig i mi, bu ichi ddatgan nad oedd eich Llywodraeth wedi monitro'r arbedion a gronnwyd o uno Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, a Dysgu ac Addysgu Cymru, eich bod yn hytrach wedi bod yn edrych ar ffactorau eraill, ac nad oeddech, felly, yn gallu rhoi ffigur. Rhaid bod hynny'n mynd yn groes i'r hyn yr ydych newydd ei ddweud, sef ichi fonitro'n ofalus yr effeithiolrwydd a'r arbedion a gronnwyd o'r achosion o uno. Felly, os bu ichi fethu â gwneud hynny, ai gweithredu'n gyfrifol yw methu hefyd â chadw golwg ar unrhyw gyllideb a gaiff ei gwario gan Lywodraeth y Cynulliad, lle ceir tanwariant o 10 y cant mewn blwyddyn? Pan ofynnwyd y cwestiwn hwnnw gennym, bu ichi ddweud nad oedd modd ichi roi ateb oherwydd, unwaith eto, nad oedd y ffigurau hynny ar gael. A yw'r rheini'n weithredoedd Llywodraeth sydd wedi ymrwymo'n wirioneddol i wario arian trethdalwyr Cymru yn effeithiol?

Jane Hutt: By managing efficiencies, the Assembly Government has been at the forefront in terms of achieving efficient services that deliver for the people of Wales. Part of that has involved streamlining not only the delivery of our front-line services to business, but to education and to building the skills base. Those have been the outcomes of the mergers that have taken place, which also have released savings; I know that you have scrutinised and questioned the Permanent Secretary about that at Finance Committee. It is now important that the Assembly unites behind me as its Finance Minister, not only to ensure that, when we get the second report from Gerry Holtham in a few weeks, you back me in my call, with that of the First Minister and the Deputy First Minister, for a fairer funding formula for Wales, but to ensure that we get the underfunding of £300 million redressed with a recognition that the front-line services that we are trying to protect are at the forefront of achieving our efficiency and innovation programme and ensuring that we are playing our part in delivering the reduction of the deficit.

Budgetary Challenges

Q6 Darren Millar: What action has the Welsh Assembly Government taken to meet budgetary challenges in the next financial year? OAQ(3)1082(BB)

Jane Hutt: The Assembly Government has been planning to meet the challenging economic climate that we face for some time. I am undertaking preparatory work with Cabinet colleagues to prepare the 2011-12 budget and beyond, while awaiting the UK Government's emergency budget, and, crucially, the autumn comprehensive spending review.

Darren Millar: Thank you for that answer, Minister. You will be aware that the Welsh Local Government Association has estimated that some £70 million per year is wasted in bureaucracy on grants that the Assembly Government insists on ring fencing. What work have you done to ensure that these will be reduced in the future so that that money can be released to front-line public services

Jane Hutt: Wrth reoli arbedion effeithlonrwydd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn flaenllaw o ran sicrhau gwasanaethau effeithlon sy'n cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae proses symleiddio wedi bod yn rhan o hynny, nid yn unig wrth ddarparu ein gwasanaethau rheng flaen i fyd busnes, ond wrth eu darparu i addysg ac wrth adeiladu sylfaen sgiliau. Dyna fu canlyniadau'r achosion o uno sydd wedi digwydd, sydd hefyd wedi arwain at arbedion; gwn ichi graffu ar hynny a holi'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch hynny yn y Pwyllgor Cyllid. Mae'n awr yn bwysig bod y Cynulliad yn uno i'm cefnogi i fel ei Weinidog dros Gyllid, nid yn unig i sicrhau eich bod yn fy nghefnogi, pan gawn yr ail adroddiad gan Gerry Holtham cyn pen rhai wythnosau, wrth imi alw gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog am fformiwla ariannu sy'n decach i Gymru, ond i sicrhau hefyd bod y tanariannu gwerth £300 miliwn yn cael ei unioni gan gydnabod bod y gwasanaethau rheng flaen yr ydym yn ceisio eu gwarchod yn flaenllaw o ran cyflawni ein rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi a sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i leihau'r diffyg.

Sialensiau Cyllidebol

C6 Darren Millar: Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i ddiwallu'r sialensiau cyllidebol yn y flwyddyn ariannol nesaf? OAQ(3)1082(BB)

Jane Hutt: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn cynllunio ers cryn amser i ymdopi â'r hinsawdd economaidd heriol a wynebwn. Gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet, yr wyf yn paratoi i lunio'r gyllideb ar gyfer 2011-12 a thu hwnt, wrth aros am gyllideb frys Llywodraeth y DU, ac, yn bwysig iawn, yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a gynhelir yn yr hydref.

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif y caiff oddeutu £70 miliwn y flwyddyn ei wastraffu mewn biwrocratiaeth ar grantiau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynnu eu neilltuo. Pa waith yr ydych wedi'i wneud i sicrhau y bydd y rhain yn cael eu lleihau yn y dyfodol er mwyn i'r arian

run by local authorities across Wales?

Jane Hutt: Not only has work been done—some of it was scrutinised and instigated by the reviews of the Enterprise and Learning Committee and the Finance Committee—to look at the arrangements with ring-fenced grants, for example, in education, but there is also the review of the contribution of education to the consideration of how we can ensure that our funding gets to the front line, and that we protect our funding for the front line. This is part of the work of my efficiency and innovation programme, led to a large extent by local government with the health service, which helps us to give those freedoms to local authorities. However, in doing that, we have to be quite clear about the outcomes that we expect from local authorities, even if we do not ring-fence grants. In delivering those outcomes they have to collaborate across local authority boundaries.

Brian Gibbons: As you said earlier, a double-dip recession grows ever more likely given the fiscal policy that is being pursued at Westminster. In view of that, will you renew your efforts to work with your Cabinet colleagues to ensure that sources of revenue outside the Welsh consolidated block, such as European convergence programmes, are used even more effectively to mitigate the risks and reduce the consequences of a double-dip recession, should one occur?

Jane Hutt: We have been concerned that early cuts in spending could damage our fragile economic recovery. It is not just politicians who are saying this: Professor David Blanchflower, who is not only an economics professor, but a former member of the Bank of England's monetary policy committee, was saying just in this last week that public stimulus is driving most activity in the economy, with the private sector neither hiring nor investing, and the banks not lending. Cutting now will certainly push us into a double-dip recession and hugely increases the prospect that we will enter a

hwnnw allu cael ei ryddhau i wasanaethau cyhoeddus rheng flaen a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol ledled Cymru?

Jane Hutt: Mae gwaith wedi'i wneud—craffwyd ar rywfaint ohono, a chafodd rhywfaint ohono ei ysgogi, gan adolygiadau'r Pwyllgor Menter a Dysgu a'r Pwyllgor Cyllid—i ystyried y trefniadau sy'n ymwneud â grantiau wedi'u neilltuo, er enghraifft, mewn addysg, ond at hynny, ceir yr adolygiad o gyfraniad addysg wrth ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd y rheng flaen, a'n bod yn gwarchod ein cyllid ar gyfer y rheng flaen. Mae hynny'n rhan o waith fy rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi, a arweinir i raddau helaeth gan lywodraeth leol gyda'r gwasanaeth iechyd, sy'n ein helpu i roi'r rhyddid hwnnw i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rhaid inni egluro'n bendant y canlyniadau a ddisgwyliwn gan awdurdodau lleol, hyd yn oed os na fyddwn yn neilltuo grantiau. Wrth gyflawni'r canlyniadau hynny, rhaid iddynt gydweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Brian Gibbons: Fel y dywedasoch yn gynharach, mae'n fwyfwy tebygol y gwelwn ail ddirwasgiad, o gofio'r polisi ariannol a weithredir yn San Steffan. Yng ngoleuni hynny, a wnewch chi ymdrechu o'r newydd i weithio gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau y caiff ffynonellau refeniw y tu allan i floc cyfunol Cymru, megis rhaglenni cydgyfeirio Ewropeaidd, eu defnyddio'n fwy effeithiol fyth i leihau'r risgiau a lleihau canlyniadau ail ddirwasgiad, pe bai un yn digwydd?

Jane Hutt: Yr ydym wedi bod yn pryderu y gallai toriadau buan mewn gwariant niweidio ein hadferiad economaidd bregus. Nid gwleidyddion yn unig sy'n dweud hynny: yr oedd yr Athro David Blanchflower, sydd nid yn unig yn athro economeg ond sydd hefyd yn gyn-aelod o bwyllgor polisi ariannol Banc Lloegr, yn dweud yn ystod yr wythnos sydd newydd fynd heibio mai ysgogiad cyhoeddus sy'n gyrru'r gweithgarwch mwyaf yn yr economi, gan nad yw'r sector preifat yn cyflogi nac yn buddsoddi, a chan nad yw'r banciau'n benthycu. Bydd torri'n awr yn bendant yn ein gwthio i ail ddirwasgiad, a

second Great Depression. Those are fearsome words, and we are hearing them not just from Professor Blanchflower, but many other economists and commentators with expertise in the field. We have to ensure that we make the right decisions at the right time to protect jobs and services. It is key that we recognise the contribution of the European funds that are available to us. I know that Jeff Cuthbert, as chair of the programme monitoring committee for European structural funds, will be pleased that nearly £1.2 billion, or 62 per cent of the EU funds available to us, are already committed under the 2007-13 programme. That will amount to a total investment of £2.4 billion across Wales, helping to provide over 33,500 opportunities for business and over 480,000 work and training opportunities for individuals. This Government intervened when we were in recession, and continues to intervene, maximising the use of European funds. Indeed, that is the approach that we are taking not only in addressing the recession, but also in reducing the deficit.

Jenny Randerson: The Wales Audit Office recently produced a report that identified that Wales has a £2 billion backlog for the maintenance of its public buildings: £0.5 billion in the NHS, £0.2 billion in other sectors, and £1.3 billion in local government. We spend £500 million a year on the maintenance of buildings and land. Minister, you have led us into this difficult time with this appalling and shameful backlog of work on public buildings. It is clearly a vulnerable sector in difficult times. What are you doing to follow the audit office guidance that you should be consulting with public bodies and providing further guidance, support and incentives to them to ensure that not only do we maintain the status quo, at the very least, but that we avoid the situation getting even worse?

2.10 p.m.

bydd yn cynyddu'n aruthrol y posibilrwydd y gallem fynd i mewn i ail Ddirwasgiad Mawr. Mae'r geiriau hynny'n codi arswyd, ac fe'u clywn nid yn unig gan yr Athro Blanchflower, ond gan lawer o economegwyr a sylwebyddion eraill sydd ag arbenigedd yn y maes. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir ar yr adeg gywir i warchod swyddi a gwasanaethau. Mae'n allweddol ein bod yn cydnabod cyfraniad y cronfeydd Ewropeaidd sydd ar gael inni. Gwn y bydd Jeff Cuthbert, fel cadeirydd y pwyllgor monitro rhaglenni ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, yn falch bod bron i £1.2 biliwn, neu 62 y cant o'r cronfeydd sydd ar gael inni gan yr Undeb Ewropeaidd, wedi'u clustnodi eisoes dan y rhaglen ar gyfer 2007-13. Bydd hynny'n gyfanswm o £2.4 biliwn o fuddsoddiad ar draws Cymru, a fydd yn helpu i ddarparu dros 33,500 o gyfleoedd ar gyfer busnes a thros 480,000 o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant ar gyfer unigolion. Ymyrodd y Llywodraeth hon pan oeddem mewn dirwasgiad, ac mae'n parhau i ymyrryd, gan sicrhau bod cronfeydd Ewropeaidd yn cael eu defnyddio gymaint ag sy'n bosibl. Yn wir, dyna'r agwedd a gymerwn nid yn unig at fynd i'r afael â'r dirwasgiad ond at leihau'r diffyg hefyd.

Jenny Randerson: Yn ddiweddar, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad a nodai fod gan Gymru werth £2 biliwn o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yng nghyswllt ei hadeiladau cyhoeddus: £0.5 biliwn yn y GIG, £0.2 biliwn mewn sectorau eraill, ac £1.3 biliwn mewn llywodraeth leol. Yr ydym yn gwario £500 miliwn y flwyddyn ar gynnal a chadw adeiladau a thir. Weinidog, yr ydych wedi ein harwain i mewn i'r cyfnod anodd hwn gydag ôl-groniad gwarthus a chywilyddus o waith ar adeiladau cyhoeddus. Mae'n amlwg ei fod yn sector sy'n agored i niwed mewn cyfnod anodd. Beth yr ydych yn ei wneud i ddilyn arweiniad y swyddfa archwilio, sef y dylech fod yn ymgynghori â chyrrff cyhoeddus ac yn darparu canllawiau, cymorth a chymhellion pellach iddynt i sicrhau nid yn unig ein bod o leiaf yn cynnal y sefyllfa bresennol, ond ein bod hefyd yn atal y sefyllfa rhag mynd yn waeth fyth?

Jane Hutt: I am glad that you recognise the challenge that we face, Jenny—a challenge that will get a great deal more difficult as a result of the UK coalition Government's expectations for the cuts agenda. That includes a considerable capital cut as well as a revenue cut. We must be quite clear where the responsibility for those cuts lie, which is with the new UK coalition Government. We are playing our part responsibly in preparing for the comprehensive spending review and in ensuring that the cuts do not hit the construction sector. It was this One Wales Government that brought forward the capital that made that decision possible. In the economic summits, which were brought into being by our former First Minister and are chaired by our current First Minister, the strategic capital investment fund was brought forward to build and refurbish schools and hospitals. That is now bearing fruit with regard to bricks and mortar and also with regard to jobs in the construction industry.

It is now for your UK coalition Government to take responsibility for the downturn and the impact, as Professor David Blanchflower and other economists say, that these cuts will have on capital as well as revenue, and, more importantly, on our public buildings for the public good.

Janet Ryder: I return to your answer to Darren Millar about ring-fenced grants. Do you agree that that ring-fencing was originally introduced to protect the services that, unfortunately, local government tended not to provide or cut first? For instance, the Government ring-fenced money for the front-line delivery of autism services for people on the spectrum. Minister, how will you ensure, given that local government must face cuts in budgets, that those services provided through ring-fenced money, such as the vital services for people on the autism spectrum, are not affected?

Jane Hutt: We are driving national policies, such as the autism strategy, on this issue. We

Jane Hutt: Yr wyf yn falch eich bod yn cydnabod yr her a wynebwn, Jenny—her a fydd yn mynd yn anos o lawer o ganlyniad i ddisgwyliadau Llywodraeth glymbleidiol y DU ar gyfer yr agenda doriadau. Mae'r agenda honno'n cynnwys toriad sylweddol mewn cyfalaf yn ogystal â thoriad mewn refeniw. Rhaid inni ddeall yn glir pwy sy'n gyfrifol am y toriadau hynny, sef Llywodraeth glymbleidiol newydd y DU. Yr ydym yn chwarae ein rhan yn gyfrifol wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ac wrth sicrhau nad yw'r toriadau'n effeithio ar y sector adeiladu. Y Llywodraeth Cymru'n Un hon a gyflwynodd y cyfalaf a olygai fod y penderfyniad hwnnw'n bosibl. Yn yr uwchgynadleddau economaidd, a sefydlwyd gan ein cyn-Brif Weinidog ac a gadeirir gan ein Prif Weinidog presennol, cyflwynwyd y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol i adeiladu ac adnewyddu ysgolion ac ysbytai. Bellach, mae'r penderfyniad hwnnw'n dwyn ffrwyth, o ran brics a mortar ac o ran swyddi yn y diwydiant adeiladu.

Tro eich Llywodraeth glymbleidiol chi yn y DU yw hi'n awr i gymryd cyfrifoldeb am y dirywiad, a'r effaith, fel y dywed yr Athro David Blanchflower ac economegwyr eraill, y bydd y toriadau hyn yn ei chael ar gyfalaf yn ogystal â refeniw, ac yn bwysicach na hynny, ar ein hadeiladau cyhoeddus er lles y cyhoedd.

Janet Ryder: Hoffwn ddychwelyd at eich ateb i gwestiwn Darren Millar am grantiau wedi'u neilltuo. A gytunwch i'r neilltuo hwnnw gael ei gyflwyno'n wreiddiol er mwyn gwarchod y gwasanaethau yr oedd llywodraeth leol, yn anffodus, yn tueddu i beidio â'u darparu neu'n tueddu i'w torri gyntaf? Er enghraifft, neilltuodd y Llywodraeth arian ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen ym maes awtistiaeth ar gyfer pobl ar y sbectrwm awtistiaeth. Weinidog, sut y byddwch yn sicrhau, o gofio bod yn rhaid i lywodraeth leol wynebu toriadau mewn cyllidebau, nad effeithir ar y gwasanaethau hynny a ddarperir drwy arian sydd wedi'i neilltuo, megis gwasanaethau hanfodol i bobl ar y sbectrwm awtistiaeth?

Jane Hutt: Yr ydym yn hybu polisiau cenedlaethol, megis y strategaeth awtistiaeth,

work in partnership with our partners in local government and in the health service to deliver those strategies. The efficiency and innovation board that I chair is pan-public-sector, with local government and the health service. My colleague Carl Sargeant, similarly, works through the expenditure review of forthcoming pressures on local government to ensure that we can deliver the best outcomes for our people in this challenging time. That is why we must ensure that there is agreement and support for maintaining and progressing national strategies, such as the autism strategy. That must be in partnership with local government. However, it will be challenging because of the cuts that we are expected to make as a result of the UK Government's emergency budget.

Social Justice and Local Government

Q7 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on the overall allocation of funding to the social justice and local government portfolio? OAQ(3)1090(BB)

Jane Hutt: The allocation of funding to the social justice and local government portfolio is decided alongside other departments within our annual planning process. The current year's allocation was set out in the final budget of December 2009 and amounts to over £4.5 billion.

Leanne Wood: Do you agree that, in the current financial climate, there are likely to be more demands on social justice funding? As you know, Minister, I am a keen supporter of the food bank network in Wales. That network has become a vital last resort for people who, for whatever reason, are in short-term crisis and cannot afford to feed themselves. There are now 10 food banks open in Wales and there are plans to expand to open another 10, if funding can be tapped. The network relies on the generosity of the public to donate food and volunteers to run the scheme, so its overheads are small. An expansion of the network will see an extra

ar y mater hwn. Yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n partneriaid mewn llywodraeth leol ac yn y gwasanaeth iechyd i weithredu'r strategaethau hynny. Mae'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi a gadeiriaf yn ymwneud â'r sector cyhoeddus i gyd, gan gynnwys llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Yn yr un modd, mae fy nghydweithiwr, Carl Sargeant, yn gweithio drwy'r adolygiad gwariant o bwysau arfaethedig ar lywodraeth leol i sicrhau y gallwn gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ein pobl yn ystod y cyfnod heriol hwn. Dyna pam mae'n rhaid inni sicrhau cytundeb a chefnogaeth ar gyfer cynnal a hyrwyddo strategaethau cenedlaethol, megis y strategaeth awtistiaeth. Rhaid i hynny ddigwydd mewn partneriaeth â llywodraeth leol. Fodd bynnag, bydd yn heriol oherwydd y toriadau y disgwylir inni eu gwneud o ganlyniad i gyllideb frys Llywodraeth y DU.

Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

C7 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid cyffredinol a ddyrennir i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol? OAQ(3)1090(BB)

Jane Hutt: Mae'r penderfyniad ar yr arian sydd i gael ei ddyrannu i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol yn cael ei wneud ar yr un pryd ag adrannau eraill, o fewn ein proses gynllunio flynyddol. Cafodd dyraniad eleni ei bennu yng nghyllideb derfynol fis Rhagfyr 2009, a golyga gyfanswm o dros £4.5 biliwn.

Leanne Wood: A gytunwch, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, ei bod yn debygol y bydd mwy o alwadau ar gyllid cyfiawnder cymdeithasol? Fel y gwyddoch, Weinidog, yr wyf yn un o gefnogwyr brwd y rhwydwaith banciau bwyd yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith hwnnw wedi dod yn gymorth hanfodol yn niffyg dim arall ar gyfer pobl sydd, am ba reswm bynnag, mewn argyfwng byrdymor ac sy'n methu â fforddio prynu bwyd. Mae 10 o fanciau bwyd ar agor yng Nghymru erbyn hyn, a bwriedir ehangu i agor 10 banc arall os gellir cael gafael ar gyllid. Mae'r rhwydwaith yn dibynnu ar haelioni'r cyhoedd i roi bwyd a

52,900 people fed on an emergency basis in Wales for just over £170,000, which is a small amount of many in the scheme of things. However, they have so far got nowhere in attempting to raise that money. Given that the food bank network is likely to be under more demand, as a result of the slash and burn cuts that are coming from the London Government, will you agree to explore ways in which the food bank can be supported financially by the Welsh Government?

Jane Hutt: You give an impressive account of the role of the food bank network, which is clearly playing an important part in meeting gaps in food provision in our most deprived communities. The work that has been done by the rural regeneration unit and the Welsh Assembly Government's health improvement division is important in understanding the ways in which we can support the food banks. I hope that we can look at that carefully in terms of network development. However, I would say—as you did, Leanne—that in respect of all of these pressures and important initiatives, it is going to be much harder to meet needs as a result of the financial challenges that we face.

Mohammad Asghar: Minister, earlier this year, when Carl Sargeant introduced the 2010-11 local government settlement to the Chamber, he highlighted how the revenue settlement would take significant steps towards reducing hypothecation. Could the Minister provide an update on any discussions that she has had regarding the allocation of ring-fenced grants to local authorities? Also, does the Minister agree that reducing the use of such grants could lead to significant savings in administration costs, as my friend Darren Millar has just mentioned, and that this money could, for instance, be used to give pensioners across Wales a 30 per cent saving on their council tax bills?

Jane Hutt: I believe that I have already answered that question. It is a question for the Minister for Social Justice and Local

gwirfoddolwyr i redeg y cynllun, felly mae ei orbenion yn fach. Bydd ehangu'r rhwydwaith yn golygu y bydd 52,900 o bobl ychwanegol yn cael eu bwydo mewn argyfwng yng Nghymru am ychydig dros £170,000, sy'n swm bach ymysg llawer fel y mae pethau. Hyd yma, fodd bynnag, nid ydynt wedi cael dim llwyddiant wrth geisio codi'r arian hwnnw. O gofio ei bod yn debygol y bydd mwy o alw ar y rhwydwaith banciau bwyd, o ganlyniad i'r toriadau dinistriol sy'n dod o gyfeiriad y Llywodraeth yn Llundain, a wnewch chi gytuno i archwilio ffyrdd y gall Llywodraeth y Cynulliad gefnogi'r banc bwyd yn ariannol?

Jane Hutt: Yr ydych yn rhoi disgrifiad trawiadol o rôl y rhwydwaith banciau bwyd, sy'n amlwg yn chwarae rhan bwysig o safbwynt llenwi bylchau mewn darparu bwyd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r gwaith a wnaed gan yr uned adfywio gwledig a'r is-adran gwella iechyd yn Llywodraeth y Cynulliad yn bwysig o ran deall y ffyrdd y gallwn gefnogi'r banciau bwyd. Gobeithiaf y gallwn ystyried hynny'n ofalus o ran datblygu'r rhwydwaith. Fodd bynnag, hoffwn i ddweud—fel y dywedaso chithau, Leanne—y bydd yn anos o lawer diwallu anghenion, yng nghyswllt yr holl bwysau a'r holl fentrau pwysig hyn, o ganlyniad i'r heriau ariannol a wynebwn.

Mohammad Asghar: Weinidog, yn gynharach eleni, pan gyflwynodd Carl Sargeant y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2010-11 i'r Siambr, tynnodd sylw at sut y byddai'r setliad refeniw yn cymryd camau sylweddol i leihau'r drefn neilltuo. A allai'r Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch dyrannu grantiau wedi'u neilltuo i awdurdodau lleol? Yn ogystal, a yw'r Gweinidog yn cytuno y gallai lleihau'r arfer o ddefnyddio grantiau o'r fath arwain at arbedion sylweddol mewn costau gweinyddu, fel y mae fy nghyfaill, Darren Millar, newydd sôn, ac y gallai'r arian hwn, er enghraifft, gael ei ddefnyddio i alluogi pensiynwyr ledled Cymru i arbed 30 y cant ar eu biliau treth gyngor?

Jane Hutt: Credaf fy mod eisoes wedi ateb y cwestiwn hwnnw. Mae'n gwestiwn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a

Government. The important role that local authorities play in providing services directly to people in Wales, and the understanding that we have in terms of moving towards more collaboration and a greater focus on outcomes and service delivery, will be key features of our discussions on the efficiency and innovation board.

Llywodraeth Leol. Bydd y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl yng Nghymru, a'r ddealltwriaeth sydd gennym o ran symud tuag at fwy o gydweithredu a mwy o ffocws ar ganlyniadau a darparu gwasanaethau, yn nodweddiadol allweddol o'r trafodaethau ar y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

Tourism

Q1 Darren Millar: Will the Minister make a statement on tourism in north Wales?
OAQ(3)1169(HER)

Q3 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on tourism in north Wales?
OAQ(3)1181(HER)

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): Latest figures show that UK residents holidaying in north Wales spent £476 million in 2009, which amounts to an increase of almost 10.5 per cent on 2008.

Darren Millar: Thank you for that answer, Minister. Like you, I had the pleasure of attending BBC Radio 1's Big Weekend in Bangor a few weeks ago. As you are aware, it was a fabulous event, which was attended by in excess of 40,000 people. I have no doubt that the positive experience that people had at that event will encourage them to visit north Wales again. I have to say, Minister, that I was particularly taken by the Alicia Keys north Wales parody song, which I very much hope that you will be using to help market north Wales as a tourist destination in future. Will you join me, Minister, in congratulating the BBC on choosing Bangor as a location for the event, and can you tell us what action your officials are taking, in light of its success, to ensure that those who attended come back to Wales in the future?

Alun Ffred Jones: I endorse everything that

Twristiaeth

C1 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dwristiaeth yn y gogledd?
OAQ(3)1169(HER)

C3 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dwristiaeth yn y gogledd?
OAQ(3)1181(HER)

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod trigolion Prydain a oedd ar wyliau yn y gogledd wedi gwario £476 miliwn yn ystod 2009, cynnydd o bron 10.5 cant o'i gymharu â 2008.

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cefais innau, fel chithau, y pleser o fynychu Penwythnos Mawr BBC Radio 1 ym Mangor rai wythnosau yn ôl. Fel y gwyddoch, yr oedd yn ddigwyddiad gwych, a ddenodd dros 40,000 o bobl. Nid oes amheuaeth gennyf na fydd y profiad cadarnhaol a gafodd pobl yn y digwyddiad hwnnw yn eu hannog i ymweld â'r gogledd eto. Rhaid imi ddweud, Weinidog, fy mod wrth fy modd gyda chân barodi Alicia Keys am y gogledd, a gobeithiaf yn fawr y byddwch yn ei defnyddio i helpu i farchnata'r gogledd fel cyrchfan i dwristiaid yn y dyfodol. A wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i longyfarch y BBC ar ddewis Bangor fel lleoliad ar gyfer y digwyddiad, ac a allwch ddweud wrthym pa gamau gweithredu y mae eich swyddogion yn eu cymryd, yn sgil y llwyddiant hwn, i sicrhau bod y rhai a ddaeth i'r digwyddiad yn dychwelyd i Gymru yn y dyfodol?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn ategu popeth a

you have said. I will not be singing the song myself, obviously, but I note that she has another version for South Africa, which she has cunningly used. [*Laughter.*] This is obviously a pattern. Everything that you say about the weekend is true, and there were very positive outcomes from the weekend, and positive coverage during the week prior to the event on Radio 1. That was not only about the attractions of north Wales, but its culture and language. It was very positive. I would also like to put on record that there was excellent cooperation between the BBC, Visit Wales, through the major events unit, and Gwynedd Council, which ensured the smooth running of the event. In terms of following it up, there are already negotiations with other promoters who might want to use the Faenol as a location for other events, as has happened in the past. This is all very positive and good news.

2.20 p.m.

Mark Isherwood: As you know, Minister, I was also at that wonderful event. It was great to hear the controller of Radio 1 talk about the huge increase in the number of hits on the Radio 1 website, with people looking to visit Gwynedd on the back of the event. I am sure that north Wales holiday park owners would sing 'Alun Ffred, Alun Ffred' instead of 'New York, New York' if you were to help them to achieve more for tourism in north Wales. How do you respond to the call from the holiday park sector in north Wales to not only clamp down on residential misuse but, more importantly, to promote holiday parks positively in your marketing strategy, recognising that, according to Visit Wales's figures, every two holiday park caravans support a rural job?

Alun Ffred Jones: In the main, the work of Visit Wales is to attract people to Wales in general. That is being done effectively. The new advertising campaign is already online and on the television, and it has received a very positive welcome. In fact, by getting

ddywedasoch. Ni fyddaf yn canu'r gân fy hun, yn amlwg, ond nodaf fod ganddi fersiwn arall ar gyfer De Affrica, y mae wedi'i defnyddio'n gelfydd. [*Chwerthin.*] Mae hyn yn batrwm, mae'n amlwg. Mae popeth a ddywedasoch am y penwythnos yn wir, a chafwyd canlyniadau cadarnhaol iawn o'r penwythnos, a sylw cadarnhaol yn ystod yr wythnos cyn y digwyddiad ar Radio 1. Nid yn unig ynghylch atyniadau'r gogledd, ond diwylliant a iaith yr ardal hefyd. Yr oedd yn gadarnhaol iawn. Hoffwn ddweud ar goedd y cafwyd cydweithredu rhagorol rhwng y BBC, Croeso Cymru, drwy'r uned digwyddiadau mawr, a Chyngor Gwynedd, a sicraodd fod y digwyddiad wedi mynd rhagddo'n ddiraffferth. O ran dilyniant i'r digwyddiad, mae trafodaethau eisoes ar droed gyda hyrwyddwyr eraill a allai fod am ddefnyddio'r Faenol fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau eraill, fel y gwnaethpwyd yn y gorffennol. Mae hyn i gyd yn newyddion da a chadarnhaol.

Mark Isherwood: Fel y gwyddoch, Weinidog, yr oeddwn innau yn y digwyddiad gwych hwnnw. Yr oedd yn wych clywed rheolwr Radio 1 yn siarad am y cynnydd aruthrol yn nifer y bobl sy'n troi at wefan Radio 1, gyda phobl yn ystyried ymweld â Gwynedd yn sgil y digwyddiad. Yr wyf yn siŵr y byddai perchnogion parciau gwyliau yn y gogledd yn canu 'Alun Ffred, Alun Ffred' yn hytrach na 'New York, New York' pe baech yn eu helpu i gyflawni mwy i dwristiaeth yn y gogledd. Sut yr ydych yn ymateb i'r cais gan sector parciau gwyliau'r gogledd nid yn unig i gyfyngu ar y modd y caiff carafanau mewn parciau gwyliau eu camddefnyddio fel prif gartrefi, ond yn bwysicach na hynny, i hyrwyddo parciau gwyliau mewn ffordd gadarnhaol yn eich strategaeth farchnata, gan gydnabod bod un swydd wledig yn cael ei chynnal gan bob dwy garafan mewn parc gwyliau, yn ôl ffigurau Croeso Cymru?

Alun Ffred Jones: At ei gilydd, gwaith Croeso Cymru yw denu pobl i Gymru yn gyffredinol. Mae hynny'n cael ei wneud yn effeithiol. Mae'r ymgyrch hysbysebu newydd eisoes yn ymddangos ar-lein ac ar y teledu, ac mae wedi cael croeso brwd iawn. Mewn

people to north Wales, it should be of benefit to all areas of the tourism industry.

Gareth Jones: I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i glybiau golff yn y gogledd ac economi ehangach gogledd Cymru elwa ar Gwpan Ryder, a sut mae Llywodraeth Cymru yn annog hynny ac yn monitro'r canlyniadau? Ychwanegaf fy mod yn aelod digon cyffredin o Glwb Golff Conwy.

Alun Ffred Jones: Diolch yn fawr am yr esboniad hwnnw. Gwyddoch, yn sgîl Cwpan Ryder yn dod i Gymru, y sefydlwyd cronfa er mwyn gwella cyfleoedd ac adnoddau i ddenu mwy o bobl a phobl ifanc i chwarae golff ac er mwyn denu mwy o ymwelwyr i Gymru i chwarae golff. Mae twristiaeth golff wedi cynyddu'n gyson ers 2005, ac erbyn hyn mae'n cyfrannu mwy na £35 miliwn i economi Cymru. Mae'r cynnydd hwnnw wedi digwydd yng ngogledd Cymru hefyd; mae ei chyfran o'r farchnad wedi cynyddu o 21 y cant yn 2007 i 24 y cant yn 2009. Mae clybiau unigol, wrth gwrs, wedi chwarae eu rhan yn hyn i gyd, ac mae amryw ohonynt wedi elwa o'r pencampwriaethau arbennig hefyd. Mae'r clwb yr oeddech yn cyfeirio ato yn Nghonwy yn un o'r rheini. Yn ddiweddar, yr oedd cyfarfod yn Nghlwb Golff Conwy er mwyn sicrhau y bydd y gwelliannau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diweddar yn parhau ar ôl i Gwpan Ryder ddod i ben.

Eleanor Burnham: Nid wyf yn chwarae golff o gwbl, ond gobeithio ar ôl ymdeol y byddaf yn gallu gwneud rhywbeth yn y cyfeiriad hwnnw. Yr wyf wedi gweld hysbyseb Croeso Cymru ar y teledu sawl gwaith. A allwch roi'r diweddaraf i ni o ran sut mor dda mae'r hysbyseb yn ei wneud ac a ydym yn cael mwy o ymwelwyr yng ngogledd Cymru? A oes gwelliant o ran *bookings* ar gyfer yr haf oherwydd yr hysbyseb unigryw hwn?

Alun Ffred Jones: Mae'n rhy gynnar i ni wybod beth fydd llwyddiant y gyfres hon o hysbysebion. Mae Croeso Cymru yn monitro pob ymgyrch yn eithriadol o ofalus, a bydd y canlyniadau ar gael ymhén amser. Yn sicr, mae ffactorau eraill yn dylanwadu ar faint o bobl sy'n ymweld â Chymru, am faint y maent yn aros, a faint y maent yn ei wario.

gwirionedd, dylai denu pobl i'r gogledd fod o fudd i bob rhan o'r diwydiant twristiaeth.

Gareth Jones: Minister, to what extent does the Welsh Government expect golf clubs in north Wales and the wider north Wales economy to benefit from the Ryder Cup? How is the Welsh Government encouraging that and monitoring the outcomes? I wish to add that I am quite an ordinary member of Conwy Golf Club.

Alun Ffred Jones: Thank you very much for that explanation. You will know that, in the wake of the Ryder Cup coming to Wales, a fund has been established to improve opportunities and facilities in order to attract more people and young people to play golf and to attract more visitors to Wales to play golf. Golf tourism has increased steadily since 2005, and it now contributes more than £35 million to the Welsh economy. That increase has also taken place in north Wales; its market share increased from 21 per cent in 2007 to 24 per cent in 2009. Of course, the individual clubs have played their part in all of this, and several of them have also benefited from the special championships. The club that you referred to in Conwy is one of those. Recently, there was a meeting at Conwy Golf Club in order to ensure that the improvements that have happened over the past few years will continue after the Ryder Cup has come to an end.

Eleanor Burnham: I am not a golfer at all, although I hope that when I retire I will be able to do something in that direction. I have seen the Visit Wales advertisement on the television a number of times. Can you give us an update on how well the advertisement is doing and whether we are getting more visitors to north Wales? Have summer bookings improved because of this unique advertisement?

Alun Ffred Jones: It is too early for us to know how successful this series of advertisements will be. Visit Wales monitors all of its campaigns very carefully indeed, and the results will be available in due course. There are certainly other factors that influence the number of visitors to Wales and how long they stay and how much they

Gwn y bu 2009 yn flwyddyn galonogol i ran fwyaf o sectorau'r diwydiant. Yr ydym ond yn gobeithio y bydd y tywydd yn dda a bydd 2010 yn cystal, os nad yn well.

spend. We know that 2009 has been a very encouraging year for most of sectors in the industry. We only hope that the weather will be kind to us and that 2010 will be as good, if not better.

Tourism

Q2 Alun Davies: Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government support for tourism in Wales? OAQ(3)1193(HER)

Alun Ffred Jones: Visit Wales has been allocated more than £13 million for 2010-11 to help to promote and develop tourism in Wales. Tourism businesses are eligible for support under Flexible Support for Business, and new tourism projects are being developed with assistance from Cadw and from strategic regeneration area and rural development plan funds.

Alun Davies: Thank you very much for that response, Minister. I am sure that many tourism businesses and enterprises are grateful for the support provided by the Assembly Government. This afternoon, I will focus my question on the heritage projects that the Assembly Government has supported, particularly the defence of the realm project in Pembrokeshire. The Assembly Government has provided real support for that concept of Pembrokeshire and its place in the strategic military history of the United Kingdom and Wales.

Many people in Pembrokeshire see that support for more themed tourism as the way forward. We are concerned that these sorts of projects and programmes may well be affected by the Conservative-Liberal cuts programme that is being imposed on this Government. Can you assure us, Minister, that you will seek to defend such tourism projects and ensure that Welsh tourism continues to get the support that it needs from the Welsh Assembly Government?

Alun Ffred Jones: I can certainly assure you that I will be seeking to defend the funding, but the heritage tourism project, which brings

Twristiaeth

C2 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i dwristiaeth yng Nghymru? OAQ(3)1193(HER)

Alun Ffred Jones: Mae dros £13 miliwn wedi'i neilltuo i Croeso Cymru yn ystod 2010-11 i helpu i hybu a datblygu twristiaeth yng Nghymru. Mae busnesau twristiaeth yn gymwys am gymorth o dan gynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes, ac mae prosiectau twristiaeth newydd yn cael eu datblygu gyda chymorth Cadw, ac o gronfeydd ariannol y cynllun ardal adfywio strategol a'r cynllun datblygu gwledig.

Alun Davies: Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr bod llawer o fusnesau a mentrau twristiaeth yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Y prynhawn yma, yr wyf am ganolbwyntio fy nghwestiwn ar y prosiectau treftadaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cefnogi, yn enwedig y prosiect amddiffyn y deyrnas yn Sir Benfro. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cefnogaeth wirioneddol i'r cysyniad hwnnw yn Sir Benfro a'i rôl yn hanes milwrol strategol y Deyrnas Unedig a Chymru.

Mae llawer o bobl yn Sir Benfro o'r farn mai cefnogaeth ar gyfer mwy o dwristiaeth ar thema yw'r ffordd ymlaen. Yr ydym yn pryderu y gallai rhaglen doriadau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n cael ei gorfodi ar y Llywodraeth hon, gael effaith ar y mathau hyn o brosiectau a rhaglenni. A allwch ein sicrhau, Weinidog, y byddwch yn ceisio amddiffyn prosiectau twristiaeth o'r fath a sicrhau bod twristiaeth yng Nghymru yn parhau i gael y gefnogaeth y mae ei hangen arni gan Lywodraeth y Cynulliad?

Alun Ffred Jones: Yn sicr, gallaf eich sicrhau y byddaf yn ceisio amddiffyn y cyllid, ond mae'r prosiect twristiaeth

in European Union convergence funding, is also dependent on Government funding. If our budgets are curtailed to a greater extent, then that endangers the department's ability to fulfil its obligations and its hopes and aspirations with regard to these various projects.

The defence of the realm project has been awarded £500,000, and it is an interesting and exciting development. I certainly hope that it will not be endangered. However, I cannot give any firm promises until we know the scale of the cutbacks.

Nick Bourne: My question is more about process than substance, and relates to the publication of the tourism figures. The figures that I have managed to tease out from your department show a fall between 2006 and 2008. The Minister has made encouraging noises about 2009. However, I want to ask about the publication of the figures. In England, they are published as a matter of course every three months. Has the Minister has looked at that? It would help Assembly Members to understand what is happening and to be able to contribute to the debate.

The second point that I would like to put to the Minister relates to tourist information centres, and is a question that I have raised with him previously. I appreciate that they are financed by local authorities, but does he have figures that show how many have closed since the advent of the One Wales Government? I feel that that has had an impact on tourism numbers in my area of Mid and West Wales.

Alun Ffred Jones: By and large, we do not release figures every three months. I am not sure how feasible that would be. We know from the 2009 figures that holiday trips to Wales from within the UK are up by 6.4 per cent compared with 2008; stays of four nights or longer rose by 16 per cent and visits to friends or relatives rose by 13 per cent. However, I will certainly look at how we present these figures in order to provide greater clarity if you feel that the present system does not give the clarity that you seek. I will write to you about that.

treftadaeth, sy'n cael cyllid cydgyfeirio o'r Undeb Ewropeaidd, hefyd yn dibynnu ar gyllid gan y Llywodraeth. Os caiff ein cyllidebau eu cwtogi ymhellach, bydd hynny'n peryglu gallu'r adran i gyflawni'i rhwymedigaethau a'i gobeithion a'i dyheadau o ran y prosiectau amrywiol hyn.

Dyfarwyd £500,000 i brosiect amddiffyn y deyrnas, ac mae'n ddatblygiad diddorol a chyffrous. Gobeithiaf yn fawr na fydd yn cael ei beryglu. Fodd bynnag, ni allaf wneud addewidion pendant nes byddwn yn gwybod hyd a lled y toriadau.

Nick Bourne: Mae fy nghwestiwn i'n ymwneud â phroses yn fwy na sylwedd, ac mae'n ymwneud â chyhoeddi ffigurau twristiaeth. Mae'r ffigurau yr wyf wedi llwyddo i'w cael gan eich adran, o dipyn i beth, yn dangos gostyngiad rhwng 2006 a 2008. Mae'r Gweinidog wedi gwneud synau calonogol ynghylch 2009. Fodd bynnag, yr wyf am ofyn cwestiwn ynghylch cyhoeddi'r ffigurau. Yn Lloegr, cânt eu cyhoeddi bob tri mis fel mater o drefn. A yw'r Gweinidog wedi edrych ar hynny? Byddai o gymorth i Aelodau'r Cynulliad ddeall yr hyn sy'n digwydd a gallu cyfrannu at y ddadl.

Mae'r ail bwynt yr hoffwn ei godi gyda'r Gweinidog yn ymwneud â chanolfannau croeso, ac mae'n gwestiwn yr wyf wedi'i godi gydag ef cyn hyn. Yr wyf yn sylweddoli eu bod yn cael eu cyllido gan awdurdodau lleol, ond a oes ganddo'r ffigurau sy'n dangos sawl un sydd wedi cau ers dyfodiad Llywodraeth Cymru'n Un? Credaf fod hynny wedi cael effaith ar nifer y twristiaid yn fy ardal innau, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Alun Ffred Jones: At ei gilydd, nid ydym yn rhyddhau'r ffigurau bob tri mis. Ni wn pa mor ymarferol fyddai hynny. Gwyddom o ffigurau 2009 fod gwyliau i Gymru gan bobl sy'n byw yn y DU i fyny 6.4 y cant o'u cymharu â 2008; cynyddodd gwyliau pedair noson neu'n hwy 16 y cant a chynyddodd ymweliadau â pherthnasau neu ffrindiau 13 y cant. Fodd bynnag, byddaf yn bendant yn edrych ar y ffordd yr ydym yn cyflwyno'r ffigurau hynny er mwyn rhoi mwy o eglurder os credwch nad yw'r system gyfredol yn rhoi'r eglurder yr ydych yn ei geisio.

Ysgrifennaf atoch am hynny.

On your second point regarding the number of tourist information centres, traditionally these have not been Government funded. They have been funded mainly by local authorities, but sometimes by national park authorities or other organisations. There are good examples, such as that in Abersoch, where the local community and local businesses have come together with some support from the local authority and Visit Wales to provide the service. We have to be flexible in the future. The centres undoubtedly contribute to the experience of visitors, although their nature has changed over the years. It would be a loss should the numbers decrease to the extent that they become very thin on the ground. However, it is impossible for the Government to give a commitment in the present financial climate to take responsibility for them. I will seek to provide you with the figures if we have them.

O ran eich ail bwynt ynghylch nifer y canolfannau croeso, yn draddodiadol, nid yw'r rhain wedi cael eu cyllido gan y Llywodraeth. Maent wedi cael eu cyllido gan awdurdodau lleol yn bennaf, ond weithiau gan awdurdodau parciau cenedlaethol neu sefydliadau eraill. Ceir enghreifftiau da, fel yn Aber-soch, lle mae'r gymuned leol a busnesau lleol wedi dod ynghyd gyda chefnogaeth gan yr awdurdod lleol a Chroeso Cymru i ddarparu'r gwasanaeth. Rhaid inni fod yn hyblyg yn y dyfodol. Yn ddiamau, mae'r canolfannau yn cyfrannu at brofiad ymwelwyr, er bod eu natur wedi newid dros y blynyddoedd. Byddai'n golled pe bai'r niferoedd yn gostwng i'r fath raddau eu bod yn brin iawn. Fodd bynnag, mae'n amhosibl i'r Llywodraeth roi addewid y bydd yn gyfrifol amdanynt, o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Byddaf yn ceisio rhoi'r ffigurau ichi os oes ffigurau gennym.

2.30 p.m.

Mick Bates: Minister, I know that you are familiar with the Owain Glyndŵr Centre in Machynlleth, which commemorates the last native Welsh person to hold the title of Prince of Wales—the great Owain Glyndŵr. He also held the first Welsh parliament in June 1404 in Machynlleth. A dedicated group of enthusiasts has worked hard to keep the Owain Glyndŵr Centre open for years, and, under phase 1, have helped to create a more modern centre that is fit for visitors. The group is now moving on to phase 2, after some unfortunate delays, with the revised plan costing approximately £1.3 million, which is less than the original development plan. Will you renew your support for this project, which will shortly be applying for funding from the strategic capital investment fund so that we can see progress towards developing a more modern centre, which will attract more tourists, particularly into mid Wales, in celebration of such an important time and such a great figure in Welsh history?

Mick Bates: Weinidog, gwn eich bod yn gyfarwydd â Chanolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth, sy'n coffáu'r Cymro olaf i gael ei alw'n Dywysog Cymru—sef Owain Glyndŵr. Bu hefyd yn gyfrifol am gynnal y senedd gyntaf yng Nghymru ym Machynlleth ym mis Mehefin 1404. Mae grŵp ymroddedig o selogion wedi gweithio'n galed i gadw Canolfan Owain Glyndŵr ar agor ers blynyddoedd, ac, o dan gam 1, maent wedi helpu i greu canolfan fwy modern sy'n addas i ymwelwyr. Mae'r grŵp bellach yn symud ymlaen at gam 2, ar ôl rhywfaint o oedi anffodus, gyda'r cynllun diwygiedig yn costio oddeutu £1.3 miliwn, sy'n llai na'r cynllun datblygu gwreiddiol. A wnewch chi gefnogi o'r newydd y prosiect hwn, a fydd yn gwneud cais ymhen ychydig i am gyllid gan y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol er mwyn inni weld cynnydd tuag at ddatblygu canolfan fwy modern, a fydd yn denu mwy o dwristiaid, yn enwedig i'r canolbarth, i ddatlu cyfnod mor bwysig a ffigur mor fawr yn hanes Cymru?

Alun Ffred Jones: I have visited the Owain Glyndŵr Centre and I recognise that there is scope there to improve the presentation. I also recognise the enthusiasm of the local

Alun Ffred Jones: Yr wyf wedi ymweld â Chanolfan Owain Glyndŵr ac yr wyf yn cydnabod bod cyfle i wella'r cyflwyniad. Yr wyf hefyd yn cydnabod brwdfrydedd y grŵp

group that has been involved in putting the project together. As you know, the centre has received support from my department and from Cadw, and I will continue to seek to support it in any way that I can. I recognise the importance of Glyndŵr as a figure, and also as part of the story of Wales that needs to be told in as exciting a fashion as we can.

lleol sydd wedi bod yn weithgar yn creu'r prosiect. Fel y gwyddoch, mae'r ganolfan wedi cael cefnogaeth gan fy adran a chan Cadw, a byddaf yn parhau i geisio'i chefnogi mewn unrhyw ffordd bosibl. Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd Glyndŵr fel ffigur, ac fel rhan o hanes Cymru y mae angen ei hadrodd mewn ffordd mor gyffrous â phosibl.

Blaenoriaethau

Priorities

C4 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y gorllewin dros y 12 mis nesaf? OAQ(3)1173(HER)

Q4 Paul Davies: Will the Minister make a statement on his priorities for west Wales for the next 12 months? OAQ(3)1173(HER)

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn parhau i fod yn ymroddedig i gyflawni fy ymrwymadau ar gyfer 'Cymru'n Un' yn y gorllewin, i gyflawni strategaeth twristiaeth arfordirol Llywodraeth y Cynulliad, sicrhau bod cyllid prosiect twristiaeth treftadaeth ar gael ar draws y rhanbarth, a chefnogi profiadau diwylliannol o safon uchel i bob ardal.

Alun Ffred Jones: I remain committed to fulfilling my 'One Wales' commitments in west Wales, as well as to delivering the Assembly Government's coastal tourism strategy, ensuring that heritage tourism project funding is made available across the region, and supporting high-quality cultural experiences to every area.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am yr ateb hwnnw, Weiniog. Croesawaf y buddsoddiad diweddar o £4.2 miliwn i sir Benfro, a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer prosiect twristiaeth arfordirol y sir. Gobeithiaf y bydd y buddsoddiad hwn yn help i ddenu mwy o dwristiaid i'r ardal ac i hybu'r sir. Mae'n hanfodol ein bod yn denu cynifer o dwristiaid i'r ardal â phosibl, oherwydd bod twristiaeth yn un o brif ddiwydiannau'r sir. Pa gynlluniau penodol eraill sydd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y flwyddyn nesaf i ddenu busnesau twristiaeth newydd i orllewin Cymru?

Paul Davies: I am grateful to you for that response, Minister. I welcome the recent investment of £4.2 million for Pembrokeshire, which is to be used for the county's coastal tourism project. I hope that that investment will help to attract more tourists to the area and to promote the county. It is essential that we attract as many tourists as possible to the area, given that tourism is one of the county's main industries. What other specific plans does the Assembly Government have for the coming year to attract new tourism businesses to west Wales?

Alun Ffred Jones: Yr wyf wedi cyfeirio at y ffaith mai prif waith y Llywodraeth, drwy Croeso Cymru, yw sicrhau bod pobl yn dod i Gymru. I'r perwyl hwnnw, mae gennym ymgyrchoedd marchnata ar y teledu sy'n cael eu targedu at Loegr—ein prif farchnad—yn ogystal ag at wledydd eraill Prydain, ac Iwerddon, sy'n farchnad bwysicach nag y mae rhai pobl yn ei ystyried. Prif waith Croeso Cymru yn hynny o beth yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o Gymru. Ni wn a ydych wedi gweld y gyfres o hysbysebion a grëwyd i'r perwyl hwn. Bwriad yr hysbysebion yw creu delwedd o wlad lle mae digon o weithgarwch ar gael i deuluoedd a

Alun Ffred Jones: I have referred to the fact that the main job of the Government, through Visit Wales, is to ensure that people come to Wales. To that end, we have television marketing campaigns that are aimed at England—our main market—as well as the other countries of Britain, and Ireland, which is more important as a market than some people realise. The main work of Visit Wales in that regard is to ensure that people are aware of Wales. I do not know whether you have seen the series of advertisements that were created for that purpose. The aim of the advertisements is to create an image of a country in which plenty of activities are

phobl o bob oed, a bod modd iddynt ddewis y math o weithgaredd yr hoffent ei wneud. Dyna ble mae ein ffocws ni.

Fel y gwyddoch, drwy'r cynlluniau sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol o Ewrop, yr ydym hefyd yn gobeithio gwella'r atyniadau sydd gennym. Cyfeiriwyd eisoes at gynllun Amddiffyn y Deyrnas—Sir Benfro, er enghraifft. Gobeithir creu digwyddiadau cyffrous, rhai ohonynt yn ein cestyll a'r safleoedd sydd yng ngofal Cadw, fel bod pobl yn mynd oddi yma â phrofiad cadarnhaol. Hyd y gwelaf i, dyna brofiad dros 90 y cant o ymwelwyr. Mae'r cynlluniau hyn yn niferus drwy Gymru, felly, a byddant yn cael eu datblygu dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Os hoffech gael mwy o fanylion, ceisiaf sicrhau eich bod yn eu cael.

Nerys Evans: A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Wythnos Bysgod Sir Benfro, sy'n ddatliad gwych o fwyd y môr a threftadaeth bysgota'r sir? Cynhelir dros 250 o ddigwyddiadau ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr ac mae'n esiampl wych o hyrwyddo twristiaeth fwyd ac yn fodel i rannau eraill o Gymru i ddysgu oddi wrtho. Beth all eich adran chi ei wneud i roi cymorth marchnata i leoliadau ar gyfer twristiaeth fwyd i sicrhau profiad arbennig i ymwelwyr sy'n seiliedig ar fwyd unigryw a lleol?

Alun Ffred Jones: Gyda'r math hwnnw o ddigwyddiad, oni bai ei bod yn ŵyl gweddol sylweddol, lle y gallai'r uned digwyddiadau mawr gynnig cefnogaeth, y bartneriaeth twristiaeth leol fyddai fel arfer yn delio ag unrhyw geisiadau am gymorth. Fodd bynnag, mae Croeso Cymru yn hyrwyddo datblygu bwyd lleol a chysylltu cynnyrch lleol â thwristiaeth, ac nid oes dwywaith bod hwn yn faes sydd wedi datblygu'n sylweddol yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn pwysleisio bod gennym gynnyrch lleol sydd cystal ag unrhyw gynnyrch arall yn y byd, ac o'i farchnata'n iawn, bydd yn atyniad ychwanegol i dwristiaid.

The Newport Medieval Ship

Q5 William Graham: Will the Minister make a statement on the public display of the

available to families and people of all ages, and that they can choose what kind of activity they would like to do. That is our focus.

As you know, through the schemes that have received financial support from Europe, we also hope to improve the attractions that we can offer. The Defence of the Realm—Pembrokeshire project, for example, has already been referred to. We hope to create exciting events, some of which will be held in our castles and at sites in Cadw's care, so that people leave here with a positive experience. As I see it, that is the experience of more than 90 per cent of visitors. There are numerous such schemes throughout Wales, therefore, and they will be developed over the next two or three years. If you would like more information, I will try to ensure that you receive it.

Nerys Evans: Will you join me in congratulating Pembrokeshire Fish Week, which is an excellent celebration of the county's seafood and fishing heritage? More than 250 events are held for local residents and visitors alike, and it is an excellent example of promoting food tourism and a model for other parts of Wales to learn from. What can your department do to offer marketing support to locations for food tourism, to ensure a special experience for visitors, based on unique and local produce?

Alun Ffred Jones: With that kind of event, unless it was a fairly substantial festival, for which the major events unit could offer support, it is usually the local tourism partnership that deals with any requests for support. However, Visit Wales promotes the development of local food and the linking of local produce with tourism, and there is no doubt that this area has developed significantly in Wales. It is important that we emphasise that we have local produce here that is just as good as any other produce in the world, and, if we market it properly, it will represent an additional attraction to tourists.

Llong Ganoloesol Casnewydd

C5 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arddangos llong

Newport medieval ship? OAQ(3)1191(HER)

ganoloesol Casnewydd i'r cyhoedd?
OAQ(3)1191(HER)

Alun Ffred Jones: In November 2009, Newport City Council made a commitment to fully conserve the ship and displaying it in a new museum for Newport. It stated that this can only be achieved in partnership with other agencies. I support these objectives and will ask my officials to assist wherever they can.

Alun Ffred Jones: Ym mis Tachwedd 2009, cafwyd ymrwymiad gan Gyngor Dinas Casnewydd i warchod y llong yn llwyr a'i harddangos mewn amgueddfa newydd i Gasnewydd. Nododd mai dim ond mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill y gellir cyflawni hyn. Cefnogaf yr amcanion hyn a byddaf yn gofyn i'm swyddogion helpu lle bynnag y gallant.

William Graham: Thank you very much for your answer, Minister. You will recall visiting the Newport ship and being suitably impressed with the size of the find and its relevance and significance to Welsh maritime history. Will you perhaps give an idea of the timescale envisaged if a suitable business case was put forward for consideration by your department?

William Graham: Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn cofio ymweld â llong Casnewydd a wnaeth argraff briodol arnoch o ran maint y darganfyddiad a'i berthnasedd a'i bwysigrwydd i hanes morwrol Cymru. A wnewch chi roi syniad, efallai, o'r amserlen a ragwelir pe bai achos busnes priodol yn cael ei gyflwyno gan eich adran i'w ystyried?

Alun Ffred Jones: That would be impossible because this is being led by Newport City Council, as it quite rightly should be. I have not had any recent discussions with it with regard to this scheme, but it would be quite a substantial undertaking. I fully support it, and in the medium or long-term, this is the correct strategy for Newport and the surrounding area. However, with the difficult financial situation that is upon us—and as you know, capital spend will be hit harder than revenue—it is impossible for me to predict how much money will be available and when. However, the important thing is to have realistic but imaginative plans ready to go for when the money is available.

Alun Ffred Jones: Byddai hynny'n amhosibl oherwydd mae hyn yn cael ei arwain gan Gyngor Dinas Casnewydd, sy'n gwbl briodol. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau diweddar â'r Cyngor ynghylch y cynllun hwn, ond byddai'n ymrwymiad eithaf sylweddol. Yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr, ac yn y tymor canolig neu'r tymor hir, dyma'r strategaeth gywir i Gasnewydd a'r cyffiniau. Fodd bynnag, gyda'r sefyllfa ariannol anodd sydd ohoni—ac fel y gwyddoch, bydd gwariant cyfalaf yn cael ei daro'n waeth na refeniw—mae'n amhosibl imi ragweld faint o arian fydd ar gael a phryd. Fodd bynnag, y peth pwysig yw cael cynlluniau realistig ond llawn dychymyg yn barod i'w gweithredu pan fydd yr arian ar gael.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2011

2011 National Urdd Eisteddfod in Swansea

C6 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â datblygu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2011 yn Abertawe? OAQ(3)1177(HER)

Q6 David Lloyd: Will the Minister make a statement on developing the 2011 National Urdd Eisteddfod in Swansea? OAQ(3)1177(HER)

Alun Ffred Jones: Yn dilyn llwyddiant diweddar Eisteddfod yr Urdd yng Ngheredigion, yr ydym yn edrych ymlaen at drefniadau Eisteddfod y flwyddyn nesaf yn Abertawe. Mae'r paratodau yn mynd rhagddynt yn dda iawn, ac mae'n ymddangos

Alun Ffred Jones: Following the success of the recent Urdd Eisteddfod in Ceredigion, we look forward to the arrangements for next year's Eisteddfod in Swansea. Preparations are developing very well, and the Swansea Eisteddfod also promises to be a success.

y bydd Eisteddfod Abertawe hefyd yn llwyddiant.

David Lloyd: Diolch am yr ateb calonogol hwnnw, Weinidog. Nid yw'n hysbys i bawb yng Nghymru o bell ffordd, na thu hwnt i Glawdd Offa, y gwaith aruthrol sy'n mynd ymlaen y tu ôl i'r llenni am flynyddoedd o flaen llaw gan wirfoddolwyr sy'n codi miloedd ar filoedd o bunnoedd i gynnal pob Eisteddfod yr Urdd neu Eisteddfod Genedlaethol. Eleni, fel a grybwyllwyd gennyh, cododd trigolion Ceredigion dros £360,000, ymhell y tu hwnt i'w targed, ac mae'r gwaith wedi bod yn mynd ymlaen ers dros ddwy flynedd bellach i godi'r arian angenrheidiol i gynnal yr ŵyl y flwyddyn nesaf. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch yr holl wirfoddolwyr hynny ledled Cymru sydd wedi bod yn gweithio i gynnal yr eisteddfodau hyn dros y blynyddoedd? Hebddynt hwy, ni fyddai Eisteddfod yr Urdd nac Eisteddfod Genedlaethol yn gallu bodoli.

Alun Ffred Jones: Mae hynny'n berffaith wir. Gwnaeth trigolion Ceredigion yn wych iawn a mynd yn ddwfn i'w pocedi. Mae'n amlwg bod rhywbeth yn y pocedi hynny. [*Chwerthin.*]

2.40 p.m.

Yr oedd llwyddiant yr Eisteddfod, nid yn unig o safbwynt yr arian ond yr awyrgylch ar y maes a'r lleoliad, yn wych iawn. Dylem hefyd dalu teyrnged i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ei brwdfrydedd ar y safle yn Llanerchaeron. Yr wyf yn edrych ymlaen at Eisteddfod Abertawe. Mae'r her yn un wahanol ac yn fwy. Er bod poblogaeth Abertawe llawer iawn yn fwy na phoblogaeth Aberaeron, tybiwn fod yr ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod dipyn yn llai yn Abertawe, oherwydd natur ieithyddol a chymdeithasol y ddinas a'r cyffiniau. Felly, mae'r her yn un anferthol, ond yr wyf yn fwy na pharod i dalu teyrnged i'r gwirfoddolwyr, ac yn hapus iawn i wneud hynny. Heb eu hymdrechion hwy, ni fyddai un o'r gwyliau mawr hyn yn gallu digwydd. Yr ydym yn dymuno'n dda iawn i Eisteddfod Abertawe. Yr oeddwn yn trafod y lleoliad gydag Iwan Davies, pennaeth diwylliant a thwristiaeth y ddinas, y bore yma, ac yr oedd yn amlwg ei fod yn llawn

David Lloyd: Thank you for that reassuring answer, Minister. It is not known to everyone in Wales by far, nor beyond Offa's Dyke, the tremendous amount of work that goes on behind the scenes for years in advance by volunteers who raise many thousands of pounds in order to hold every Urdd Eisteddfod or National Eisteddfod. This year, as you mentioned, Ceredigion residents raised over £360,000, which was well beyond their target, and work has been ongoing for over two years now to raise the vital funds needed to hold the festival next year. Will you join me in congratulating all of the volunteers across Wales who have been working to hold these eisteddfodau over the years? Without them, neither the Urdd Eisteddfod nor the National Eisteddfod could exist.

Alun Ffred Jones: That is perfectly true. The residents of Ceredigion did marvellously and dug deeply into their pockets. There is obviously something in those pockets. [*Laughter.*]

The Eisteddfod was a great success, not only in terms of money but the atmosphere on the field and the location. We should also pay tribute to the National Trust for its enthusiasm on the site Llanerchaeron. I look forward to the Eisteddfod in Swansea. The challenge is different and greater. Although the population of Swansea is much larger than that of Aberaeron, I assume that awareness of the Eisteddfod in Swansea is considerably lower, because of the linguistic and social nature of the city and the surrounding area. Therefore, the challenge is enormous, but I am more than ready to pay tribute to the volunteers, and am very happy to do so. Without their efforts, not one of these major festivals could take place. We wish the Swansea Eisteddfod very well. I was discussing the location with Iwan Davies, the head of culture and tourism for the city, this morning, and it was obvious that he is full of enthusiasm for the Eisteddfod, and gives his

brwdfrydedd am yr Eisteddfod, ac yn dangos cefnogaeth i'r fenter.

Alun Cairns: Hoffwn danlinellu'r hyn y mae Dai Lloyd a'r Gweinidog wedi'i ddweud am Eisteddfod yr Urdd, a llongyfarch—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf eisiau clywed Alun Cairns; mae'n parhau i fod yn Aelod Cynulliad, ac mae pob Aelod—beth bynnag arall y mae ef neu hi yn ei wneud—yn haeddu gwrandawriad.

Alun Cairns: Diolch yn fawr, Llywydd. Hoffwn danlinellu'r hyn a ddywedodd Dai Lloyd, a chefnogi'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am Eisteddfod yr Urdd. Yr wyf yn llongyfarch yr Urdd ar lwyddiant yr Eisteddfod yng Ngheredigion. Caiff Abertawe'r un manteision yn awr, yn enwedig o ystyried y ffordd y mae Eisteddfod yr Urdd wedi'i moderneiddio. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod Eisteddfod yr Urdd yn gallu rhoi hwb i eisteddfodau cymunedol mewn cymunedau gwahanol drwy alluogi pobl i ailymddiddori ynddynt, fel bod diwylliant Cymreig a diwylliant hanesyddol yr eisteddfodau cymunedol yn gallu parhau ar gyfer y dyfodol?

Alun Ffred Jones: Hoffwn ddweud mor braf yw gweld Alun Cairns yn ôl yn ein plith, a diolchaf iddo am ei gwestiwn. Yn sicr, mae gweithgarwch Eisteddfod yr Urdd mewn ardaloedd gwahanol yn hwb i weithgarwch Cymraeg lleol, ac yn rhoi cyfle i blant—nid plant ysgolion Cymraeg yn unig, ond y plant o ysgolion dwyieithog a Saesneg eu cyfrwng—i gymryd rhan, ac i fod yn rhan o fwrlwm diwylliannol yr Eisteddfod. Nid oes dwywaith ynglŷn ag effaith gadarnhaol Eisteddfod yr Urdd. Nid wyf mor siŵr bod yr Eisteddfod yn cael effaith cystal ar yr eisteddfodau lleol sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o Gymru, er y bu ymdrechion yn y gorffennol i gyplysu'r gweithgarwch hwnnw â rhai o'r gwyliau mawr. Yr hyn sy'n rhyfeddol am y gwirfoddolwyr yr ydych chi a Dai Lloyd wedi sôn amdanynt yw nifer yr eisteddfodau bach sy'n parhau i fod yn gyfan gwbl ddibynnol ar weithgarwch gwirfoddol. Mae'n bwysig inni dalu teyrnged i'r rhai sy'n trefnu'r digwyddiadau hynny.

full support to the initiative.

Alun Cairns: I would like to underline the remarks made by Dai Lloyd and the Minister about the Urdd Eisteddfod, and congratulate—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I want to hear Alun Cairns; he remains an Assembly Member, and every Member—whatever else he or she may do—deserved to be listened to.

Alun Cairns: Thank you very much, Presiding Officer. I would like to underline what was said by Dai Lloyd, and support what the Minister said about the Urdd Eisteddfod. I congratulate the Urdd on the success of its eisteddfod in Ceredigion. Swansea will now receive the same benefits, particularly given the way the Urdd Eisteddfod has been modernised. Does the Minister agree that the Urdd Eisteddfod could boost the community eisteddfodau in different communities by enabling people to renew their interest in them, so that Welsh culture and the historical culture of the community eisteddfodau can continue in the future?

Alun Ffred Jones: I would like to say how nice it is to see Alun Cairns back among us, and I thank him for his question. Certainly, Urdd Eisteddfod activities in different areas are a boost for Welsh local activity, and provide opportunities for school children—not only those attending Welsh-medium schools, but those attending bilingual and English-medium schools—to participate, and to be part of the cultural activities of the Eisteddfod. There is no doubt about the positive impact of the Urdd Eisteddfod. I am not so sure that the Eisteddfod has such an obvious impact on the local eisteddfodau that take place in different parts of Wales, although there has been past efforts to connect that activity with some of the major festivals. What is remarkable about the volunteers you and Dai Lloyd have mentioned is the number of small eisteddfodau that continue to be entirely dependent on voluntary activity. It is important that we pay tribute to those who organise such events.

Sporting Heritage

Q7 Chris Franks: Will the Minister make a statement on marking sporting heritage in South Wales Central? OAQ(3)1174(HER)

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government is very proud of Wales's sporting heritage. A Welsh Sports Hall of Fame, displaying a collection of artefacts, has been established at the Millennium Stadium.

Chris Franks: Will you lend your support to a campaign by Pontypridd town councillor Colin Gregory and local residents to erect a statue in honour of boxer Frederick Hall Thomas, better known as Freddie Welsh? The local branch of Plaid has written to the developers of the Taff Vale precinct, asking them to consider erecting a statue when they start the long-awaited regeneration of the area. Not only would this be a worthy tribute to the great boxer, but, if there was an iconic monument in the town, it could be an extra incentive for people to visit the centre of Pontypridd. You will be aware that the town of Merthyr, for instance, has statues of the fighters Johnny Owen and Howard Winstone.

Alun Ffred Jones: Thank you for that question. In this job, it almost seems that another day brings another statue. I am aware of the campaign to erect a statue of Fred Keenor, the captain of the Cardiff City Football Club team that won the 1927 FA Cup final, and while I fully acknowledge his achievements, the Government does not have a specific fund for statues and we are not in a position to provide any specific funding to support the campaign to erect a memorial statue.

Andrew R.T. Davies: South Wales Central has a rich heritage of sporting tradition. Exciting developments have been undertaken during the last 10 years in the city of Cardiff, including the erection of the Millennium Stadium and the Cardiff City Stadium as well as the establishment of the sports hall of fame, which you touched on. It is of critical importance that these institutions are celebrated beyond the borders of Wales. Can

Treftadaeth Chwaraeon

C7 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nodi treftadaeth chwaraeon yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1174(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn falch iawn o dreftadaeth chwaraeon Cymru. Sefydlwyd Oriel Anfarwolion Chwaraeon Cymru, sy'n arddangos casgliad o arteffactau, yn Stadiwm y Mileniwm.

Chris Franks: A wnewch chi gefnogi ymgyrch gan gynghorydd tref Pontypridd, Colin Gregory, a thrigolion lleol i godi cerflun i anrhydeddu'r paffiwr Frederick Hall Thomas, a adwaenir yn well fel Freddie Welsh? Mae cangen leol Plaid Cymru wedi ysgrifennu at ddatblygwyr canolfan siopa Bro Taf, i ofyn iddynt ystyried codi cerflun pan fyddant yn dechrau ar y gwaith hirddisgwyliedig o adfywio'r ardal. Yn ogystal â bod yn deyrnged deilwng i'r paffiwr enwog, pe bai cofeb eiconig yn y dref, gallai fod yn gymhelliad ychwanegol i bobl ymweld â chanol Pontypridd. Gwyddoch, er enghraifft, fod gan dref Merthyr gerfluniau o'r paffwyr Johnny Owen a Howard Winstone.

Alun Ffred Jones: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Yn y swydd hon, ymddengys fod cerflun arall yn cael ei grybwyll bob dydd, bron. Yr wyf yn ymwybodol o'r ymgyrch i godi cerflun o Fred Keenor, capten tîm Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a enillodd Gwpan y Gymdeithas Bêl-droed yn 1927, ac er fy mod yn cydnabod ei gyflawniadau yn llawn, nid oes gan y Llywodraeth hon gronfa benodol ar gyfer cerfluniau ac nid ydym mewn sefyllfa i roi unrhyw gyllid penodol tuag at gefnogi'r ymgyrch i godi cofeb.

Andrew R.T. Davies: Mae gan Ganol De Cymru dreftadaeth gyfoethog o gyflawniadau ym myd y campau. Cafwyd datblygiadau cyffrous yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn ninas Caerdydd, gan gynnwys adeiladu Stadiwm y Mileniwm a Stadiwm Dinas Caerdydd yn ogystal â sefydlu'r oriel anfarwolion, y bu ichi sôn amdani'n fras. Mae'n hanfodol bwysig bod y sefydliadau hyn yn cael eu dathlu y tu hwnt i Gymru. A

you give us some reassurance that your officials are working with various sporting venues to ensure that they are promoted to the wider community, for example, in the United Kingdom and the rest of Europe, and that they are actively marketed so that they can make best commercial use of these facilities, thereby putting money into the local economy and creating local activity for job creation?

Alun Ffred Jones: Yes, I can. I held a meeting recently with Cardiff Council to discuss this very issue. We have also been in discussion with the Millennium Stadium with a view to supporting its activity. It has shown a keen interest in the major events strategy that has been developed. It is happy with the approach taken and I think that it is important that Government officials work in tandem with important venues such as the Millennium Stadium and the Cardiff City Stadium, as well as with other venues in the area, to take advantage of any and every opportunity that comes our way.

The Future of Broadcasting

Q8 Peter Black: Will the Minister make a statement on the future of broadcasting as it affects Wales? OAQ(3)1197(HER)

Alun Ffred Jones: Although broadcasting is not a devolved issue, the recent announcement by the UK Government that the proposed independently funded news consortium pilot scheme to provide news for Wales in English will no longer take place has serious implications for the plurality of news services in Wales.

Peter Black: Thank you for that answer. I do not disagree with what you say, but as ITV Wales will continue to provide news summaries, will you press it to reinstate the sign-language evening news summary for its deaf viewers?

Alun Ffred Jones: Before I can do that, I need to establish that ITV intends to continue

allwch roi ryw sicrwydd inni fod eich swyddogion yn gweithio gyda lleoliadau chwaraeon amrywiol i sicrhau eu bod yn cael eu hyrwyddo i'r gymuned ehangach, er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig ac yng ngweddill Ewrop, a'u bod yn cael eu marchnata'n frwd fel y gallant wneud y defnydd masnachol gorau posibl o'r cyfleusterau hyn, a thrwy hynny, ddod ag arian i'r economi leol a chreu gweithgarwch lleol ar gyfer creu swyddi?

Alun Ffred Jones: Gallaf, gallaf wneud hynny. Cefais gyfarfod yn ddiweddar â Chyngor Caerdydd i drafod yr union fater. Yr ydym hefyd wedi cynnal trafodaethau â Stadiwm y Mileniwm gyda'r bwriad o gefnogi ei weithgarwch. Mae wedi dangos cryn ddiddordeb yn y strategaeth a ddatblygwyd ar gyfer digwyddiadau mawr. Mae'n fodlon â'r dull gweithredu a chredaf ei bod yn bwysig i swyddogion y Llywodraeth gydweithio â lleoliadau pwysig fel Stadiwm y Mileniwm a Stadiwm Dinas Caerdydd, yn ogystal ag â lleoliadau eraill yn yr ardal, i fanteisio ar unrhyw gyfle a phob cyfle a ddaw.

Dyfodol Darlledu

C8 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol darlledu a'i effaith ar Gymru? OAQ(3)1197(HER)

Alun Ffred Jones: Er nad yw darlledu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae goblygiadau difrifol ar gyfer plwraliaeth gwasanaethau newyddion yng Nghymru i'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU a oedd yn nodi na fydd cynllun peilot arfaethedig y consortiwm newyddion a ariennir yn annibynnol i ddarparu newyddion i Gymru yn Saesneg yn mynd rhagddo mwyach.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw. Nid wyf yn anghytuno â'r hyn a ddywedwch, ond gan y bydd ITV Cymru yn parhau i ddarparu crynodebau newyddion, a wnewch chi bwysio arno i ailgyflwyno'r crynodeb newyddion mewn iaith arwyddion gyda'r hwyr ar gyfer gwylwyr byddar?

Alun Ffred Jones: Cyn y gallaf wneud hynny, mae angen gwybod i sicrwydd bod

with this news service and we are in discussion with it at the moment to find out exactly what its position is. If there is a chance, as has been widely mooted, that ITV will pull out of the present system, that will leave a huge gap in news provision in Wales. Therefore, I need to have discussions with ITV and I have told the Minister in Westminster that we are keen to discuss the future of broadcasting in Wales with him and his team.

I was disappointed that there were no negotiations or discussions about the intention of the Government. I was as surprised as anyone when that decision was made. I have pressed the Government, even at this late stage in the process, to consider whether it would be possible to retain certain aspects of the IFNC proposal to ensure that we have a plurality of sustainable news services that meet the democratic needs of Wales.

Bethan Jenkins: Cytunaf ei fod yn siom enfawr na fydd cynllun yr IFNC yn cael ei wireddu, felly cydnabyddaf y ffaith eich bod yn bwriadu trafod hyn gyda'r Llywodraeth. Pa drafodaethau a gewch gydag ITV a'r darlledwyr eraill er mwyn sicrhau fod plwraliaeth yn y sector hwn yng Nghymru? A gytunwch fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhagrithiol yn y cyd-destun hwn gan gefnogi'r IFNC yn y Cynulliad, dim ond i fynd yn erbyn ei dyheadau yn San Steffan?

Alun Ffred Jones: Yr wyf wedi mynegi fy siom am yr hyn sydd wedi digwydd. Ni allaf siarad ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol; mater iddynt hwy yw'r hyn a gytunwyd gyda'r Torïaid. Fodd bynnag, gwneuthum ymholiadau gydag ITV er mwyn darganfod beth yw ei fwriadau yn y dyfodol agos a'r tymor canol. Mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn cael sicrwydd ynghylch y trefniadau hynny cyn inni benderfynu beth arall sydd angen ei wneud yn y cyd-destun hwn.

2.50 p.m.

Mae'r un mor bwysig ein bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth hefyd. Mae mater darlledu yng Nghymru, drwy'r

ITV yn bwriadu parhau â'r gwasanaeth newyddion hwn ac yr ydym wrthi'n cynnal trafodaethau â hwy ar hyn o bryd i weld beth yn union yw'r sefyllfa. Os oes perygl y bydd ITV yn tynnu allan o'r system gyfredol, fel yr awgrymwyd yn helaeth, bydd hynny'n gadael bwlch enfawr yn y ddarpariaeth newyddion yng Nghymru. Felly, mae angen imi gynnal trafodaethau gydag ITV ac yr wyf wedi dweud wrth y Gweinidog yn San Steffan ein bod yn awyddus i drafod dyfodol darlledu yng Nghymru gydag ef a'i dîm.

Yr oeddwn wedi siomi na fu unrhyw drafodaethau am fwriad y Llywodraeth. Cefais fy synnu llawn cymaint â phawb arall pan wnaed y penderfyniad hwnnw. Yr wyf wedi pwysu ar y Llywodraeth, hyd yn oed mor hwyr â hyn yn y broses, i ystyried p'un a fyddai'n bosibl cadw agweddau penodol ar y cynnig ar gyfer consortiwm newyddion a ariennir yn annibynnol i sicrhau bod gennym wasanaethau newyddion cynaliadwy sy'n bodloni anghenion democrataidd Cymru.

Bethan Jenkins: I agree that it is a great disappointment that the IFNC scheme will not come to fruition and therefore acknowledge that fact that you intend to discuss this with the Government. What discussions will you have with ITV and other broadcasters to ensure plurality in this sector in Wales? Do you agree that the Liberal Democrats are hypocritical in this context as they support the IFNC in the Assembly, only to turn their back on those aspirations in Westminster?

Alun Ffred Jones: I have expressed my regret at what has occurred. I cannot speak on behalf of the Liberal Democrats; that which they agreed with the Tories is a matter for them. However, we have made inquiries with ITV in order to learn of its intentions for the short term and the medium term. It is extremely important that we have certainty about its arrangements before we decide what else needs to be done in that context.

It is just as important that we conduct discussions with the Government as well. The matter of broadcasting in Wales, through

Saesneg a'r Gymraeg, yn fater o'r pwys mwyaf. Mae'r arian a gymerwyd oddi ar S4C, yn groes i'r addewidion a wnaethpwyd cyn yr etholiad, yn peri'r un lefel o bryder i ni.

Mohammad Asghar: Minister, what steps do you plan to take to ensure that next year's Assembly elections and the forthcoming referendum receive adequate broadcast and media coverage in the other UK nations? This surely provides an opportunity for people living in England, Scotland and Northern Ireland to gain knowledge about the political process in Wales and about the National Assembly generally.

Alun Ffred Jones: We are certainly always in discussions with broadcasters. I think that you make a good point, in that the understanding of devolution in general outside Wales, Scotland and Northern Ireland is limited. Unfortunately, such understanding seems to be limited within certain political parties in London as well. There is a lack of understanding of the whole process of devolution, so there is a great deal of educational work to be done, all round.

the media of English and Welsh, is of utmost importance. The money taken from S4C—contrary to the pre-election promises—gives rise to the same degree of concern.

Mohammad Asghar: Weinidog, pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf a'r refferendwm sydd ar y gorwel yn cael sylw digonol ar y teledu ac yn y cyfryngau yng ngwledydd eraill y DU? Siawns nad yw hyn yn gyfle i bobl sy'n byw yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ddysgu am y broses wleidyddol yng Nghymru ac am y Cynulliad Cenedlaethol yn gyffredinol.

Alun Ffred Jones: Yr ydym bob amser yn cynnal trafodaethau â darlledwyr. Credaf ichi wneud pwynt da, yn yr ystyr bod y ddealltwriaeth ynghylch datganoli yn gyffredinol y tu allan i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyfyngedig. Yn anffodus, ymddengys fod dealltwriaeth o'r fath yn gyfyngedig o fewn rhai pleidiau gwleidyddol penodol yn Llundain hefyd. Ceir diffyg dealltwriaeth ynghylch holl broses ddatganoli, felly mae llawer o waith addysgol i'w wneud, yn gyffredinol.

Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru Statement by the Secretary of State for Wales

Y Llywydd: Croeso i Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd.

I call on the Right Honourable Cheryl Gillan, Secretary of State for Wales.

Croeso.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cheryl Gillan): Diolch, Lywydd.

I would like to begin by saying what a pleasure it is to be here today in the National Assembly for Wales at my first debate as Secretary of State. Through you, Presiding Officer, I thank the staff of the Assembly who have extended to me their courtesy. They have been most helpful throughout the day, and I am grateful to them.

The Presiding Officer: Welcome to the new Secretary of State for Wales. Our best wishes go to her in her role.

Galwaf ar y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Welcome.

The Secretary of State for Wales (Cheryl Gillan): Thank you, Presiding Officer.

Hoffwn ddechrau trwy ddweud cymaint o bleser yw cael bod yma heddiw yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn fy nabl gyntaf fel Ysgrifennydd Gwladol. Hoffwn ddiolch, trwy'r Llywydd, i staff y Cynulliad sydd wedi bod mor foneddigaidd tuag ataf. Maent wedi bod yn barod iawn eu cymorth trwy'r dydd, ac yr wyf yn ddiolchgar iddynt.

I am Welsh, born and bred, and as someone with proud Welsh roots it is a great honour to have been appointed Secretary of State for Wales, and to be the first woman in this office. The coalition Government knows the value of this great nation to the United Kingdom. As you all know, in his first week in the job, the Prime Minister became the first serving Prime Minister to visit the Senedd.

It is a great privilege to be able to report to you on the Queen's Speech, and I look forward to hearing contributions from many Assembly Members this afternoon so that their views can be taken into account as we implement the legislative programme. Before I talk about the programme in detail, as this is my first appearance in the Senedd, I would like to pay tribute to the brave Welsh men and women who are serving in our armed forces across the world, and especially in Afghanistan. I look forward to being here in Cardiff later this month to celebrate their commitment on Armed Forces Day, which I understand the First Minister will also be attending. We owe a great debt of gratitude to our service personnel and their families, and we must never forget that.

I also offer my warmest congratulations to the First Minister, Carwyn Jones, on his recent appointment as a Privy Councillor—a fitting recognition of his contribution to the Assembly. I also congratulate Mike German on his recent peerage. I am sure that he will be a great asset in the upper chamber—
[ASSEMBLY MEMBERS: 'He has gone.']

I know that he has. Nonetheless, I am sure that he will be a great asset to the upper chamber, and I hope that he will inform it during our deliberations on devolution so that Rhodri Glyn's wishes become reality.

Politics at Westminster has entered a new era. We have made a fresh start. We have a new kind of Government, leading a new type of politics, where the national interest trumps party interest and where mature attitudes of

Cymraes ydwyf, a chefais fy ngeni a'm magu yma, ac fel rhywun sy'n falch o'i gwreiddiau yng Nghymru, mae'n anrhydedd mawr imi gael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a chael bod y fenyw gyntaf i ddal y swydd hon. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol yn ymwybodol o werth y genedl fawr hon i'r Deyrnas Unedig. Fel y gŵyr pob un ohonoch, yn ei wythnos gyntaf yn y swydd, Prif Weinidog y DU oedd y Prif Weinidog cyntaf mewn grym i ymweld â'r Senedd.

Braint fawr yw cael adrodd ichi ynghylch Araith y Frenhines, ac edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau gan nifer o Aelodau'r Cynulliad y prynhawn yma, fel y gellir ystyried eu safbwyntiau wrth inni weithredu'r rhaglen ddeddfwriaethol. Cyn imi sôn yn fanwl am y rhaglen, gan mai hwn yw fy ymwelid cyntaf â'r Senedd, hoffwn roi teyrnged i'r dynion a'r menywod dewr o Gymru sy'n gwasanaethu gyda'n lluoedd arfog ar draws y byd, ac yn enwedig yn Affganistan. Edrychaf ymlaen at fod yma yng Nghaerdydd yn nes ymlaen yn y mis i ddatlu eu hymrwymiad ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, sy'n ddigwyddiad y bydd y Prif Weinidog yn ei fynychu hefyd, fel y deallaf. Mae ein dyled yn fawr i'r personél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, ac ni ddylem fyth anghofio hynny.

Hoffwn hefyd gynnig fy llongyfarchiadau gwresog i'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, ar gael ei benodi'n Gyfrin Gynghorwr yn ddiweddar—sy'n gydnabyddiaeth deilwng o'i gyfraniad i'r Cynulliad. Yr wyf hefyd yn llongyfarch Mike German ar gael ei urddo'n arglwydd yn ddiweddar. Yr wyf yn siŵr y bydd yn gaffaeliad mawr yn y siambr uchaf—
[AELODAU'R CYNULLIAD: 'Mae wedi mynd.']

Gwn ei fod wedi mynd. Er hynny, yr wyf yn siŵr y bydd yn gaffaeliad mawr i'r siambr uchaf, a gobeithiaf y bydd yn cyfrannu gwybodaeth i'r siambr uchaf yn ystod ein trafodaethau ar ddatganoli, fel y gall dymuniadau Rhodri Glyn gael eu gwireddu.

Mae'n ddechrau cyfnod newydd yn hanes gwleidyddiaeth yn San Steffan. Yr ydym wedi dechrau o'r newydd. Mae gennym fath newydd o Lywodraeth, sy'n arwain math newydd o wleidyddiaeth, lle mae lles y

co-operation and compromise are signs of strength rather than weakness. The changed architecture of Government means the opportunity for a changed relationship between Westminster and Cardiff, with four political parties in Wales involved in Government. Coalition government is, of course, a well established feature of the Welsh political landscape, so there is much that we in Westminster can learn from Welsh experiences in the Assembly.

During his visit here last month, the Prime Minister made it clear that this Government's relationship with the Welsh Assembly Government should be built on the firm foundation of mutual respect: respect for devolution, recognising that the people of Wales can make different choices while benefiting from being part of a strong, unified family of nations within the United Kingdom; respect for the people of Wales deciding their own destiny, committing to hold a referendum on additional powers for the National Assembly for Wales; and respect for the National Assembly and the Welsh Assembly Government to hold different views from those of the coalition Government, but in doing so, still helping to foster positive and healthy engagement between Westminster and Cardiff, not the pessimism and confrontation that some would prefer. I look forward to playing my part in this new agenda of co-operation and optimism, and I hope that all Members of this Chamber will do the same. I believe people want to see constructive politics, rather than destructive politics.

The coalition Government's first legislative programme, as announced by Her Majesty last month, builds on our programme for Government, and is based on the key principles of freedom, fairness and responsibility. It sets out a wide-ranging programme of 20 new Bills—a programme that will significantly benefit the people of Wales while taking decisive action to put Britain's economy back on a firm footing by reducing the deficit and restoring economic growth. The programme is strategic and

genedl yn drech na lles pleidiau, a lle mae agweddau aeddfed o gydweithredu a chyfaddawdu'n arwyddion o gryfder yn hytrach na gwendid. Mae'r newid sydd wedi digwydd i saernïaeth Llywodraeth yn golygu y ceir cyfle i newid y berthynas rhwng San Steffan a Chaerdydd, gyda phedair plaid wleidyddol yng Nghymru yn rhan o Lywodraeth. Wrth gwrs, mae Llywodraeth glymbleidiol yn nodwedd ar y dirwedd wleidyddol yng Nghymru sydd wedi'i hen sefydlu, felly mae llawer y gallwn ni yn San Steffan ei ddysgu o brofiadau Cymru yn y Cynulliad.

Yn ystod ei ymweliad â'r fan hon fis diwethaf, yr oedd Prif Weinidog y DU wedi datgan yn glir y dylai'r berthynas rhwng y Llywodraeth hon a Llywodraeth y Cynulliad gael ei hadeiladu ar sail gadarn o barch y naill at y llall: parch at ddatganoli, gan gydnabod y gall pobl Cymru wneud dewisiadau gwahanol gan elwa, ar yr un pryd, o fod yn rhan o deulu cryf ac unedig o wledydd yn y Deyrnas Unedig; parch at bobl Cymru yn penderfynu ar eu tynged eu hunain, gan ymrwymo i gynnal refferendwm ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol; a pharch at allu'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad i arddel barn wahanol i farn y Llywodraeth glymbleidiol, ond gan ddal ati ar yr un pryd i helpu i feithrin ymwneud cadarnhaol ac iach rhwng San Steffan a Chaerdydd, yn hytrach na'r besimistiaeth a'r gwrthdaro y byddai rhai'n eu ffafrio. Edrychaf ymlaen at chwarae fy rhan yn yr agenda newydd hon o gydweithio a gobaith, a gobeithiaf y bydd pob Aelod o'r Siambr hon yn gwneud yr un fath. Credaf fod pobl am weld gwleidyddiaeth adeiladol, yn hytrach na gwleidyddiaeth ddinistriol.

Mae rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf y Llywodraeth glymbleidiol, fel y'i cyhoeddwyd gan Ei Mawrhydi fis diwethaf, yn adeiladu ar ein rhaglen ar gyfer Llywodraeth, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion allweddol rhyddid, tegwch a chyfrifoldeb. Mae'n cyflwyno rhaglen eang o 20 Mesur newydd—rhaglen a fydd o fudd sylweddol i bobl Cymru, ac a fydd cymryd camau pendant ar yr un pryd i roi economi Prydain ar dir cadarn unwaith eto, trwy leihau'r diffyg ac adfer twf economaidd.

efficient. The modest number of Bills ensures that Parliament can scrutinise the legislation fully, without being over-burdened. This is not legislating for the sake of it.

The coalition Government has made a good start in implementing the programme: we have introduced three Bills so far. The Identity Documents Bill had its Second Reading in the House of Commons last week, and will restore freedoms and civil liberties by abolishing identity cards and repealing unnecessary laws. That is good news for Wales, and indeed for the whole of the United Kingdom. The two other Bills introduced so far deal with academies and local government restructuring, and do not impact directly on Wales.

However, as the programme of legislation proceeds, I assure you that devolution is an important ingredient in the coalition Government's policy making. We respect devolution, and each department of Government must take account of devolution in implementing Government policy. So, my door is always open to any Assembly Member who wishes to discuss the coalition Government's programme, and how we shall deliver it in Wales. In my office, we have a small but determined department working within Whitehall on Wales's behalf.

The legislative programme is, of course, in its early stages, and we have much work to do. Many Bills in the programme have implications for Wales and my office is working together with other Whitehall departments, and wants to work with the Welsh Assembly Government, to ensure that Welsh interests are fully taken into account as the legislation is developed.

You all know that constitutional reform is a major pillar of the programme. We believe that our political system has been broken and this Government will not shirk from its responsibility to restore public trust in our democracy. The Deputy Prime Minister has laid out the overarching principle of the

Mae'r rhaglen yn strategol ac yn effeithlon. Mae'r nifer cymharol fach o Fesurau yn sicrhau y gall Senedd y DU graffu ar y ddeddfwriaeth yn llawn, heb fod gormod o bwysau arni. Nid deddfu er mwyn deddfu mo hyn.

Mae'r Llywodraeth glymbleidiol wedi gwneud dechrau da ar weithredu'r rhaglen: yr ydym wedi cyflwyno tri Mesur hyd yn hyn. Cafwyd ail ddarlleniad y Mesur Dogfennau Adnabod yn Nhŷ'r Cyffredin yr wythnos diwethaf, a bydd yn adfer rhyddid a hawliau sifil trwy ddileu cardiau adnabod a diddymu cyfreithiau diangen. Mae hynny'n newyddion da i Gymru, ac i'r Deyrnas Unedig gyfan, yn wir. Mae'r ddau Fesur arall sydd wedi'u cyflwyno hyd yn hyn yn ymdrin ag academiâu ac ailstrwythuro llywodraeth leol, ac nid ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar Gymru.

Fodd bynnag, wrth i'r rhaglen o ddeddfwriaeth fynd rhagddi, gallaf eich sicrhau bod datganoli'n rhan bwysig o waith llunio polisiau'r Llywodraeth glymbleidiol. Yr ydym yn parchu datganoli, a rhaid i bob adran o'r Llywodraeth ystyried datganoli wrth weithredu polisiau'r Llywodraeth. Felly, mae fy nrws bob amser yn agored i unrhyw Aelod o'r Cynulliad sy'n dymuno trafod rhaglen y Llywodraeth glymbleidiol, a sut y byddwn yn ei gweithredu yng Nghymru. Yn fy swyddfa, mae gennym adran fach ond penderfynol sy'n gweithio ar ran Cymru yn Whitehall.

Wrth gwrs, mae'n ddyddiau cynnar yn hanes y rhaglen ddeddfwriaethol, ac mae gennym lawer o waith i'w wneud. Mae gan nifer o'r Mesurau yn y rhaglen oblygiadau i Gymru, ac mae fy swyddfa'n gweithio gydag adrannau eraill yn Whitehall, ac mae am weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad, i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried yn llawn wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu.

Gŵyr pob un ohonoch fod diwygio cyfansoddiadol yn elfen allweddol o'r rhaglen. Credwn fod ein system wleidyddol wedi'i thorri, ac ni fydd y Llywodraeth hon yn osgoi ei chyfrifoldeb i adennill ffydd y cyhoedd yn ein democratiaeth. Mae Dirprwy Brif Weinidog y DU wedi egluro egwyddor

reforms, rebalancing the relationship between the citizen and the state and handing power back so that people have far more control over the state than they do now. That means radical reform of our political institutions so that people's trust in our democracy is revived. We will introduce fixed-term Parliaments of five years—something with which you are familiar in the Assembly as you have fixed terms of four years—and we will hold a referendum on an alternative voting system for the House of Commons and create fewer parliamentary constituencies of more equal size. We will give constituents the right to recall their Members of Parliament when they are guilty of serious wrongdoing and we are proposing reform of the House of Lords, so that its Members will be wholly or mainly elected on the basis of proportional representation.

These changes will make our political system more transparent and accountable, and will benefit people across the whole of the United Kingdom. We have been thinking carefully about the effects of these changes in Wales and, as we move forward, I will want to work to ensure that the proposals do not have a negative impact on the National Assembly.

3.00 p.m.

Then there is the Welsh referendum. In the context of this wider political reform, the coalition Government is committed to working constructively and co-operatively with the devolved institutions and to a referendum on additional powers for the National Assembly. Let me make the position clear: a referendum is a priority for the coalition Government and for me as Secretary of State. I know that Members of the Assembly share my eagerness to hold the referendum. That was evident from the resolution passed in the Chamber in February. However, the referendum must be carried out properly. We must ask an understandable question and ensure that the people of Wales have good information in order that they can make an informed decision. The preparation work needs to be thorough to minimise any risk of legal

gyffredinol y diwygiadau, sef ailgloriannu'r berthynas rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth, a rhoi grym yn ôl i'r bobl fel y bydd ganddynt lawer mwy o reolaeth dros y wladwriaeth nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae hynny'n golygu diwygio ein sefydliadau gwleidyddol mewn modd radical, fel y gellir adfer ffydd pobl yn ein democratiaeth. Byddwn yn cyflwyno cyfnod penodol o bum mlynedd i bob Senedd—sy'n rhywbeth yr ydych yn gyfarwydd ag ef yn y Cynulliad gan eich bod yn gweithredu am gyfnodau penodol o bedair blynedd—a byddwn yn cynnal refferendwm ar system bleidleisio amgen ar gyfer Tŷ'r Cyffredin ac yn creu llai o etholaethau seneddol sy'n fwy cyfartal o ran eu maint. Byddwn yn rhoi'r hawl i'r etholwyr alw eu Haelodau Seneddol yn ôl pan fyddant yn euog o gamymddwyn difrifol, ac yr ydym yn cynnig diwygio Tŷ'r Arglwyddi, fel y bydd ei Aelodau'n cael eu hethol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar sail cynrychiolaeth gyfrannol.

Bydd y newidiadau hyn yn gwneud ein system wleidyddol yn fwy tryloyw ac atebol, a byddant o fudd i bobl ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Yr ydym wedi bod yn ystyried yn ofalus yr effeithiau y bydd y newidiadau hyn yn eu cael yng Nghymru, ac wrth inni symud ymlaen, yr wyf am weithio i sicrhau na fydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar y Cynulliad Cenedlaethol.

Yna, ceir refferendwm Cymru. Yng nghydestun y diwygio gwleidyddol ehangach hwn, mae'r Llywodraeth glymbleidiol wedi ymrwmo i weithio gyda'r sefydliadau datganoledig mewn modd adeiladol a chydweithredol, ac i sicrhau refferendwm ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gadewch imi egluro'r sefyllfa: mae cynnal refferendwm yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth glymbleidiol ac i mi fel Ysgrifennydd Gwladol. Gwn fod Aelodau'r Cynulliad, fel minnau, yn awyddus i gynnal y refferendwm. Yr oedd hynny'n amlwg o'r hyn a benderfynwyd yn y Siambr ym mis Chwefror. Fodd bynnag, rhaid i'r refferendwm gael ei gynnal mewn modd priodol. Rhaid inni ofyn cwestiwn dealladwy a sicrhau bod gan bobl Cymru wybodaeth dda er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad gwybodus. Mae angen i'r

challenge.

Following my appointment, the preparation work for the referendum began in earnest. In consultation with the First Minister, I have been working to identify a date on which the referendum can be held without compromising the integrity of the process. We need to ensure that the Electoral Commission has the time that it has determined it needs to test the referendum question. It is only right that full and proper consideration be given to the question, and that sufficient time be built into the process to ensure proper preparation for the poll.

I am now of the opinion that a referendum should be held, all things being equal, before the end of the first quarter of 2011, subject to the approval of Parliament and to the proper processes. That will ensure that we do the job properly—no cutting corners, rather working co-operatively to afford the people of Wales a clear choice, made through well-informed judgment. This is a major constitutional proposal, and we owe people in Wales nothing less than to follow the procedures as laid down in the legislation.

The other key pillar of the programme is, of course, the economy. The coalition Government has made reducing the fiscal deficit our top priority. Starting to reduce the deficit this year is essential to ensure our economic recovery and is the first step to restoring confidence in the UK economy. The need to take decisive action to reduce the deficit is a necessary consequence of the previous Government's reckless economic management.

Alun Davies: Rubbish! How dare you?

The Presiding Officer: Order. This is a statement from the Secretary of State, and it will be heard in relative silence.

Cheryl Gillan: We have, in the words of the outgoing Labour Chief Secretary to the

gwaith paratoi fod yn drylwyr er mwyn lleihau unrhyw risg o wynebu her gyfreithiol.

Wedi imi gael fy mhenodi, dechreuodd y gwaith paratoi at gyfer y refferendwm o ddirif. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Weinidog, yr wyf wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i ddyddiad y gellid cynnal y refferendwm arno heb beryglu cywirdeb y broses. Mae angen inni sicrhau bod gan y Comisiwn Etholiadol yr amser y mae wedi dweud y bydd ei angen arno i brofi cwestiwn y refferendwm. Mae ond yn deg bod y cwestiwn yn cael ei ystyried yn llawn ac yn briodol, a bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn y broses i sicrhau bod y gwaith paratoi iawn wedi'i wneud ar gyfer yr etholiad.

Erbyn hyn, yr wyf o'r farn y dylid cynnal refferendwm, os bydd y sefyllfa'n aros fel y mae, cyn diwedd chwarter cyntaf 2011, cyhyd â bod y Senedd yn cymeradwyo hynny a chyhyd â bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn. Bydd hynny'n sicrhau ein bod yn gwneud y gwaith yn iawn—heb dorri corneli. Yn hytrach, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i roi dewis clir i bobl Cymru a gaiff ei wneud trwy benderfyniad gwybodus. Mae hwn yn gynnig cyfansoddiadol pwysig, ac mae pobl Cymru'n haeddu dim byd llai nag inni ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u gosod yn y ddeddfwriaeth.

Elfen allweddol arall y rhaglen yw'r economi, wrth gwrs. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol wedi sicrhau mai lleihau'r diffyg ariannol yw ein prif flaenoriaeth. Mae dechrau lleihau'r diffyg eleni'n hanfodol i sicrhau ein hadferiad economaidd, a dyma'r cam cyntaf i adfer hyder yn economi'r DU. Mae rheolaeth ddiofal y Llywodraeth flaenorol ar yr economi yn golygu bod yn rhaid cymryd camau pendant i leihau'r diffyg.

Alun Davies: Nonsens! Sut y beiddiwch chi ddweud y fath beth?

Y Llywydd: Trefn. Datganiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol yw hwn, a byddwch yn gwrandao arno mewn tawelwch cymharol.

Cheryl Gillan: Yng ngeiriau Prif Ysgrifennydd Llafur y Trysorlys sydd

Treasury, 'run out of money'. Last year, our budget deficit was the largest it has ever been in our peacetime history and, according to the International Monetary Fund, is the largest budget deficit in the G20. Everybody knows what happens when you ignore the bills coming in and do not pay them: the problem just gets worse. I am sorry to say that the previous Government maxed out the country's credit card. That is why we must act decisively, so that we come through these tough times together and as fast as possible without jeopardising the recovery. Only last week, the Prime Minister spelt out that the deficit is worse than we thought, and that, unless action is taken, we will be paying around £70 billion a year in interest on Britain's national debt by 2015. A responsible Government cannot let that happen, and the coalition Government will ensure that it does not. That is why, last month, the Chancellor announced the first £6.2 billion-worth of savings that we must make, barely a fortnight after the coalition Government took office.

Following that announcement, I read unfounded reports in the press suggesting that Wales was being hit the hardest in the savings that we will have to find. Nothing could be further from the truth. In fact, the percentage cut to the Wales departmental expenditure limit, or DEL, is below the average percentage cut in the DEL for the United Kingdom as a whole. However, Wales must play its part, and it is of course for the Welsh Assembly Government here to decide where and when to make the savings. I certainly welcome the comments made in the Chamber by the Assembly Government's Minister for Business and Budget on 25 May, that the Welsh Assembly Government:

'we will be responsible partners in contributing to the reduction of the deficit over coming years.'

At the same time as the savings were

newydd adael ei swydd, mae ein harian wedi dod i ben. Llynedd, yr oedd y diffyg yn ein cyllideb yn fwy nag a fu erioed yn ein hanes adeg heddwch, ac yn ôl y Gronfa Ariannol Ryngwladol, dyna'r diffyg mwyaf yn y gyllideb ymhlith gwledydd yr G20. Mae pawb yn gwybod beth sy'n digwydd pan fyddwch yn anwybyddu'r biliau sy'n dod i law a pheidio â'u talu: mae'r broblem yn gwaethygu. Mae'n flin gennyf ddweud i'r Llywodraeth flaenorol ddefnyddio credyn credyd y wlad i'r eithaf. Dyna pam mae'n rhaid inni weithredu'n bendant, er mwyn inni ddod trwy'r adegau anodd hyn gyda'n gilydd a chyn gynted ag sy'n bosibl heb beryglu'r adferiad. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, dywedodd Prif Weinidog y DU yn glir fod y diffyg yn waeth nag yr oeddem yn ei feddwl, ac y byddwn yn talu oddeutu £70 biliwn y flwyddyn mewn llog ar ddyled genedlaethol Prydain erbyn 2015 os na chymerir camau gweithredu. Ni all Llywodraeth gyfrifol adael i hynny ddigwydd, a bydd y Llywodraeth glymbleidiol yn sicrhau na fydd hynny'n digwydd. Dyna pam i'r Canghellor gyhoeddi, fis diwethaf, yr arbedion cyntaf gwerth £6.2 biliwn y mae'n rhaid inni eu gwneud, prin pythefnos ar ôl i'r Llywodraeth glymbleidiol ddod i rym.

Yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw, darllenais adroddiadau di-sail yn y wasg a oedd yn awgrymu mai Cymru oedd yn cael ei tharo waethaf o ran yr arbedion y bydd yn rhaid inni ddod o hyd iddynt. Ni allai dim fod ymhellach o'r gwir. Mewn gwirionedd, mae'r toriad ar ffurf canran i Derfyn Gwariant Adrannol Cymru yn is na chyfartaledd y toriad i Derfyn Gwariant Adrannol y Deyrnas Unedig gyfan. Fodd bynnag, rhaid i Gymru chwarae ei rhan, a chyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yn y fan hon wrth gwrs yw penderfynu ym mha feysydd y dylid gwneud yr arbedion, a phryd. Yr wyf yn sicr yn croesawu'r sylwadau a wnaed yn y Siambr gan Weinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Fusnes a'r Gyllideb ar 25 Mai, sef y bydd Llywodraeth y Cynulliad:

'byddwn yn bartneriaid cyfrifol wrth gyfrannu at leihau'r diffyg dros y blynyddoedd nesaf.'

Ar yr un pryd ag y cafodd yr arbedion eu

announced, we also announced a further £24 million for Wales, which reflected the Barnett consequential of recycled savings used by the Government on targeted measures such as social housing, further education, apprenticeships and business rates.

I spoke earlier of this Government's respecting the different choices that Wales can make, and we have followed through on our promise to allow the Assembly Government the flexibility to defer all or part of the savings until next year, if it so wishes. However, what is clear is that we cannot afford to continue increasing public debt at the rate of £3 billion a week. That is half the Welsh health and social services budget for the entire year and over seven times the annual budget for the four Welsh police forces put together. The crippling public debts will threaten our financial stability and, if not addressed, will derail our economic recovery. Public borrowing is after all only a deferred form of taxation, and it would be irresponsible of us to continue to accumulate vast debts that would have to be paid off by our children and our grandchildren for decades to come. That would be a form of intergenerational theft.

Cutting the deficit, while a priority, is not the only way in which the coalition will drive forward the recovery. We will also create a simpler and fairer tax and benefits system. The UK's recession has left more than 120,000 people unemployed and nearly 430,000 economically inactive in Wales. The previous Government's programmes clearly are not working, which is why we are scrapping all the existing programmes and introducing a new, single welfare to work programme to help all unemployed people to get back to work. The existing system trapped on benefits the very people whom it was supposed to help—for life, in far too many cases—and that has to change. It is wrong that someone can be worse off by taking a job compared with being on benefits. Instead, we will reward those who go out to work by making work pay. Similarly, those

cyhoeddi, bu inni hefyd gyhoeddi £24 miliwn ychwanegol i Gymru, a oedd yn adlewyrchu symiau canlyniadol fformiwla Barnett o arbedion a ailgylchwyd a ddefnyddiwyd gan y Llywodraeth ar fesurau wedi'u targedu megis tai cymdeithasol, addysg bellach, prentisiaethau ac ardrethi busnes.

Yn gynharach soniais am y modd y mae'r Llywodraeth hon yn parhau'r gwahanol ddewisiadau y gall Cymru eu gwneud, ac yr ydym wedi gwireddu ein haddewid i roi hyblygrwydd i Lywodraeth y Cynulliad ohirio'r holl arbedion neu ran ohonynt nes y flwyddyn nesaf, os yw'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw na allwn ffordio parhau i gynyddu dyled gyhoeddus ar gyfradd o £3 biliwn yr wythnos. Mae hynny'n cyfateb i hanner y gyllideb a roddir i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru am y flwyddyn gyfan, ac mae dros saith gwaith yn fwy na'r gyllideb flynyddol ar gyfer pedwar heddlu Cymru gyda'i gilydd. Bydd y dyledion cyhoeddus niweidiol yn bygwith ein sefydlogrwydd ariannol, ac os na eir i'r afael â hwy, byddant yn bwrw ein hadferiad economaidd oddi ar y cledrau. Wedi'r cyfan, nid yw benthyca cyhoeddus yn ddim mwy na dull o drethu a gaiff ei ohirio, a byddai'n anghyfrifol inni barhau i Gronni dyledion enfawr y byddai'n rhaid i'n plant a phlant ein plant eu talu am ddegawdau i ddod. Math o ladrata rhwng cenedlaethau fyddai hynny.

Er bod torri'r diffyg yn flaenoriaeth, nid dyna'r unig ffordd y bydd y Llywodraeth glymbleidiol yn gyrru'r adferiad yn ei flaen. Byddwn hefyd yn creu system dreth a budd-daliadau symlach a thecach. Mae dirwasgiad y DU wedi gadael dros 120,000 o bobl yn ddi-waith, a bron i 430,000 o bobl yn economaidd anweithgar yng Nghymru. Mae'n amlwg nad yw rhaglenni'r Llywodraeth flaenorol yn gweithio, a dyna pam yr ydym yn cael gwared ar yr holl raglenni sy'n bodoli ac yn cyflwyno un rhaglen o fudd-dal i waith newydd i helpu pawb sy'n ddi-waith i ddechrau gweithio eto. Yr oedd y system bresennol yn golygu bod yr union bobl yr oedd i fod i'w helpu yn cael eu dal ym magl budd-daliadau—am weddill eu hoes, yn llawer rhy aml—a rhaid i hynny newid. Mae'n annheg bod rhywun yn gallu bod mewn sefyllfa waeth wrth gymryd swydd

looking for an easy ride without looking for work can expect to see their benefits curtailed.

However, the coalition Government is under no illusion as regards how damaging unemployment is for the country, and the real hardship that it brings to families throughout Wales. That is why I want to work together with the Welsh Assembly Government to help those people and families affected by job losses. We want to support business as well. The coalition Government is fully committed to supporting sustainable growth and promoting enterprise. By tackling the deficit early, we will be able to reverse the national insurance increases that would have increased the tax burden placed on businesses, particularly small and medium-sized enterprises, which are the backbone of the Welsh economy. We will also reform the corporate tax structure to simplify reliefs and allowances, so that we can create the most competitive corporate tax regime in the G20.

Access to finance is important for business, too. We recognise that the flow of credit is vital to businesses. The banking system should serve business, not the other way around, and that is why we are considering both a major loan guarantee scheme and the use of net lending targets for the nationalised banks, so that viable businesses have access to the credit that they need to drive their future growth.

We are committed to securing the recovery by improving the business environment for the private sector, so that it can provide strong and sustainable growth. However, we can do that only by working together. Westminster and Cardiff must work co-operatively to lead Wales in the recovery. It is essential that we engage to ensure that our policies deliver for the people of Wales and that, when there are differences in approach, as I am sure there will be, we ensure that they support our common endeavour.

o'i chymharu â bod ar fudd-daliadau. Yn hytrach, byddwn yn gwobrwyo'r sawl sy'n mynd allan i weithio trwy sicrhau bod gweithio'n talu. Yn yr un modd, gall y sawl sy'n ceisio ei chael hi'n hawdd heb chwilio am swydd ddisgwyl gweld eu budd-daliadau'n cael eu cwtogi.

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth glymbleidiol yn llwyr ymwybodol o ba mor niweidiol yw diweithdra i'r wlad, ac o'r caledi gwirioneddol y mae'n ei achosi i deuluoedd trwy Gymru. Dyna pam yr wyf am weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i helpu'r bobl a'r teuluoedd hynny yr effeithiwyd arnynt gan ddiswyddiadau. Yr ydym am gefnogi busnesau hefyd. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi twf cynaliadwy a hybu menter. O fynd i'r afael â'r diffyg yn gynnar, byddwn yn gallu gwrthdroi'r cynnydd mewn yswiriant gwladol a fyddai wedi cynyddu'r baich o ran treth a roddwyd ar fusnesau, yn enwedig mentrau bach a chanolig eu maint, sef asgwrn cefn economi Cymru. Byddwn hefyd yn diwygio'r strwythur treth gorfforaethol er mwyn symleiddio'r rhyddhad a'r lwfansau, er mwyn inni allu creu'r gyfundrefn dreth gorfforaethol fwyaf cystadleuol ymhlith gwledydd yr G20.

Mae cael mynediad i gyllid yn bwysig i fusnesau hefyd. Yr ydym yn cydnabod bod llif credyd yn hanfodol i fusnesau. Dylai'r system fancio wasanaethu busnesau, ac nid i'r gwrthwyneb. Dyna pam yr ydym yn ystyried cynllun sylweddol i warantu benthyciadau, a defnyddio targedau benthyca net ar gyfer y banciau gwladol, fel y bydd gan fusnesau hyfyw fynediad i'r credyd y mae ei angen arnynt i yrru eu twf yn y dyfodol.

Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau'r adferiad trwy wella'r amgylchedd busnes ar gyfer y sector preifat, fel y gall ddarparu twf cadarn a chynaliadwy. Fodd bynnag, dim ond trwy gydweithio y gallwn wneud hynny. Rhaid i San Steffan a Chaerdydd gydweithio i arwain Cymru yn yr adferiad. Mae'n hanfodol ein bod yn ymwneud â'n gilydd er mwyn sicrhau bod ein polisiau'n cyflawni ar ran pobl Cymru, a phan geir gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu, fel y bydd yn siŵr o ddigwydd, byddwn yn sicrhau bod y polisiau

hynny'n cefnogi'r nod sy'n gyffredin i'r naill a'r llall ohonom.

3.10 p.m.

The coalition Government wants to work with the Assembly Government to deliver its programme for government in Wales. On welfare reform, for example, you have important responsibilities in areas such as further and higher education, training and skills, and social care, which will prove crucial in ensuring the successful reform of the system. We are already putting this principle into practice. During his visit here last month, the Prime Minister repeated his offer to come to the Assembly to answer Members' questions, and I am pleased to report that a letter has been received from the Presiding Officer to the Prime Minister, and so I hope that we can set up future arrangements. Early next month, I hope to meet the Welsh Assembly Government Cabinet, and I am also looking forward to meeting Gerry Holtham to discuss the Holtham commission's final report. Following its publication, the Chief Secretary to the Treasury will be meeting him to discuss the findings, as well as the Minister.

Another of the changes that we have made indicates the way in which we want to approach devolved politics. The joint ministerial committee met earlier this month. It had a very successful meeting in the Cabinet Office, in the Cabinet room, chaired by the Prime Minister. It has now been agreed that it will meet regularly to consider matters of common mutual interest. That is solid proof of the Government's commitment to work in collaboration with the devolved institutions and to integrate devolution into our policy making.

In conclusion, the legislative programme put forward by the Government is the first step towards putting right the legacy that the last Government left. The cavalier approach to taxpayers' money is no more. From now on, the UK will get the exact opposite. We will be spending public money wisely and saving it wherever possible; there will not be

Mae'r Llywodraeth glymbleidiol am weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ei rhaglen ar gyfer llywodraeth yng Nghymru. O safbwynt diwygio lles, er enghraifft, mae gennych gyfrifoldebau pwysig mewn meysydd megis addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant a sgiliau, a gofal cymdeithasol, a fydd yn hollbwysig wrth sicrhau bod y system yn cael ei diwygio'n llwyddiannus. Yr ydym eisoes yn gweithredu'r egwyddor hon. Yn ystod ymweliad Prif Weinidog y DU â'r fan hon y mis diwethaf, ailadroddodd ei gynnig i ddod i'r Cynulliad i ateb cwestiynau'r Aelodau, ac yr wyf yn falch o adrodd i'r Prif Weinidog gael llythyr gan y Llywydd, ac felly gobeithiaf y gallwn wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol. Ddechrau mis nesaf, gobeithiaf gyfarfod â Chabinet Llywodraeth y Cynulliad, ac yr wyf hefyd yn edrych ymlaen at gyfarfod â Gerry Holtham i drafod adroddiad terfynol comisiwn Holtham. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, bydd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cyfarfod ag ef i drafod y canfyddiadau, ynghyd â'r Gweinidog.

Mae un arall o'r newidiadau yr ydym wedi'u gwneud yn dangos sut yr ydym am weithredu o safbwynt gwleidyddiaeth ddatganoledig. Cyfarfu'r cydbwyllgor gweinidogion yn gynharach yn y mis. Cafodd gyfarfod llwyddiannus iawn yn Swyddfa'r Cabinet, yn ystafell y Cabinet, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog. Cytunwyd erbyn hyn y bydd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion sydd o ddiddordeb cyffredin. Mae hwnnw'n brawf pendant o ymrwymiad y Llywodraeth i gydweithio â'r sefydliadau datganoledig, a chynnwys datganoli yn ein gwaith llunio polisiau.

I gloi, hoffwn ddweud mai'r rhaglen ddeddfwriaethol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yw'r cam cyntaf tuag at unioni'r sefyllfa a adawyd gan y Llywodraeth flaenorol. Ni allwn fod yn ddi-hid ag arian y trethdalwyr mwyach. O hyn ymlaen, bydd y DU yn cael y gwrthwyneb yn llwyr. Byddwn yn gwario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn ei

profligacy and ever-increasing debt. There will be bottom-up change, with more personal, civic and corporate responsibility, not top-down control and big Government. Power will be back in the hands of the people, not more power for more politicians. I think that that is good news for Britain and good news for Wales.

I really do welcome the spirit of collaboration and co-operation between Westminster and Cardiff, which has permeated my first weeks as Welsh Secretary. However, we face a real challenge in restoring our economy, and there are difficult choices that we must make to reduce public spending and to rebalance taxes. However, they will be underpinned by the values of compassion, reasonableness and concern for the most disadvantaged. I am sure that all of us here today share those values, and I hope that we will continue to work together to build a confident and more prosperous Wales.

I commend the Queen's Speech to you today, and I thank you for the opportunity to address you. I wish the Assembly well, and I look forward to hearing all your contributions and suggestions on how, together, we can improve the governance of the country.

Nick Bourne: I welcome the incoming Secretary of State for Wales on her first visit to address Assembly Members. I am sure that it will be the first visit of many. I also join her, and I am sure other Assembly Members, in paying tribute to our armed forces, both men and women, serving around the world but particularly in Afghanistan. This also seems to be a timely moment to extend congratulations to Carwyn Jones on being made a member of the Privy Council, and to Mike German, who I see is now joining us, on his peerage. That is all very good news for the Assembly, for Wales, and for the wider politics of Wales.

arbed lle bynnag y bydd yn bosibl; ni fyddwn yn gweld afradlonrwydd a dyled sy'n parhau i gynyddu. Bydd newid yn digwydd o'r gwaelod i fyny, gyda mwy o gyfrifoldeb personol, dinesig a chorfforaethol, yn hytrach na rheolaeth o'r brig i lawr a Llywodraeth fawr. Bydd grym yn cael ei roi yn nwylo'r bobl unwaith eto, ac ni fydd y gwleidyddion yn cael rhagor o rym. Credaf fod hynny'n newyddion da i Brydain ac yn newyddion da i Gymru.

Yr wyf wir yn croesawu'r ysbryd o gydweithredu a chydweithio rhwng San Steffan a Chaerdydd, sydd wedi nodweddu fy wythnosau cyntaf fel Ysgrifennydd Cymru. Fodd bynnag, yr ydym yn wynebu her go iawn wrth adfer ein heconomi, a cheir dewisiadau anodd y mae'n rhaid inni eu gwneud i leihau gwariant cyhoeddus ac ailfantoli trethi. Fodd bynnag, bydd trugaredd, rhesymoldeb a phryder am y mwyaf difreintiedig yn werthoedd a fydd yn sail i'r dewisiadau hynny. Yr wyf yn siŵr bod pob un ohonom yma heddiw'n rhannu'r gwerthoedd hynny, a gobeithiaf y byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i adeiladu Cymru hyderus a mwy llewyrchus.

Cymeradwyaf Araith y Frenhines ichi heddiw, a diolchaf ichi am y cyfle i'ch annerch. Dymunaf yn dda i'r Cynulliad, ac edrychaf ymlaen at glywed eich holl gyfraniadau ac awgrymiadau ynghylch sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella'r modd y caiff y wlad hon ei llywodraethu.

Nick Bourne: Croesawaf Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru ar ei hymweliad cyntaf i annerch Aelodau'r Cynulliad. Yr wyf yn siŵr mai hwn fydd y cyntaf o nifer o ymweliadau. Yr wyf hefyd yn ymuno â hi, fel y bydd Aelodau eraill y Cynulliad hefyd yr wyf yn siŵr, i roi teyrnged i'n lluoedd arfog, yn ddyinion ac yn fenywod, sy'n gwasanaethu o gwmpas y byd, ond yn enwedig yn Affganistan. Ymddengys fod hwn hefyd yn amser da i longyfarch Carwyn Jones ar gael ei wneud yn aelod o'r Cyfrin Gyngor, ac i Mike German, sy'n ymuno â ni yn awr fe welaf, ar gael ei urddo'n arglwydd. Mae hynny i gyd yn newyddion da iawn i'r Cynulliad, i Gymru ac i wleidyddiaeth ehangach Cymru.

Secretary of State, the accent on respect and your offer to come here more often than any of your predecessors to answer questions is welcome, and I hope that that receives an echo around the Chamber. It is a valuable opportunity for Members to ask about matters that affect Wales but that are being dealt with at Westminster. Similarly, the offer of the Prime Minister—and it was an offer—and of other Ministers, such as Danny Alexander, who is coming to the Finance Committee, are bound to ensure that things work more smoothly between these institutions. There will be pinch points, as there were when we had Governments of the same complexion in both Westminster and in Cardiff. I will deal with the matters that you dealt with in the statement, Secretary of State, and more or less in the order that you raised them. I turn first to the referendum. Could you confirm—having spoken to all party leaders, the Presiding Officer and many other institutions in Wales—that it is your intention, come what may, that the referendum will not be held on the same day as the Assembly election? Could you also confirm that, as far as you are concerned, it is a case of full steam ahead for the first quarter of 2011, and that that looks like the almost inevitable and likely outcome?

I now move on to the deficit, which is clearly the biggest challenge facing the Government in Westminster. I refer to the inherited debt, which is approaching—if left unchecked—£1 trillion. Will you confirm that the offer of deferring the present cuts from this year to next year is still available, and could you give an indication of how long that offer will be open and what the likely resolution will be, given that we are pressing the Government here to take up that offer, or at least to respond to it in a positive way?

I now move on to the funding issue. You mentioned, quite rightly, the Holtham issue. It is good that, for the first time ever, a United Kingdom Government has pledged to revise the Barnett formula. That has never happened before. Could you indicate whether you are having discussions with parties at Westminster, given the on-record comments

Ysgrifennydd Gwladol, mae eich pwyslais ar barch a'ch cynnig i ddod yma'n amlach na'r un o'ch rhagflaenwyr i ateb cwestiynau i'w croesawu, a gobeithiaf y caiff hynny ei adleisio o gwmpas y Siambr. Mae'n gyfle gwerthfawr i Aelodau ofyn cwestiynau am faterion sy'n effeithio ar Gymru ond yr ymdrinnir â hwy yn San Steffan. Yn yr un modd, mae'n siŵr y bydd y cynnig a wnaed gan Brif Weinidog y DU—a chynnig ydoedd—a Gweinidogion eraill, megis Danny Alexander sy'n dod i'r Pwyllgor Cyllid, yn sicrhau bod pethau'n gweithio'n fwy hwylus rhwng y sefydliadau hyn. Bydd tyndra'n bodoli, fel yr oedd yn bodoli pan oedd gennym Lywodraethau o'r un lliw yn San Steffan a Chaerdydd. Yr wyf am ymdrin â'r materion y bu ichi ymdrin â hwy yn y datganiad, Ysgrifennydd Gwladol, a hynny yn y drefn yr oeddech wedi'u codi, fwy neu lai. Yn gyntaf, trof at y refferendwm. A allech gadarnhau—ar ôl siarad â phob un o arweinwyr y pleidiau, y Llywydd a nifer o sefydliadau eraill yng Nghymru—mai eich bwriad, doed a ddelo, yw peidio â chynnal y refferendwm ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad? A allech hefyd gadarnhau, o'ch rhan chi, ei bod yn fater o fwrw ymlaen ar frys ar gyfer chwarter cyntaf 2011, ac mai hynny yw'r canlyniad sy'n ymddangos yn debygol a bron yn anochel?

Symudaf ymlaen yn awr at y diffyg, ac mae'n amlwg mai hon yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r Llywodraeth yn San Steffan. Cyfeiriaf at y ddyled sydd wedi'i hetifeddu, sy'n agosáu at £1 triliwn—os na eir i'r afael â hi. A wnewch chi gadarnhau bod y cynnig i ohirio'r toriadau presennol o eleni i'r flwyddyn nesaf ar gael o hyd, ac a allech roi syniad inni o ba mor hir y bydd y cynnig hwnnw ar gael a beth fydd y penderfyniad tebygol, o gofio ein bod yn pwyso ar y Llywodraeth yn y fan hon i dderbyn y cynnig hwnnw, neu o leiaf i ymateb i'r cynnig hwnnw mewn modd cadarnhaol?

Yr wyf am symud ymlaen yn awr at ariannu. Bu ichi sôn am Holtham, ac yr oeddech yn iawn i wneud hynny. Mae'n beth da i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, am y tro cyntaf erioed, addo adolygu fformiwla Barnett. Nid yw hynny erioed wedi digwydd o'r blaen. A allech ddweud a ydych yn cael trafodaethau â phleidiau yn San Steffan, o

this year of the outgoing Chancellor, Alistair Darling, and the outgoing Chief Secretary to the Treasury, Liam Byrne? They both said that they thought that Barnett served Wales well. Clearly, agreement among the parties at Westminster, as there is agreement here, would make it that much easier to change, once we approach that question.

I will now deal with two issues that I do not think were covered in the statement but that are important to people across Wales. I wish to seek confirmation of the coalition Government's approach to these issues. I understand that the link between pensions and earnings is to be restored from April 2011, during the next tax year. Also, I believe that the £10,000 personal allowance is to be introduced. Those would both be very welcome pieces of news in Wales, if you were able to confirm that.

Lastly, in terms of the policy areas that you covered, Secretary of State, I would like to deal with an important issue that was aired here yesterday, and which is part of the libertarian agenda. Many Members, across party lines—not just those within the parties that are in Government in Westminster—would agree with this point. You mentioned that the scrapping of ID cards was the only piece of legislation affecting Wales to receive a Second Reading. Also, I pressed the Government here yesterday—specifically, Carl Sargeant, the Minister for Social Justice and Local Government; sadly, he is not here at the moment—about whether it is in favour of retaining DNA samples of innocent people. Carl Sargeant said that he would write to me on the issue, as though it was an issue that did not demand an immediate response of, 'Yes, of course we want this to be scrapped'. Will you confirm that it is the Government's intention that the DNA samples of innocent individuals will no longer be held?

In conclusion, Secretary of State, the way that you have approached this task—your openness, your visits to Wales and your indication that you will engage with the Assembly—is the appropriate response. It

gofio'r sylwadau a wnaed ar goedd eleni gan y cyn-Ganghellor, Alistair Darling, a chyn-Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, Liam Byrne? Dywedodd y ddau ohonynt eu bod o'r farn bod fformiwla Barnett yn gwasanaethu Cymru'n dda. Yn amlwg, byddai cael cytundeb ymysg y pleidiau yn San Steffan, gan y ceir cytundeb yn y fan hon, yn ei gwneud gymaint yn haws i'w newid, pan fyddwn yn dod at hynny.

Yn awr, yr wyf am ymdrin â dau fater nad wyf yn credu iddynt gael sylw yn y datganiad, ond sy'n bwysig i bobl ar draws Cymru. Dymunaf geisio cael cadarnhad ynghylch dull gweithredu'r Llywodraeth glymbleidiol o ran y materion hyn. Deallaf y bydd y cysylltiad rhwng pensiynau ac enillion yn cael ei adfer o fis Ebrill 2011, yn ystod y flwyddyn dreth nesaf. Deallaf hefyd y bydd y lwfans personol o £10,000 yn cael ei gyflwyno. Byddai'r ddau beth hyn yn cael eu croesawu'n fawr yng Nghymru, pe byddech yn gallu eu cadarnhau.

Yn olaf, o ran y meysydd polisi yr ydych wedi ymdrin â hwy, Ysgrifennydd Gwladol, hoffwn ymdrin â mater pwysig a gafodd ei drafod yma ddoe, ac sy'n rhan o'r agenda libertaraidd. Byddai nifer o Aelodau ar draws y pleidiau—nid y pleidiau hynny sydd mewn grym yn San Steffan yn unig—yn cytuno â'r pwynt hwn. Yr oeddech yn sôn mai dileu cardiau adnabod oedd yr unig ddarn o ddeddfwriaeth a oedd yn effeithio ar Gymru i gael ail ddarlleniad. Yr oeddwn hefyd wedi pwyso ar y Llywodraeth yma ddoe—yn benodol Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; yn anffodus, nid yw yma ar hyn o bryd—ynghylch a yw o blaid cadw samplau DNA pobl ddieuog. Dywedodd Carl Sargeant y byddai'n ysgrifennu ataf ynghylch hyn, fel pe bai'n fater nad oedd yn mynnu ymateb ar unwaith i'r perwyl, 'Wrth gwrs ein bod am roi diwedd ar hynny'. A wnewch chi gadarnhau mai bwriad y Llywodraeth yw na fydd samplau DNA pobl ddieuog yn cael eu cadw bellach?

I gloi, Ysgrifennydd Gwladol, mae eich agwedd at y dasg hon wedi bod yn briodol—eich didwylledd, eich ymweliadau â Chymru a'r arwydd a roesoch y byddwch yn ymgysylltu â'r Cynulliad—yn un briodol.

also, if I may say so, contrasts with the approach of at least some of your predecessors and is one that any fair-minded Assembly Member would welcome. With that, I very much welcome you here, and I hope that you can deal with the issues that I have raised.

Cheryl Gillan: Thank you for your warm welcome, Nick. We have worked very closely over the past four and a half years, while I was the shadow Secretary of State. I am looking forward to working with you and with the Liberal Democrat group, as I am with the Welsh Assembly Government and other Members of this Assembly.

3.20 p.m.

The referendum was the first thing on my desk when I came into the office. As you know, earlier this week, I made a written statement as I was not able to lay the Order before the 120 days laid down in the legislation. I have set out the reasons there, which I think everyone has accepted. On your specific question about holding a referendum on the same day as the Assembly election, I think that it is fair to say that I have had strong representations from all parties represented in the Assembly that that should not happen. I will do my very best not to let that happen. I have made it clear that, having inherited this responsibility, I take it very seriously. I think that the referendum should be held as rapidly as possible, in accordance with the wishes and requests of this Chamber. I am working with the First Minister and Assembly officials to agree on a question that can be put to the Electoral Commission to test over a 10-week period. I did not set the timetable for this referendum; it was laid down in legislation, and it is a complex process, but working through it will be the challenge for us as a team, if you like, so that the people of Wales can decide on their future. So, that date is not one that I have in mind. I would like to deliver it earlier, in accordance with the 'One Wales' agreement, which I think is the fair thing to do.

Mae hefyd, os caf ddweud, yn cyferbynnu ag agwedd o leiaf rhai o'ch rhagflaenwyr, ac mae'n agwedd y byddai unrhyw Aelod teg o'r Cynulliad yn ei chroesawu. Gyda hynny, estynnaf groeso cynnes ichi yma, a gobeithiaf y gallwch ymdrin â'r materion yr wyf wedi'u codi.

Cheryl Gillan: Diolch ichi am eich croeso cynnes, Nick. Yr ydym wedi cydweithio'n agos iawn dros y pedair blynedd a hanner diwethaf pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, yn yr un modd ag yr edrychaf ymlaen at gydweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad ac Aelodau eraill y Cynulliad hwn.

Y refferendwm oedd y peth cyntaf ar fy nesg pan ddechreuais yn y swydd. Fel y gwyddoch, yn gynharach yr wythnos hon gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig gan nad oeddwn wedi gallu cyflwyno'r Gorchymyn cyn y 120 diwrnod a bennir yn y ddeddfwriaeth. Yr wyf wedi egluro'r rhesymau yn y datganiad ysgrifenedig hwnnw, a chredaf i bawb eu derbyn. O ran eich cwestiwn penodol am gynnal refferendwm ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad, credaf ei bod yn deg dweud imi gael sylwadau cadarn gan bob un o'r pleidiau a gaiff eu cynrychioli yn y Cynulliad, i ddweud na ddylai hynny ddigwydd. Gwnaf fy ngorau glas i sicrhau na fydd hynny'n digwydd. Yr wyf wedi egluro fy mod yn cymryd hyn o ddifrif, wedi imi etifeddu'r cyfrifoldeb hwn. Credaf y dylid cynnal y refferendwm mor fuan ag sy'n bosibl, yn unol â dymuniadau a cheisiadau'r Siambur hon. Yr wyf yn gweithio gyda'r Prif Weinidog a swyddogion y Cynulliad i gytuno ar gwestiwn y gellir ei gyflwyno i'r Comisiwn Etholiadol i'w brofi dros gyfnod o 10 wythnos. Nid fi a osododd yr amserlen ar gyfer y refferendwm hwn; cafodd ei chyflwyno mewn deddfwriaeth, ac mae'n broses gymhleth, ond bydd gweithio trwy'r broses yn her inni fel tîm, os dymunwch, fel y gall pobl Cymru benderfynu ar eu dyfodol. Felly, nid yw'r dyddiad hwnnw yn un sydd gennyf mewn golwg. Hoffwn gynnal y refferendwm yn gynt, yn unol â'r cytundeb 'Cymru'n Un', a dyna'r peth teg i'w wneud

yn fy marn i.

On year-end flexibility, I had the advantage of watching the earlier questions on the screen, and I was delighted that the Minister had the opportunity to meet with the Chief Secretary to the Treasury. I hope that that will pave the way for further meetings; in fact, I know that it will. Given that the Assembly had already set its budget, when I was talking to the Chief Secretary to the Treasury, we were discussing the flexibility that you require—because you have set your budgets—and I think that that has been confirmed. I hope that that will be helpful.

We have said that we think that the Barnett formula is coming to the end of its life. However, in the coalition agreement, we have also said that our priority has to be the reduction of the deficit. We have been left in dire financial circumstances, and I think that it is fair to say that, having listened to the evidence that was given to the House of Lords committee in particular, there is no doubt that a needs-based formula is something that we will have to consider. We have the Holtham commission, which I referred to earlier and which was referred to in questions. I met Gerry Holtham when I was a shadow Secretary of State. I know that the second part of the report is coming next month. We will look at it very carefully. Of course, it is a report to the Assembly. Looking at the Barnett formula, saying that we know that it is coming to the end of its existence is further than any Government has gone before. Indeed, I remember watching three Labour Secretaries of State, from Wales, Northern Ireland and Scotland, giving evidence to that House of Lords committee saying that the Barnett formula was absolutely fine. I think that what Liam Byrne said was that

‘Wales is well funded...The Government has no plans to change the Barnett formula.’

That was only a few months ago. So we have moved on that.

O ran hyblygrwydd diwedd blwyddyn, cefais y fantais o wyllo'r cwestiynau ar y sgrîn yn gynharach, ac yr oeddwn wrth fy modd i'r Gweinidog gael y cyfle i gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Gobeithiaf y bydd hynny'n paratoi'r ffordd ar gyfer cyfarfodydd pellach; a dweud y gwir, gwn y bydd yn gwneud hynny. O gofio bod y Cynulliad eisoes wedi gosod ei gyllideb, pan oeddwn yn siarad â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, yr oeddem yn trafod yr hyblygrwydd y mae ei angen arnoch—oherwydd ichi osod eich cyllidebau—a chredaf fod hynny wedi'i gadarnhau. Gobeithiaf y bydd hynny'n ddefnyddiol.

Yr ydym wedi dweud ein bod yn credu bod fformiwla Barnett yn dod i ddiwedd ei hoes. Fodd bynnag, yn y cytundeb clymbleidiol, yr ydym hefyd wedi dweud bod yn rhaid i leihau'r diffyg fod yn flaenoriaeth inni. Yr ydym wedi cael ein gadael mewn sefyllfa ariannol enbyd, a chredaf ei bod yn deg dweud, ar ôl gwranddo ar y dystiolaeth a roddwyd i bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi yn benodol, nad oes amheuaeth na fydd yn rhaid inni ystyried fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Mae gennym gomisiwn Holtham, y cyfeiriaais ato'n gynharach ac y cyfeiriwyd ato yn y cwestiynau. Cyfarfûm â Gerry Holtham pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid. Gwn y bydd ail ran yr adroddiad yn cael ei chyhoeddi fis nesaf. Byddwn yn ei ystyried yn ofalus iawn. Wrth gwrs, adroddiad i'r Cynulliad ydyw. Mae ystyried fformiwla Barnett, a dweud ein bod yn gwybod ei bod yn dod i ddiwedd ei hoes yn mynd ymhellach nag y mae'r un Llywodraeth wedi mynd o'r blaen. Yn wir, cofiaf wyllo tri o Ysgrifenyddion Gwladol y Blaid Lafur, dros Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan ddweud nad oedd dim o'i le ar fformiwla Barnett. Credaf mai'r hyn a ddywedodd Liam Byrne oedd

Mae Cymru'n cael ei hariannu'n dda...Nid oes gan y Llywodraeth ddim cynlluniau i newid fformiwla Barnett.

Dim ond ychydig fisoedd yn ôl oedd hynny. Felly, yr ydym wedi symud ar hynny.

On the pension scheme, we have said that we will restore the earnings link for the basic state pension from April 2011, with a triple guarantee that pensions are raised by the higher of earning prices or by 2.5 per cent. Lastly, Nick, you raised the issue of the Identity Documents Bill and DNA samples. The Bill will scrap identity cards and abolish the national identity register. We are looking at all of these matters, but I think that all people who believe in liberal values will welcome this. That was a very important part of the manifestos in the lead up to the general election.

Rhodri Morgan: First, I wish to agree strongly with the new Secretary of State and share the warm enthusiasm that she expressed when she congratulated herself on being the first woman holder of the office of Secretary of State for Wales, since the post was established by Labour in 1964.

Three hours or so ago, I heard the Prime Minister having a bit of a go at the last Labour Government's strategic investment fund, saying that two-thirds of the proposed grants were in Labour-held marginal seats. I am not sure whether that means that, if the Conservatives won that seat, the promised grants would be honoured but that, if people continue to vote Labour, the Conservative Government would scrap them. However, on that principle, now that the Vale of Glamorgan has elected a Conservative Member of Parliament, can we expect to see the defence training academy going ahead? It would bring some 3,000 jobs to Wales. Similarly, can we expect to see the Conservative Government honour the commitment on the high-speed rail link all the way from Paddington to Swansea by 2017? Will the Government be honouring the guarantee to the Ford Motor Company for the £375 million loan from the European Investment Bank to support the proposed investments at its Bridgend engine plant, alongside those at Dagenham and Southampton?

O ran y cynllun pensiwn, yr ydym wedi dweud y byddwn yn adfer y cysylltiad ag enillion ar gyfer pensiwn sylfaenol y wladwriaeth o fis Ebrill 2011 ymlaen, gan warantu un o dri pheth, sef y bydd pensïynau'n cael eu codi yn ôl enillion, prisiau, neu gan 2.5 y cant, pa un bynnag yw'r uchaf. Yn olaf, Nick, yr oeddech yn sôn am y Mesur Dogfennau Adnabod a samplau DNA. Bydd y Mesur yn cael gwared ar gardiau adnabod ac yn dileu'r gofrestr genedlaethol o fanylion adnabod. Yr ydym yn ystyried yr holl faterion hyn, ond credaf y bydd pawb sy'n credu mewn gwerthoedd rhyddfrydol yn croesawu hyn. Yr oedd honno'n rhan bwysig iawn o'r manifestos yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol.

Rhodri Morgan: Yn gyntaf, hoffwn gytuno'n gryf â'r Ysgrifennydd Gwladol newydd, a rhannu'r brwdfrydedd cynnes a fynegwyd ganddi wrth iddi longyfarch ei hun ar fod y fenyw gyntaf i gael ei phenodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ers i'r swydd gael ei chreu gan y Blaid Lafur yn 1964.

Ryw dair awr yn ôl, clywais Brif Weinidog y DU yn beirniadu rhywfaint ar gronfa buddsoddi strategol y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, gan ddweud bod dwy ran o dair o'r grantiau arfaethedig mewn seddi ymylol a enillwyd gan y Blaid Lafur. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n golygu pe bai'r Ceidwadwyr yn ennill y seddi hynny, y byddai'r grantiau a addawyd yn cael eu rhoi ond y byddai Llywodraeth y Ceidwadwyr yn eu dileu pe bai pobl yn parhau i bleidleisio dros y Blaid Lafur. Fodd bynnag, o ran yr egwyddor honno, gan i Fro Morgannwg ethol Aelod Seneddol Ceidwadol erbyn hyn, a allwn ddisgwyl gweld yr academi hyfforddiant amddiffyn yn mynd rhagddi? Byddai'n dod ag oddeutu 3,000 o swyddi i Gymru. Yn yr un modd, a allwn ddisgwyl gweld y Llywodraeth Geidwadol yn anrhydeddu'r ymrwymiad ar gyfer y cyswllt rheilffordd gyflym yr holl ffordd o Paddington i Abertawe erbyn 2017? A fydd y Llywodraeth yn anrhydeddu'r warant a roddwyd i Gwmni Moduron Ford ar gyfer y benthyciad gwerth £375 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop i gefnogi'r buddsoddiadau arfaethedig yn ei ffatri foduron ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ochr yn ochr â'r buddsoddiadau yn Dagenham a

Southampton?

Finally, will the General Dynamics UK Ltd contract for the replacement of the Scimitar light tank remain in place—it was to be designed at Oakdale in the heart of the Gwent Valleys and would create at least 250 highly paid jobs—given that that project is something that the troops in Afghanistan are screaming out for?

Cheryl Gillan: Rhodri, I thank you for that generous and warm welcome. I had helpful and warm exchanges with you when you were First Minister and I wish you well now that you are back on the backbenches of the Assembly.

I will start off with the Vale of Glamorgan and your question on the defence academy. I think that there is a very strong case for the St Athan defence training establishment. It is important that we ensure that our troops get the best training. We need to equip them for their future roles. As Rhodri will know, a strategic defence and security review is going to be taking place and I cannot predict what that will show. However, the Government has shown that it is committed to ensuring that we get best value for money from all Government spending. Of course, our priority must be to equip our troops on the front line to the best of our ability, which I think is key. I was fortunate to visit St Athan and I have had many good exchanges with Metrix, and I certainly will be a champion for the defence training establishment. Of course, as Rhodri knows, that decision will rest with the Secretary of State for Defence and the Cabinet, in the way in which we will look at this review when it is completed.

On high-speed rail, I spend an awful lot of time on trains, and I am well aware of what the benefits could be. Transport is exceedingly important and the Secretary of State for Transport has recently announced that he is reviewing all contracts. There was a written statement and, as Rhodri knows, all spending commitments are under review, but we have pledged that we are going to take forward a high-speed rail link. I cannot say

Yn olaf, a fydd contract General Dynamics UK Ltd ar gyfer y tanc newydd i gymryd lle tanc ysgafn Scimitar yn cael ei gadw—bwriadwyd i'r gwaith dylunio ddigwydd yn Oakdale yng nghalon Cymoedd Gwent, a byddai'n creu o leiaf 250 o swyddi sy'n talu'n dda—o gofio bod taer angen y prosiect hwnnw ar y milwyr yn Affganistan?

Cheryl Gillan: Rhodri, hoffwn ddiolch ichi am y croeso hael a chynnes a gefais gennych. Cefais drafodaethau defnyddiol a chynnes gyda chi pan oeddech yn Brif Weinidog, ac yr wyf yn dymuno'n dda ichi a chithau'n ôl ar feinciau cefn y Cynulliad.

Dechreuaf trwy sôn am Fro Morgannwg, a'ch cwestiwn am yr academi amddiffyn. Credaf fod achos cryf iawn o blaid sefydliad hyfforddiant amddiffyn Sain Tathan. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod ein milwyr yn cael yr hyfforddiant gorau. Mae angen inni eu paratoi ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Fel y gŵyr Rhodri, cynhelir adolygiad strategol o amddiffyn a diogelwch, ac ni allaf ragweld beth fydd canlyniadau'r adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi dangos ei bod wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian o holl wariant y Llywodraeth. Wrth gwrs, rhaid mai'r flaenoriaeth inni yw paratoi ein milwyr ar y rheng flaen gorau y gallwn, a chredaf fod hynny'n allweddol. Yr oeddwn yn ddigon ffodus i ymweld â Sain Tathan, ac yr wyf wedi cael llawer o drafodaethau da gyda Metrix, a byddaf yn sicr yn dadlau o blaid y sefydliad hyfforddiant amddiffyn. Wrth gwrs, fel y gŵyr Rhodri, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a'r Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw, yn y modd y byddwn yn ystyried yr adolygiad hwn pan gaiff ei gwblhau.

O ran rheilffordd gyflym, yr wyf yn treulio llawer iawn o amser ar drenau, a gwn yn iawn beth allai'r manteision fod. Mae trafniadaeth yn hynod bwysig, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafniadaeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod yn adolygu pob contract. Cafwyd datganiad ysgrifenedig, ac fel y gŵyr Rhodri, mae'r holl ymrwymadau gwariant yn cael eu hadolygu, ond yr ydym wedi addo y byddwn

when that will happen as I stand here today, but I will make sure that I pass on his views to the Secretary of State for Transport so that he knows that it is not just my voice that is expressing that opinion, but a loud voice from the Assembly as well.

On EIB assistance to Ford, I think that it is fair to say that we recognise the key role that the automotive industry plays in Wales—Toyota and Ford have large plants here. Of course, there is also a large supply chain that supports them. So, we are not just talking about the jobs in the Toyota or Ford plants, but the hinterland to that, which is so important to people who work in Wales and their families. We are reviewing the commitments made after 1 January 2010, including the commitment to Ford. However, as I understand it, projects that offer good value for money and are consistent with the Government's priorities will go ahead. The Treasury has been asked to fast track this and I hope that a decision will be made soon. I understand the importance of this funding to Ford and I will emphasise the point to the Secretary of State for Business, Innovation and Skills—affectionately known as BIS—when I speak to him tomorrow. I will ensure that I get a letter back to you, Rhodri, telling you of my exchange on this subject.

On the point on General Dynamics, I think that you are referring to the future rapid effect system. I have visited General Dynamics and it is a very impressive company, doing some fantastic state-of-the-art work. Again, I will see if I can get further and better particulars on that and I will write to Rhodri with any more information, if there is any available.

3.30 p.m.

Kirsty Williams: I will begin by echoing the congratulations expressed by others in the Chamber, to the First Minister on his appointment to the Privy Council, to my colleague, Mike German, who will soon

yn symud ymlaen â chyswllt rheilffordd gyflym. Ni allaf ddweud pryd y bydd hynny'n digwydd wrth imi sefyll yma heddiw, ond byddaf yn siŵr o drosglwyddo ei safbwyntiau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fel y bydd yn gwybod nad fy llais i yn unig sy'n mynegi'r farn honno, ond llais cryf gan y Cynulliad yn ogystal.

O ran cael Banc Buddsoddi Ewrop i gynorthwyo Ford, credaf ei bod yn deg dweud ein bod yn cydnabod y rôl allweddol y mae'r diwydiant modurol yn ei chwarae yng Nghymru—mae gan Toyota a Ford ffatrioedd mawr yma. Wrth gwrs, ceir cadwyn gyflenwi fawr sy'n eu cefnogi hefyd. Felly, nid sôn am y swyddi yn ffatrioedd Toyota a Ford yn unig yr ydym, ond am yr hyn sy'n gefndir i hynny, sydd mor bwysig i bobl sy'n gweithio yng Nghymru a'u teuluoedd. Yr ydym yn adolygu'r ymrwymadau a wnaed ar ôl 1 Ionawr 2010, gan gynnwys yr ymrwymadau a wnaed i Ford. Fodd bynnag, yr wyf ar ddeall y bydd y prosiectau sy'n cynnig gwerth da am arian ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth yn mynd rhagddynt. Gofynnwyd i'r Trysorlys ystyried hyn yn gynt na'r arfer, a gobeithiaf y gwneir penderfyniad yn fuan. Deallaf bwysigrwydd yr arian hwn i Ford, a byddaf yn pwysleisio hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau pan fyddaf yn siarad ag ef yfory. Byddaf yn siŵr o ysgrifennu llythyr atoch, Rhodri, yn sôn wrthy ch am y trafodaethau yr wyf wedi'u cael ynghylch y mater hwn.

O ran General Dynamics, credaf eich bod yn cyfeirio at system effaith gyflym y dyfodol. Yr wyf wedi ymweld â General Dynamics, ac mae'n gwmni trawiadol iawn, sy'n gwneud gwaith ardderchog ar yr offer diweddaraf. Unwaith yn rhagor, caf weld a allaf gael mwy o fanylion a gwell fanylion ynghylch hynny, ac ysgrifennaf at Rhodri gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol, os oes gwybodaeth ychwanegol ar gael.

Kirsty Williams: Dechreuaf trwy adleisio'r llongyfarchiadau a fynegwyd gan eraill yn y Siambr i'r Prif Weinidog ar gael ei benodi'n Aelod o'r Cyfrin Gyngor, i'm cydweithiwr Mike German a fydd yn ein gadael yn fuan i

depart to the House of Lords—I am sure that he will be a huge asset to the deliberations on Welsh issues in that Chamber—and to you, Secretary of State, on your appointment to your office. As a fellow female politician, I welcome the fact that this is the first time that a woman has held this post. I also welcome your inclusion in the Cabinet—a Cabinet that, in my opinion, has too few women in it.

Thank you for your statement on the Queen's Speech this afternoon. This Queen's Speech has arisen out of the determination of the Conservatives and the Liberal Democrats to provide a stable Government for the United Kingdom, a new politics, and a commitment to address the dire state of the public finances and to pass powers back to communities. There are commitments in the speech to such issues as electoral reform, parliamentary reform and civil liberties, which have been long campaigned for by my predecessors in the Liberal Party and the Liberal Democrats in Wales. To be able to welcome these commitments in the Chamber today is a privilege.

However, with the privilege of high office comes huge responsibility. This Government, and this Queen's Speech, comes at a time of unprecedented challenges for our nation. The scale of the structural deficit has been confirmed only this week by the Office for Budget Responsibility as greater than anticipated. Only politicians who are determined to do their best ostrich impressions, with heads firmly in the sand, can claim that the deficit should not be tackled. I am not under any illusion that things will not be difficult and that Wales can escape being included in any deficit reduction package. Indeed, the Minister for Business and Budget this afternoon showed her willingness to play a constructive role in addressing the deficit.

However, Wales depends greatly on the public sector, and the Welsh people have long memories. We do not want to go back to the widespread cuts to public expenditure faced by previous generations, the

fynd i Dŷ'r Arglwyddi—yr wyf yn siŵr y bydd yn gaffaeliad mawr i'r trafodaethau ar faterion Cymreig yn y Siambr honno—ac ichi, Ysgrifennydd Gwladol, ar gael eich penodi i'ch swydd. Fel cyd-wleidydd benywaidd, croesawaf y ffaith mai hwn yw'r tro cyntaf i fenyw ddal y swydd hon. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith ichi gael eich cynnwys yn y Cabinet—sy'n Gabinet nad yw'n cynnwys digon o fenywod, yn fy marn i.

Hoffwn ddiolch ichi am eich datganiad ar Araith y Frenhines y prynhawn yma. Mae'r Araith hon gan y Frenhines wedi deillio o benderfyniad y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i ddarparu Llywodraeth sefydlog i'r Deyrnas Unedig, gwleidyddiaeth newydd, ac ymrwymiad i fynd i'r afael â chyflwr truenus cyllid cyhoeddus a rhoi'r grym yn ôl i gymunedau. Ceir ymrwymadau yn yr araith ynghylch materion megis diwygio etholiadol, diwygio seneddol a hawliau sifil, sy'n bynciau y mae fy rhagflaenwyr yn y Blaid Ryddfrydol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru wedi bod yn ymgyrchu drostynt ers amser maith. Mae'n fraint cael croesawu'r ymrwymadau hynny yn y Siambr heddiw.

Fodd bynnag, daw cyfrifoldeb enfawr gyda'r fraint o ddal swydd uchel. Daw'r Llywodraeth hon, a'r Araith hon gan y Frenhines, ar adeg pan fo'r wlad yn wynebu heriau hollol newydd. Dim ond yr wythnos hon y cadarnhaodd y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb fod maint y diffyg strwythurol yn fwy nag a ragwelwyd. Dim ond gwleidyddion sy'n benderfynol o wneud eu gorau i ddynwared estrys, gyda'u pennau'n ddwfn yn y tywod, all honni na ddylid mynd i'r afael â'r diffyg. Nid wyf yn fy nhwyllo fy hun na fydd pethau'n anodd ac y gall Cymru ddianc rhag cael ei chynnwys mewn unrhyw becyn i leihau'r diffyg. Yn wir, dangosodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y prynhawn yma ei pharodrydd i chwarae rôl adeiladol wrth fynd i'r afael â'r diffyg.

Fodd bynnag, mae Cymru'n dibynnu'n fawr ar y sector cyhoeddus, ac nid yw pobl Cymru'n anghofio'n hawdd. Nid ydym am fynd yn ôl i'r toriadau helaeth i wariant cyhoeddus a wynebwyd gan genedlaethau

consequences of which many of our communities are still living with. Therefore, what discussions have you had with your Cabinet colleagues to ensure that any deficit reduction package has the principles of fairness at its heart? Those principles should protect our most vulnerable communities, and the most vulnerable people living in them, especially in areas such as Wales, which depend greatly on the public sector.

On the referendum, I welcome that you have restated your commitment this afternoon to the referendum being held within the first three months of next year, and that you have ruled out the possibility of it being held on the polling day for the fourth Assembly. However, what progress has been made on the wording of a question for that referendum, and when do you anticipate being able to give that draft question to the Electoral Commission so that it can begin its work on testing the question with focus groups?

While we wait for that referendum to be held, there is an opportunity to devolve further powers to the Assembly. Much of the content of the Queen's Speech has yet to be published. We have yet to see the draft Bills, and, potentially, those Bills will give us the opportunity for framework powers that would see the swift devolution of further powers to the Assembly. What steps will you take to engage with the Welsh Assembly Government so that it can take up the opportunity to have that legislation drafted with framework powers included for Wales? What will your approach be to such requests, should they be made by the Welsh Assembly Government?

On the Holtham commission and funding, I welcome your statement this afternoon that the Barnett formula is coming to the end of its life. Some of us believe that it has already got there and is beginning to decay. However, I welcome the Treasury's commitment to a review—it is the first time that the Treasury has committed to a review of how the Assembly is funded. Will you confirm that that review will include more than just a reform of a funding formula and

blaenorol, ac y mae eu canlyniadau yn amlwg o hyd mewn llawer o'n cymunedau. Felly, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'ch cydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau bod egwyddorion tegwch wrth wraidd unrhyw becyn i leihau'r diffyg? Dylai'r egwyddorion hynny warchod ein cymunedau mwyaf agored i niwed, a'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n byw yn y cymunedau hynny, yn enwedig mewn ardaloedd megis Cymru, sy'n dibynnu'n fawr ar y sector cyhoeddus.

O ran y refferendwm, croesawaf y ffaith ichi ailddatgan eich ymrwymiad y prynhawn yma i gynnal y refferendwm yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn nesaf, a'r ffaith ichi ddiystyru'r posibilrwydd o'i gynnal ar ddiwrnod yr etholiad ar gyfer y pedwerydd Cynulliad. Fodd bynnag, pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth eirio cwestiwn ar gyfer y refferendwm hwnnw, a phryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn gallu rhoi'r cwestiwn drafft hwnnw i'r Comisiwn Etholiadol fel y gall ddechrau ar ei waith yn profi'r cwestiwn gyda grwpiau ffocws?

Wrth inni aros i'r refferendwm gael ei gynnal, ceir cyfle i ddatganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad. Yr ydym yn dal i aros i lawer o gynnwys Araith y Frenhines gael ei gyhoeddi. Yr ydym yn dal i aros i weld y Mesurau drafft, ac o bosibl, bydd y Mesurau hynny'n rhoi'r cyfle inni gael pwerau fframwaith a fyddai'n sicrhau bod mwy o bwerau'n cael eu datganoli i'r Cynulliad yn fuan. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i drafod â Llywodraeth y Cynulliad fel y gall fanteisio ar y cyfle i gael y ddeddfwriaeth honno wedi'i drafftio gyda phwerau fframwaith wedi'u cynnwys ar gyfer Cymru? Beth fydd eich dull gweithredu mewn ymateb i geisiadau o'r fath, os cânt eu gwneud gan Lywodraeth y Cynulliad?

O ran comisiwn Holtham ac ariannu, croesawaf eich datganiad y prynhawn yma bod fformiwla Barnett yn dod i ddiwedd ei hoes. Cred rhai ohonom ei bod wedi cyrraedd diwedd ei hoes yn barod, a'i bod yn dechrau darfod. Fodd bynnag, croesawaf ymrwymiad y Trysorlys i gynnal adolygiad—dyma'r tro cyntaf i'r Trysorlys ymrwymo i gynnal adolygiad o'r modd y caiff y Cynulliad ei ariannu. A wnewch chi gadarnhau y bydd yr adolygiad yn cynnwys mwy na diwygio

will also look at wider fiscal responsibility powers for the National Assembly for Wales?

I will now turn to some specifics. I very much welcome the commitment to raise income tax thresholds and the restoration of a link between earnings and the state pension, which was taken away by a previous Conservative Government and not addressed in 13 years of a Labour Government. I am delighted, therefore, to see that addressed here this afternoon. On the issue of pensions, I particularly welcome the commitment to the Equitable Life payments scheme Bill. There are estimated to be some 3,000 Equitable Life pension holders in Wales who have suffered financial hardship, and I very much welcome the fact that the recommendation by the Parliamentary ombudsman in 2008 that compensation should be paid to those individuals will finally be honoured by the new Government. The Equitable Life situation arose out of a failure of financial regulation. The financial reform Bill has yet to be published, and I note that the Chancellor of the Exchequer will make his speech to the Mansion House this evening, but do you agree that we must not miss the opportunity offered by the financial reform Bill to seriously get to grips with the regulatory failure that we have seen in the banking sector and which has led us to the current disastrous economic situation?

I also welcome the armed forces Bill. Wales has a proud history in the military. I represent a garrison town and constituency in which a huge number of armed forces personnel are based. Could you outline what you anticipate the increased support for serving personnel and their families will be in that Bill, and also, with regard to the freedom Bill, what effect do you believe that the Bill will have on the estimated 53,000 innocent Welsh people whose DNA is currently held on a Government database?

The parliamentary reform Bill will give us an opportunity to have a referendum on the alternative vote system. If successful, that will mean that fewer and fewer elections will be held under the first-past-the-post system.

fformiwl ariannu'n unig, ac y bydd hefyd yn ystyried rhoi pwerau ehangach i'r Cynulliad Cenedlaethol ym maes cyfrifoldeb ariannol?

Trof yn awr at rai pethau penodol. Croesawaf yn fawr yr ymrwymiad i godi'r trothwyon treth incwm ac adfer y cysylltiad rhwng enillion a phensiwn y wladwriaeth, a dorrwyd gan Lywodraeth Geidwadol flaenorol, ac na chafodd sylw yn ystod 13 blynedd o Lywodraeth Lafur. Yr wyf, felly, wrth fy modd o weld y mater hwnnw'n cael sylw yma'r prynhawn yma. O ran pensiynau, croesawaf yn arbennig yr ymrwymiad i'r Mesur cynllun taliadau Equitable Life. Amcangyfrifir bod oddeutu 3,000 o ddeiliaid pensiwn Equitable Life yng Nghymru sydd wedi dioddef caledi ariannol, a chroesawaf yn fawr y ffaith y bydd y Llywodraeth newydd, o'r diwedd, yn anrhydeddu'r argymhelliad a wnaed gan yr ombwdsmon Seneddol yn 2008, sef y dylid talu iawndal i'r unigolion hynny. Cododd sefyllfa Equitable Life o ganlyniad i'r ffaith bod y drefn reoleiddio ariannol wedi methu. Mae disgwyl i'r Mesur diwygio ariannol gael ei gyhoeddi o hyd, a sylwaf y bydd Canghellor y Trysorlys yn traddodi ei araith i'r Mansion House heno, ond onid ydych yn cytuno na allwn gollu'r cyfle a gynigir gan y Mesur diwygio ariannol i fynd i'r afael o ddirif â'r methiant yr ydym wedi'i weld yn y sector bancio o safbwynt rheoleiddio, ac sydd wedi arwain at y sefyllfa economaidd drychinebus sydd ohoni?

Croesawaf hefyd Fesur y lluoedd arfog. Mae Cymru'n falch o'i hanes milwrol. Yr wyf yn cynrychioli tref ac etholaeth lle ceir garsiwn a nifer mawr iawn o bersonél y lluoedd arfog. A allech amlinellu beth yr ydych yn rhagweld fydd yn y Mesur o ran rhoi rhagor o gefnogaeth i bersonél sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, a hefyd, o ran y Mesur rhyddid, pa effaith yr ydych yn credu y bydd y Mesur yn ei chael ar y bobl ddieuog yng Nghymru y mae eu DNA ar gronfa ddata'r Llywodraeth ar hyn o bryd, yr amcangyfrifir bod 53,000 ohonynt?

Bydd y Mesur diwygio seneddol yn rhoi cyfle inni gynnal refferendwm ar y system pleidlais amgen. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn golygu y bydd llai a llai o etholiadau'n cael eu cynnal dan y system y

Would you agree that that parliamentary reform Bill should give the Assembly the opportunity to alter its own voting system with regard to those of us who are currently elected under the first-past-the-post system, and that it might also give us the powers to look at how we elect local government in Wales? Do you recognise that there may be a need to look at the decoupling of constituencies for Westminster and National Assembly elections if there is to be a reduction in MPs and a change to electoral boundaries? Last, but not least, you will be aware that the coalition commitment gives a commitment to progressing the draft LCO on housing. The vast majority in the Chamber support that draft LCO greatly. Will you tell us what your intentions are with regard to it and when we could see those powers devolved to the National Assembly?

Cheryl Gillan: Thank you for your warm welcome and for the way in which you are engaging with the new political architecture of the Government at Westminster. I appreciate that it is unusual, but we can learn from the Assembly—the Assembly works with a coalition Government, and so I shall be watching and taking tips. I also thank you for your welcome as a woman. It was noted in the general election that you and I were the only women leaders who appeared on the platform; it is good to have a welcome from another woman and I am very proud to be the first woman to do this job. I hope that I will do justice to all the questions that you have raised. If I fail to do so, I will ensure that we write to you and cover the points that I miss.

3.40 p.m.

I will start with the points on constitutional reform. The parliamentary reform Bill will provide for fixed-term Parliaments, as we know, which will be a year longer than yours. It will also allow constituents to petition for a by-election if MPs are found guilty of serious wrongdoing, and it will also reduce the size

cyntaf i'r felin. A fydddech yn cytuno y dylai'r Mesur diwygio seneddol roi'r cyfle i'r Cynulliad newid ei system bleidleisio ei hun o safbwynt y rheini ohonom a gaiff ein hethol dan y system y cyntaf i'r felin ar hyn o bryd, ac y gallai hefyd roi'r pwerau inni ystyried sut yr ydym yn ethol llywodraeth leol yng Nghymru? A ydych yn cydnabod y gallai fod angen ichi ystyried torri'r cysylltiad rhwng etholaethau ar gyfer etholiadau San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol os bydd nifer yr Aelodau Seneddol yn lleihau ac os bydd ffiniau etholaethau'n newid? Yn olaf, ond nid y lleiaf, gwyddoch fod y cytundeb clymbleidiol yn rhoi ymrwymiad i symud y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai yn ei flaen. Mae mwyafrif llethol yr Aelodau yn y Siambr yn cefnogi'r Gorchymyn drafft hwnnw'n fawr. A wnewch chi ddweud wrthym beth yw eich bwriadau ar gyfer y gorchymyn a phryd y gallem weld y pwerau hynny'n cael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol?

Cheryl Gillan: Diolch ichi am eich croeso cynnes ac am y modd yr ydych yn ymwneud â saerñaeth wleidyddol newydd y Llywodraeth yn San Steffan. Yr wyf yn sylweddoli ei bod yn anarferol, ond gallwn ddysgu wrth y Cynulliad—mae'r Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth glymbleidiol, felly byddaf yn gwylio ac yn cymryd cynghorion. Hoffwn hefyd ddiolch ichi am y croeso yr ydych wedi'i roi imi fel menyw. Nodwyd yn yr etholiad cyffredinol mai chi a fi oedd yr unig arweinwyr benywaidd i ymddangos ar y llwyfan; mae'n beth da cael croeso gan fenyw arall, ac yr wyf yn falch iawn o fod y fenyw gyntaf i ymgymryd â'r swydd hon. Gobeithiaf y byddaf yn gwneud cyfiawnder â'r holl gwestiynau yr ydych wedi'u codi. Os na fyddaf yn gwneud hynny, byddaf yn sicrhau ein bod yn ysgrifennu atoch gan roi sylw i'r pwyntiau nad wyf wedi'u hateb.

Dechreuaf gyda'r pwyntiau ynghylch diwygio cyfansoddiadol. Bydd y Mesur diwygio seneddol yn darparu ar gyfer Seneddau cyfnod penodol, fel y gwyddom, a fydd flwyddyn yn hwy na'ch cyfnod chi. Bydd hefyd yn galluogi etholwyr i ddeisebu ar gyfer isetholiad os ceir Aelodau Seneddol

of the House of Commons. I do not think that anybody listening to this debate would argue for more highly-paid politicians, and we think that we need to reduce the size of the House of Commons. However, I am the first to appreciate the impact that this will have on the Assembly. Assembly seats have the same boundaries as those of Members of Parliament, and those seats are also dependent on local boundaries. We will have to look at this matter very carefully, and I hope to work with the Welsh Assembly Government and the Assembly to ensure that any impact on Wales and the political architecture of the boundaries is taken into consideration. We appreciate that that will be a major change.

On deficit reduction, it goes without saying that Wales has the second highest proportion of people employed in the public sector in the United Kingdom at 23.0 per cent; only Northern Ireland has a greater reliance on the public sector. It is important that our reliance on public sector employment must not be allowed to stop the private sector from thriving here. I have heard politicians of all political persuasions and across all Chambers, including my predecessor in this job, saying that the private sector needs encouragement, and that is right. Our priority has to be to concentrate our efforts. However, at the same time, we have to be very careful that the workforce in Wales does not bear a disproportionate amount of pain. I welcome, therefore, what the Deputy Prime Minister has said about looking at those areas that could be affected more, and I will certainly be taking that forward with him, as it is really important.

On the question to be asked in a referendum, no work was done on that question before I entered the department. That is a matter of fact. The first question that I asked of my officials was, 'Where is the work on the question, because it is quite a complex operation?', and they said that no work had been carried out on the question following the request for a referendum. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] It is a matter of fact; it is not an item for political point scoring. We

yn euog o gamymddwyn difrifol, a bydd hefyd yn lleihau maint Tŷ'r Cyffredin. Ni chredaf y byddai neb sy'n gwranddo ar y ddadl hon yn dadlau y dylid cael mwy o wleidyddion ar gyflogau mawr, a chredwn fod angen inni wneud Tŷ'r Cyffredin yn llai. Fodd bynnag, fi yw'r cyntaf i sylweddoli'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar y Cynulliad. Mae gan seddi'r Cynulliad yr un ffiniau â seddi'r Aelodau Seneddol, ac mae'r seddi hynny hefyd yn dibynnu ar ffiniau lleol. Bydd yn rhaid inni ystyried y mater hwn yn ofalus iawn, a gobeithiaf weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad i sicrhau y bydd unrhyw effaith ar Gymru a strwythur gwleidyddol y ffiniau'n cael eu hystyried. Yr ydym yn sylweddoli y bydd hynny'n newid sylweddol.

O ran lleihau'r diffyg, nid oes angen dweud mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf ond un o bobl yn y Deyrnas Unedig a gyflogir yn y sector cyhoeddus, gyda chyfran o 23.0 y cant; dim ond Gogledd Iwerddon sy'n dibynnu fwy ar y sector cyhoeddus. Mae'n bwysig na fydd ein dibyniaeth ar swyddi yn y sector cyhoeddus yn atal y sector preifat rhag ffynnu yma. Yr wyf wedi clywed gwleidyddion o bob argyhoeddiad gwleidyddol ac ar draws yr holl Siambrau, gan gynnwys fy rhagflaenydd yn y swydd hon, yn dweud bod angen anogaeth ar y sector preifat, ac mae hynny'n iawn. Rhaid inni roi blaenoriaeth i ganolbwyntio ein hymdrechion. Fodd bynnag, ar yr un pryd, rhaid inni fod yn ofalus iawn nad yw'r gweithlu yng Nghymru'n dioddef poen anghymesur. Felly, croesawaf yr hyn y mae Dirprwy Brif Weinidog y DU wedi'i ddweud ynghylch ystyried yr ardaloedd hynny a allai gael eu heffeithio fwyaf, a byddaf yn sicr yn trafod y pwynt hwnnw gydag ef, gan ei fod yn bwynt pwysig iawn.

O ran y cwestiwn a fydd yn cael ei ofyn mewn refferendwm, ni wnaed dim gwaith ar y cwestiwn hwnnw cyn imi ddechrau yn yr adran. Mae hynny'n ffaith. Y cwestiwn cyntaf imi ofyn i'm swyddogion oedd, 'Ble mae'r gwaith ar y cwestiwn, oherwydd mae'n waith eithaf cymhleth?', a dywedwyd wrthyf na wnaed dim gwaith ar y cwestiwn yn dilyn y cais am refferendwm. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Mae'n ffaith; nid yw'n fater o ennill pwyntiau gwleidyddol. Bu inni

started work on the question straight away. A project board was appointed, and one gap that I found in the project board was that nobody was on it representing the Welsh Language Board; I have redressed that issue, and have put someone on the project board from the Welsh Language Board. Although I am a Welsh learner, I do not have the expertise of those Members of the Assembly that are fluent in Welsh. I understand that having the Welsh Language Board there will help with the work on the question so that it is not that it is translated from English to Welsh, which would not be the correct way of going about it, but that the Welsh and English questions are developed side by side.

I think that the question is almost there; I am looking at the First Minister, as we have had discussions on it. I am trying to reach an agreement with the First Minister on it. Our officials are working closely together, and I would like to get that question, and the preamble, to the Electoral Commission as fast as possible to enable it to be tested. Ten weeks is an awfully long time, but the Electoral Commission has insisted on that amount of time. There were comments in the press that the Electoral Commission could cut that time; those comments were incorrect, and the Electoral Commission kindly sent a letter to that effect to the newspaper. The Electoral Commission needs 10 weeks to test the question, and it is important that we get this right for the people of Wales. We have to go with the procedure that I inherited, and I want to minimise the risk of judicial review, whatever the outcome of the referendum. That is most important. So that is where we are on the question.

Moving on, I have with me some outlines of the Bills that you mentioned, Kirsty. I think that we were all pleased to see the Equitable Life payments scheme Bill. We announced that we will make fair and transparent payments to Equitable Life policy holders through an independently-designed scheme. The Bill is the fulfilment of a manifesto promise to ensure a just resolution on this issue. I do not think that anybody in this

ddechrau gweithio ar y cwestiwn ar unwaith. Penodwyd bwrdd prosiect, ac un bwlch a welais yn y bwrdd prosiect oedd nad oedd neb arno'n cynrychioli Bwrdd yr Iaith Gymraeg; yr wyf wedi unioni'r mater hwnnw gan sicrhau bod rhywun o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y bwrdd prosiect. Er fy mod yn dysgu Cymraeg, nid oes gennyf yr arbenigedd sydd gan yr Aelodau hynny o'r Cynulliad sy'n rhugl yn y Gymraeg. Deallaf y bydd cael Bwrdd yr Iaith Gymraeg yno yn help wrth weithio ar y cwestiwn, gan y bydd y cwestiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd, yn hytrach na bod y cwestiwn yn cael ei gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, gan nad dyna fyddai'r ffordd gywir o fynd ynghylch y gwaith.

Credaf fod y cwestiwn bron yn barod; yr wyf yn edrych ar y Prif Weinidog, oherwydd inni gael trafodaethau ynghylch hyn. Yr wyf yn ceisio dod i gytundeb â'r Prif Weinidog ynghylch y cwestiwn. Mae ein swyddogion yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, a hoffwn gael y cwestiwn hwnnw, a'r rhagarweiniad, at y Comisiwn Etholiadol cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn i'r cwestiwn gael ei brofi. Mae deg wythnos yn amser hir iawn, ond mae'r Comisiwn Etholiadol wedi mynnu cael cymaint â hynny o amser. Cafwyd sylwadau yn y wasg y gallai'r Comisiwn Etholiadol gwtogi ar yr amser hwnnw; yr oedd y sylwadau hynny'n anghywir, a bu'r Comisiwn Etholiadol yn ddigon caredig i anfon llythyr yn esbonio hynny i'r papur newydd. Mae angen i'r Comisiwn Etholiadol gael 10 wythnos i brofi'r cwestiwn, ac mae'n bwysig ein bod yn cael hyn yn iawn er mwyn pobl Cymru. Rhaid inni fynd gyda'r drefn a etifeddiad, ac yr wyf am leihau'r risg o gael adolygiad barnwrol, waeth beth fo canlyniad y refferendwm. Mae hynny'n hynod o bwysig. Felly dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi o safbwynt y cwestiwn.

Gan symud ymlaen, mae gennyf rai manylion bras am y Mesurau y bu ichi sôn amdanynt, Kirsty. Credaf fod pob un ohonom yn falch o weld Mesur cynllun taliadau Equitable Life. Bu inni gyhoeddi y byddwn yn gwneud taliadau teg a thryloyw i ddeiliaid polisi Equitable Life trwy gynllun a gynlluniwyd yn annibynnol. Mae'r Mesur yn gwireddu addewid yn ein maniffesto i sicrhau y ceir ateb teg i'r broblem hon. Ni chredaf y byddai

Chamber would disagree that for those whose lives have been touched by this, and affected so badly in some cases, this must be dealt with as fast as possible, so I am pleased to report that back.

On the financial services regulation Bill and the Mansion House speech, I cannot pre-empt anything that the Chancellor will say in that speech, but it is obvious that we have to take some action on the banks. Indeed, our intention to place a levy on the banks is supported across the piece. Although there is no international agreement, we can press ahead with this on a unilateral basis.

On framework powers, in my statement, I tried to make it clear that I would like to see a change in the way in which I perceive business is done between the Assembly Government and the Westminster Government. Given that our legislative programme currently contains only 20 Bills and that our legislative timetable will cover 18 months because of the timing of the election, I would have thought that there would be an opportunity for you to input. We would consider carefully any proposals from the Welsh Assembly Government for LCOs or framework powers in the parliamentary Bills, which would enhance the powers of the National Assembly for Wales. We would also consider any LCOs proposed by Assembly Members and Assembly committees, subject, of course, to the Assembly itself supporting them. Powers have been devolved to the Assembly in a total of 76 areas to date and I see no reason why, even with the referendum coming down the line, that should change.

It is important to look at all of the Bills coming forward and for any Member of the Assembly who wishes to do so to have the opportunity to input into those. However, I hope that the Welsh Assembly Government and the First Minister will also have that opportunity. That is the agenda of mutual respect that I would like to see between our two institutions.

neb yn y Siambr hon yn anghytuno bod yn rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted ag sy'n bosibl ar gyfer y sawl y mae'r mater hwn wedi cyffwrdd â'u bywydau, ac wedi effeithio cynddrwg arnynt mewn rhai achosion, felly yr wyf yn falch o adrodd yn ôl ynghylch hynny.

O ran y Mesur rheoleiddio gwasanaethau ariannol a'r araith yn Mansion House, ni allaf achub y blaen ar ddim y bydd y Canghellor yn ei ddweud yn yr araith honno, ond mae'n amlwg bod yn rhaid inni gymryd rhyw fath o gamau gweithredu o ran y banciau. Yn wir, ceir cefnogaeth gyffredinol i'n bwriad i godi ardoll ar y banciau. Er na cheir cytundeb rhyngwladol, gallwn fwrw ymlaen â hyn ar ein pen ein hunain.

O ran pwerau fframwaith, yn fy natganiad ceisiais egluro y byddwn yn hoffi gweld newid yn y modd yr wyf yn tybied y caiff busnes ei wneud rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan. O gofio mai dim ond 20 mesur sydd yn ein rhaglen ddeddfwriaethol ar hyn o bryd, ac y bydd ein hamserlen ddeddfwriaethol yn para 18 mis oherwydd amseriad yr etholiad, byddwn wedi meddwl y byddai cyfle'n codi i chi gyfrannu i'r broses. Byddem yn ystyried yn ofalus unrhyw gynigion gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol ar bwerau fframwaith yn y Mesurau seneddol, a fyddai'n ehangu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddem hefyd yn ystyried unrhyw Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a gynigir gan Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau'r Cynulliad, pe bai'r Cynulliad ei hun yn eu cefnogi wrth gwrs. Mae pwerau wedi'u datganoli i'r Cynulliad mewn cyfanswm o 76 maes hyd yn hyn, ac ni allaf weld dim rheswm pam y dylai hynny newid, hyd yn oed gyda'r refferendwm sydd ar ddod.

Mae'n bwysig ystyried yr holl Fesurau a gaiff eu cyflwyno, ac yn bwysig bod pob Aelod sy'n dymuno gwneud hynny yn cael y cyfle i gael mewnbwn i'r Mesurau hynny. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad a'r Prif Weinidog yn cael y cyfle hwnnw hefyd. Dyna'r agenda o barch y naill at y llall yr hoffwn ei gweld rhwng y ddau sefydliad sydd gennym.

On the draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010, which is important, the previous Government did not find time to complete the job on that. *[Interruption.]* I am being perfectly fair. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. This is a statement. There will be plenty of opportunities, not only to question this statement, but to disagree amicably with the Secretary of State in the debate.

Cheryl Gillan: I am being perfectly fair about this. The last Government had a majority and plenty of time. It could have put the draft affordable housing LCO through before the wash-up period, but it chose not to. Therefore, it was a position that I inherited. I am committed to taking forward that draft LCO, which has been spelled out in our programme for Government and there is no doubt about it. However, I need to go through the processes. I have inherited it from the last Government and, therefore, I have asked the Minister in our department to meet with our Minister for housing and with the Minister for housing here, at which point we will decide how to progress this. That is the fairest way and the correct way to go about it. I know that my deputy, David Jones, will meet the Assembly's Minister for Environment, Sustainability and Housing next Monday to take matters forward when I hope that we will be able to look at what the position is.

Kirsty, I hope that I have covered everything that you asked. If I have missed anything, I apologise. I have been doing my best to answer you comprehensively. If you find that I have not covered something that needs to be covered, then I would be willing to drop you a line on those questions afterwards.

Helen Mary Jones: On behalf of Plaid

O ran Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010, sy'n bwysig, ni ddaeth y Llywodraeth flaenorol o hyd i'r amser i gwblhau'r gwaith ar hynny. *[Torri ar draws.]* Yr wyf yn bod yn hollol deg. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Datganiad yw hwn. Bydd digon o gyfle yn y ddadl i ofyn cwestiynau am y datganiad hwn, ac anghytuno'n gyfeillgar â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cheryl Gillan: Yr wyf yn bod yn hollol deg ynghylch hyn. Yr oedd gan y Llywodraeth ddiwethaf fwyafrif a digon o amser. Gallai fod wedi cyflwyno'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai fforddiadwy cyn y cyfnod cau pen y mwdwl, ond dewisodd beidio â gwneud hynny. Felly, yr oedd yn sefyllfa a etifeddais. Yr wyf wedi ymrwymo i symud y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwnnw yn ei flaen, ac mae hynny wedi'i egluro yn ein rhaglen ar gyfer Llywodraeth ac nid oes dim amheuaeth yn ei gylch. Fodd bynnag, mae angen imi fynd trwy'r prosesau. Yr wyf wedi etifeddu'r sefyllfa wrth y Llywodraeth ddiwethaf, ac felly, yr wyf wedi gofyn i'r Gweinidog yn ein hadran gyfarfod â'n Gweinidog dros dai ac â'r Gweinidog dros dai yn y fan hon, ac yna byddwn yn penderfynu sut i symud hyn yn ei flaen. Dyna'r ffordd decaf a'r ffordd gywir o fynd ati. Gwn y bydd fy nirprwy, David Jones, yn cyfarfod â Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ddydd Llun nesaf i symud materion yn eu blaen, a gobeithiaf y byddwn yn gallu edrych i weld beth yw'r sefyllfa bryd hynny.

Kirsty, yr wyf yn gobeithio imi ymdrin â phopeth yr ydych wedi gofyn imi ymdrin ag ef. Mae'n flin gennyf os wyf wedi colli unrhyw beth. Yr wyf wedi gwneud fy ngorau i'ch ateb mewn modd cynhwysfawr. Os sylwch nad wyf wedi ymdrin â rhywbeth y mae angen ymdrin ag ef, yna byddwn yn barod i anfon gair atoch i ateb y cwestiynau hynny wedyn.

Helen Mary Jones: Ar ran Plaid Cymru,

Cymru—The Party of Wales, I wish the Secretary of State well in her role as a female politician. I am always glad to see any woman in a senior role, but of course, what is important is not who the person is, but what she has done in that role. I, along with others, also endorse the tribute made by the Secretary of State and others to Welsh servicemen and women. I would submit to the Secretary of State that the best way to show our respect and support for those soldiers is to bring them home from an unjust and unwinnable war. In the meantime, I am pleased to endorse what you said about trying to ensure that those troops, while they are there, are properly protected and properly equipped.

3.50 p.m.

To pick up on some of your specific points, you rightly ask us to accept that Wales will have to play its part in dealing with the deficit, but I am unclear from your response to other Members with regard to the statement whether or not you accept that Wales is already substantially underfunded. In the light of what you have said in response to Kirsty Williams's points about the dependence of Wales on the public sector, I draw to your attention the fact that the Holtham commission has reported on the first part of its work, which relates to the Barnett formula. I ask you to reconsider postponing your further discussions on the Barnett formula until the second report has been issued. I know that it is only a matter of weeks, but in respect of setting the agenda and determining what we believe would amount to a double set of cuts for Wales, as the cuts have to be made to a budget that is already underfunded, I would suggest to the Secretary of State that, while it is reasonable for us to play our part, it is not reasonable for some of the poorest communities in these islands to pay more than their part for a deficit for which, irrespective of whichever of you was responsible for it, the people of Wales are clearly not responsible.

I would also put it to the Secretary of State—and I endorse much of what she said about

hoffwn ddymuno'n dda i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei rôl fel gwleidydd benywaidd. Yr wyf bob amser yn falch o weld unrhyw fenyw mewn swydd uchel, ond wrth gwrs, nid pwy yw'r unigolyn sy'n bwysig, ond beth y mae wedi'i wneud yn y rôl honno. Yr wyf finnau, fel sawl un arall, yn ategu'r deyrnged a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac eraill i'r milwyr o Gymru. Byddwn yn argymhell i'r Ysgrifennydd Gwladol mai'r ffordd orau o ddangos ein parch a'n cefnogaeth i'r milwyr hynny yw trwy ddod â hwy adref o ryfel anghyfiawn na ellir ei ennill. Yn y cyfamser, yr wyf yn falch o ategu'r hyn a ddywedwyd gennych ynghylch ceisio sicrhau bod y milwyr hynny'n cael eu hamddiffyn yn iawn a bod ganddynt y cyfarpar priodol tra byddant yno.

Hoffwn gyfeirio at rai o'r pwyntiau penodol a wnaed gennych. Yr ydych yn iawn i ofyn inni dderbyn y bydd Cymru'n gorfod chwarae ei rhan wrth ymdrin â'r diffyg, ond nid wyf yn siŵr o glywed eich ymateb i Aelodau eraill i'r datganiad a ydych yn derbyn ai peidio bod Cymru eisoes yn cael ei thanariannu'n sylweddol. O gofio'r hyn a ddywedwyd gennych mewn ymateb i bwyntiau Kirsty Williams ynghylch dibyniaeth Cymru ar y sector cyhoeddus, hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith i gomisiwn Holtham adrodd ar ran gyntaf ei waith, sy'n ymwneud â fformiwla Barnett. Gofynnaf ichi ailystyried gohirio eich trafodaethau pellach ar fformiwla Barnett nes i'r ail adroddiad gael ei gyhoeddi. Gwn mai dim ond mater o ychydig wythnosau yw hynny, ond o ran gosod yr agenda a dod i benderfyniad ynghylch yr hyn a fyddai, yn ein barn ni, yn ddwy set o doriadau i Gymru, gan fod yn rhaid gwneud toriadau i gyllideb sydd eisoes yn cael ei thanariannu, byddwn yn awgrymu i'r Ysgrifennydd Gwladol er ei bod yn rhesymol inni chwarae ein rhan, nid yw'n rhesymol i rai o'r cymunedau tlotaf yn yr ynysoedd hyn dalu mwy na'u cyfran am ddiffyg y mae'n amlwg nad yw pobl Cymru'n gyfrifol amdano, waeth pa un bynnag ohonoch chi oedd yn gyfrifol amdano.

Yr wyf hefyd am ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol—ac yr wyf yn ategu

the need for the private sector to be enabled to grow—that the private sector in my constituency is heavily dependent on contracts with the public sector. I would ask her to take that into account when she considers whether or not she can move more swiftly on reviewing the Barnett formula. I am sure that the Secretary of State will be aware that Gerry Holtham has described as ‘surreal’ any suggestion that the deficit must be reduced before revising the Barnett formula, because the Barnett formula could, in fact, save money for the Treasury. He says—and it is his word, and not mine—that it is ‘surreal’ to delay that until the deficit is dealt with. I would be grateful for the Secretary of State’s views on that.

I was pleased to hear what the Secretary of State said today with regard to her work with her team in Whitehall on Wales’s behalf. That is encouraging, and, again, the proof of the pudding will be in the eating. I hope that the Secretary of State will forgive me if I ask a few process-related questions. How many times have issues relating directly to Wales been discussed around the Cabinet table in a full Cabinet meeting? I am sure that she has regular meetings with individual Cabinet colleagues on Wales’s behalf, but I feel that it is important that the needs of Wales are at the centre of the process. In addition to the referendum—and I am very glad that that has been set out as a priority, today and previously—what are her other priorities for Wales in the forthcoming year? Reference has already been made to the housing legislative competence Order, and I have a further question that I would like to ask about that. If the Secretary of State has priorities for this year other than the referendum for Wales, can she explain why those are not set out in the Queen’s Speech? Can she tell us little more about what those might be?

Turning to the referendum—we can all talk forever about whose fault it is that nothing much has happened yet, and I concur that we now need progress—has the Secretary of State taken the opportunity to study the

llawer o’r hyn a ddywedodd am yr angen i alluogi’r sector preifat i dyfu—bod y sector preifat yn fy etholaeth i yn dibynnu’n helaeth ar gontractau gyda’r sector cyhoeddus. Byddwn yn gofyn iddi gofio hynny wrth iddi ystyried a all symud yn gynt ar adolygu fformiwla Barnett ai peidio. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwybod i Gerry Holtham ddisgrifio unrhyw awgrym bod yn rhaid i’r diffyg gael ei leihau cyn adolygu fformiwla Barnett yn ‘swrreal’, oherwydd mewn gwirionedd, gallai fformiwla Barnett arbed arian i’r Trysorlys. Dywed—a’i air ef ydyw, nid fy ngair i—ei fod yn ‘swrreal’ oedi nes bydd y diffyg wedi cael sylw. Byddwn yn ddiolchgar am gael barn yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch hynny.

Yr oeddwn yn falch o glywed yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol heddiw ynghylch ei gwaith ar ran Cymru gyda’i thîm yn Whitehall. Mae hynny’n galonogol, ac unwaith eto, wrth ei flas y bydd profi’r pwdin. Gobeithiaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn maddau imi am ofyn rhai cwestiynau sy’n ymwneud â phrosesau. Sawl gwaith y mae materion sy’n ymwneud yn uniongyrchol â Chymru wedi cael eu trafod o amgylch bwrdd y Cabinet mewn cyfarfod o’r Cabinet llawn? Yr wyf yn siŵr ei bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd ar ran Cymru gyda chydweithwyr unigol yn y Cabinet, ond teimlaf ei bod yn bwysig bod anghenion Cymru yn ganolog i’r broses. Yn ogystal â’r refferendwm—ac yr wyf yn falch iawn bod hwnnw wedi’i bennu’n flaenoriaeth, heddiw ac o’r blaen—beth yw ei blaenoriaethau eraill ar gyfer Cymru yn ystod y flwyddyn sydd i ddod? Cyfeiriwyd eisoes at y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch tai, ac mae gennyf gwestiwn arall yr hoffwn ei ofyn am hwnnw. Os oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol flaenoriaethau heblaw’r refferendwm ar gyfer Cymru eleni, a all esbonio pam na chafodd y rheini eu nodi yn Araith y Frenhines? A all ddweud ychydig yn rhagor wrthym ynghylch beth y gallai’r rheini fod?

Gan droi at y refferendwm—gall pob un ohonom siarad yn ddiddiwedd am bwy sydd ar fai am y ffaith nad oes fawr ddim wedi digwydd eto, a chytunaf fod angen inni symud ymlaen yn awr—a yw’r Ysgrifennydd

recommendations of the All Wales Convention, which gives us some useful steers as to how we could produce a question that would set out the issues clearly? If she has not had an opportunity to do so yet, I encourage her to do so now. She may very well have done so in her time as the shadow Secretary of State for Wales.

I was pleased by most of what the Secretary of State said with regard to the referendum in her original statement. Reference was made to being able to deliver within the timeframe, 'all things being equal'. I hope that I am not being overly sceptical in having some concerns as to what might be unequal, and I wonder whether the Secretary of State could clarify whether she is in fact confident that she will be able to deliver the referendum to the timescale that she has now set out. Can she confirm that that will be a priority? Can she enlighten us as to what things might not be equal and what things might get in the way, so that all of us in the Chamber, in all parties, can assist her with regard to moving that forward?

With regard to the draft housing legislative competence Order, history will tell the story and I do not propose to get into a fight with the Secretary of State about that today. My understanding was that the previous Government was unable to complete it because Conservative colleagues were unhappy to put it through the wash-up. That may or may not be the case, but is the Secretary of State aware that the time frame for progressing the draft legislative competence Order is sensitive? Unless it is progressed swiftly, the parties in Government in the Assembly will be unable to make good on their manifesto commitment to bring forth a housing Measure. In that context, will the Secretary of State outline what processes are still outstanding? I should stress that this is not my area of expertise, and there may be formal processes that need to be completed. However, my understanding was that the formal processes were almost at an end, so it would be helpful if the Secretary of State explained what remains to be done. Again, I press on her the need for a time frame to

Gwladol wedi achub ar y cyfle i astudio argymhellion Confensiwn Cymru Gyfan, sy'n rhoi rhai canllawiau defnyddiol inni ynghylch sut y gallem lunio cwestiwn a fyddai'n esbonio'r materion yn glir? Os nad yw wedi cael cyfle i wneud hynny eto, hoffwn ei hannog i wneud hynny'n awr. Hwyrach iddi wneud hynny yn ystod y cyfnod pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid dros Gymru.

Yr oeddwn yn falch o glywed y rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol am y refferendwm yn ei datganiad gwreiddiol. Cyfeiriwyd at allu cynnal y refferendwm o fewn yr amserlen, 'os bydd y sefyllfa'n aros fel y mae'. Gobeithiaf nad wyf yn bod yn rhy amheus wrth bryderu ychydig am ba agweddau ar y sefyllfa a allai newid. Tybed a allai'r Ysgrifennydd Gwladol egluro a yw mewn gwirionedd yn hyderus y bydd yn gallu cynnal y refferendwm yn unol â'r amserlen y mae wedi'i phennu erbyn hyn. A all gadarnhau y bydd hynny'n flaenoriaeth? A all ein goleuo ynghylch pa agweddau ar y sefyllfa a allai newid a pha agweddau a allai atal y broses, er mwyn i bob un ohonom yn y Siambr, ym mhob plaid, allu ei chynorthwyo i symud y mater hwnnw yn ei flaen?

O ran y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai, bydd hanes yn adrodd y stori, ac nid wyf yn bwriadu dadlau â'r Ysgrifennydd Gwladol amdano heddiw. Yr oeddwn i ar ddeall bod y Llywodraeth flaenorol wedi methu â chwblhau'r gwaith am nad oedd cydweithwyr Ceidwadol yn fodlon ymdrin ag ef wrth gau pen y mwdwl yn San Steffan. Wn i ddim a yw hynny'n wir, ond a yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod yr amserlen ar gyfer symud y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn ei flaen yn sensitif? Oni chaiff ei symud ymlaen yn fuan, ni fydd y pleidiau sydd mewn Llywodraeth yn y Cynulliad yn medru cyflawni eu hymrwymiad yn eu maniffesto i gyflwyno Mesur ynghylch tai. Yn y cyd-destun hwnnw, a wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol amlinellu pa brosesau sy'n parhau'n weddill? Dylwn bwysleisio nad yw hwn yn faes yr wyf yn arbenigo ynddo, ac efallai fod prosesau ffurfiol i'w cwblhau. Fodd bynnag, yr oeddwn i ar ddeall bod y prosesau ffurfiol bron ar ben, felly byddai'n ddefnyddiol pe

complete this work, otherwise the manifesto commitments of the Assembly's governing parties cannot be met. I am sure that the Secretary of State would agree that that would be a clear breach of the respect agenda, which she has welcomed.

To refer to two issues in the Queen's Speech that do not impact on Wales alone, why is the Government proposing to bring forward a referendum on the alternative vote system, when it is my understanding that that was not the electoral system in either of the manifestos of the parties in Government? Far be it for me to intrude on private negotiations, but it seems that the norm in forming a coalition is that you look at what is in the parties' manifestos and agree on it. With something as fundamental as electoral reform, it seems slightly odd that you are proposing a system that neither of you originally wanted. That said, I endorse the points made by Kirsty Williams and ask you to consider whether this may be an opportunity to devolve additional powers to the Assembly with regard to the way in which we are elected and local government is elected.

Finally, with regard to ending the detention of children for immigration purposes, can the Secretary of State confirm that this does not mean the end of incarcerating families for immigration purposes? This is a serious issue, because we have asylum-seeking families here, and churches have reported to many Assembly Members some horrendous stories of families with children being taken away from their homes in the middle of the night by the immigration services. Does this proposal end the incarceration of families with children, or not? Does she agree that if all it does is to end the incarceration of lone asylum-seeking children, effectively it does nothing because it has been the norm for some years to treat those children through the child protection system?

Cheryl Gillan: Thank you again for your

gallai'r Ysgrifennydd Gwladol esbonio beth sydd ar ôl i'w wneud. Unwaith eto, tynnaf ei sylw at yr angen am amserlen i gwblhau'r gwaith hwn, oherwydd fel arall, ni fydd modd cyflawni'r ymrwymadau ym maniffesto'r pleidiau sy'n llywodraethu yn y Cynulliad. Yr wyf yn siŵr y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno y byddai hynny'n mynd yn gwbl groes i'r agenda o ran parch, a groesawyd ganddi.

Gan gyfeirio at ddau fater yn Araith y Frenhines, nad ydynt yn effeithio ar Gymru yn unig, pam mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno refferendwm ar y system pleidlais amgen, pan wyf ar ddeall nad dyna oedd y system etholiadol ym maniffesto'r un o'r ddwy blaid sydd mewn Llywodraeth? Nid fy lle i yw ymyrryd mewn trafodaethau preifat, ond ymddengys mai'r norm wrth ffurfio clymblaid yw ystyried cynnwys maniffestos y pleidiau, a chytuno arno. Yn achos rhywbeth mor sylfaenol â diwygio etholiadol, ymddengys braidd yn rhyfedd eich bod yn cynnig system nad oedd y naill blaid na'r llall am ei chael yn wreiddiol. Wedi dweud hynny, cymeradwyaf y pwyntiau a wnaed gan Kirsty Williams, a gofynnaf ichi ystyried a allai hwn fod yn gyfle i ddatganoli pwerau ychwanegol i'r Cynulliad o ran y modd y cawn ein hethol a'r modd y caiff llywodraeth leol ei hethol.

Yn olaf, o ran rhoi terfyn ar gadw plant mewn canolfannau cadw am resymau'n ymwneud â mewnfudo, a all yr Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau nad yw hynny'n golygu rhoi terfyn ar garcharu teuluoedd am resymau'n ymwneud â mewnfudo? Mae hwn yn fater difrifol, oherwydd mae gennym deuluoedd sy'n ceisio lloches yma, ac mae llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi clywed rhai hanesion erchyll gan eglwysi am deuluoedd â phlant yn cael eu cipio o'u cartrefi yng nghanol y nos gan y gwasanaethau mewnfudo. A yw'r cynnig hwn yn rhoi terfyn ar garcharu teuluoedd â phlant ai peidio? Os y cyfan a wna yw rhoi terfyn ar garcharu plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain, a yw'n cytuno nad yw'n gwneud dim mewn gwirionedd, oherwydd yr arfer ers rhai blynyddoedd fu trin y plant hynny drwy'r system amddiffyn plant?

Cheryl Gillan: Diolch unwaith eto am eich

warm welcome, Helen Mary. I will also give you a bit of news, because earlier today it was decided that Plaid will have the opportunity, at Prime Minister's questions, to ask a supplementary question to the Prime Minister on a rotational basis with the Scottish National Party and the Democratic Unionist Party. I hope that that is another illustration of how Wales will remain high on the Prime Minister's agenda, and I hope that you would welcome that. It was always pot luck before, and I do not think that that was right. So, I hope that will give Plaid an opportunity to move into that position.

The honourable lady, Helen Mary, expressed it as bringing our soldiers home—forgive me, I am getting used to your procedures, and I am trying to do it correctly—and that is a sentiment that we can all share. It is just that there is a job of work to be done and we must do it. As you know, the Prime Minister was out in Afghanistan recently.

On Holtham, having met with Gerry Holtham while I was shadow Secretary of State and knowing how important the implications are of what he has already reported to the Assembly, I am looking forward to seeing the next report. I assure Helen Mary that I have a completely open mind rather than an open mouth on these matters, and I want to see how we can get the best deal. There has been a strong feeling across this Chamber that there has been unfair funding for Wales. I cannot give a commitment as I do not have the power to do so, but I hope that she will be assured by my words that this will be considered seriously. That is the spirit in which I am approaching this, and I look forward to my first meeting with Gerry Holtham as Secretary of State.

4.00 p.m.

With regard to discussions around the Cabinet table—[*Interruption.*] I am afraid that Cabinet minutes are confidential, as you all know, and as, I am sure, that your Cabinet minutes are—[ASSEMBLY MEMBERS: 'No.']

croeso cynnes, Helen Mary. Hoffwn rannu rhywfaint o newyddion â chi hefyd, oherwydd yn gynharach heddiw penderfynwyd y bydd Plaid Cymru, yn ystod y sesiwn gwestiynau i Brif Weinidog y DU, yn cael cyfle i ofyn cwestiwn atodol i'r Prif Weinidog, gan gymryd eu tro gyda Phlaid Genedlaethol yr Alban a'r Blaid Unoliaethol Ddemocrataidd. Gobeithiaf fod hynny'n arwydd arall o'r modd y bydd Cymru yn parhau'n uchel ar agenda Prif Weinidog y DU, a gobeithiaf y byddech yn croesawu hynny. Yr oedd yn fater o lwc o'r blaen, ac nid oedd hynny'n iawn yn fy marn i. Gobeithiaf, felly, y bydd hynny'n rhoi cyfle i Blaid Cymru symud i'r sefyllfa honno.

Soniodd yr anrhydeddus, Helen Mary, am ddod â'n milwyr adre—maddeuwch imi, yr wyf yn ymgyfarwyddo â'ch gweithdrefnau, ac yr wyf yn ceisio'u gweithredu'n gywir—ac mae honno'n farn y gall pob un ohonom ei harddel. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud, a rhaid inni ei gyflawni. Fel y gwyddoch, yr oedd Prif Weinidog y DU allan yn Affganistan yn ddiweddar.

O ran Holtham, ar ôl cyfarfod â Gerry Holtham pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid dros Gymru, ac o wybod mor bwysig yw goblygiadau'r hyn y mae eisoes wedi adrodd yn ei gylch wrth y Cynulliad, edrychaf ymlaen at weld yr adroddiad nesaf. Hoffwn sicrhau Helen Mary fy mod yn agored fy meddwl yn hytrach nag yn uchel fy nghloch ynghylch y materion hyn, a hoffwn weld sut y gallwn sicrhau'r fargen orau. Y teimlad cryf ar draws y Siambr hon yw nad yw Cymru wedi cael ei hariannu'n deg. Ni allaf ymrwymo am nad oes gennyf y pŵer i wneud hynny, ond gobeithiaf y bydd y ffaith imi ddweud y bydd y mater yn cael ei ystyried yn ddwys yn rhoi rhywfaint o sicrwydd iddi. Dyna fy agwedd at y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at fy nghyfarfod cyntaf â Gerry Holtham yn fy swydd fel Ysgrifennydd Gwladol.

O ran trafodaethau o amgylch bwrdd y Cabinet—[*Torri ar draws.*] Mae arnaf ofn bod cofnodion y Cabinet yn gyfrinachol, fel y gwyddoch i gyd, fel y mae cofnodion eich Cabinet chi hefyd yr wyf yn siŵr—

[AELODAU'R CYNULLIAD: 'Nac ydynt.']

There is a difference; maybe we have something to learn from the Assembly Government. May I reassure her that Wales's voice has been loud and clear both at the Cabinet and at the home affairs Cabinet committee, because we have reduced the numbers of Cabinet committees and, consequentially, they have taken on significant importance? Wales is firmly represented in both arenas. I can say that with my officials listening, because they know that that is absolutely the case.

The Queen's Speech is the coalition Government's priority. It is the result of negotiations between the two parties to bring stability to the Government of the United Kingdom. As there was no outright winner of the general election, it is the way that we think that we can put the country's interests before party interests. The coalition is working exceedingly well and there is a lot of optimism and hope about what it can achieve. Its priorities will always be the same as mine, namely to try to repair our economy and to try to ensure that Wales is a good place to do business. We need to attract more inward investment to Wales and ensure that we have a thriving economy. I hope that I can play a complementary role in relation to all areas that are covered by the Assembly's competence, namely devolved matters, and, where matters are not devolved, I hope that I can have mature discussions with people as to how we can take Wales forward. That will always be at the top of my priorities. There was a time when being Secretary of State for Wales was a part-time job at Cabinet level, but not for our administration. It is a full-time job and I assure her that my door is always open, and that I am always willing to listen.

On Sir Emyr Jones Parry's report, of course I have read it. I have met him on several occasions and I am taking his advice on the referendum, because it is important. He did a sterling piece of work for the Assembly Government and I see no reason why I should

Ceir gwahaniaeth; efallai y gallem ddysgu rhywbeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Hoffwn roi sicrwydd iddi bod llais Cymru wedi bod yn uchel ac yn glir yn y Cabinet ac ym mhwyllgor y Cabinet dros faterion cartref, oherwydd yr ydym wedi lleihau niferoedd pwyllgorau'r Cabinet, ac mae eu pwysigrwydd wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i hynny. Caiff Cymru ei chynrychioli'n gadarn yn y ddau. Gallaf ddweud hynny yng nghlyw fy swyddogion, oherwydd gwyddant fod hynny'n bendant yn wir.

Araith y Frenhines yw blaenoriaeth y Llywodraeth glymbleidiol. Mae'n ganlyniad trafodaethau rhwng y ddwy blaid i roi sefydlogrwydd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Gan nad arweiniodd yr etholiad cyffredinol at enillydd clir, dyma'r ffordd y credwn y gallwn roi lles y wlad o flaen lles pleidiau. Mae'r glymblaid yn gweithio'n eithriadol o dda, a cheir llawer o optimistiaeth a gobaith ynghylch yr hyn y gall ei gyflawni. Bydd ei blaenoriaethau hi bob amser yr un fath â'm blaenoriaethau i, sef ceisio gwella ein heconomi a cheisio sicrhau bod Cymru'n lle da i gyflawni busnes. Mae angen inni ddenu mwy o fewnfuddsoddi i Gymru a sicrhau bod gennym economi sy'n ffynnu. Gobeithiaf y gallaf chwarae rôl ategol yng nghyswllt yr holl feysydd y mae cymhwysedd y Cynulliad yn berthnasol iddynt, hynny yw, materion datganoledig, ac os nad yw materion wedi'u datganoli, gobeithiaf y gallaf gael trafodaethau aeddfed â phobl ynghylch sut y gallwn symud Cymru yn ei blaen. Dyna fydd fy mhrif flaenoriaeth bob amser. Ar un adeg, yr oedd bod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn swydd ran-amser ar lefel y Cabinet, ond nid yw hynny'n wir yn achos ein gweinyddiaeth ni. Mae'n swydd lawn-amser, rhoddaf sicrwydd iddi y bydd fy nrws bob amser ar agor, ac y byddaf bob amser yn barod i wrando.

O ran adroddiad Syr Emyr Jones Parry, wrth gwrs fy mod wedi'i ddarllen. Yr wyf wedi cyfarfod ag ef droeon, ac yr wyf yn cael cyngor ganddo ynghylch y refferendwm, oherwydd mae'n bwysig. Gwnaeth waith clodwiw ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad,

not take heed of his thoughts and his advice, and I am not too proud to do so. I am willing to listen to the contributions that he has to make. For me, devolution is an evolutionary process. It is not about revolution now; we have had that. However, it is an evolutionary process and, in the same way that we are trying to move forward our constitution in Parliament and change the parameters there, devolution will also move forward. I want to be seen more as a conduit than a block; however, I reserve the right to speak my mind and have an opinion on it, because that is also important, but I will respect other opinions at the same time.

On the generous offer that she has made to me to help me with any blocks to the referendum, I may well take her up on that. I am being cautious. I looked at the timescale from the day that the Order is laid to the referendum. I have a view, which has been shared with Assembly officials, of what that time frame is, and it is the most efficient, effective and shortest time frame possible. We now have to get the question to the Electoral Commission for 10 weeks and the clock starts ticking. If I hit any blocks, I will come to you, Helen Mary, and ask for your assistance, but I hope that that will not happen. I hope that it will progress as we anticipate and, when we lay the Order, we will lay the question, the ballot paper and the date of the referendum, and then we should be locked into that time frame. However, we have to get it through both Houses of Parliament: the House of Lords and the House of Commons. We have to get it in front of the Joint Committee on Statutory Instruments and we have to get it through the Privy Council and also the Assembly. Therefore, we have to go through quite a few stages and I will look for assistance with that to ensure that it progresses on time, because that is my intention.

On the issue of the draft sustainable homes LCO, I have given you as much of an answer

ac ni welaf reswm pam na ddylwn ystyried ei syniadau a'i gyngor, ac nid wyf yn rhy fawreddog i wneud hynny. Yr wyf yn fodlon gwrandao ar y cyfraniadau y mae ganddo i'w gwneud. I mi, mae datganoli'n broses o esblygu. Nid oes a wnelo a chwyldroi pethau'n awr; yr ydym wedi cael hynny. Fodd bynnag, mae'n broses o esblygu, ac yn yr un modd ag yr ydym yn ceisio symud ein cyfansoddiad ymlaen yn Senedd y DU a newid y terfynau yno, bydd datganoli hefyd yn symud yn ei flaen. Hoffwn gael fy ystyried yn hwylusydd yn hytrach nag yn rhwystr; fodd bynnag, yr wyf yn cadw'r hawl i ddweud fy nweud ac arddel safbwynt ar y mater, oherwydd mae hynny hefyd yn bwysig, ond byddaf ar yr un pryd yn parchu safbwyntiau eraill.

O ran y cynnig hael a wnaeth i'm helpu i oresgyn unrhyw rwystrau i'r refferendwm, mae'n bosibl iawn y byddaf yn manteisio ar y cynnig hwnnw. Yr wyf yn troedio'n ofalus. Edrychais ar yr amserlen o ddiwrnod cyflwyno'r Gorchymyn i'r refferendwm. Mae gennyf farn, sydd wedi'i rhannu â swyddogion y Cynulliad, ynghylch beth yw'r amserlen honno, a dyna'r amserlen fyrraf a'r amserlen fwyaf effeithlon ac effeithiol posibl. Yn awr, rhaid inni gael y cwestiwn i'r Comisiwn Etholiadol am 10 wythnos, a dyna pryd y bydd y cloc yn dechrau tician. Os dof ar draws unrhyw rwystrau, dof atoch chi, Helen Mary, a gofyn am eich cymorth, ond gobeithiaf na fydd hynny'n digwydd. Gobeithiaf y bydd popeth yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl. Pan fyddwn yn cyflwyno'r Gorchymyn, byddwn hefyd yn cyflwyno'r cwestiwn, y papur pleidleisio a dyddiad y refferendwm, a ddylai olygu ein bod ynghlwm wrth yr amserlen honno. Fodd bynnag, rhaid inni fynd â'r Gorchymyn drwy'r ddau dŷ yn Senedd y DU: Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin. Rhaid inni ei roi gerbron y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol, a rhaid inni fynd ag ef drwy'r Cyfrin Gyngor a'r Cynulliad hefyd. Rhaid inni fynd drwy gryn dipyn o gamau, felly, a byddaf yn chwilio am gymorth i wneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn symud rhagddo'n brydlon, oherwydd dyna yw fy mwriad.

O ran y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch cartrefi

as I possibly can. I am waiting for a report from my Minister and I will be able to give further and better particulars on the progress of that draft LCO when I have the report back on the meetings. May I repeat—I am being fair and accurate—that the last Government could easily have put that draft LCO through? It was left until the wash-up period purposely, in my view, and it could easily have gone through. We have looked at the timescale and it could have gone through with the Government's majority, as did many other LCOs. Therefore, make no bones about it, it could have gone through, but I now must deal with it in the fashion that it needs to be dealt with, which is properly and responsibly.

There is going to be a referendum on the alternative vote, and there will be primary legislation. It was an agreement by the Government and we will move forward on that; it is as simple as that.

The issue of the detention of children is particularly important. We have committed to ending the detention of children for immigration purposes, and the Government hopes that it will have plans agreed in the next few months. The immediate review is ongoing and the current policy remains in place. However, I will make an offer to Helen Mary: if you would like to write to me with your views on this issue, I will ensure that they go to my honourable friend, the Minister for Immigration. This issue is most important and, as a former Shadow Minister for prisons, I have seen for myself the pain and desperation of people held in such facilities and their uncertainty. We must ensure that we are a safe haven, not a soft touch, and ensure that we hold people in humane conditions or that the detention of children ends.

The Presiding Officer: Order. Secretary of State, you very helpfully referred to the

cynaliadwy, yr wyf wedi ateb y cwestiwn hwnnw gystal ag y gallaf. Yr wyf yn aros am adroddiad gan fy Ngweinidog, a gallaf roi rhagor o fanylion a manylion gwell am gynnydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwnnw pan fyddaf wedi cael adroddiad yn ôl am y cyfarfodydd. Hoffwn ailadrodd—yr wyf yn bod yn deg ac yn gywir—y gallai'r Llywodraeth ddiwethaf fod wedi gwthio'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft drwodd yn rhwydd? Yn fy marn i, cafodd ei adael yn fwriadol tan y cyfnod cau pen y mwdwl, a gellid bod wedi'i wthio drwodd yn hawdd. Yr ydym wedi edrych ar yr amserlen, a gallai fod wedi mynd drwodd gyda mwyafrif y Llywodraeth, fel y gwnaeth llawer o Orchymynion cymhwysedd deddfwriaethol eraill. Felly, heb os, gallai fod wedi mynd drwodd, ond yn awr rhaid imi ymdrin â'r mater yn y modd y mae angen ymdrin ag ef, sef yn briodol ac yn gyfrifol.

Bydd refferendwm ar y bleidlais amgen, a bydd deddfwriaeth sylfaenol. Yr oedd yn gyntundeb gan y Llywodraeth, a byddwn yn symud ymlaen o ran hynny; mae mor syml â hynny.

Mae cadw plant mewn canolfannau cadw yn fater arbennig o bwysig. Yr ydym wedi ymrwymo i roi terfyn ar gadw plant mewn canolfannau cadw am resymau'n ymwneud â mewnfudo, ac mae'r Llywodraeth yn gobeithio y bydd ganddi gynlluniau y cytunwyd arnynt yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae'r adolygiad cyntaf ar y gweill, ac mae'r polisi cyfredol yn parhau ar waith. Fodd bynnag, mae gennyf gynnig i Helen Mary: os hoffech ysgrifennu ataf i fynegi eich safbwyntiau ar y mater, gwnaf yn siŵr eu bod yn cyrraedd fy nghyfaill anrhydeddus, y Gweinidog dros Fewnfudo. Mae'r mater yn bwysig tu hwnt, ac fel cyn-Weinidog yr wrthblaid dros garchardai, yr wyf wedi gweld drosof fy hun boen ac anobaith y bobl a gedwir mewn cyfleusterau o'r fath, a'u hansicrwydd. Rhaid inni sicrhau ein bod yn lloches ddiogel, heb i bobl fanteisio arnom, a sicrhau y caiff pobl eu cadw dan amodau gwaraid neu y rhoddir terfyn ar gadw plant mewn canolfannau cadw.

Y Llywydd: Trefn. Ysgrifennydd Gwladol, bu ichi gyfeirio'n ddefnyddiol iawn at y

question of calling Members. You will be aware that this statement has gone on for 70 minutes, which is well beyond its allocated time. I do not hold anyone responsible for that. We have heard from spokespeople for the four parties, therefore I now propose to bring this statement to a close. Our next debate has around 20 speakers, and most of you who had your name in for the statement also have your name in for the debate, therefore you will have an opportunity to speak.

Diolch, Ysgrifennydd Gwladol, am eich datganiad.

modd y gelwir yr Aelodau. Byddwch yn ymwybodol bod y datganiad hwn wedi para 70 munud, sy'n hwy o lawer na'r amser a glustnodwyd ar ei gyfer. Nid wyf yn dal neb yn gyfrifol am hynny. Clywsom gan lefarwyr y pedair plaid, felly yr wyf yn cynnig yn awr y dylid dod â'r datganiad i ben. Mae enwau oddeutu 20 o siaradwyr wedi'u nodi ar gyfer y ddadl nesaf, ac mae'r rhan fwyaf ohonoch a oedd wedi nodi eich enw ar gyfer y datganiad wedi nodi eich enw ar gyfer y ddadl hefyd, felly byddwch yn cael cyfle i siarad.

Thank you, Secretary of State, for your statement.

Araith y Frenhines The Queen's Speech

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn enw Peter Black.

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9 in the name of Peter Black.

The First Minister: I move that

Y Prif Weinidog: Cynigiau fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

notes the content of the UK Government's legislative programme 2010-11. (NDM4495)

yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2010-11. (NDM4495)

Croesawaf yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad ac i'r ddadl hon. Dyma'r tro cyntaf iddi annerch y Cynulliad a dyma'r ddadl gyntaf i mi ar Araith y Frenhines fel Prif Weinidog.

I welcome the Secretary of State for Wales to the Assembly and to this debate. This is the first time that she has addressed the Assembly and this is also the first debate for me, as First Minister, on the Queen's Speech.

I welcome the Secretary of State to the Chamber. I know that this is the first time that she has addressed the Assembly. I formally welcome her to this Chamber in her new role and thank her for her kind words regarding my appointment to the Privy Council.

Croesawaf yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Siambr. Gwn mai dyma'r tro cyntaf iddi annerch y Cynulliad. Fe'i croesawaf yn ffurfiol i'r Siambr hon yn ei rôl newydd, a diolchaf iddi am ei geiriau caredig ynghylch fy mhenodi i'r Cyfrin Gyngor.

Following the formation of the Conservative-Liberal Democrat coalition at Westminster, it is fair to say that the political landscape has changed. For the first time, all four administrations in the UK are run by different parties or different combinations of parties. Therefore, an effective relationship between all Governments is vital for taking forward our respective priorities, and the challenge for all of us is to ensure that we have in place

Mae'n deg dweud bod y dirwedd wleidyddol wedi newid yn dilyn ffurfio'r glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Am y tro cyntaf, mae pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn y DU yn cael eu rhedeg gan wahanol bleidiau neu wahanol gyfuniadau o bleidiau. Felly, mae'n hanfodol cael perthynas effeithiol rhwng pob Llywodraeth er mwyn symud blaenoriaethau pob un ohonom yn eu blaen,

the machinery and the desire to make the relationships work.

a'r her inni i gyd yw sicrhau bod gennym y systemau a'r awydd i wneud i'r cydberthnasau weithio.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.08 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.08 p.m.*

During his visit to Wales last month, the Prime Minister and I discussed the 'respect' agenda, as he puts it, between our respective administrations, and our desire to develop a constructive working relationship. Good progress was made at last week's Joint Ministerial Committee—the first plenary session since the formation of the new UK Government—in discussing how the four administrations in the UK will work together to make the respect agenda a reality in practical terms.

Yn ystod ei ymweliad â Chymru fis diwethaf, bu'r Prif Weinidog a minnau'n trafod yr agenda o ran 'parch', fel y mae'n ei galw, rhwng ein priod weinyddiaethau, a'n hawydd i ddatblygu perthynas waith adeiladol. Gwnaed cynnydd da yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yr wythnos diwethaf—y cyfarfod llawn cyntaf ers ffurfio Llywodraeth newydd y DU—o ran trafod sut y bydd pedair gweinyddiaeth y DU yn cydweithio i wireddu'r agenda o ran parch yn ymarferol.

In last year's Queen's Speech debate, my predecessor, Rhodri Morgan, referred to the strengthening of the legislative capacity of the Assembly, and the bringing of decision making closer to the people of Wales. That truth continues to be demonstrated because, during the last Parliament, the Welsh Assembly Government managed to successfully negotiate the addition of no fewer than 75 matters across 14 fields to Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. Of those matters, 20 were added by Acts of Parliament, which demonstrates the continuing importance of the UK Government's legislative programme to Wales. There is no doubt that we could have done more, faster, if we had our own primary powers along the same lines as Scotland and Northern Ireland.

Yn y ddadl ar Araith y Frenhines y llynedd, cyfeiriodd fy rhagflaenydd, Rhodri Morgan, at gryfhau gallu deddfwriaethol y Cynulliad, a dod â'r broses gwneud penderfyniadau'n nes at bobl Cymru. Yr ydym yn dal i weld y gwirionedd hwnnw oherwydd, yn ystod y Senedd ddiwethaf, llwyddodd Llywodraeth y Cynulliad i ddod i gytundeb ynghylch ychwanegu cynifer â 75 o faterion ar draws 14 maes at Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. O blith y materion hynny, cafodd 20 eu hychwanegu trwy Ddeddfau Seneddol, sy'n dangos mor bwysig yw rhaglen deddfwriaethol y DU o hyd i Gymru. Nid oes amheuaeth na allem fod wedi gwneud mwy, yn gyflymach, pe bai gennym ein pwerau deddfu sylfaenol ein hunain, yn debyg i'r rhai a geir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

4.10 p.m.

The impending referendum for enhanced law-making powers for the Assembly will mean the possibility of Welsh devolution entering a new phase. A 'yes' vote would enable the Assembly to exercise full legislative powers over the 20 devolved policy areas contained in the Government of Wales Act 2006, and to legislate more efficiently and cheaply in terms of staff time, because we would no longer effectively have to do everything twice.

Bydd y refferendwm sydd ar ddod ynghylch cael mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad yn golygu bod posibilrwydd y bydd cyfnod newydd yn dechrau yn hanes datganoli yng Nghymru. Byddai pleidlais 'ie' yn galluogi'r Cynulliad i ddefnyddio pwerau deddfu llawn yng nghyswllt yr 20 o feysydd polisi datganoledig sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a deddfu'n fwy effeithlon ac yn rhatach o safbwynt amser staff, gan na fyddai'n rhaid i bob pwrpas inni wneud popeth ddwywaith mwyach.

It was disappointing to hear that the UK Government does not plan to take forward the referendum this autumn, but I continue to have useful discussions with the Secretary of State about the steps necessary to deliver it before the Assembly elections, and I welcome her commitment this afternoon to delivering a referendum in the first quarter of next year.

Alun Cairns: I am grateful to the First Minister for giving way. When he talks about the timing of the referendum, would he share with us any consideration that he has given to the statement by the Assembly Commission's chief legal adviser, which sets out the timescales and challenges ahead, and highlights that it would be nigh-on impossible to have a referendum later this year?

The First Minister: The Assembly Commission's chief legal adviser is not a legal adviser to the Welsh Assembly Government, so that advice was not given to us; it was given to the Assembly Commission, a quite different body. I know that you have been away for a while, Alun, so you may have forgotten that.

I have been urging the UK Government to act swiftly upon its commitment to take forward the draft LCO relating to sustainable homes that was approved by the Assembly in February 2010. It is clear that, whatever happened before the general election, the draft LCO could not be taken forward in the wash-up because of opposition from the then opposition party, the Conservative Party. However, I welcome the commitment in the coalition agreement at Westminster to take the draft LCO forward—and by that, I mean passing it through both Houses of Parliament to ensure that the Assembly has the power that it voted for in February. Let us not forget that the draft LCO itself has widespread support from the housing sector in Wales.

The past 11 years have demonstrated the success of devolution in Wales. We need to

Yr oedd yn siomedig clywed nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu bwrw ymlaen â'r refferendwm yr hydref hwn, ond yr wyf yn parhau i gael trafodaethau defnyddiol â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y camau sy'n angenrheidiol i'w gynnal cyn etholiadau'r Cynulliad, a chroesawaf ei hymrwymiad y prynhawn yma i gynnal refferendwm yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn nesaf.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ildio. Wrth sôn am amseriad y refferendwm, a allai rannu â ni unrhyw ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i'r datganiad gan brif gynghorydd cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad, sy'n nodi'r amserlenni a'r heriau sydd o'n blaen, ac sy'n tynnu sylw at y ffaith y byddai bron yn amhosibl cynnal refferendwm yn ddiweddarach eleni?

Y Prif Weinidog: Nid yw prif gynghorydd cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad yn gynghorydd cyfreithiol i Lywodraeth y Cynulliad, felly nid i ni y rhoddwyd y cyngor hwnnw; fe'i rhoddwyd i Gomisiwn y Cynulliad, sy'n gorff hollol wahanol. Gwn ichi fod oddi yma am gyfnod, Alun, felly efallai ichi anghofio hynny.

Yr wyf wedi bod yn annog Llywodraeth y DU i weithredu'n gyflym ar ei hymrwymiad i symud y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch cartrefi cynaliadwy yn ei flaen, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2010. Ni waeth beth a ddigwyddodd cyn yr etholiad cyffredinol, mae'n amlwg nad oedd modd symud y Gorchymyn drafft yn ei flaen wrth gau pen y mwdwl, oherwydd gwrthwynebiad yr wrthblaid ar y pryd, sef y Blaid Geidwadol. Fodd bynnag, croesawaf yr ymrwymiad yng nghytundeb y glymblaid yn San Steffan i symud y Gorchymyn drafft yn ei flaen—ac wrth hynny, yr wyf yn golygu pasio'r Gorchymyn trwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn cael y pŵer y pleidleisiodd o'i blaid ym mis Chwefror. Rhaid inni gofio bod cefnogaeth eang i'r Gorchymyn drafft ei hun yn y sector tai yng Nghymru.

Mae'r 11 mlynedd diwethaf wedi dangos llwyddiant datganoli yng Nghymru. Mae

ensure that this success continues in these difficult economic times. I hope this is not a precursor for the months to come, but Members may have noticed a story on the BBC Wales website this afternoon about a vulture being spotted on a rooftop in Bridgend. No-one knows where the vulture has come from, but there is a photograph of it, and I urge Members to have a look at it, while hoping that it is not a sign of things to come.

The Welsh Assembly Government has made it clear that we will be responsible partners in contributing to the reduction of the deficit over the coming years, and Wales will be playing its part in the difficult decisions that need to be made. However, the economic recovery should not be threatened by rushing into cutting public expenditure. We must be given the flexibility we need to properly plan and manage budget reductions.

We are, as a Government, disappointed that the UK Government's coalition agreement does not include proposals for implementing the findings of the Holtham commission, particularly as the recommendations of the Calman commission will be taken forward in a Scotland Bill. It raises questions as to the influence of Scotland on the UK Government compared to Wales, and I would urge you, Secretary of State, as the representative of the people of Wales at the Cabinet table, to press the UK Government to address the underfunding of Wales as a result of the Barnett formula.

I would also ask that further consideration be given to the timescale regarding the Holtham commission and the investigation of fairer funding for Wales. To quote the coalition agreement between the Westminster parties directly:

'The issue of fair funding for Wales depends upon the result of the referendum'.

I have not yet heard a convincing argument as to why the issue of powers is tied to the issue of funding. I suspect that, when the agreement was signed, it was not noticed, but nevertheless, the people of Wales deserve an

angen inni sicrhau bod y llwyddiant hwnnw'n parhau yn y cyfnod hwn o gyni economaidd. Gobeithiaf nad yw'r canlynol yn argoel ar gyfer y misoedd sydd i ddod, ond efallai fod yr Aelodau wedi sylwi ar stori ar wefan BBC Cymru y prynhawn yma ynghylch fwltur a welwyd ar ben to ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ni ŵyr neb o ble mae'r fwltur wedi dod, ond ceir llun ohono, ac anogaf yr Aelodau i fwrw golwg arno, gan obeithio nad yw'n arwydd o'r hyn sydd i ddod.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan yn glir y byddwn yn bartneriaid cyfrifol wrth gyfrannu at leihau'r diffyg dros y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd Cymru yn chwarae ei rhan yn y penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud. Fodd bynnag, ni ddylid peryglu'r adferiad economaidd trwy rithro i dorri gwariant cyhoeddus. Rhaid inni gael yr hyblygrwydd y mae ei angen arnom i gynllunio a rheoli gostyngiadau yn y gyllideb yn iawn.

Fel Llywodraeth, yr ydym yn siomedig nad yw cytundeb clymblaid Llywodraeth y DU yn cynnwys cynigion ar gyfer gweithredu canfyddiadau comisiwn Holtham, yn enwedig o ystyried y bydd argymhellion comisiwn Calman yn cael eu datblygu mewn Mesur ar gyfer yr Alban. Mae'n codi cwestiynau ynghylch dylanwad yr Alban ar Lywodraeth y DU o'i chymharu â Chymru, a byddwn yn eich annog, Ysgrifennydd Gwladol, fel cynrychiolydd pobl Cymru wrth fwrdd y Cabinet, i bwysu ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r ffaith nad yw Cymru yn cael ei hariannu'n ddigonol o ganlyniad i fformiwla Barnett.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi ystyried ymhellach yr amserlen ar gyfer comisiwn Holtham a'r ymchwiliad i drefn ariannu decach i Gymru. A dyfynnu'n uniongyrchol o'r cytundeb clymbleidiol rhwng y pleidiau yn San Steffan:

Mae arian teg i Gymru yn dibynnu ar ganlyniad y refferendwm.

Nid wyf eto wedi clywed dadl argyhoeddiadol i egluro pam mae cysylltiad annatod rhwng pwerau ac ariannu. Yr wyf yn amau na sylwyd arno pan lofnodwyd y cytundeb, ond mae pobl Cymru, er hynny, yn

explanation as to why the result of the referendum will determine whether fairer funding for Wales is taken forward. That makes no sense to me.

I welcome the fact that the Chief Secretary to the Treasury recently met the Minister for Business and Budget. He recognised that there are clear differences between Wales and other parts of the UK, and his undertaking to meet Gerry Holtham was very welcome.

It is worth reiterating, given our present legislative framework, how important the UK Government's legislative programme is as a source of legislation for Wales. Many of the Bills mentioned in the Queen's Speech deal with policy areas that are to some extent devolved, and so are of particular interest to the Welsh Assembly Government—areas such as those covered by the education and children's Bill, the health Bill, the decentralisation and localism Bill, the energy security and green economy Bill and the welfare reform Bill. We will be working closely with the UK Government to take forward the right provisions for Wales where that is appropriate.

However, it is not just Bills on devolved subjects that are of interest. For example, the constitutional reforms contained in the parliamentary reform Bill will have a particular effect on this institution. The UK Government's plan to fix the date of the next UK general election on the same day as the elections for this place and the Scottish Parliament is a mistake. It is essential for the people of Wales to be able to decide which Government they want at the Assembly and which Government they want at Westminster without the electoral waters being muddied by holding two elections with three ballot papers on the same day. Potentially, there could be three ballot papers that all employ different electoral systems. We saw what happened in Scotland in 2007, when such a scenario arose: there was chaos when it came to counting the local elections. We must ensure, for the good of the people of Wales, that that does not happen in Wales in the

haeddu esboniad ynghylch pam y bydd canlyniad y refferendwm yn penderfynu a fydd trefn ariannu decach i Gymru yn cael ei datblygu. Nid yw hynny'n gwneud dim synnwyr i mi.

Croesawaf y ffaith i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys gyfarfod â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn ddiweddar. Yr oedd yn cydnabod bod gwahaniaethau amlwg rhwng Cymru a rhannau eraill y DU, ac yr oedd ei addewid i gwrdd â Gerry Holtham i'w groesawu'n fawr.

O ystyried y fframwaith deddfwriaethol sydd gennym ar hyn o bryd, mae'n werth ailadrodd mor bwysig yw rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU fel ffynhonnell deddfwriaeth i Gymru. Mae llawer o'r Mesurau a grybwyllwyd yn Araith y Frenhines yn ymdrin â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i ryw raddau ac sydd, felly, o ddiddordeb penodol i Lywodraeth y Cynulliad—meysydd megis y rheini yr ymdrinnir â hwy yn y Mesur addysg a phlant, y Mesur iechyd, y Mesur datganoli a gweithredu'n lleol, y Mesur diogelu ffynonellau ynni a'r economi werdd, a'r Mesur diwygio lles. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu'r darpariaethau iawn i Gymru lle bo hynny'n briodol.

Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn Mesurau heblaw'r rhai ar faterion sydd wedi'u datganoli. Er enghraifft, bydd y diwygiadau cyfansoddiadol sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur diwygio seneddol yn cael effaith benodol ar y sefydliad hwn. Cam gwag yw bwriad Llywodraeth y DU i bennu dyddiad etholiad cyffredinol nesaf y DU fel y bydd ar yr un dyddiad ag etholiadau'r Cynulliad a Senedd yr Alban. Mae'n hanfodol i bobl Cymru allu penderfynu pa Lywodraeth y maent am ei chael yn y Cynulliad a pha Lywodraeth y maent am ei chael yn San Steffan heb fod unrhyw ddryswch yn cael ei achosi trwy gynnal dau etholiad gyda thri phapur pleidleisio ar yr un diwrnod. Gallai fod tri phapur pleidleisio, a phob un yn defnyddio system etholiadol wahanol. Gwelsom beth a ddigwyddodd yn yr Alban yn 2007, pan gododd sefyllfa o'r fath: gwelwyd anhrefn wrth gyfrif pleidleisiau'r etholiadau lleol. Er lles pobl

future.

I have to say that the UK Government's proposal to reduce the number of MPs is also of concern. First, in respect of Welsh parliamentary representation at Westminster, it would mean that some constituencies in Wales were enormous, possibly up to 100 miles long. That is the distance between Swindon and London. It would be exceptionally difficult for any individual to represent a constituency that is that big, geographically. We also know that, given that the number of Assembly Members is governed by the number of parliamentary constituencies in Wales at the moment, a reduction in the number of Welsh Members of Parliament could see the membership of this institution shrink to 45. That would mean that we would have fewer Members than most county councils in Wales. I do not believe that any Member here genuinely believes that we could function effectively as an institution with so few Members. It is essential, therefore, that the link between the number of AMs and the number of parliamentary constituencies be broken, to ensure that we continue with our 60 Members.

We know that the legislative programme also includes a proposal for a referendum on the introduction of the alternative vote system for the House of Commons. It will be useful, in time, to see further clarification of the UK Government's intentions on these matters, particularly regarding who will support these proposals and who will not.

I turn now to the amendments to the motion. We cannot support the amendments that are before us here today. Why? It is because they do not give a full picture of the Queen's Speech. There are some elements of the Queen's Speech that I am sure would gain the support of Members across parties in the Chamber, but there are many that will not. Today is the Assembly's first opportunity to discuss the UK Government's legislative programme, and I am sure that it will be a lively debate. I am sure, Madam Dirprwy Lywydd, that you will handle it with your customary aplomb. In the coming months, I

Cymru, rhaid inni sicrhau na fydd hynny'n digwydd yng Nghymru yn y dyfodol.

Rhaid imi ddweud bod cynnig Llywodraeth y DU i leihau nifer yr Aelodau Seneddol hefyd yn destun pryder. Yn gyntaf, o ran cynrychiolaeth Cymru yn Senedd San Steffan, byddai'n golygu bod rhai etholaethau yng Nghymru yn anferth, hyd at 100 milltir o hyd o bosibl, sef y pellter rhwng Swindon a Llundain. Byddai'n eithriadol o anodd i unrhyw unigolyn gynrychioli etholaeth sydd mor fawr yn ddaearyddol. Gwyddom hefyd, o gofio y caiff nifer Aelodau'r Cynulliad ei reoli ar hyn o bryd gan nifer yr etholaethau seneddol sydd yng Nghymru, y gallai lleihau nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru arwain at leihau nifer yr Aelodau yn y sefydliad hwn i 45. Byddai hynny'n golygu y byddai gennym lai o Aelodau na'r rhan fwyaf o gynghorau sir yng Nghymru. Ni chredaf fod yr un Aelod yma'n credu yn wirioneddol y gallem weithredu'n effeithiol fel sefydliad gyda chyn lleied o Aelodau. Mae'n hanfodol, felly, bod y cysylltiad rhwng nifer Aelodau'r Cynulliad a nifer yr etholaethau seneddol yn cael ei dorri, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau â'n 60 o Aelodau.

Gwyddom fod y rhaglen ddeddfwriaethol hefyd yn cynnwys cynnig ar gyfer refferendwm ynghylch cyflwyno'r system pleidlais amgen ar gyfer Tŷ'r Cyffredin. Gydag amser, bydd yn ddefnyddiol cael eglurhad pellach ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU ynghylch y materion hyn, yn enwedig o ran pwy fydd, a phwy na fydd, yn cefnogi'r cynigion dan sylw.

Trof yn awr at y gwelliannau i'r cynnig. Ni allwn gefnogi'r gwelliannau sydd ger ein bron heddiw. Pam? Am nad ydynt yn rhoi darlun llawn o Araith y Frenhines. Mae Araith y Frenhines yn cynnwys rhai elfennau yr wyf yn siŵr y byddent yn cael cefnogaeth Aelodau o bob plaid yn y Siambr, ond ceir llawer na fyddant yn cael cefnogaeth o'r fath. Heddiw yw cyfle cyntaf y Cynulliad i drafod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn ddadl fywiog. Yr wyf yn siŵr, Fadarn Dirprwy Lywydd, y byddwch yn ymdrin â hi gyda'ch hunanfeddiant arferol. Edrychaf ymlaen at

look forward to a constructive and meaningful debate, to ensure that we reflect the priorities and needs of the people of Wales.

Jenny Randerson: I move the following amendments in the name of Peter Black. Amendment 1: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to reduce the income tax burden on people in Wales, and across the UK, by increasing the personal tax allowance.

Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to ensuring that the basic state pension increases in line with earnings, prices or 2.5 per cent.

Amendment 3: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to make fair and transparent payments to Equitable Life policy holders who have suffered losses.

Amendment 4: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to hold a referendum on the alternative vote system for elections to the House of Commons.

Amendment 5: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to give voters the right to recall their MP where they are guilty of serious misconduct.

Amendment 6: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's intention to reform the House of Lords with a House that is elected wholly or mainly on the basis of proportional representation.

ddadl adeiladol ac ystyrllon yn ystod y misoedd sydd i ddod, er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion pobl Cymru.

Jenny Randerson: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Peter Black. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i leihau'r baich treth incwm ar bobl yng Nghymru, a ledled y DU, drwy gynyddu'r lwfans treth personol.

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau bod pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn cynyddu yn unol ag enillion, prisiau neu 2.5 y cant.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i roi taliadau teg a thryloyw i'r rheini sydd â pholisi ag Equitable Life ac sydd wedi dioddef colledion.

Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynnal refferendwm ar y system pleidlais amgen ar gyfer etholiadau i Dŷ'r Cyffredin.

Gwelliant 5: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i roi'r hawl i bleidleiswyr alw eu AS yn ôl pe bai'n euog o gamymddwyn difrifol.

Gwelliant 6: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi gyda Thŷ sydd wedi'i ethol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar sail cynrychiolaeth gyfrannol.

Amendment 7: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to cancel ID cards and repeal other unnecessary and intrusive laws.

Amendment 8: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to fundamental human rights by ending the detention of children for immigration purposes.

Amendment 9: add as a new point at the end of the motion:

welcomes the UK Government's commitment to deliver a framework for financial regulation that ensures sustainable and responsible banking.

It has been the custom of the Welsh Liberal Democrats to table amendments to the motion for the Queen's Speech debate every year. It gives us all great pleasure to be able to welcome the Government's plans, for a change. I also welcome the constructive approach that the Secretary of State has taken so far in her role, and her constructive comments here this afternoon. I am forced to contrast her tone with that which we had last year from the previous Secretary of State. Today, the Secretary of State has been courteous and respectful of devolution and has approached it in the terms of grown-up politics. I am delighted that that is the tone that she clearly intends to take in her role.

The amendments can be grouped into several topics. The first, I would say, is fair taxation. The increase in the personal tax allowance, which was flagged up in the Queen's Speech, helps the poorest who are in work. That is of particular importance here in Wales, where, unfortunately, we have a disproportionately large number of people working for very low wages. While that unfortunate situation continues, it is important that we have this fair tax system. It is fairer, more transparent and simpler to deal with.

Gwelliant 7: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ganslo cardiau adnabod a diddymu cyfreithiau diangen ac ymwithiol eraill.

Gwelliant 8: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i hawliau dynol sylfaenol drwy roi diwedd ar gadw plant at ddibenion mewnfudo.

Gwelliant 9: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoliadau ariannol sy'n sicrhau bancio cynaliadwy a chyfrifol.

Bob blwyddyn, bu'n arfer gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru gyflwyno gwelliannau i'r cynnig ar gyfer dadl Araith y Frenhines. Mae'n bleser mawr gennym i gyd allu croesawu cynlluniau'r Llywodraeth, am unwaith. Yr wyf hefyd yn croesawu agwedd adeiladol yr Ysgrifennydd Gwladol hyd yma yn ei rôl, a'i sylwadau adeiladol yn y fan hon y prynhawn yma. Rhaid imi gyferbynnu ei hagwedd â'r agwedd a gawsom y llynedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol. Heddiw bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwrtais, a dangosodd barch at ddatganoli gan ymdrin ag ef o safbwynt gwleidyddiaeth aeddfed. Yr wyf yn falch iawn mai dyma'r agwedd y mae'n amlwg yn bwriadu ei mabwysiadu yn ei rôl.

Gellir crynhoi'r gwelliannau dan sawl pennawd. Y cyntaf, ddywedwn i, yw trethu teg. Mae'r cynnydd yn y lwfans treth personol, y tynnwyd sylw ato yn Araith y Frenhines, yn helpu'r bobl dlotaf sy'n gweithio. Mae hynny'n arbennig o bwysig yma yng Nghymru, lle mae gennym, yn anffodus, nifer uwch na'r cyffredin o bobl yn gweithio am gyflogau bach iawn. Tra bydd y sefyllfa anffodus honno'n parhau, mae'n bwysig bod gennym y system drethu deg hon. Mae'n decach, yn fwy tryloyw ac yn haws ei thrin.

4.20 p.m.

The second group of amendments relates to fair pensions. I strongly welcome the moves by the Government finally to link the basic state pension with earnings. That was a link broken by the previous Conservative Government and that Labour failed to restore in its 13 years in government. This will go further than simply restoring the link, because these plans will ensure that pensions rise by at least 2.5 per cent should earnings not increase by that amount. I see that as a fundamentally important social justice measure. We all know pensioners who are struggling to survive on the basic state pension. Tied in with that is the Government agreement to make fair payments to Equitable Life policyholders. There are more than 3,000 of those in Wales. They lost out badly over many years because of the regulatory failure of a system and the failure of the previous Government to right the wrong that they had suffered.

The next amendments fall into the category of fair politics and a stronger voice for ordinary people in our democratic system, for which my party has been campaigning for decades. On a fairer electoral system, I welcome the commitment to holding a referendum on the alternative vote system. It is not the system that I would have chosen, but it is a firm step in the right direction. Labour was very much in favour of proportional representation in the period before 1997, but it abandoned any pretence of doing anything about it when it got into power, until the final months of Gordon Brown's premiership, of course, when he had a conversion on the road to the ballot box and suddenly realised that he might be able to hang on to power if he could do a deal with the Liberal Democrats.

Jeff Cuthbert: I wanted to intervene before you ran out of time, as you have so many amendments to move. Are you telling us that these are the only aspects of the Queen's Speech that your party agrees with, or do you agree with it as a whole?

Mae'r ail grŵp o welliannau'n ymwneud â phensiynau teg. Croesawaf yn fawr y camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd o'r diwedd i gysylltu pensiwn sylfaenol y wladwriaeth ag enillion. Cafodd y cysylltiad hwnnw ei dorri gan Lywodraeth flaenorol y Ceidwadwyr, a methodd y Blaid Lafur â'i adfer yn ei 13 blynedd mewn llywodraeth. Bydd y cam hwn yn gwneud mwy na dim ond adfer y cysylltiad, oherwydd bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau bod pensiynau'n codi o leiaf 2.5 y cant pe na bai enillion yn codi gymaint â hynny. Ystyriaf fod mesur o'r fath yn hanfodol bwysig o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol. Gŵyr pob un ohonom am bensiynwyr sy'n ei chael yn anodd byw ar bensiwn sylfaenol y wladwriaeth. Yn gysylltiedig â hynny mae cytundeb y Llywodraeth i wneud taliadau teg i'r rheini sydd â pholisïau gydag Equitable Life. Mae dros 3,000 o'r bobl hynny yng Nghymru. Buont ar eu colled yn ddifrifol dros lawer o flynyddoedd oherwydd methiant system i reoleiddio, ac oherwydd methiant y Llywodraeth flaenorol i unioni'r cam y bu iddynt ei ddiodef.

Mae'r gwelliannau nesaf yn perthyn i gategori gwleidyddiaeth deg a llais cryfach i bobl gyffredin yn ein system ddemocrataidd, sy'n bethau y bu fy mhlaid yn ymgychu drostynt ers degawdau. O ran system etholiadol decach, croesawaf yr ymrwymiad i gynnal refferendwm ar y system pleidlais amgen. Nid dyna'r system y byddwn i wedi'i dewis, ond mae'n gam pendant i'r cyfeiriad cywir. Yr oedd y Blaid Lafur yn gryf o blaid cynrychiolaeth gyfrannol yn y cyfnod cyn 1997, ond wedi iddi ddod i rym, rhoddodd y gorau i esgus gwneud dim yn ei chylch, tan fisoedd olaf cyfnod Gordon Brown wrth y llyw, wrth gwrs, pan gafodd dröedigaeth ar y ffordd i'r blwch pleidleisio a sylweddoli'n sydyn y gallai aros mewn grym efallai pe bai modd iddo ddod i gytundeb â'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Jeff Cuthbert: Yr oeddwn am ymyrryd cyn i'ch amser ddod i ben, gan fod cynifer o welliannau gennych i'w cynnig. A ydych yn dweud wrthym mai dyma'r unig agweddau ar Araith y Frenhines y mae eich plaid yn cytuno â hwy, ynteu a ydych yn cytuno â'r

Araith yn gyffredinol?

Jenny Randerson: We agree with it as a whole. The important thing is that we have tabled amendments on the aspects that we have picked out as being of most significant to Welsh people. Of course, there are other aspects that are important to the UK as a whole. I hope that the debate on a change in the electoral system for Westminster might spark a debate on electoral reform here in the Assembly. We welcome other amendments, such as that on the right to recall MPs, the reform of the House of Lords and, importantly, the measures that relate to civil liberties, such as scrapping identity cards and the freedom (great repeal) Bill, which would restrict the DNA database, restore the right to peaceful protest and regulate closed-circuit television. Those civil liberties amendments are very important indeed. I would add to that the important commitment to ending the detention of children for immigration purposes. I say that as a representative of a constituency that has a large number of immigrants. The Labour Government locked up on average 2,000 children who were in those circumstances each year. It is important that that be put right.

Finally, I want to refer to the fair financial system, with the reform of the banking system. Regulation was allowed to become too lax. It is a clear and important part of the problems that we now face, and it is of great significance to Welsh businesses. These amendments summarise some of the key points made in the Queen's Speech, which had a distinctly progressive and liberal agenda. I am proud to say that they reflect the priorities of my party's manifesto as well as the priorities of the coalition. After 27 years as an elected representative, it gives me great pleasure and pride to see Liberal Democrat ideas being put into practice in the UK Government's agenda.

Brian Gibbons: We heard about the priorities of this Government from the Secretary of State. Indeed, looking at the Queen's Speech, we see that the very first sentence states,

Jenny Randerson: Yr ydym yn cytuno â hi yn gyffredinol. Y peth pwysig yw inni gyflwyno gwelliannau ar yr agweddau sydd bwysicaf i bobl Cymru yn ein barn ni. Wrth gwrs, ceir agweddau eraill sy'n bwysig i'r DU gyfan. Gobeithiaf y bydd y ddadl ar newid y system etholiadol ar gyfer San Steffan efallai'n esgor ar ddadl ar ddiwygio etholiadol yma yn y Cynulliad. Croesawn welliannau eraill, megis yr un ar yr hawl i alw Aelodau Seneddol yn ôl, yr un ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi ac, yn bwysig iawn, y mesurau sy'n ymwneud â hawliau sifil, megis yr un ar gael gwared ar gardiau adnabod, a'r Mesur rhyddid (diddymu helaeth) a fyddai'n cyfyngu ar y gronfa ddata DNA, yn adfer yr hawl i brotestio'n heddychlon ac yn rheoleiddio teledu cylch cyfyng. Mae'r gwelliannau hynny ar hawliau sifil yn bwysig tu hwnt. Hoffwn ychwanegu at hynny yr ymrwymiad pwysig i roi terfyn ar gadw plant am resymau'n ymwneud â mewnfudo. Dywedaf hynny fel cynrychiolydd etholaeth sydd â nifer mawr o fewnfudwyr. Ar gyfartaledd, bob blwyddyn, yr oedd y Llywodraeth Lafur yn cadw dan glo 2,000 o blant a oedd yn yr amgylchiadau hynny. Mae'n bwysig bod y cam hwnnw'n cael ei unioni.

Yn olaf, yr wyf am gyfeirio at y system ariannol deg, a diwygio'r system fancio. Caniatwyd i reoleiddio fynd yn rhy lac. Mae'n rhan amlwg a phwysig o'r problemau a wynebwn yn awr, ac mae'n bwysig iawn i fusnesau Cymru. Mae'r gwelliannau hyn yn crynhoi rhai o'r pwyntiau allweddol a wnaed yn Araith y Frenhines, arait h ac iddi agenda flaengar a rhyddfrydol iawn. Yr wyf yn falch o ddweud eu bod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ym maniffesto fy mhlaid i'n ogystal â blaenoriaethau'r glymblaid. Ar ôl 27 mlynedd fel aelod etholedig, mae gweld syniadau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cael eu rhoi ar waith yn agenda Llywodraeth y DU yn destun pleser a balchder mawr imi.

Brian Gibbons: Clywsom am flaenoriaethau'r Llywodraeth hon gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn wir, o edrych ar Araith y Frenhines, gwelwn fod y frawddeg gyntaf un yn datgan,

‘The first priority is to reduce the deficit and restore economic growth.’

No doubt, the UK Government was looking to the new Office for Budget Responsibility to underpin that case when it published its first report earlier this week, but, instead of finding massive hidden debt or deficits worse than expected, it found that the deficit is actually £8 billion less than was first projected, amounting to £25 billion less over 25 years. Therefore, instead of the situation being worse than expected, the case for these draconian cuts cannot be made. As *The Independent* stated yesterday,

‘a Chancellor seeking covering fire for a full-scale assault on public spending will not find it in the pre-Budget report’.

Andrew R.T. Davies: Do you not agree that the Office for Budget Responsibility drew on the fact that the cumulative deficit on which the nation has to pay interest is far greater than any sustainable level of finance? It has to be reduced; otherwise, it will be a drag on the economy for future generations. Therefore, the cumulative deficit is far greater than any economy can sustain.

Brian Gibbons: I think that we will deal with this. If we look at the reports of the Office for Budget Responsibility, we see that one area of concern is the downscaling of growth projections, and so we must reflect on the proposed policies of the coalition Government in relation to that downscaling of growth. Surely it cannot be the case that a rapid and seismic reduction in public spending will be to the benefit of the economy, sucking urgently needed, ongoing stimulus out of the economy to reduce the key demand at a time when our economy is under so much pressure. Surely it cannot be right to withdraw this vital financial support from the banking and financial system, a sector that has become increasingly vulnerable over the last few weeks, as the Nobel prize winner, Joseph Stiglitz, pointed out earlier this week. If we do reduce public spending by such draconian levels, there will be fewer resources available to provide help

Y flaenoriaeth gyntaf yw lleihau'r diffyg ac adfer twf economaidd.

Heb os, yr oedd Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r Swyddfa newydd dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb ategu'r achos hwnnw pan gyhoeddodd ei hadroddiad cyntaf yn gynharach yr wythnos hon, ond, yn hytrach na dod o hyd i ddyled gudd enfawr neu ddiffygion gwaeth na'r disgwyl, gwelodd fod y diffyg, mewn gwirionedd, £8 biliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, sy'n golygu ei fod £25 biliwn yn llai dros 25 mlynedd. Felly, yn hytrach na bod y sefyllfa'n waeth na'r disgwyl, nid oes modd dadlau o blaid gwneud y toriadau llym hyn. Fel y dywedodd papur *The Independent* ddoe,

ni fydd yr adroddiad rhag-gyllidebol yn cynnig dim amddiffyniad i Ganghellor sydd am ymosod yn ddidostur ar wariant cyhoeddus.

Andrew R.T. Davies: Oni chytunwch i'r Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb dynnu ar y ffaith bod y diffyg cronol y mae'n rhaid i'r wlad dalu llog arno'n fwy o lawer nag unrhyw lefel gynaliadwy o gyllid? Rhaid ei leihau; fel arall, bydd yn fwrn ar yr economi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae'r diffyg cronol yn fwy o lawer na'r hyn y gall unrhyw economi ei gynnal.

Brian Gibbons: Credaf y byddwn yn ymdrin â hynny. O edrych ar adroddiadau'r Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, gwelwn mai un maes sy'n peri pryder yw camau i leihau'r rhagolygon ar gyfer twf, a rhaid inni fyfyrion ynghylch polisïau arfaethedig y Llywodraeth glymbleidiol o ran hynny, felly. Go brin y bydd lleihau gwariant cyhoeddus yn sydyn ac yn sylweddol o les i'r economi, gan y bydd yn sugno o'r economi yr ysgogiad parhaus y mae ei angen yn daer, a chan y bydd yn lleihau'r galw allweddol ar adeg pan fo ein heconomi dan gymaint o bwysau. Go brin ei bod yn iawn tynnu'r cymorth ariannol hanfodol hwn o'r system fancio ac ariannol, sy'n sector sydd wedi dod yn fwyfwy agored i niwed dros yr ychydig wythnosau diwethaf, fel y nododd Joseph Stiglitz, enillydd gwobr Nobel, yn gynharach yn yr wythnos. Os byddwn yn cymryd camau mor ffyrnig i leihau gwariant cyhoeddus, bydd llai o adnoddau ar gael i ddarparu help a chymorth

and assistance to those who are most in need as a result of the economic downturn and the effects of the recession.

I now turn to the cherry tree that is the list of Liberal Democrat amendments. I wish to say a few words about amendment 1, which Jenny Randerson also mentioned. This is a concession that is worth £16 billion to £17 billion and is the equivalent of a 3p to 5p rise in value-added tax. It has a massive potential to redistribute income across Wales and the United Kingdom. However, 20 per cent of the population on the lowest income do not pay any income tax whatsoever, and so that lowest 20 per cent will not benefit whatsoever from this particular concession.

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

Brian Gibbons: Let me finish the point, first. However, as David Clegg said is in a previous incarnation, pre-election—*[Laughter.]* I meant Nick Clegg, of course—

Alun Davies: Just say ‘calamity Clegg’. *[Laughter.]*

Brian Gibbons: Before the last election, David Clegg said that, proportionately, the poorest 20 per cent of our population pay twice as much of their income through VAT as the richest 20 per cent. Therefore, these proposals, of which the Liberal Democrats have made particular play today, do represent a massive redistribution of income in the United Kingdom and in Wales, but it is a redistribution that will direct billions of pounds away from the 20 per cent who are most in poverty and in need.

Jenny Randerson: You fundamentally misunderstand the proposal, Brian, and I will not attempt to put you right in the short time that I have available.

4.30 p.m.

However, I think that you need to bear in

i’r rheini sydd fwyaf mewn angen o ganlyniad i’r dirywiad economaidd ac effeithiau’r dirwasgiad.

Trof yn awr at y goeden geirios, sef y rhestr o welliannau’r Democratiaid Rhyddfrydol. Hoffwn ddweud ychydig eiriau am welliant 1, y cyfeiriodd Jenny Randerson ato hefyd. Mae hwn yn gonsesiwn sy’n werth rhwng £16 biliwn a £17 biliwn, ac mae’n gyfwerth â chynnydd o 3 i 5 ceiniog mewn treth ar werth. Mae ganddo botensial enfawr i ailddosbarthu incwm ar draws Cymru a’r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid yw’r 20 y cant o’r boblogaeth sydd ar yr incwm isaf yn talu treth incwm o gwbl, ac felly, ni fydd yr 20 y cant dan sylw’n elwa dim o’r consesiwn penodol hwn.

Jenny Randerson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brian Gibbons: Gadewch imi orffen y pwynt yn gyntaf. Fodd bynnag, fel y dywedodd David Clegg mewn bywyd blaenorol, cyn yr etholiad—*[Chwerthin.]* Nick Clegg yr oeddwn yn ei olygu, wrth gwrs—

Alun Davies: Galwch ef yn ‘Clegg di-glem’. *[Chwerthin.]*

Brian Gibbons: Cyn yr etholiad diwethaf, dywedodd David Clegg, ynghylch yr incwm y mae pobl yn ei dalu drwy dreth ar werth, fod yr 20 y cant tlotaf o’n poblogaeth yn talu dwywaith gymaint â’r 20 y cant cyfoethocaf, o’i ystyried fel cyfran o’u hincwm. Felly, mae’r cynigion hyn, y mae’r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud môr a mynydd ohonynt heddiw, yn golygu ailddosbarthu incwm yn sylweddol yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru, ond ei ailddosbarthu gan gyfeirio biliynau o bunnoedd oddi wrth yr 20 y cant o bobl sy’n byw yn y tlogdi a’r angen mwyaf.

Jenny Randerson: Yr ydych yn camddeall y cynnig yn llwyr, Brian, ac nid wyf am geisio eich cywiro yn yr amser byr sydd gennyf.

Fodd bynnag, credaf fod angen ichi gofio nad

mind that this proposal is not designed to help those who are at the very lowest level—on benefits—because that level is going to be dealt with through changes to the benefits system. This issue is to do with those people—I know that you recognise them, because you have spoken about them here—who work very hard for very low wages, but still have to pay income tax.

Brian Gibbons: I do not understand how people receiving that level of benefit are going to benefit from this, in view of the public expenditure cuts that you are proposing; the arithmetic does not add up. In its evaluation of the Liberal Democrat proposals, the Institute for Fiscal Studies points out that those on the lowest 20 per cent of incomes will get less than a 1.5 per cent increase in net income terms, while the richest in society, apart from those earning over £130,000, will get a 2.5 per cent increase in their net incomes.

The Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up now.

Brian Gibbons: There is no doubt that this proposal is for the rich and not for the most disadvantaged or needy.

Nick Bourne: It gives me great pleasure to speak this afternoon on the UK Government's legislative programme. As has been said, it is a programme that is driven by principles of freedom, fairness and responsibility, to deliver a stronger society and to place more power and responsibility in the hands of citizens. Clearly, the main priority is to reduce the deficit. The Labour Party needs to reflect on what it is now saying, because before the election it also recognised that this was the main priority. In fairness, the Minister for Business and Budget has said that Wales must play its part in reducing the deficit. I remind people that, if left unchecked, the amount of debt will reach £1 trillion—I will give way to Brian Gibbons in a moment—and the amount of interest that the UK is currently paying on that debt is three times the Welsh block grant, which is not sustainable in the long term.

bwriad y cynnig hwn yw helpu'r rheini sydd ar y lefel isaf oll—ar fudd-daliadau—oherwydd ymdrinnir â'r lefel honno trwy newidiadau i'r system fudd-daliadau. Mae a wnelo'r mater â'r bobl hynny—gwn eich bod yn eu hadnabod, oherwydd yr ydych wedi siarad amdanynt yn y fan hon—sy'n gweithio'n galed iawn am incwm bach iawn, ond sy'n dal i orfod talu treth incwm.

Brian Gibbons: Nid wyf yn deall sut y bydd pobl sy'n cael y lefel honno o fudd-daliadau'n elwa o hyn, o gofio'r toriadau yr ydych yn eu cynnig ar wariant cyhoeddus; nid yw'r symiau'n gwneud synnwyr. Wrth werthuso cynigion y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn nodi y bydd y bobl ar lefelau incwm sydd ymhlith yr 20 y cant isaf yn cael cynnydd o lai nag 1.5 y cant yn nhermau incwm net, tra bydd y rhai mwyaf cyfoethog yn y gymdeithas, ar wahân i'r rheini sy'n ennill dros £130,000, yn cael cynnydd o 2.5 y cant yn eu hincwm net.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae angen ichi dynnu at y terfyn yn awr.

Brian Gibbons: Nid oes amheuaeth nad cynnig i'r cyfoethog yw hwn, ac nid cynnig i'r rhai mwyaf difreintiedig neu anghenus.

Nick Bourne: Pleser mawr yw cael siarad am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU y prynhawn yma. Fel y dywedwyd, mae'n rhaglen a gaiff ei gyrru gan egwyddorion rhyddid, tegwch a chyfrifoldeb, er mwyn creu cymdeithas gryfach a rhoi mwy o rym a chyfrifoldeb yn nwylo dinasyddion. Mae'n amlwg mai lleihau'r diffyg yw'r brif flaenoriaeth. Mae angen i'r Blaid Lafur fyfyrion ynghylch yr hyn y mae'n ei ddweud yn awr, oherwydd cyn yr etholiad, yr oedd hithau'n cydnabod mai dyma oedd y brif flaenoriaeth. Er tegwch, mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wedi dweud bod yn rhaid i Gymru chwarae ei rhan wrth leihau'r diffyg. Hoffwn eich atgoffa y bydd y ddyled yn cyrraedd £1 triliwn os nad eir i'r afael â hi—ildiaf i Brian Gibbons mewn eiliad—ac mae'r llog y mae'r DU yn ei dalu ar y ddyled honno ar hyn o bryd deirgwaith gymaint â'r grant bloc a roddir i Gymru, ac nid yw hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Brian Gibbons: Do you accept the verdict of the Office for Budget Responsibility, which said that the previous Government's proposals would see a 50 per cent reduction in the deficit, in line with the targets, over the period of this Parliament? We do not need these new proposals.

Nick Bourne: I am coming to the Office for Budget Responsibility, but I will say that we have to recognise what it is saying because it is an independent body. However, it also said—as I am sure that Brian Gibbons will accept—that Labour's economic growth projections were well overstated, by over 20 per cent; Labour said that growth would be 3.25 per cent, but this has been downscaled to 2.6 per cent, which is a drop of some 20 per cent. Having set up the office, we now have to listen to it; that is entirely fair. The Office for Budget Responsibility provides important statutory underpinning for any Government. This is the first time that any advanced economy has had independent fiscal analysis to produce official fiscal and economic forecasts; this is to be welcomed, and, from his comments, I think that Brian Gibbons would agree with me on that.

Another important reform Bill being brought forward is the financial services regulation Bill, which will reform financial regulation so that we do not get into the same mess with the banking sector again. I welcome what the Secretary of State said about the banking levy, but we need to look at the system of supervision that has let us down; there is no doubt about that. Jenny Randerson mentioned some important changes to the tax and benefit systems, and the change to the basic state pension from April next year that will restore the link with earnings. However, as she said, it will go beyond that, as it will be at least 2.5 per cent—if the earnings ratio is lower than that, the higher will apply. There are many poor pensioners throughout the United Kingdom, but particularly and disproportionately in Wales, and we have sought to take care of the latter in a minor way with the policy of a discount on council tax, which I think has been helpful. The

Brian Gibbons: A ydych yn derbyn barn y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, a ddywedodd y byddai cynigion y Llywodraeth flaenorol yn arwain at ostyngiad o 50 y cant yn y diffyg, yn unol â'r targedau, dros gyfnod y Senedd hon? Nid oes angen y cynigion newydd hyn arnom.

Nick Bourne: Byddaf yn dod at y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, ond hoffwn ddweud bod yn rhaid inni gydnabod yr hyn a ddywed gan ei fod yn gorff annibynnol. Fodd bynnag, dywedodd hefyd—fel y bydd Brian Gibbons yn cydnabod, yr wyf yn siŵr—fod rhagolygon y Blaid Lafur ar gyfer twf economaidd yn uwch o lawer, dros 20 y cant yn uwch, na'r hyn a ddisgwyliid mewn gwirionedd; dywedodd y Blaid Lafur y byddai twf yn 3.25 y cant, ond mae'r ffigur wedi'i leihau i 2.6 y cant, sy'n ostyngiad o ryw 20 y cant. Ar ôl sefydlu'r swyddfa, rhaid inni wrando arni'n awr; mae hynny'n gwbl deg. Mae'r Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn rhoi sail statudol bwysig i unrhyw Lywodraeth. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw economi ddatblygedig gael dadansoddiad ariannol annibynnol i baratoi rhagolygon ariannol ac economaidd swyddogol; mae hynny i'w groesawu, ac, o ystyried ei sylwadau, credaf y byddai Brian Gibbons yn cytuno â mi ar hynny.

Mesur diwygio pwysig arall a gyflwynir yw'r Mesur rheoleiddio gwasanaethau ariannol, a fydd yn diwygio trefniadau rheoleiddio ariannol fel na fyddwn yn mynd i'r un helynt gyda'r sector bancio eto. Croesawaf yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol am yr ardoll ar fanciau, ond mae angen inni edrych ar y system oruchwylio sydd wedi gwneud anghyfiawnder â ni; nid oes amheuaeth ynghylch hynny. Soniodd Jenny Randerson am rai newidiadau pwysig i'r system dreth a budd-daliadau, a'r newid i bensiwn sylfaenol y wladwriaeth o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen, a fydd yn adfer y cysylltiad ag enillion. Fodd bynnag, fel y dywedodd, bydd yn gwneud mwy na hynny, gan y bydd y pensiwn sylfaenol yn cynyddu o leiaf 2.5 y cant—os bydd y gymhareb enillion yn is na hynny, bydd y gyfradd uchaf yn berthnasol. Ceir llawer o bensiynwyr tlawd ledled y Deyrnas Unedig, ond yn benodol ac yn fwy felly yng Nghymru, ac yr ydym wedi ceisio

Government in Westminster has pledged to protect key benefits, such as the winter fuel payment and free bus passes and television licences, and that is welcome news.

The welfare reform Bill that is being brought forward will make the benefits system less complex; many people find the system confusing and difficult to navigate, and I think that we will see a gain for people from those reforms. One important point that has been touched on is the coalition Government's pledge to roll back the power of the state in some important areas, particularly on ID cards and the DNA database. I do not know whether the Counsel General, in responding to this debate, will say whether the Government here will support restricting the DNA database so that it will no longer be the case that DNA samples of people found innocent are retained.

Ann Jones: Will you give way?

Nick Bourne: Yes, because I know that you have strong feelings about this issue. It is fundamentally wrong that people who are found innocent should have their DNA samples retained.

Ann Jones: Thank you for giving way. Yesterday, you thought that I was speaking for the Government, which upset me, because I am a person in my own right and I can make policy just as you can. I put on record today my support for retaining DNA samples. Twenty-three murderers and rapists could have walked free. If you do not think that my support is good enough, will you join me at a police station, and Cheryl Gillan can come to hold your hand, to give them our DNA samples together?

Nick Bourne: First, what is surprising—and I know that you did not speak for the Government—was that Carl Sargeant did not seem to realise that, because he was unwilling to say that you were not speaking for the Government and we still do not know the Government's view. Ann, I am sorry

gofalu am hynny mewn ffordd fach gyda'r polisi o roi gostyngiad ar y dreth gyngor, sydd wedi bod o gymorth yn fy marn i. Mae'r Llywodraeth yn San Steffan wedi addo diogelu buddion allweddol, megis y taliad tanwydd gaeaf a thocynnau bws a thrwyddedau teledu rhad ac am ddim, ac mae hynny'n newyddion i'w groesawu.

Bydd y Mesur diwygio lles a gyflwynir yn gwneud y system fudd-daliadau'n llai cymhleth; mae llawer o bobl yn teimlo bod y system yn ddryslyd ac yn anodd ei defnyddio, a chredaf y byddwn yn gweld pobl yn elwa o'r diwygiadau hynny. Un pwynt pwysig a grybwyllwyd yw addewid y Llywodraeth glymbleidiol i leihau grym y wladwriaeth mewn rhai meysydd pwysig, yn enwedig o ran cardiau adnabod a'r gronfa ddata DNA. Ni wn a fydd y Cwnsler Cyffredinol, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn dweud a fydd y Llywodraeth yn y fan hon yn cefnogi cyfyngu ar y gronfa ddata DNA fel na fydd samplau DNA pobl a gafwyd yn ddiuog yn cael eu cadw mwyach.

Ann Jones: A wnewch chi ildio?

Nick Bourne: Gwnaf, oherwydd gwn fod gennych deimladau cryf am y mater hwn. Mae cadw samplau DNA pobl a gafwyd yn ddiuog yn gwbl anghyfiawn.

Ann Jones: Diolch am ildio. Ddoe, yr oeddech yn credu fy mod yn siarad ar ran y Llywodraeth, a'm siomodd, oherwydd yr wyf yn unigolyn yn fy rhinwedd fy hun a gallaf innau lunio polisi yn union fel y gallwch chi. Yr wyf am ddweud ar goedd heddiw fy mod yn cefnogi cadw samplau DNA. Gallai 23 o lofruddion a threiswyr fod wedi cael eu traed yn rhydd. Os nad ydych yn credu bod fy nghefnogaeth yn ddigon da, a wnewch chi ddod gyda mi i orsaf heddlu, a gall Cheryl Gillan ddod hefyd i afael yn eich llaw, i roi ein samplau DNA gyda'n gilydd?

Nick Bourne: Yn gyntaf, yr hyn sy'n peri syndod—a gwn nad oeddech yn siarad ar ran y Llywodraeth—oedd nad oedd Carl Sargeant fel pe bai'n sylweddoli hynny, oherwydd yr oedd yn gyndyn o ddweud nad oeddech yn siarad ar ran y Llywodraeth, ac ni wyddom o hyd beth yw safbwynt y

about this, but it is fundamentally wrong for people who have been found innocent of a criminal offence to have their DNA samples retained.

Ann Jones *rose*—

Nick Bourne: I am not giving way again. If it is something that you can support, that is up to you. It is fundamentally and inherently against the British system of being found innocent until proven guilty. If people who are innocent have their DNA samples retained, that is totally wrong. If people are found guilty of offences, that is a different matter.

Let me move on, because my contribution is not all about the DNA database, but I hope that the Counsel General will deal with that issue; it is important. This is also about scrapping the ID card system, with which he may well be sympathetic, along with the Government here—I do not know, but it will be interesting to hear its views. It has been strangely silent about that being a welcome move—

Jeff Cuthbert: Will you give way?

Nick Bourne: In a moment. The Government has not welcomed it as far as I am aware, but it said that ID cards would not be used in National Assembly business.

Jeff Cuthbert: I am grateful to you for giving way. On this subject and in the Liberal Democrats' amendment 7, which I assume that you support, there is a reference to cancelling ID cards and repealing 'other unnecessary and intrusive laws'. We can debate the issue of ID cards, but would 'unnecessary laws' include, for example, the proposal to improve and increase health and safety at work?

Nick Bourne: First, I thought that you were going to say something about ID cards, which would have been more interesting. That amendment means exactly what it says. Labour has created 4,300 new offences during its time in Government, which is equivalent to a new crime every day. For a

Llywodraeth. Ann, mae'n flin gennyf, ond mae cadw samplau DNA pobl a gafwyd yn ddiuog o drosedd yn gwbl anghyfiawn.

Ann Jones *a gododd*—

Nick Bourne: Nid wyf am ildio eto. Chi sydd i benderfynu a yw'n rhywbeth y gallwch ei gefnogi. Mae'n gwbl ac yn hanfodol groes i system Prydain, sef bod pobl yn ddiuog nes cânt eu profi'n euog. Mae cadw samplau DNA pobl sy'n ddiuog yn gwbl anghyfiawn. Mae'n fater gwahanol os caiff pobl eu dyfarnu'n euog o droseddau.

Gadewch imi symud ymlaen, oherwydd mae mwy i'm cyfraniad na'r gronfa ddata DNA, ond gobeithiaf y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn ymdrin â'r mater hwnnw; mae'n bwysig. Mae a wnelo hyn hefyd â chael gwared ar y system cardiau adnabod, ac mae'n bosibl iawn y bydd ef, ynghyd â'r Llywodraeth yn y fan hon, yn cefnogi hynny—wn i ddim, ond bydd yn ddiddorol clywed ei safbwyntiau. Bu'n rhyfedd o dawel o ran dweud bod hwnnw'n gam i'w groesawu—

Jeff Cuthbert: A wnewch chi ildio?

Nick Bourne: Mewn eiliad. Nid yw'r Llywodraeth wedi ei groesawu, hyd y gwn i, ond dywedodd na fyddai cardiau adnabod yn cael eu defnyddio ym musnes y Cynulliad Cenedlaethol.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. O ran y mater hwn, ac yng ngwelliant 7 y Democratiaid Rhyddfrydol, yr wyf yn cymryd eich bod yn ei gefnogi, cyfeirir at ganslo cardiau adnabod a diddymu 'cyfreithiau diangen ac ymwthiol eraill'. Mae cardiau adnabod yn fater y gallwn ei drafod, ond a fyddai 'cyfreithiau diangen' yn cynnwys, er enghraifft, y cynnig i wella a chynyddu iechyd a diogelwch yn y gwaith?

Nick Bourne: Yn gyntaf, yr oeddwn yn meddwl eich bod yn mynd i ddweud rhywbeth am gardiau adnabod, a fyddai wedi bod yn fwy diddorol. Mae'r gwelliant hwnnw'n golygu'r union beth y mae'n ei ddweud. Yn ystod ei chyfnod mewn Llywodraeth, mae'r Blaid Lafur wedi creu

party that believes in the liberty of the individual, it does not seem to be a terribly good record to me. This bears scrutiny, so I do support looking at unnecessary laws and I would have thought that you would too. If they are found to be unnecessary, they should be repealed. That is to be welcomed.

I will now move on to an issue that has an impact and on which, strangely, I agree with the First Minister, namely the reduction of MPs. I welcome that; it is sensible and has to be done on a proportionate basis. However, we must decouple the Assembly from that, because there is a different issue relating to the Assembly—we can work with 60 Members, but fewer than that would not work. So, on that point, if on no other, I agree with the First Minister.

I welcome what has been said about the Holtham commission. There are far too many sour voices on the other side, asking why are we not doing this sooner; you lot were in power for 13 years and did nothing. We have not been in power for 13 weeks yet and already we have made a commitment in the coalition Government to tackle this issue. If Labour Members want to do something constructive, and I hope that they do, it would be useful for them to have a quiet word with Alistair Darling and Liam Byrne to see if they have changed their minds. During the election campaign, which was not long ago, Alistair Darling, when he was said in Cardiff, said

‘we intend to maintain the Barnett formula, because it works’.

That was back in April and it is now June, so if he has changed his mind, it would be good to hear him say so, because it would make things that much easier when we get around to this if we had Labour Party support.

However, the priority must be dealing with the debt. We have had a good exchange of views and a constructive contribution from

4,300 o droseddau newydd, sy'n cyfateb i un trosedd newydd bob diwrnod. I blaid sy'n credu yn rhyddid yr unigolyn, nid yw hynny'n ymddangos yn berfformiad arbennig o dda i mi. Gellir craffu ar y sefyllfa hon, felly yr wyf yn cefnogi edrych ar gyfreithiau diangen, a byddwn wedi meddwl y byddech chithau. Os gwelir eu bod yn ddiangen, dylid eu diddymu. Mae hynny i'w groesawu.

Symudaf ymlaen yn awr at fater sy'n cael effaith, a mater yr wyf, yn rhyfedd ddigon, yn cytuno â'r Prif Weinidog yn ei gylch, sef lleihau nifer yr Aelodau Seneddol. Croesawaf hynny; mae'n synhwyrol ac mae'n rhaid ei wneud mewn modd cymesur. Fodd bynnag, rhaid inni dorri'r cysylltiad rhwng hynny a'r Cynulliad, oherwydd mae'r Cynulliad yn fater gwahanol—gallwn weithio gyda 60 o Aelodau, ond ni fyddai nifer llai na hynny'n ymarferol. Felly, cytunaf â'r Prif Weinidog ar y pwynt hwnnw, os nad ar unrhyw bwynt arall.

Croesawaf yr hyn a ddywedwyd am gomisiwn Holtham. Ceir gormod o lawer o leisiau sur yr ochr arall, sy'n gofyn pam nad ydym yn gwneud hynny ynghynt. Yr oeddech chi mewn grym am 13 blynedd ac ni wnaethoch ddim. Nid ydym wedi bod mewn grym am 13 wythnos eto, ac yr ydym ni, yn y Llywodraeth glymbleidiol, wedi ymrwymo eisoes i fynd i'r afael â'r mater hwn. Os yw'r Aelodau Llafur am wneud rhywbeth adeiladol, a gobeithiaf eu bod, byddai'n ddefnyddiol iddynt gael gair tawel ag Alistair Darling a Liam Byrne i weld a ydynt wedi newid eu meddwl. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, nad oedd yn rhy bell yn ôl, dyma a ddywedodd Alistair Darling, pan oedd yng Nghaerdydd,

Yr ydym yn bwriadu cadw fformiwla Barnett fel y mae, oherwydd mae'n gweithio.

Yr oedd hynny'n ôl ym mis Ebrill, ac mae'n fis Mehefin yn awr, felly, os yw wedi newid ei feddwl, byddai'n dda ei glywed yn dweud hynny, oherwydd byddai cael cefnogaeth y Blaid Lafur yn gwneud pethau gymaint yn haws pan ddown i ymdrin â hyn.

Fodd bynnag, rhaid mai ymdrin â'r ddyled yw'r flaenoriaeth. Yr ydym wedi cael trafodaeth dda a chyfraniad adeiladol gan yr

the Secretary of State—I applaud what Jenny Randerson said. There has been a difference in approach this time compared with Peter Hain, who came here and treated us with what I think is contempt. That is not how we have been treated today as an Assembly. This is a partnership that involves respect, and long may that continue.

4.40 p.m.

Helen Mary Jones: I am sure that Members will be pleased to know that, after our earlier deliberations on the Secretary of State's statement, I have set aside my prepared speech and will seek to pursue some of the issues that have already been touched on but not fully addressed, and to raise some others. I want to come back to the issue of the Barnett formula and the Holtham commission, because I am still confused in that respect. It is late in the afternoon, and I may be a little tired, but I still do not quite understand where the Government stands. I do know where our Conservative colleagues in the Assembly stand; they have made it clear that they know that the formula is unfair, and they know that it needs to be reformed. I must ask what more evidence is necessary? The Holtham commission has looked into this and the report of the House of Lords committee has been produced. Therefore, it is not just the view of Members in the Assembly that this formula is unfair—and profoundly so.

I put it to the Secretary of State in my response to her statement that, given the dependence of Wales on jobs in the public sector—and we all want to see that change over time, and that is why the Deputy First Minister will be bringing forward a new economic renewal programme to the Assembly shortly—and given the dependence of so many private companies, certainly in my constituency, on contracts relating to the public sector, including everything from providing food to building work, will the Secretary of State accept that we do not need more research? I and my party welcome the commitment to having a Calman-style look further down the line at having additional fiscal powers and how else the Assembly

Ysgrifennydd Gwladol—cymeradwyaf yr hyn a ddywedodd Jenny Randerson. Cafwyd agwedd wahanol y tro hwn o'i chymharu ag agwedd Peter Hain, a ddaeth yma a'n trin gyda dirmyg yn fy marn i. Nid felly y cawsom ein trin fel Cynulliad heddiw. Mae hon yn bartneriaeth sy'n cynnwys parch, a hir y parhaed hynny.

Helen Mary Jones: Ar ôl ein trafodaethau cynharach ar ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol, yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n falch o glywed fy mod wedi rhoi'r araith yr oeddwn wedi'i pharatoi o'r neilltu, ac y byddaf yn ceisio mynd ar drywydd rhai o'r materion sydd eisoes wedi'u crybwyll yn fras ond sydd heb gael sylw llawn, a chodi rhai materion eraill. Hoffwn ddychwelyd at fformiwla Barnett a chomisiwn Holtham, oherwydd yr wyf wedi drysu ynghylch hynny o hyd. Mae'n hwyr yn y prynhawn ac efallai fy mod wedi blino ychydig, ond nid wyf yn deall yn iawn o hyd beth yw safbwynt y Llywodraeth. Gwn beth yw safbwynt ein cydweithwyr o'r Blaid Geidwadol yn y Cynulliad; maent wedi datgan yn glir eu bod yn gwybod bod y fformiwla'n annheg, a gwyddant fod angen ei diwygio. Rhaid imi ofyn pa dystiolaeth arall y mae ei hangen? Bu comisiwn Holtham yn ymchwilio i'r mater, ac mae adroddiad pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi wedi'i gynhyrchu. Felly, nid dim ond yr Aelodau yn y Cynulliad sydd o'r farn bod y fformiwla hon yn annheg—a hynny i raddau helaeth iawn.

O gofio dibyniaeth Cymru ar swyddi yn y sector cyhoeddus—ac y mae pob un ohonom am weld hynny'n newid gydag amser, a dyna pam y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cyflwyno i'r Cynulliad cyn bo hir raglen newydd i adnewyddu'r economi—ac o gofio dibyniaeth cynifer o gwmnïau preifat, yn sicr yn fy etholaeth i, ar gontractau sy'n gysylltiedig â'r sector cyhoeddus, gan gynnwys popeth o ddarparu bwyd i waith adeiladu, gofynnais i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn fy ymateb i'w datganiad, dderbyn nad oes angen rhagor o ymchwil arnom. Yr wyf i a'm plaid yn croesawu'r ymrwymiad i fynd ati maes o law, yn null comisiwn Calman, i ystyried cael mwy o bwerau ariannol ac ystyried ffyrdd posibl

might be funded in the future, but, in the short term, Wales, which is, sadly, one of the poorest parts of this kingdom, and which has the poorest communities in these countries, is being asked to take a double set of cuts. It is perfectly appropriate that we play our part; no-one is arguing with that, and I agree with what the Minister for Budget and Business said earlier. However, we should not be expected to pay more than our share. Every day that the Barnett formula stands and the cuts begin to come in, that is what the Government is asking us to do, unless something changes. I am not prepared to stand here and say that I think that that is reasonable, and I will not go back to Tumble, Cross Hands and the other communities in the Gwendraeth Valley to tell them that it is reasonable. Therefore, I would press the Secretary of State to speed up the work that she said that she will do with regard to the Holtham commission. React to part 1 of its report—please do not wait for part 2. Part 2 will address other, wider issues, which will be important in the medium term. We and our private companies depend on the public sector, and if we have to start making these cuts with the Barnett formula as it is, our poorest will be expected to take a double hit. From what I have heard the Secretary of State say today, I do not think that she believes that that is fair, and I hope that she will take a strong message back from the Assembly.

As the First Minister has said, the fact that there has been clear commitment, whatever other parties have said in the past—we at least have always been absolutely consistent on this, as have the Liberal Democrats—begs the question as to the Welsh Conservatives' and the Welsh Liberal Democrats' influence on the formulation of the coalition agreement and the delivery of its programme. However, that is not what concerns me today; what concerns me today is that our poorest communities should not take a double hit as a result of the bankers having gone bonkers—it is not fair.

Going back to the issue of the housing legislative competence Order, the Secretary

eraill o ariannu'r Cynulliad yn y dyfodol, ond, yn y tymor byr, gofynnir i Gymru, sydd, yn anffodus, yn un o rannau tlotaf y deyrnas hon, ac sydd â'r cymunedau tlotaf yn y gwledydd hyn, gymryd dwy set o doriadau. Mae'n gwbl briodol inni chwarae ein rhan; nid oes neb yn dadlau â hynny, a chytunaf â'r hyn a ddywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn gynharach. Fodd bynnag, ni ddylai fod disgwyl inni dalu mwy na'n cyfran. Oni fydd rhywbeth yn newid, dyna'n union y mae'r Llywodraeth yn gofyn inni ei wneud tra bydd fformiwla Barnett yn parhau, ac wrth i'r toriadau ddechrau dod i rym. Nid wyf yn barod i sefyll yma a dweud bod hynny'n rhesymol yn fy marn i, ac nid af yn ôl i'r Tymbl, Cross Hands a chymunedau eraill yng Nghwm Gwendraeth i ddweud wrthynt fod hynny'n rhesymol. Felly, hoffwn bwysu ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflymu'r gwaith y mae wedi dweud y bydd yn ei wneud o ran comisiwn Holtham. Ymatebwch i ran 1 ei adroddiad—peidiwch ag aros am ran 2. Bydd rhan 2 yn mynd i'r afael â materion eraill, ehangach, a fydd yn bwysig yn y tymor canolig. Yr ydym ni a'n cwmnïau preifat yn dibynnu ar y sector cyhoeddus, ac os bydd yn rhaid inni ddechrau gwneud y toriadau hyn gyda fformiwla Barnett fel y mae, bydd disgwyl i'n pobl dlotaf ddiodef dwy ergyd. O'r hyn y clywais yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei ddweud heddiw, ni theimlaf ei bod yn credu bod hynny'n deg, a gobeithiaf y bydd yn mynd â neges gref yn ôl o'r Cynulliad.

Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae'r ffaith y cafwyd ymrwymiad clir, ni waeth beth y mae pleidiau eraill wedi'i ddweud yn y gorffennol—yr ydym ni, o leiaf, wedi bod yn gwbl gyson ynghylch hynny, yn yr un modd â'r Democratiaid Rhyddfrydol—yn peri i rywun amau pa ddylanwad sydd gan Geidwadwyr Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y gwaith o ffurfio cytundeb y glymblaid a gweithredu ei rhaglen. Fodd bynnag, nid dyna sy'n fy mhoeni heddiw; yr hyn sy'n fy mhoeni heddiw yw na ddylai ein cymunedau tlotaf ddiodef dwy ergyd o ganlyniad i'r ffaith bod y bancwyr wedi mynd yn benwan—nid yw hynny'n deg.

Gan ddychwelyd at y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch tai,

of State answered in part the questions that I put to her, but I hope that, in her contribution to the debate, she can explain whether she understands the imperative nature of the timeframe. The Westminster Government has said that it will respect the difference in policy between the Assembly Government and London, and has said that it understands that there will be different policy priorities at different times. The coalition Government here will not be able to deliver its housing commitments unless those powers are brought down in a very timely fashion. I hope that the Secretary of State will understand what the competence Order is for. Its purpose is not to determine whether the right to buy is suspended; its purpose is to decide whether those decisions are taken here.

Conservative and Liberal Democrat colleagues have said different things in this Chamber about their understanding of what happens next to the draft Order. Mark Isherwood has asked the Minister whether she is prepared to amend it. I do not know how on earth she could amend it at this stage of the process, and she certainly should not. Peter Black has told us that it is his understanding that it will go through unamended. We need some clarity and we need it fast, because, even if it does go through unamended, if it does not go through soon, our Government will not be able to meet its commitments, and that will not reflect well on the respect agenda. I submit that this is a very specific and major test of how genuine that respect agenda is. I very much hope that, in this case, the Liberal Democrats will be right and the Conservatives will be wrong—it would not be the first time. Nevertheless, we need clarity about that time frame.

I want to touch briefly on one particular opportunity for framework powers. Whether or not it is appropriate in England to have directly elected police chiefs is a matter for debate. However, it is fairly clear that in a country the size of Wales, with its population of 3 million people and an existing

cefais ateb yn rhannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cwestiynau a ofynnais iddi, ond gobeithiaf y gall egluro, yn ei chyfraniad i'r ddatl, a yw'n deall mor hollbwysig yw'r amserlen. Mae Llywodraeth San Steffan wedi dweud y bydd yn parchu'r gwahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth y Cynulliad a pholisi Llundain, ac mae wedi dweud ei bod yn deall y bydd gwahanol flaenoriaethau o ran polisi ar waith ar wahanol adegau. Ni fydd y Llywodraeth glymbleidiol yn y fan hon yn gallu cyflawni ei hymrwymiaidau ynghylch tai oni throsglwyddir y pwerau hynny'n brydlon iawn. Gobeithiaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn deall beth yw diben y Gorchymyn cymhwysedd. Nid penderfynu a gaiff yr hawl i brynu ei hatal yw ei ddiben. Ei ddiben yw penderfynu a gaiff y penderfyniadau hynny eu gwneud yma.

Mae cydweithwyr o'r Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi dweud pethau gwahanol yn y Siambr hon ynghylch beth, yn ôl yr hyn a ddeallant, a fydd yn digwydd nesaf i'r Gorchymyn drafft. Mae Mark Isherwood wedi gofyn i'r Gweinidog a yw'n barod i'w newid. Wn i ddim sut ar y ddaear y gallai ei newid yn ystod y cam hwn yn y broses, ac yn bendant ni ddylai wneud hynny. Mae Peter Black wedi dweud wrthym ei fod ef ar ddeall y bydd yn cael ei basio heb ei newid. Mae angen rhywfaint o eglurder arnom, a hynny ar fyrder, oherwydd, hyd yn oed os caiff ei basio heb ei newid, os na chaiff ei basio cyn hir, ni fydd ein Llywodraeth ni'n gallu cyflawni ei hymrwymiaidau, ac ni fydd hynny'n adlewyrchu'n dda ar yr agenda o ran parch. Awgrymaf fod hyn yn brawf pwysig a phenodol iawn ar ba mor ddiffuant yw'r agenda honno. Gobeithiaf yn fawr, yn yr achos hwn, mai'r Democratiaid Rhyddfrydol a fydd yn gywir, ac mai'r Ceidwadwyr a fydd yn anghywir—nid dyna fyddai'r tro cyntaf. Er hynny, mae angen eglurder arnom ynghylch yr amserlen.

Hoffwn grybwyll yn fras un cyfle penodol i gael pwerau fframwaith. Mater i'w drafod yw p'un a yw'n briodol yn Lloegr cael prif swyddogion heddlu a gaiff eu hethol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n weddol amlwg, mewn gwlad o faint Cymru, gyda'i phoblogaeth o 3 miliwn o bobl a chorff

democratic body that already contributes substantially to the funding of community safety, it would make a great deal of sense to use the opportunity of that legislation for framework powers that devolve policing. This is not a formal request, certainly not from our Government, or from my party, but I hope that the Secretary of State and her Government will be able to consider those sorts of opportunities.

I am still unclear about the incarceration of children in the immigration system. It is clear from what the Secretary of State and Jenny Randerson have said—I hope that Jenny will forgive me for mentioning her while she is not in the Chamber—that children who are not with their families will not be incarcerated. We would all welcome that, as it should not be happening in any case. However, will children be incarcerated with their mothers and fathers? I know what the Liberal Democrats' policy is on this, and I wholly endorse it. Families with children should not be incarcerated. We have had voluntary organisations and the churches telling us horror stories about what happens to children in such cases. I very much hope that this policy means that families with children will no longer be incarcerated, but I remain unclear about that, and, as it is early in the process, perhaps the Secretary of State would need to write to us on this matter. It is a matter of importance to us all.

On a related matter, I have a particular request to make of the Secretary of State that she may wish to take up with her Cabinet colleagues. It has long been the practice here for our Ministers to be prepared to respond individually to Members of Parliament when they make representations on issues such as health, education, or local government, for example. It is entirely proper that MPs should be able to make those individual representations. We had a reciprocal arrangement, which meant that individual Assembly Members could make representations on behalf of individuals in the immigration and asylum system. It would, of course, not be proper for us to attempt to interfere in immigration and asylum policy,

democrataidd sy'n bodoli eisoes ac sydd eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at ariannu diogelwch cymunedol, y byddai'n gwneud llawer iawn o synnwyr i ddefnyddio'r cyfle a geir drwy'r ddeddfwriaeth honno i gael pwerau fframwaith sy'n datganoli plismona. Nid cais ffurfiol mo hwn, yn sicr nid gan ein Llywodraeth, na chan fy mhlaidd, ond gobeithiaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Llywodraeth yn gallu ystyried cyfleoedd o'r fath.

Nid wyf yn sicr o hyd ynghylch carcharu plant yn y system fewnfudo. Mae'n amlwg o'r hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Jenny Randerson wedi'i ddweud—gobeithiaf y bydd Jenny yn maddau imi am grybwyll ei henw, a hithau'n absennol o'r Siambr—na fydd plant nad ydynt gyda'u teuluoedd yn cael eu carcharu. Byddai pob un ohonom yn croesawu hynny, gan na ddylai fod yn digwydd beth bynnag. Serch hynny, a fydd plant yn cael eu carcharu gyda'u mam a'u tad? Gwn beth yw polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn, ac yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr. Ni ddylai teuluoedd â phlant gael eu carcharu. Yr ydym wedi clywed straeon erchyll gan fudiadau gwirfoddol ac eglwysi am yr hyn sy'n digwydd i blant mewn achosion o'r fath. Gobeithiaf yn fawr fod y polisi hwn yn golygu na fydd teuluoedd â phlant yn cael eu carcharu mwyach, ond nid wyf yn sicr ynghylch hynny o hyd, a chan ei bod yn gynnar yn y broses, efallai y byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ysgrifennu atom ynghylch y mater. Mae'n fater sy'n bwysig inni i gyd.

O ran mater cysylltiedig, mae gennyf gais penodol i'w wneud i'r Ysgrifennydd Gwladol, y bydd, efallai, yn dymuno'i godi gyda'i chydweithwyr yn y Cabinet. Bu'n arfer gennym yma ers amser i'n Gweinidogion fod yn barod i ymateb yn unigol i Aelodau Seneddol pan fyddant yn cyflwyno sylwadau ar faterion megis iechyd, addysg neu lywodraeth leol, er enghraifft. Mae'n gwbl briodol i Aelodau Seneddol allu cyflwyno'r sylwadau unigol hynny. Yr oedd gennym drefniadau cytbwys o'r ddwy ochr, a oedd yn golygu y gallai Aelodau unigol o'r Cynulliad wneud sylwadau ar ran unigolion yn y system fewnfudo a lloches. Wrth gwrs, ni fyddai'n briodol inni geisio ymyrryd â pholisi mewnfudo a lloches, gan nad yw'n

because it is not a devolved matter; I only wish that some of our colleagues in Parliament would realise that neither is it proper for them to interfere in the development of education and housing policy. Seriously, however, my point, Secretary of State, is that I and other Members here have had people come to talk to us about such matters rather than their Member of Parliament, for whatever reason. I very much hope that, in the context of the respect agenda, your Minister for immigration would be prepared to take such representations from me and from others—I know that Mike German has had difficulties with this in the past. It has been a very helpful protocol, and I hope, Secretary of State, that you can work with your colleagues to restore it, again in the context of the respect agenda.

Overall, I welcome the approach that the Secretary of State has taken today. I would sound some slightly precautionary notes, however. Blaming our predecessors is something that we all do; there is not a politician who has ever gone into Government or exercised any kind of control that has not done that. However, I hope that the Secretary of State can move on from that, because what I and my constituents want to know with regard to the referendum or the economic situation is not whose fault it is; we want to know what is going to happen next.

The other thing that I am a little concerned about, and that jarred somewhat, is some of the references that the Secretary of State made to benefit claimants. There may be some individuals who play fast and loose with the system, but compared to the dozens of people who have genuine claims that they do not make, the number is very small. There was just a touch of old Conservative rhetoric in the Secretary of State's comments about benefits claimants. Perhaps I am being oversensitive; I hope that she will put me right.

4.50 p.m.

I will wind up, Deputy Presiding Officer, but

fater sydd wedi'i ddatganoli; byddai'n dda gennyf pe bai rhai o'n cydweithwyr yn Senedd San Steffan yn sylweddoli nad yw'n briodol ychwaith iddynt hwythau ymyrryd â gwaith datblygu polisi addysg a thai. O ddifrif, fodd bynnag, fy mhwynt, Ysgrifennydd Gwladol, yw fy mod i ac Aelodau eraill yma wedi cael pobl yn dod atom ni, yn hytrach na'u Haelod Seneddol, i drafod materion o'r fath, am ba reswm bynnag. Gobeithiaf yn fawr y byddai eich Gweinidog dros fewnfudo yn barod, yng nghyd-destun eich agenda o ran parch, i gymryd sylwadau perthnasol gennyf i a chan eraill—gwn fod Mike German wedi cael anawsterau gyda hyn yn y gorffennol. Bu'n brotocol defnyddiol iawn, a gobeithiaf, Ysgrifennydd Gwladol, y byddwch yn gallu gweithio gyda'ch cydweithwyr i'w adfer, unwaith eto yng nghyd-destun yr agenda o ran parch.

Ar y cyfan, croesawaf yr agwedd y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i mabwysiadu heddiw. Hoffwn roi ambell air bach o rybudd, er hynny. Mae bwrw bai ar ein rhagflaenwyr yn rhywbeth y mae pob un ohonom yn ei wneud; mae pob gwleidydd sydd wedi mynd i mewn i Lywodraeth, neu sydd wedi arfer unrhyw fath o rym, wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu symud ymlaen o hynny oherwydd, o ran y refferendwm neu'r sefyllfa economaidd, nid wyf i na'm hetholwyr am wybod pwy sydd ar fai; yr ydym am wybod beth fydd yn digwydd nesaf.

Y peth arall sy'n fy mhoeni braidd, ac a'm cythryblodd braidd, yw rhai o'r cyfeiriadau a wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol at bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Mae'n bosibl bod rhai unigolion yn twyllo'r system, ond mae'r nifer yn fach iawn o'i gymharu â'r degau o bobl sydd â rheswm dilys dros hawlio budd-daliadau ond nad ydynt yn gwneud hynny. Yr oedd rhyw dinc o hen rethreg y Ceidwadwyr yn sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol am bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Efallai fy mod yn orsensitif; gobeithiaf y bydd yn fy nghywiros.

Tynnaf at y terfyn, Ddirprwy Lywydd, ond

I have one more thing to say. The communities that I represent are fearful. The last time that the Conservatives were in Government, Cross Hands, Tumble, Pontyberem and the town of Llanelli were devastated. I hope that it will be different this time. Based on some of the things that the Secretary of State and other representatives of the coalition Government have said elsewhere, I hope that it will be. However, whatever the talk about respect and new politics, if we make the cuts too fast and too soon, it will not be different.

Kirsty Williams: I am conscious that I had an opportunity earlier to talk about some of the issues raised in the Queen's Speech, but I very much welcome the opportunity to have a wider debate here this afternoon on the Government's initiatives and to hear the points raised by other colleagues. I very much welcome and support the amendments tabled by my colleague Peter Black, which highlight some of the key themes of the Queen's Speech for my party. I would like to begin by asking the Counsel General, who I understand will respond to the debate this afternoon, to expand further on the points made by the First Minister in his opening speech about the Welsh Assembly Government's views on framework powers. Much of the legislation that the Government intends to bring forward has yet to be published and I wonder whether the Counsel General could give us an early indication as to which Bills he sees as offering an opportunity to progress the devolution settlement for Wales, what discussions he has had to date about the inclusion of framework powers in the Bills when they are published, and what powers he will seek to draw down during this process.

Understandably, much has been made this afternoon of the issue of the referendum, but wider matters of political reform are contained in the Queen's Speech. I particularly look forward to the referendum on the alternative vote system. I agree with my colleague Jenny Randerson, as it is not my preferred form of proportional representation either, but, as the Labour Party and Plaid Cymru will know all too well,

mae gennyf un peth arall i'w ddweud. Mae'r cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli yn ofnus. Y tro diwethaf yr oedd y Ceidwadwyr mewn Llywodraeth, cafodd Cross Hands, y Tymbl, Pontyberem a thref Llanelli eu hanrheithio. Gobeithiaf y bydd pethau'n wahanol y tro hwn. Ar sail rhai o'r pethau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a chynrychiolwyr eraill y Llywodraeth glymbleidiol wedi'u dweud mewn manau eraill, gobeithiaf y byddant. Fodd bynnag, ni waeth pa sôn sydd am barch a gwleidyddiaeth newydd, ni fydd pethau'n wahanol os byddwn yn cyflwyno'r toriadau'n rhy gyflym ac yn rhy fuan.

Kirsty Williams: Yr wyf yn ymwybodol imi gael cyfle yn gynharach i siarad am rai o'r materion a godwyd yn Araith y Frenhines, ond yr wyf yn croesawu'n fawr y cyfle i gael dadl ehangach yn y fan hon y prynhawn yma am fentrau'r Llywodraeth, a chlywed y pwyntiau a godir gan gydweithwyr eraill. Yr wyf yn croesawu'n fawr ac yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan fy nghydweithiwr, Peter Black, sy'n tynnu sylw at rai o themâu allweddol Araith y Frenhines ar gyfer fy mhlaid i. Hoffwn ddechrau drwy ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol, a fydd, fel y caf ar ddeall, yn ymateb i'r ddadl y prynhawn yma, ymhelaethu ymhellach ar y pwyntiau a wnaed gan y Prif Weinidog yn ei araith agoriadol ynghylch barn Llywodraeth y Cynulliad am bwerau fframwaith. Nid yw llawer o'r ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei chyflwyno wedi cael ei chyhoeddi hyd yma, a thybed a allai'r Cwnsler Cyffredinol roi arwydd cynnar inni o ba Fesurau sy'n cynnig cyfle, yn ei farn ef, i symud setliad datganoli Cymru yn ei flaen, pa drafodaethau y mae wedi eu cael hyd yma ynghylch cynnwys pwerau fframwaith yn y Mesurau pan gânt eu cyhoeddi, a pha bwerau y bydd yn ceisio eu cael yn ystod y broses?

Yn naturiol, soniwyd llawer y prynhawn yma am fater y refferendwm, ond ceir materion ehangach ynghylch diwygio gwleidyddol yn Araith y Frenhines. Edrychaf ymlaen yn arbennig at y refferendwm ynghylch y system pleidlais amgen. Yr wyf yn cytuno â'm cydweithiwr, Jenny Randerson, oherwydd nid dyna yw'r ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol y byddwn i'n ei ffafrio ychwaith, ond, fel y gŵyr y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn dda

when designing a coalition Government, one has to compromise somewhat and to begin to take steps along the way that one would wish to go further. A referendum on AV is a start. I reiterate the points that I made earlier and that have been made since about the effects that that will potentially have on the electoral arrangements in Wales and the opportunity, which is how I think that we should look at it, to devolve power to us for us to make further changes to our arrangements.

Sandy Mewies: I am not surprised to hear you talk about compromise. You will know that one of the early and most savage cuts that the new Government will make is to the independently funded news consortia project in Wales. I was going to ask the Secretary of State this question: do you not agree that the decision to scrap the IFNC amounts to selling Welsh news down the river? Actually, those are not my words, but yours.

Kirsty Williams: It is of huge regret to me that the independent news consortia will not be taken forward. I will not stand here and pretend that the views that I held prior to the election have changed suddenly with the Government in London—something that we are all too familiar with your colleagues doing. It is also of regret that you could have signed off on those consortia before you left power, but delayed in doing so. We have heard a lot about delays this afternoon. You did not seal the deal when you had an opportunity to do so.

To return to the issue of political reform, the referendum on AV raises real issues for us and I hope that those will be addressed in the months to come. I particularly look forward to reform of the House of Lords. I hope that Mike's tenure there and the continuing tenure of the Presiding Officer will be short and that we will move as quickly as possible to a fully elected or primarily elected second House in Westminster. That is well overdue. I particularly welcome the proposals around recall and the attempt to look at reforming the funding of political parties.

iawn, wrth gynllunio Llywodraeth glymbleidiol, rhaid cyfaddawdu ychydig a dechrau cymryd camau ar hyd y ffordd y byddai rhywun am ei throedio ymhellach. Mae refferendwm ynghylch pleidlais amgen yn fan cychwyn. Ailadroddaf y pwyntiau a wneuthum yn gynharach, ac sydd wedi cael eu gwneud wedyn, am yr effaith y gallai hynny ei chael ar y trefniadau etholiadol yng Nghymru, a'r cyfle, oherwydd dylem ei ystyried yn gyfle yn fy marn i, i ddatganoli pŵer er mwyn inni wneud rhagor o newidiadau i'n trefniadau.

Sandy Mewies: Nid wyf yn synnu wrth eich clywed yn sôn am gyfaddawdu. Byddwch yn gwybod mai un o'r toriadau cynnar a mwyaf ffyrnig y bydd y Llywodraeth newydd yn ei wneud fydd i'r prosiect consortia newyddion a ariennir yn annibynnol yng Nghymru. Yr oeddwn am ofyn y cwestiwn hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol: oni chytunwch fod y penderfyniad i gael gwared ar y consortia newyddion a ariennir yn annibynnol gystal â bradychu newyddion yng Nghymru? A dweud y gwir, eich geiriau chi yw'r rheini, nid fy rhai i.

Kirsty Williams: Mae'n edifar gennyf na fydd y prosiect consortia newyddion annibynnol yn cael ei symud ymlaen. Ni safaf yma a smalio bod fy marn cyn yr etholiad wedi newid yn sydyn gyda'r Llywodraeth yn Llundain—rhywbeth yr ydym wedi hen arfer ei weld yn digwydd yn achos eich cydweithwyr. Mae'n drueni hefyd y gallech fod wedi cymeradwyo'r consortia hynny cyn ichi golli grym, ond ichi oedi o ran gwneud hynny. Yr ydym wedi clywed llawer am oedi y prynhawn yma. Ni thrawsoch fargen pan oedd gennych gyfle i wneud hynny.

Gan ddychwelyd at ddiwygio gwleidyddol, mae'r refferendwm ynghylch pleidlais amgen yn codi materion gwirioneddol inni, a gobeithiaf yr eir i'r afael â'r rheini yn ystod y misoedd sydd i ddod. Edrychaf ymlaen yn arbennig at ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi. Gobeithiaf y bydd cyfnod Mike yno a chyfnod parhaus y Llywydd yn fyr, ac y byddwn yn symud mor gyflym ag sy'n bosibl at ail Dŷ yn San Steffan a gaiff ei ethol yn gyfan gwbl neu'n bennaf. Dylai hynny fod wedi digwydd ers amser. Yr wyf yn croesawu'n arbennig y cynigion ynghylch

galw Aelodau Seneddol yn ôl, a'r ymgais i ystyried diwygio'r modd y caiff pleidiau gwleidyddol eu hariannu.

I am delighted at the scrapping of the identity card scheme, and at the reform of the DNA database. Identity cards, and the inclusion of your DNA in a database, even if you are innocent, would have fundamentally changed people's relationship with the state.

Yr wyf wrth fy modd â'r bwriad i gael gwared ar y cynllun cardiau adnabod a diwygio'r gronfa ddata DNA. Byddai cardiau adnabod, a chynnwys eich DNA mewn cronfa ddata hyd yn oed os ydych yn ddiueog, wedi arwain at newid sylfaenol ym mherthynas pobl â'r wladwriaeth.

Nerys Evans: The UK Government will also be spending about £100 billion on Trident.

Nerys Evans: Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn gwario tua £100 biliwn ar Trident.

Kirsty Williams: As you know, the Liberal Democrats believe that Trident should be included in the strategic defence review. I do not think that we need a like-for-like replacement for Trident, and I have always felt that way. There are many Liberal Democrats at Westminster, and here, who will continue to argue that point. Trident and a replacement for it will be subject to further debate, and I will be making that point, as will those who represent Plaid Cymru at Westminster, I am sure.

Kirsty Williams: Fel y gwyddoch, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu y dylid cynnwys Trident yn yr adolygiad strategol o amddiffyn. Ni chredaf fod arnom angen prosiect arall tebyg yn lle Trident, ac yr wyf bob amser wedi credu hynny. Mae llawer o Ddemocratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, ac yma, a fydd yn parhau i ddadlau'r pwynt hwnnw. Bydd Trident, a phrosiect i'w ddisodli, yn destun dadleuon pellach, a byddaf yn gwneud y pwynt hwnnw, yn yr un modd â'r sawl sy'n cynrychioli Plaid Cymru yn San Steffan, yr wyf yn siŵr.

I welcome the rolling back of legislation that restricted the right to peaceful protest. I welcome the element of fairness in this Queen's Speech—including fairness for pensioners by restoring the link between state pensions and earnings and guaranteeing a minimum uplift in state pensions in line with earnings or of 2.5 per cent, whichever is higher. I welcome fairness for those Equitable Life pension holders who, according to the parliamentary ombudsman in 2008, should have been compensated. The previous Westminster Government consistently refused to do that.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod deddfwriaeth a oedd yn cyfyngu ar yr hawl i brotestio'n heddychlon yn cael ei thynnu'n ôl. Yr wyf yn croesawu'r elfen o degwch yn yr Araith hon gan y Frenhines—gan gynnwys tegwch i bensynwyr, drwy adfer y cysylltiad rhwng pensïynau'r wladwriaeth ac enillion a gwarantu isafswm o gynnydd ym mhensiynau'r wladwriaeth, yn unol ag enillion neu gyfradd o 2.5 y cant, pa un bynnag sydd uchaf. Yr wyf yn croesawu tegwch i'r rheini sydd â phensiynau Equitable Life, a ddylai fod wedi cael iawndal, yn ôl yr ombwdsmon seneddol yn 2008. Gwrthododd Llywodraeth flaenorol San Steffan wneud hynny, yn gyson.

Leanne Wood: You previously also supported the claims of former Allied Steel and Wire workers. Has your position on that changed?

Leanne Wood: Yn flaenorol, yr oeddech yn cefnogi hawliadau cyn-weithwyr Allied Steel and Wire hefyd. A yw eich safbwynt ar hynny wedi newid?

Kirsty Williams: Not at all. I am interested in fairness, Leanne, whether that is for Equitable Life pension holders or ASW pension holders. I hope that we can take the

Kirsty Williams: Nac ydyw, yn bendant. Mae gennyf ddiddordeb mewn tegwch, Leanne, boed i unigolion sydd â phensiynau Equitable Life neu unigolion sydd â

case to the new Government in London and be more successful than we were with the previous Labour Government, which refused to look at the case of the ASW workers sympathetically. I hope that the Equitable Life situation will give us a basis on which to make the case for fair treatment for all those who paid into a pension scheme in good faith, hoping that it would protect them in retirement, and then were let down—regardless of where the pensions were held.

I am also interested in fairness for those on low wages, and I look forward to seeing progress on raising the threshold for the basic rate of tax. We would not be in this mess if it were not for the failure of financial regulation and the mistakes of the banking sector. The financial reform Bill must be used as an opportunity to prevent this situation from happening again, and must ensure that the bankers in London pay their fair share in trying to sort out the mess that they were fundamental in creating.

With regard to funding for Wales, I absolutely agree with the Holtham commission that Wales is currently underfunded. I heard Helen Mary urging that we get on with that more quickly. Helen Mary, you have been in a coalition with Labour colleagues here for the last three years, while that party was in power at Westminster, and were able to use your influence with them to push for those changes. You were unsuccessful in making that case to Labour colleagues in London. We have Treasury buy-in to this process for the first time, just as there was Treasury buy-in to the Calman commission, and so I believe that we can now move this agenda forward more quickly. Labour was never committed to that.

Brian Gibbons: You are right that there is a desperate need to modify the funding formula. However, do you recognise that the very reason why convergence has taken place is because of the record levels of public expenditure by the previous Government at

phensiynau Allied Steel and Wire. Gobeithiaf y gallwn fynd â'r achos gerbron y Llywodraeth newydd yn Llundain, a bod yn fwy llwyddiannus nag yr oeddem gyda'r Llywodraeth Lafur flaenorol, a wrthododd edrych gyda chydymdeimlad ar achos gweithwyr Allied Steel and Wire. Gobeithiaf y bydd y sefyllfa o ran Equitable Life yn rhoi sail inni gyflwyno'r achos dros driniaeth deg i bawb a dalodd arian i mewn i gynllun pensiwn gydag ewylllys da, yn y gobaith y byddai'n eu gwarchod ar ôl iddynt ymddeol, ac a gafodd eu siomi wedyn—ni waeth ble'r oedd y pensiynau hynny.

Mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn tegwch i'r rheini sydd ar gyflogau isel, ac edrychaf ymlaen at weld cynnydd o ran codi'r trothwy ar gyfer y gyfradd dreth sylfaenol. Ni fyddem yn y llastr hwn oni bai am fethiant systemau rheoleiddio ariannol a chamgymeriadau'r sector bancio. Rhaid defnyddio'r Mesur diwygio ariannol fel cyfle i rwystro'r sefyllfa hon rhag digwydd eto, a rhaid inni sicrhau bod y bancwyr yn Llundain yn talu eu cyfran hwy wrth inni geisio rhoi trefn ar y llastr yr oeddent mor sylfaenol gyfrifol am ei greu.

O safbwynt arian i Gymru, cytunaf yn llwyr â chomisiwn Holtham fod Cymru yn cael ei thanariannu ar hyn o bryd. Clywais Helen Mary yn ein hannog i fwrw ymlaen â hynny'n gyflymach. Helen Mary, yr ydych wedi bod mewn clymblaid gyda chydweithwyr o'r Blaid Lafur yn y fan hon dros y tair blynedd diwethaf, tra oedd y blaid honno mewn grym yn San Steffan, a gallech ddefnyddio eich dylanwad gyda hwy i bwysu am y newidiadau hynny. Yr oeddech yn aflwyddiannus wrth gyflwyno'r achos hwnnw i gydweithwyr o'r Blaid Lafur yn Llundain. Mae'r Trysorlys yn cefnogi'r broses hon am y tro cyntaf, yn yr un modd ag yr oedd yn cefnogi comisiwn Calman, ac felly credaf y gallwn symud yr agenda hon ymlaen yn gyflymach yn awr. Nid ymrwymodd y Blaid Lafur i hynny erioed.

Brian Gibbons: Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod taer angen addasu'r fformiwla ariannu. Fodd bynnag, a ydych yn cydnabod mai'r union reswm pam mae cydgyfeirio wedi digwydd yw oherwydd y lefelau uchaf erioed o wariant cyhoeddus gan y

Westminster, from which we have benefited? The unfairness is almost a consequence of the generosity of the previous Government. It came about because of increased public expenditure, which will not continue, and therefore we wonder what will happen to Barnett in the context of reduced public expenditure.

Kirsty Williams: You are absolutely right that the squeeze came about because of that increase in public expenditure. The problems that caused have been keenly felt. I acknowledge that, just as Holtham does. That does not get us away from the fact that your Government, as recently as February, said in answer to written questions that it had no intention of reforming Barnett. During the election campaign, Alistair Darling said that he had no intention of reforming Barnett should he be returned to power.

5.00 p.m.

The issue now is what Liam Byrne and Alistair Darling and other Labour colleagues in London will be saying on this issue to the Government in Westminster. Will they, on the opposition benches, be calling for this change, just as we are calling for this change?

Peter Black: Can you remind Brian that one of the conclusions of the Holtham commission's report was that, at times of cutbacks, the Barnett formula actually works in Wales's favour?

Kirsty Williams: I would rather do without the cutbacks, but there will certainly be a reversal when expenditure decreases. The squeeze that we have experienced in the past few years will certainly not be present in the future.

We need to move towards reforming Barnett. I welcome Helen Mary's comment that she supports the desire to go beyond the reform of the formula and to look at greater fiscal responsibility and federalism in order to give the Assembly a stake in the revenue that it raises and in how it spends that money. I look

Llywodraeth flaenorol yn San Steffan, yr ydym wedi cael budd ohono? Mae'r annhegwch bron yn ganlyniad haelioni'r Llywodraeth flaenorol. Digwyddodd oherwydd y cynnydd mewn gwariant cyhoeddus, na fydd yn parhau. Tybed, felly, beth fydd yn digwydd i Barnett yng nghyd-destun llai o wariant cyhoeddus?

Kirsty Williams: Yr ydych yn gwbl gywir wrth ddweud i'r wasgfa ddigwydd oherwydd y cynnydd hwnnw mewn gwariant cyhoeddus. Mae'r problemau a achosodd hynny wedi bod yn enbyd. Yr wyf yn cydnabod hynny, yn yr un modd â Holtham. Nid yw hynny'n osgoi'r ffaith i'ch Llywodraeth, mor ddiweddar â mis Chwefror, ddweud mewn ateb i gwestiynau ysgrifenedig, nad oedd yn fwriad o gwbl ganddi ddiwygio Barnett. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, dywedodd Alistair Darling nad oedd yn fwriad o gwbl ganddo ddiwygio Barnett pe bai'n dychwelyd i rym.

Y broblem yn awr yw'r hyn y bydd Liam Byrne ac Alistair Darling a chydweithwyr eraill yn y Blaid Lafur yn Llundain yn ei ddweud am y mater hwn wrth y Llywodraeth yn San Steffan. A fyddant hwy, ar feinciau'r wrthblaid, yn galw am y newid hwn, yn yr un modd ag yr ydym ni'n galw amdano?

Peter Black: A allwch atgoffa Brian mai un o gasgliadau adroddiad comisiwn Holtham oedd bod fformiwla Barnett, mewn cyfnodau o doriadau, yn gweithio o blaid Cymru mewn gwirionedd?

Kirsty Williams: Byddai'n well gennyf beidio â chael y toriadau, ond yn bendant, bydd effaith i'r gwrthwyneb pan fydd gwariant yn gostwng. Yn bendant, ni fydd y wasgfa yr ydym wedi cael profiad ohoni yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn bresennol yn y dyfodol.

Mae angen inni symud tuag at ddiwygio Barnett. Yr wyf yn croesawu sylw Helen Mary, sef ei bod yn cefnogi'r awydd i fynd y tu hwnt i ddiwygio'r fformiwla ac ystyried mwy o ffederaliaeth a chyfrifoldeb ariannol, er mwyn rhoi budd i'r Cynulliad yn y refereniw y mae'n ei godi ac yn y modd y mae'n

forward to reading what Gerry Holtham says in his second report, which will be a basis for the work of the Westminster Government. It would be pointless to go into the technical detail that the Holtham commission went through in its first two reports when we look to move this forward. There are wider issues about the Calman review, which go beyond fiscal federalism, and there is a constitutional issue that needs to be addressed, which, I believe, has not yet been addressed. I think that Gerry Holtham would be the first to agree that it was not addressed in the first report, and I do not suppose that it will be addressed in the second either. Therefore, there are wider constitutional issues that need to be addressed, rather than simply reform, and I welcome your commitment to supporting that when it happens.

I was very much taken with what Helen Mary said in her conclusion about the fact that, this time, it is different. You are right; it must be different this time. Our communities cannot afford to go back to where they were under the previous Conservative Government. There is a role for us all to play in that. We can make a difference if we want to, or we can continue, as we have today and in previous weeks, to prefer to make a point, rather than making a serious contribution to the debate. Helen Mary's contribution this afternoon demonstrates a genuine desire to do that, along with the Secretary of State for Wales and the new Government in Westminster, which I welcome very much. The difference this afternoon, Helen Mary, is that there are women in all parties in the Chamber in positions of responsibility, which perhaps changes the tone.

The Deputy Presiding Officer: All leaders or spokespeople have now spoken; they have had 10 minutes or more each. We now revert to the usual five minutes, which I ask you to stick to, because I still have a very long list of speakers.

Lynne Neagle: I recognise that time in today's debate will be short, thanks, in part, to the series of rather desperate-looking

gwario'r arian hwnnw. Edrychaf ymlaen at ddarllen yr hyn y mae Gerry Holtham yn ei ddweud yn ei ail adroddiad, a fydd yn sail i waith Llywodraeth San Steffan. Nid oes diben trafod y manylion technegol yr aeth comisiwn Holtham drwyddynt yn ei ddau adroddiad cyntaf pan fyddwn yn ystyried symud y mater hwn ymlaen. Ceir materion ehangach ynghylch adolygiad Calman, sy'n mynd y tu hwnt i ffederaliaeth ariannol, a cheir problem gyfansoddiadol y mae angen mynd i'r afael â hi, nad aethpwyd i'r afael â hi hyd yma, mi gredaf. Credaf mai Gerry Holtham fyddai'r cyntaf i gytuno nad aethpwyd i'r afael â hi yn yr adroddiad cyntaf, a thybiaf nad eir i'r afael â hi yn yr ail adroddiad ychwaith. Felly, ceir problemau cyfansoddiadol ehangach y mae angen mynd i'r afael â hwy, yn hytrach na diwygio yn unig, ac yr wyf yn croesawu eich ymrwymiad i gefnogi hynny pan fydd yn digwydd.

Gwnaeth yr hyn a ddywedodd Helen Mary, wrth gloi, am y ffaith bod pethau'n wahanol y tro hwn argraff fawr arnaf. Yr ydych yn iawn; rhaid iddynt fod yn wahanol y tro hwn. Ni all ein cymunedau fforddio dychwelyd i'r sefyllfa yr oeddent ynddi dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol. Mae gennym i gyd rôl i'w chwarae yn hynny o beth. Gallwn wneud gwahaniaeth os dymunwn, neu gallwn barhau, fel yr ydym wedi gwneud heddiw ac yn ystod wythnosau blaenorol, i ffafrio gwneud pwynt yn hytrach na gwneud cyfraniad difrifol i'r ddadl. Mae cyfraniad Helen Mary y prynhawn yma'n dangos gwir awydd i wneud hynny, ynghyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Llywodraeth newydd yn San Steffan, ac yr wyf yn croesawu hynny'n fawr iawn. Y gwahaniaeth y prynhawn yma, Helen Mary, yw bod menywod o bob plaid yn y Siambur mewn swyddi sydd â chyfrifoldeb, sy'n newid yr agwedd, efallai.

Y Dirprwy Lywydd: Mae pob arweinydd neu lefarydd wedi siarad bellach; maent wedi cael 10 munud neu fwy yr un. Yn awr, dychwelwn at y pum munud arferol, a gofynnaf ichi lynu at hynny, oherwydd mae gennyf restr hir iawn o siaradwyr o hyd.

Lynne Neagle: Yr wyf yn sylweddoli y bydd amser yn y ddadl heddiw yn fyr, a hynny'n rhannol oherwydd y gyfres o welliannau

amendments that have been tabled in the name of the Welsh Liberal Democrats, who are anxious to prove their buy-in to the political marriage between Clegg and Cameron at Westminster. The volte-face seen from them has been one of the most remarkable about-turns that we have seen so far in the short history of the Assembly. It is right up there with Oscar's sudden and dramatic conversion from nationalism to Conservatism, or the moment when Nick Bourne discovered that he was in favour of the Assembly after all. It would be funny, if it were not so serious, and if it did not mean Liberal Democrats standing idly by while Tories play Russian roulette with the economy and a Liberal Democrat Chief Secretary to the Treasury implementing a regime of damaging and premature cuts, which are the very cuts that the Liberal Democrats campaigned against in the run-up to the election.

However, there is at least one statement in the Queen's Speech that we can all agree with, which is that the priority of this Government should be to reduce the deficit and restore economic growth. The danger is that the second part of that equation is in jeopardy because of the actions of this Government. As we saw this week, George Osborne's Office for Budget Responsibility produced a report that failed to live up to all the hype. Yes, it predicted slower growth than in previous Treasury forecasts, but it also predicted borrowing to be significantly lower than the figures that Alistair Darling set out in the budget in March. The justification for cutting early, which you hoped for, was simply not there. By cutting too fast and too early, we risk undermining a fragile recovery. While this coalition has set about implementing cuts with a gusto that is frankly unbecoming, the Queen's Speech completely failed to address the other side of the coin. Exactly how does this new Government intend to ensure that growth is sustained into the future? By making savage cuts at this crucial moment, and withdrawing support to the economy at the same time, we are running a real risk of a double-dip recession.

byrbwyll yr olwg, braidd, a gyflwynwyd yn enw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, sy'n awyddus i brofi eu bod yn cefnogi'r briodas wleidyddol rhwng Clegg a Cameron yn San Steffan. Y tro pedol a welwyd ganddynt hwy fu un o'r achosion mwyaf hynod o newid cyfeiriad inni ei weld hyd yma yn hanes byr y Cynulliad. Mae ar yr un lefel â thröedigaeth sydyn a dramatig Oscar o genedlaetholdeb i Geidwadaeth, neu'r eiliad pan sylweddolodd Nick Bourne ei fod o blaid y Cynulliad wedi'r cyfan. Byddai'n ddoniol, pe na bai mor ddifrifol, a phe na bai'n golygu bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn sefyll yn segur tra mae'r Torïaid yn chwarae gêm beryglus â'r economi a thra mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, sy'n Ddemocrat Rhyddfrydol, yn gweithredu trefn o doriadau niweidiol a chynamserol, sef yr union doriadau yr ymgyrchodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn eu herbyn yn ystod y cyfnod a oedd yn arwain at yr etholiad.

Fodd bynnag, mae o leiaf un datganiad yn Araith y Frenhines y gallwn i gyd gytuno ag ef, sef mai lleihau'r diffyg ac adfer twf economaidd ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Y perygl yw bod risg i ail ran yr hafaliad hwnnw oherwydd camau gweithredu'r Llywodraeth hon. Fel y gwelsom yr wythnos hon, cynhyrchodd Swyddfa George Osborne dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb adroddiad a fethodd â bodloni'r holl ddisgwyliadau yn ei gylch. Do, rhagwelodd dwf arafach nag a ragwelwyd mewn rhagolygon blaenorol gan y Trysorlys, ond rhagwelodd hefyd y byddai lefel benthyca'n is o lawer na'r ffigurau a nododd Alistair Darling yn y gyllideb ym mis Mawrth. Nid oedd y cyfiawnhad dros dorri'n gynnar, yr oeddech wedi gobeithio ei gael, yno. Drwy dorri'n rhy gyflym ac yn rhy gynnar, gallem danseilio adferiad bregus. Tra mae'r glymblaid hon wedi mynd ati i weithredu toriadau gyda brwdfrydedd amhriodol, a dweud y gwir, methodd Araith y Frenhines yn llwyr â rhoi sylw i ochr arall y geiniog. Sut yn union y mae'r Llywodraeth newydd hon yn bwriadu sicrhau bod twf yn cael ei gynnal i'r dyfodol? Drwy wneud toriadau llym ar yr adeg dyngedfennol hon, a thynnu cefnogaeth i'r economi'n ôl ar yr un pryd, yr ydym mewn perygl gwirioneddol o fynd i mewn i ail ddirwasgiad.

Times have been tough for people in my constituency over the past two and a half years. We have seen a number of factories and businesses close, with the loss of hundreds of long-standing local jobs. I know of several employers in Torfaen that have survived simply because of the support put in place by the Labour Government in Westminster and the Labour-led administration in Wales. They have struggled through the recession but have lived to fight another day and are cautiously optimistic about the future. Let me tell you, the people of Torfaen have not forgiven the Tories for the last time they devastated the local economy. They have long memories and they simply do not trust the Conservatives to put the needs of people in communities like ours first. Let us not kid ourselves: the Tory Government is looking forward to the largest assault on the state since 1981, only this time, they are using the deficit as a fig leaf to allow them to cut further and faster than ever before, to fulfil their ideological destiny and roll back the state until it becomes the reserve of the very poorest.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Lynne, for taking an intervention. It is a pleasure to see you here this afternoon. I would like to make the point that we are running a 12 per cent budget deficit—the highest in the world among developed economies, I am led to believe. You have not offered one solution, now that the money has gone, regarding what you would do. There is no money to carry on, so you have make strategic cutbacks to sustain the economy, do you not?

Lynne Neagle: We have offered plenty of solutions. The fact is that you have offered no solutions as to how all these cuts are going to sustain our economy. There are plenty of economists who now take that view.

Of course, I agree that we must cut the deficit, but why is it always the most vulnerable who must pay for the mistakes of some of the most privileged? In all the frenzy surrounding spending cuts—cuts that will damage the services that those with most to

Mae pobl yn fy etholaeth i wedi bod drwy gyfnod anodd dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Yr ydym wedi gweld llawer o ffatrïoedd a busnesau'n cau, a channoedd o swyddi lleol a sefydlwyd ers tro'n cael eu colli. Gwn am lawer o gyflogwyr yn Nhorfaen sydd wedi goroesi dim ond oherwydd y gefnogaeth a roddwyd gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan a'r weinyddiaeth a gaiff ei harwain gan y Blaid Lafur yng Nghymru. Maent wedi brwydro drwy'r dirwasgiad ac wedi goroesi, a chan byyll bach maent yn teimlo'n hyderus ynghylch y dyfodol. Coeliwch chi fi, nid yw pobl Torfaen wedi maddau i'r Toriaid am y tro diwethaf y bu iddynt ddistrywio'r economi leol. Mae ganddynt gof hir, ac nid ydynt yn ymddiried yn y Ceidwadwyr i roi anghenion pobl mewn cymunedau fel ein rhai ni yn gyntaf. Ni ddylem ein twyllo ein hunain: mae'r Llywodraeth Doriaidd yn edrych ymlaen at yr ymosodiad mwyaf ar y wladwriaeth er 1981, ond y tro hwn, maent yn defnyddio'r diffyg fel deilen ffigys i'w caniatáu i dorri ymhellach ac yn gyflymach nag erioed o'r blaen, i wireddu eu tynged ideolegol a lleihau rôl y wladwriaeth nes bydd yn berthnasol i'r bobl dlotaf yn unig.

Andrew R.T. Davies: Diolch, Lynne, am dderbyn ymyriad. Mae'n bleser eich gweld yn y fan hon y prynhawn yma. Hoffwn wneud y pwynt bod gennym ddiffyg cyllidebol o 12 y cant—caf ar ddeall mai dyma'r gyfradd uchaf yn y byd ymhlith economïau datblygedig. Nid ydych wedi cynnig yr un ateb, a ninnau bellach heb arian, ynghylch yr hyn y byddech chi'n ei wneud. Nid oes arian i allu parhau, felly rhaid ichi wneud toriadau strategol i gynnal yr economi, onid oes?

Lynne Neagle: Yr ydym wedi cynnig digon o atebion. Y ffaith yw nad ydych chi wedi cynnig dim atebion ynghylch sut y bydd y toriadau hyn i gyd yn cynnal ein heconomi. Mae digon o economegwyr yn arddel y farn honno'n awr.

Wrth gwrs, cytunaf fod yn rhaid inni leihau'r diffyg, ond pam mai'r bobl fwyaf agored i niwed sydd bob tro'n gorfod talu am gamgymeriadau rhai o'r bobl fwyaf breintiedig? Yn yr holl wylltineb ynghylch toriadau gwario—toriadau a fydd yn

lose rely on—no-one seems prepared to discuss raising taxes for those who can afford to pay. Increasing the burden on the privileged few so that we can protect the interests of the many is the fairest way to get us out of this situation. The very instincts of David Cameron and his party are anti-state. It is the glue that bonds his party with the orange-book Liberals, who now find themselves implicated at every level of this right-wing Government in Westminster.

In the first £6 billion-worth of cuts announced by the coalition, we began to see what this new politics really meant. It meant scrapping the Future Jobs fund, which was getting the long-term unemployed back to work. It meant abolishing child trust funds, which were a way of ensuring that every child got the best start in life, and cutting back on initiatives like the automotive assistance programme, which was providing a kick start to manufacturing. These were the very policies that were designed to grasp the nettle of recession and help to build a better Wales in the long term.

Even before the election, we saw that David Cameron had his sights firmly set on Wales, where we are more reliant on the public sector. Let us make no mistake about it: the years ahead will represent the greatest test this institution has faced in its 11-year history. Yes, we have to stand up for Wales, but it is our duty to demonstrate that this is more than just an institution of protest. Across Wales in the 1980s, many people became convinced of the need for devolution, in part because of a desire to protect the country from the worst ravages of Thatcher's onslaught.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Lynne Neagle: Far more than any constitutional change, the real test of the Assembly will be the way in which we adapt to the new financial environment and innovate our way to a better, stronger Wales

niweidio'r gwasanaethau y mae'r bobl sydd â'r mwyaf i'w gollu yn dibynnu arnynt—ymddengys nad oes neb yn barod i drafod codi trethi ar gyfer y bobl sy'n gallu fforddio talu. Cynyddu'r baich ar yr ychydig bobl sy'n freintiedig er mwyn inni allu amddiffyn buddiannau'r mwyafrif yw'r ffordd decaf o'n tynnu allan o'r sefyllfa hon. Wrth reddf, mae David Cameron a'i blaid yn erbyn y wladwriaeth. Dyma'r glud sy'n glynu ei blaid yn sownd wrth Ryddfrydwyr y llyfr oren, sy'n gysylltiedig yn awr â phob lefel o'r Llywodraeth adain dde hon yn San Steffan.

Yn y £6 biliwn cyntaf o doriadau a gyhoeddwyd gan y glymblaid, dechreuasom weld beth oedd gwir ystyr y wleidyddiaeth newydd hon. Yr oedd yn golygu cael gwared ar gronfa Swyddi'r Dyfodol, a oedd yn cael y bobl hynny sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i ailddechrau gweithio. Yr oedd yn golygu diddymu cronfeydd ymddiriedolaeth plant, a oedd yn ffordd o sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, a thorri mentrau megis y rhaglen cymorth modurol, a oedd yn sbarduno gweithgynhyrchu. Y rhain oedd yr union bolisiau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r dirwasgiad a helpu i adeiladu Cymru well yn y tymor hir.

Hyd yn oed cyn yr etholiad, gwelsom fod David Cameron â'i olygon yn bendant ar Gymru, lle'r ydym yn dibynnu'n fwy helaeth ar y sector cyhoeddus. Peidied neb â chamgyrwyd: y blynyddoedd sydd i ddod fydd y prawf mwyaf y mae'r sefydliad hwn wedi'i wynebu gydol ei 11 mlynedd o hanes. Rhaid inni amddiffyn Cymru, wrth gwrs, ond mae'n ddyletswydd arnom i ddangos bod y sefydliad hwn yn fwy na sefydliad protest yn unig. Ledled Cymru yn yr 1980au, cafodd llawer o bobl eu hargyhoeddi o'r angen am ddatganoli, yn rhannol oherwydd awydd i amddiffyn y wlad rhag difrod gwaethaf ymosodiad Thatcher.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allech dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

Lynne Neagle: Yn fwy o lawer na'r un newid cyfansoddiadol, y gwir brawf ar y Cynulliad fydd y ffordd y byddwn yn addasu i'r amgylchedd ariannol newydd ac yn arloesi er mwyn creu Cymru well a chryfach ar gyfer

for the future.

David Melding: I am sure that the Secretary of State is delighted to see that there are some true socialists in Wales and that they are represented here in the Assembly. Perhaps there are not that many on Labour's benches, but there are one or two, and they have a strong voice.

I agree with one thing that Lynne Neagle said: that the devolution settlement will now be tested by different parties working under the responsibility of Government. There are two parties here and two in Westminster, which creates a remarkable dynamic. I am proud to see a Conservative Secretary of State here this afternoon. Let us remember that devolution is about the rejuvenation of the British state, as well as the rejuvenation of Welsh and Scottish political identity. It is important that we take full ownership of devolution. I was very proud that David Cameron said, in his last speech to the Conservative Party conference as leader of the opposition, that he believed that Labour was right to bring in devolution—not that he accepted devolution, but that he thought it was one of the things that the Labour Party got right. It is that sentiment that we have seen, both in your presentation this afternoon and the Prime Minister's early visit to the National Assembly for Wales, which followed his visit to Scotland.

Leanne Wood *rose—*

David Melding: I am not taking any interventions. I think that that has set a very different and responsible tone.

5.10 p.m.

On this side of the Chamber, we believe that you have got the big decisions right so far in the early days, while some people have been bowling rather aggressively against you, shall we say. We have seen a sure touch, and it is one we expect to be shown in future throughout your term as Secretary of State.

I want to make a few remarks about the

y dyfodol.

David Melding: Yr wyf yn siŵr bod yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ei bodd o weld bod rhai sosialwyr go iawn yng Nghymru, a'u bod yn cael eu cynrychioli yma yn y Cynulliad. Efallai nad oes llawer ohonynt ar feinciau'r Blaid Lafur, ond mae un neu ddau, ac mae ganddynt lais cryf.

Yr wyf yn cytuno ag un peth a ddywedodd Lynne Neagle: sef y bydd y setliad datganoli'n cael ei roi ar brawf yn awr gan wahanol bleidiau sy'n gweithio dan gyfrifoldeb Llywodraeth. Mae dwy blaid yn y fan hon a dwy yn San Steffan, sy'n creu deinamig hynod. Yr wyf yn falch o weld Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol yn y fan hon y prynhawn yma. Gadewch inni gofio bod datganoli'n ymwneud ag adnewyddu'r wladwriaeth Brydeinig yn ogystal ag adnewyddu hunaniaeth wleidyddol Cymru a'r Alban. Mae'n bwysig ein bod yn perchenogi datganoli'n llawn. Yr oeddwn yn falch iawn i David Cameron ddweud, yn ei araith olaf i gynhadledd y Blaid Geidwadol fel arweinydd yr wrthblaid, ei fod yn credu bod y Blaid Lafur yn iawn i gyflwyno datganoli—nid ei fod yn derbyn datganoli, ond ei fod yn credu bod datganoli'n un o'r pethau a wnaeth y Blaid Lafur yn iawn. Y farn honno yr ydym wedi'i gweld, yn eich cyflwyniad chi y prynhawn yma ac yn ymweliad buan Prif Weinidog y DU â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddilynodd ei ymweliad â'r Alban.

Leanne Wood *a gododd—*

David Melding: Nid wyf am dderbyn ymyriadau. Yr wyf yn credu bod hynny wedi gosod agwedd wahanol a chyfrifol iawn.

Yr ochr hon i'r Siambr, credwn fod y penderfyniadau mawr a wnaethoch hyd yma, yn ystod y cyfnod cynnar, yn iawn, tra mae rhai pobl wedi bod yn bowlio'n eithaf ymosodol yn eich erbyn, fel petai. Yr ydym wedi gweld agwedd gadarn, ac mae'n agwedd y byddwn yn disgwyl ei gweld yn y dyfodol gydol eich cyfnod fel Ysgrifennydd Gwladol.

Hoffwn wneud rhai sylwadau am yr economi,

economy, because I think that we are in a daunting situation. I do not think that anyone can look at the economic future and say that they are not fearful to some extent. I certainly am. Getting the balance right between responsible public financing and ensuring that we do not slip into another recession is a very fine judgement. I am sure that this Government will adapt its policy as it goes along so that, if we can make further reductions to the deficit faster than we thought, we will do that, and if we have to accommodate to make up for a lack of private sector demand, we will do that. We will take evidence and examine it carefully, but at the moment we are absolutely right to say to the markets that we take the current financial situation very seriously and believe that there must be a plan for a faster approach than the one that the Labour Party signed up to. I remind Labour Members that it was your party that passed into law the fact that the Government had to tackle the deficit. We are talking about the difference in timescale of a couple of years although, in the short term, I regard that as significant, as, in fairness, do you.

When we make these cuts—and let us face it, that is what they are—it is important that we are strategic and sensitive and that we cut waste as much as possible, then redundant programmes, and only then, reluctantly, things that we can no longer afford to provide. We must be very careful not to further reduce demand in the private sector. There are two ways of doing this immediately. Those are to improve access to capital—and I was very pleased to hear the Secretary of State outline some of the progress that will be made there—and to develop effective procurement and other innovative ways of working that open up some of the public sector that has not so far been opened up by the Labour Party. That is important for the future.

Turning to the matters of the Calman commission and the Holtham report, it is important to note that, for the first time, the Treasury has made a commitment to look at the Barnett formula and has accepted that some reform will be necessary. We heard

oherwydd credaf ein bod mewn sefyllfa ddychrynlyd. Nid wyf yn credu y gall neb edrych ar ein dyfodol economaidd a dweud nad ydynt yn ofnus i ryw raddau. Yr wyf i'n bendant yn ofnus. Mae cael y cydbwysedd yn iawn rhwng ariannu cyhoeddus cyfrifol a sicrhau nad ydym yn llithro i mewn i ddirwasgiad arall yn anodd iawn. Yr wyf yn siŵr y bydd y Llywodraeth hon yn addasu ei pholisi wrth iddi fynd rhagddi er mwyn inni ostwng y diffyg ymhellach ac yn gyflymach nag a feddylwyd os gallwn, ac os bydd yn rhaid inni addasu i wneud iawn am ddiffyg galw yn y sector preifat, gwnawn hynny. Byddwn yn cymryd tystiolaeth ac yn ei harchwilio'n ofalus, ond ar hyn o bryd, yr ydym yn gwbl iawn wrth ddweud wrth y marchnadoedd ein bod o ddifrif ynghylch y sefyllfa ariannol bresennol, a'n bod yn credu bod yn rhaid cael cynllun ar gyfer dull gweithredu cyflymach na'r un y cytunodd y Blaid Lafur arno. Hoffwn atgoffa'r Aelodau Llafur mai eich plaid chi a nododd mewn cyfraith bod yn rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r diffyg. Yr ydym yn sôn am wahaniaeth mewn amserlen sy'n cyfateb i ddwy flynedd er, yn y tymor byr, fy mod yn ystyried hwnnw'n sylweddol, yn yr un modd â chithau, a bod yn deg.

Pan fyddwn yn gwneud y toriadau hyn—a gadewch inni fod yn onest, dyna ydynt—mae'n bwysig ein bod yn strategol ac yn sensitif, a'n bod yn torri gwastraff gymaint ag sy'n bosibl, yna rhaglenni diangen, ac yna, yn anfoddog, y pethau na allwn fforddio eu darparu mwyach. Rhaid inni ofalu peidio â lleihau galw ymhellach yn y sector preifat. Mae dwy ffordd o wneud hynny'n syth, sef gwella mynediad i gyfalaf—ac yr oeddwn yn falch iawn o glywed yr Ysgrifennydd Gwladol yn amlinellu rhywfaint o'r cynnydd a wneir o ran hynny—a datblygu gwaith caffael effeithiol a ffyrdd arloesol eraill o weithio, sy'n agor rhai rhannau o'r sector cyhoeddus nad ydynt wedi cael eu hagor hyd yma gan y Blaid Lafur. Mae hynny'n bwysig ar gyfer y dyfodol.

Gan droi at gomisiwn Calman ac adroddiad Holtham, mae'n bwysig nodi bod y Trysorlys wedi ymrwymo am y tro cyntaf erioed i edrych ar fformiwla Barnett, a'i fod wedi derbyn y bydd rhywfaint o ddiwygio'n angenrheidiol. Clywsom eiriau angerddol

great passion from Helen Mary Jones about the fact that she would not dare to go down to Tumble, Cross Hands or Llanelli and defend Barnett. I think that she needs to be a bit more courageous and go on the attack. Why not start in Edinburgh and go up there and attack the Barnett formula?

Helen Mary Jones: I am very grateful to David for taking an intervention. I assure him that, in discussions with the Scottish National Party, that is just exactly what we do.

David Melding: Perhaps we should have a double act; I will join you to say that it is important. However, let us be serious about this. The Barnett formula is a formula for the distribution of funds within the British state. It affects other parts of the state. At the moment, because it has not been adjusted for getting on for 40 years, it is delivering a very unbalanced allocation. It is going to take a generation to get from here to where we need to go. It cannot be done overnight, unless of course—*[Interruption.]* Unless—wait for the ‘unless’: unless the Scots are prepared to see a quicker, more dramatic reform that will quite simply transfer resources from Scotland to northern England and Wales. If it can be done within a quicker timescale, we just await the solutions that the nationalist parties in Wales and Scotland are going to bring forward.

The Deputy Presiding Officer: Order. Please wind up.

David Melding: May I just say to the Secretary of State—

The Deputy Presiding Officer: Order. I think that you may not as you have stretched your time.

David Melding: We are delighted that you are here this afternoon. On this side of the Chamber, you will always be given a very fair and full hearing, because we have seen your commitment to devolution and taking this forward. We look forward to more of the same.

iawn gan Helen Mary Jones am y ffaith na feiddiai fynd i lawr i'r Tymbl, Cross Hands neu Lanelli ac amddiffyn Barnett. Credaf fod angen iddi fod ychydig yn fwy dewr ac ymosodol. Pam na wnaiff hi ddechrau yng Nghaeredin a mynd yno ac ymosod ar fformiwla Barnett?

Helen Mary Jones: Yr wyf yn ddiolchgar iawn i David am dderbyn ymyriad. Hoffwn ei sicrhau mai dyna'n union a wnawn mewn trafodaethau â Phlaid Genedlaethol yr Alban.

David Melding: Efallai y dylem wneud hynny gyda'n gilydd; ymunaf â chi i ddweud fod y mater yn bwysig. Fodd bynnag, gadewch inni fod yn ddifrifol am hyn. Mae fformiwla Barnett yn fformiwla ar gyfer dosbarthu arian yn y wladwriaeth Brydeinig. Mae'n effeithio ar rannau eraill o'r wladwriaeth. Ar hyn o bryd, oherwydd nad yw wedi cael ei haddasu ers bron i 40 mlynedd, mae'n dyrannu arian yn anghybwys iawn. Bydd yn cymryd cenhedlaeth i fynd o'r sefyllfa hon i'r sefyllfa y mae angen inni fod ynddi. Ni ellir gwneud hynny dros nos, oni bai wrth gwrs—*[Torri ar draws.]* Oni bai—arhoswch am yr ‘oni bai’: oni bai bod yr Albanwyr yn barod i weld diwygio cyflymach a mwy dramatig, a fyddai'n golygu trosglwyddo adnoddau o'r Alban i ogledd Lloegr a Chymru. Os gellir cyrraedd y nod o fewn amserlen gyflymach, disgwyliwn am yr atebion y mae'r pleidiau cenedlaethol yng Nghymru a'r Alban yn bwriadu eu cyflwyno.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Tynnwch at y terfyn, os gwelwch yn dda.

David Melding: A gaf i ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Na chewch, mae arnaf ofn, oherwydd yr ydych wedi ymestyn eich amser.

David Melding: Yr ydym wrth ein bodd eich bod yn y fan hon y prynhawn yma. Yr ochr hon i'r Siambr, byddwn yn rhoi gwrandawriad teg iawn a llawn ichi bob amser, oherwydd yr ydym wedi gweld eich ymrwymiad i ddatganoli a'ch ymrwymiad i fwrw ymlaen â hyn. Edrychwn ymlaen at fwy o'r un peth.

Gareth Jones: Yr ydym wedi clywed llawer o sôn am y gair ‘parch’, a’r ‘agenda barch’ y prynhawn yma ac yn yr wythnosau diwethaf. Credaf fy mod yn deall ystyr y gair, ond nid wyf yn siŵr bod y Ceidwadwyr yn deall yn union beth yw ei ystyr. Mae Araith y Frenhines yn dangos diffyg parch at bobl Cymru. Prin yw’r cyfeiriadau at Gymru, sy’n dangos diffyg parch yn y lle cyntaf. Credaf hefyd ei fod yn ddiffyg parch pan fo’r Ceidwadwyr, yn ddeheuig iawn, yn troi’r gair ‘toriadau’ i fod yn ‘gynilion’. Dyna’r gair a ddefnyddiant yn awr am eu toriadau. Ni chredaf fod hynny’n ffordd onest o fynd o’i chwmpas.

Darren Millar: Will you take an intervention?

Gareth Jones: Na wnaif; newydd ddechrau ydwyf, Darren. Os oes gennych rywbeth go ddoeth i’w ddweud, efallai yr ildiaf yn nes ymlaen.

Mae’n rhaid inni ystyried o ddifrif beth yn union yw’r gair ‘parch’ hwn. O safbwynt yr araith eleni, ceir diffyg parch, yn sicr, at bobl Cymru. Ffordd arall o ddangos diffyg parch yw peidio â mynd i’r afael ag un o’r materion pwysicaf sydd yn bodoli yma heddiw. Yr ydych wedi clywed drosodd a throsodd heddiw, ein bod, yng Nghymru, yn cael ein tanariannu. Nid oes tegwch i’r system ariannu. Yn ôl adroddiad Holtham, derbynnir yn eithaf eang ein bod yn colli tua £300 miliwn bob blwyddyn. Mae hynny’n £300 miliwn o doriad i wasanaethau cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, os lluoswch hynny o ystyried y bydd hefyd yn tynnu £300 miliwn o’r economi, efallai ei fod gyfystyr â thynnu £1 biliwn o’r economi. Ystyriwch y pethau hynny, os gwelwch yn dda.

Yr oedd yr adroddiad yn ddigon clir. Dywedodd Holtham,

‘Mae dirfawr angen diwygio’r system ar gyfer ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn benodol, mae Fformiwla Barnett, sy’n pennu newidiadau i’r grant bloc y mae San Steffan yn ei rhoi i Gymru, yn fympwyol a dylid ei hamnewid am fformiwla sy’n ystyried yr angen am wasanaethau cyhoeddus a chost eu darparu.’

Gareth Jones: We have heard a great deal about the word ‘respect’ and the ‘respect agenda’ this afternoon and over the past few weeks. I think that I understand the meaning of the word, but I am not quite sure whether the Conservatives know its exact meaning. The Queen’s Speech shows a lack of respect towards the people of Wales. There are few references to Wales, which shows a lack of respect in the first place. I also think that there is a lack of respect when the Conservatives, very cleverly, turn ‘cuts’ into ‘savings’. That is the word that they use now for their cuts. I do not believe that that is an honest way of dealing with it.

Darren Millar: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Gareth Jones: No; I have only just started, Darren. If you have something sensible to say, I may give way later.

We must seriously consider what is meant by ‘respect’. In this year’s speech, there is a lack of respect, certainly, to the people of Wales. Another way of showing lack of respect is not to tackle one of the most important issues that exist here today. You have heard repeatedly today that we, in Wales, are being underfunded. There is no fairness in the funding system. According to Holtham’s report, it is quite widely accepted that we lose about £300 million annually. That is a £300 million cut to public services in Wales. However, if you multiply that, given that it will also take £300 million out of the economy, it may be tantamount to taking £1 billion out of the economy. Consider those things, please.

The report was clear enough. Holtham said,

‘The system for financing the Welsh Assembly Government is in urgent need of reform. In particular the Barnett Formula, which determines changes to the block grant that Wales receives from Westminster, is arbitrary and should be replaced by a formula that takes due account of the need for public services and the cost of providing them.’

Yr ydym oll yn deall hyn oherwydd fe'i nodwyd mewn datganiad clir iawn. Yng nghyd-destun Araith y Frenhines yr wyf yn synnu nad yw'r Llywodraeth yn gweld bod yr angen i waredu fformiwla Barnett yn ddigon pwysig i'w chynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol Senedd San Steffan.

It is even more surprising that fair funding for Wales has been omitted from the coalition Government's priority list when we consider what both parties were saying before they formed the UK Government. Last October, a Welsh Liberal Democrat Member of Parliament said,

'We have been banging on about the unfairness of Barnett for years, but now there is clear agreement from independent observers that Wales is losing out, the other parties must make their positions clear, so that people in Wales know what their vote means for public services in Wales...The Prime Minister should make introducing a needs-based formula one of his top priorities, and if he won't David Cameron must make it clear that he would scrap Barnett'.

Like so many other issues, this has fallen off the Lib Dem priority list. If a needs-based formula for Wales was ever truly a Lib Dem priority, why on earth did they not demand a ministerial position in the Wales Office to fight Wales's corner? As recently as last March, Nick Bourne, who I assume then spoke for the Welsh Conservatives, said:

'The Barnett formula is coming to the end of its life, there is no doubt about that – even Lord Barnett says it's coming to the end of its life.'

'I think it's very important that there should always be a proper needs-based formula which respects the fact that Wales has some areas of deep poverty and some needs and requirements greater than other parts of the

We all understand this, because it was identified in a very clear statement. In the context of the Queen's Speech, I am surprised that the Government does not see that the need to dispose of the Barnett formula is important enough to include it in Westminster's legislative programme.

Mae hyd yn oed yn fwy rhyfedd bod arian teg i Gymru wedi cael ei adael allan o restr flaenoriaethau'r Llywodraeth glymbleidiol, o ystyried yr hyn yr oedd y ddwy blaid yn ei ddweud cyn iddynt ffurfio Llywodraeth y DU. Fis Hydref diwethaf, dywedodd Aelod Seneddol o blith Democratiaid Rhyddfrydol Cymru,

Yr ydym wedi bod yn rhygnu ymlaen am annhegwch Barnett ers blynyddoedd, ond gan fod sylwedyddion annibynnol yn awr yn cytuno'n bendant bod Cymru ar ei cholled, rhaid i'r pleidiau eraill ddatgan eu safbwynt yn glir, er mwyn i bobl yng Nghymru wybod beth y mae eu pleidlais yn ei olygu i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru...Dylai Prif Weinidog y DU sicrhau mai un o'i brif flaenoriaethau yw cyflwyno fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion, ac os na wnaiff hynny, rhaid i David Cameron ddatgan yn glir y byddai'n cael gwared ar fformiwla Barnett.

Fel cynifer o faterion eraill, mae hwn wedi diflannu oddi ar restr flaenoriaethau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Os oedd cael fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i Gymru erioed yn flaenoriaeth go iawn i'r Democratiaid Rhyddfrydol, pam ar y ddaear na wnaethant fynnu swydd weinidogol yn Swyddfa Cymru i ymladd achos Cymru? Mor ddiweddar â mis Mawrth diwethaf, dywedodd Nick Bourne a oedd, mi dybiaf, yn siarad ar ran Ceidwadwyr Cymru bryd hynny:

Mae fformiwla Barnett yn dod i ddiwedd ei hoes, nid oes dwywaith am hynny—mae hyd yn oed yr Arglwydd Barnett yn dweud ei bod yn dod i ddiwedd ei hoes.

Credaf ei bod yn bwysig iawn cael fformiwla briodol bob amser, sy'n seiliedig ar anghenion ac sy'n parchu'r ffaith bod gan Gymru rai ardaloedd o dlodi dwys, a rhai anghenion a gofynion sy'n fwy na'r rheini a

United Kingdom, there's no doubt about that.'

That is showing respect in that particular quotation from Nick Bourne. I share your concerns. There is no doubt about it; in terms of that statement, plenty of doubt is now cast on the urgency that the Tories place on this particular issue.

The coming years represent the greatest challenges to the Welsh budget since the advent of devolution. Families and communities across Wales face daunting and painful cuts. Now, more than ever, the people of Wales deserve fair funding and the UK Government should not deny Welsh communities that very basic level of fiscal justice.

Eleanor Burnham: Secretary of State, croeso and congratulations to you as our first female Secretary of State. I think that it is absolutely marvellous. Having more women is absolutely terrific. I commend you for your positive approach so that our ongoing crisis, which is probably the worst since the second world war, will be tackled constructively.

5.20 p.m.

I believe that there is much to applaud in our new UK Government's legal programme, because some of these Bills will apply UK-wide and will affect us in Wales. It seems to me that there are some very short memories in the Chamber regarding the last 13 years. I believe that the former Labour UK Government created and exacerbated a mind-boggling deficit of £160 billion, which has to be tackled urgently, but also, I hope, fairly. After 13 years of prudent—

Brian Gibbons *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you take an intervention?

Eleanor Burnham: Not at the moment. After 13 years of the prudent Mr Bean, as I believe he was described, at the helm—first at Number 11 Downing Street and then at

welir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, nid oes amheuaeth am hynny.

Mae'r dyfyniad penodol hwnnw gan Nick Bourne yn dangos parch. Yr wyf innau, fel chithau, yn pryderu. Nid oes dwywaith amdano; o ystyried y datganiad hwnnw, mae digon o amheuaeth yn awr ynghylch brys y Torïaid i fynd i'r afael â'r mater penodol hwn.

Y blynyddoedd sydd i ddod fydd yr heriau mwyaf i gyllideb Cymru ers dyfodiad datganoli. Mae teuluoedd a chymunedau ledled Cymru yn wynebu toriadau dychrynlyd a phoenus. Yn awr, yn fwy nag erioed, mae pobl Cymru yn haeddu arian teg, ac ni ddylai Llywodraeth y DU wrthod y lefel sylfaenol iawn honno o gyfiawnder ariannol i gymunedau Cymru.

Eleanor Burnham: Ysgrifennydd Gwladol, croeso a llongyfarchiadau ichi, ein Hysgrifennydd Gwladol benywaidd cyntaf. Credaf fod hynny'n wych. Mae cael mwy o fenywod yn fendigedig. Yr wyf yn eich canmol am eich agwedd gadarnhaol, fel yr eir i'r afael yn adeiladol â'n hargyfwng sy'n parhau, sef yr argyfwng gwaethaf ers yr ail ryfel byd, fwy na thebyg.

Credaf fod llawer i'w ganmol yn rhaglen gyfreithiol ein Llywodraeth newydd yn y DU, oherwydd bydd rhai o'r Mesurau hyn yn cael eu gweithredu ledled y DU ac yn effeithio arnom yng Nghymru. Ymddengys i mi fod gan rai yn y Siambr gof byr iawn am y 13 blynedd diwethaf. Credaf i Lywodraeth Lafur flaenorol y DU greu a gwaethygu diffyg arswydus o £160 biliwn, y bydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef ar frys, ond yn deg hefyd, gobeithio. Ar ôl 13 blynedd o'r Mr Bean pwylllog—

Brian Gibbons *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Eleanor Burnham: Na wna, ar hyn o bryd. Ar ôl 13 blynedd o gael y Mr Bean pwylllog, fel y cafodd ei ddisgrifio, mi gredaf, wrth y llyw—yn gyntaf yn Rhif 11 Downing Street,

Number 10—I think that it is absolutely shocking that so much discomfort has been expressed by Labour in the first month of a new UK Government, when it could have done something more constructive over the last 13 years.

I believe that the early declaration of the coalition Government's determination to simplify the cumbersome taxation and welfare systems is to be applauded, and should give a huge boost to our poorest constituents in Wales. We have been promised a fairer reduction of taxation, and that the first £10,000 of income will not be taxed. In the long term, this will mean that 200,000 people in Wales will pay no tax at all, and up to 800,000 people will see a reduction in their income tax and a gain of £700 per year.

The fact that 32 per cent of children in Wales are living in poverty is shameful, and that percentage has barely shifted despite assertions that the former Labour UK Government, and the current Assembly Government, made up of Labour and Plaid, have, apparently, been tackling poverty. We need to be reminded that we have 119,000 pensioners living below the poverty line in Wales. We now know that there will be improvements in the state pension, because, for the first time since the 1980s, pensions will rise each year in line with earnings or prices—

Bethan Jenkins: Will you take an intervention?

Eleanor Burnham: I will not take an intervention at the moment. Pensions will rise each year in line with earnings or prices so that pensioners will definitely benefit. We should bear in mind that the Labour UK Government had 13 years to find time to help pensioners by restoring this vital link with earnings, but it failed to do so.

As the spokesperson on children for the Welsh Liberal Democrats, I believe that one of the other pleasing aspects of the legislative programme is that we are going to end the detention of children, as was so eloquently mentioned by Helen Mary Jones. The

ac yna yn Rhif 10—credaf ei bod yn gwbl syfrdanol fod cymaint o anesmwythder wedi'i fynegi gan y Blaid Lafur yn ystod mis cyntaf Llywodraeth newydd yn y DU, pan allai hi fod wedi gwneud rhywbeth mwy adeiladol yn ystod y 13 blynedd diwethaf.

Credaf y dylid canmol y datganiad cynnar ynghylch penderfyniad y Llywodraeth glymbleidiol i symleiddio'r systemau treth a lles trafferthus, a dylai hynny roi hwb enfawr i'n hetholwyr tlotaf yng Nghymru. Addawyd inni y bydd trethi'n cael eu gostwng yn decach, ac na fydd y £10,000 cyntaf o incwm yn cael ei drethu. Yn y tymor hir, bydd hynny'n golygu na fydd 200,000 o bobl yng Nghymru yn talu treth o gwbl, ac y bydd hyd at 800,000 o bobl yn gweld gostyngiad yn eu treth incwm ac arbediad o £700 y flwyddyn.

Mae'r ffaith bod 32 y cant o blant Cymru yn byw mewn tlodi yn gywilyddus, ac nid yw'r ganran honno wedi symud bron, er gwaethaf honiadau bod Llywodraeth Lafur flaenorol y DU, a Llywodraeth bresennol y Cynulliad, sy'n cynnwys y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, wedi bod yn mynd i'r afael â thlodi, yn ôl pob sôn. Mae angen inni gael ein hatgoffa bod gennym 119,000 o bensiynwyr sy'n byw islaw'r ffin tlodi yng Nghymru. Gwyddom yn awr y bydd gwelliannau ym mhensiwn y wladwriaeth, oherwydd, am y tro cyntaf ers yr 1980au, bydd pensiynau'n codi bob blwyddyn yn unol ag enillion neu brisiau—

Bethan Jenkins: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Eleanor Burnham: Nid wyf am dderbyn ymyriad ar hyn o bryd. Bydd pensiynau'n codi bob blwyddyn yn unol ag enillion neu brisiau, er mwyn i bensiynwyr gael budd pendant. Dylem gofio i Lywodraeth Lafur y DU gael 13 blynedd i ddod o hyd i amser i helpu pensiynwyr, drwy adfer y cysylltiad hanfodol hwn ag enillion, ond methodd â gwneud hynny.

Fel llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru dros blant, credaf mai un o'r agweddau dymunol eraill ar y rhaglen ddeddfwriaethol yw'r ffaith y byddwn yn rhoi terfyn ar yr arfer o gadw plant mewn canolfannau cadw, y soniodd Helen Mary

detention of children was criticised by the Home Affairs Select Committee last year, and we are glad that the coalition Government in the UK is moving forward to end this very regrettable practice.

On the future of broadcasting, as the spokesperson on this non-devolved matter—it is always of concern that this matter is not devolved—I want to make a plea about the independently funded news consortia. I believe that we need to have much more power here to be able to shape broadcasting, which is in a perilous state, with the BBC almost having a monopoly.

Bethan Jenkins: Will you take an intervention?

Eleanor Burnham: I will not take another intervention this afternoon.

The Deputy Presiding Officer: Order. She is not taking an intervention.

Eleanor Burnham: Thank you; you are very kind. The legislative programme gives great potential for framework powers for Wales. A number of Bills, such as the health Bill and the education and children's Bill, could give Wales new powers over bullying and anti-social behaviour, and powers over standards of care in the NHS.

We are very pleased that the Secretary of State has said that there will be a greater role for the Assembly to play in deciding what framework powers it would like, and that she will do all that she can to involve other Whitehall departments so that those powers are included in the Bills when they are written. We all know that framework powers can be a far more efficient way of devolving powers to the Assembly, rather than going through the circuitous 270 steps of the LCO process, which has become a bit of a joke to many of us. We know that it can take almost two years to move an LCO, so let us get rid of them as soon as possible.

Jones mor huawdl amdano. Y llynedd, cafodd hynny ei feirniadu gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref, ac yr ydym yn falch bod Llywodraeth glymbleidiol y DU yn symud ymlaen i roi terfyn ar yr arfer anffodus iawn hwnnw.

O safbwynt dyfodol darlledu, fel y llyfarydd dros y mater hwn, nad yw wedi ei ddatganoli—mae'r ffaith nad yw'r mater hwn wedi ei ddatganoli bob amser yn peri pryder—yr wyf am wneud apêl ynghylch y consortia newyddion a ariennir yn annibynnol. Credaf fod angen inni gael mwy o lawer o bŵer yn y fan hon i allu dylanwadu ar y maes darlledu, sydd mewn cyflwr enbydus, a lle mae gan y BBC fonopoli, bron.

Bethan Jenkins: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Eleanor Burnham: Nid wyf am dderbyn ymyriad arall y prynhawn yma.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw am dderbyn ymyriad.

Eleanor Burnham: Diolch; yr ydych yn garedig iawn. Mae'r rhaglen deddfwriaethol yn cynnig potensial gwych i gael pwerau fframwaith i Gymru. Gallai nifer o Fesurau, megis y Mesur iechyd a'r Mesur addysg a phlant, gynnig pwerau newydd i Gymru dros fwlio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phwerau dros safonau gofal yn y GIG.

Yr ydym yn falch iawn i'r Ysgrifennydd Gwladol ddweud y bydd rôl fwy amlwg i'r Cynulliad ei chwarae wrth benderfynu pa bwerau fframwaith y byddai'n hoffi eu cael, ac y bydd yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gynnwys adrannau eraill yn Whitehall er mwyn i'r pwerau hynny gael eu cynnwys yn y Mesurau pan gânt eu hysgrifennu. Gwyddom i gyd y gall pwerau fframwaith fod yn ffordd fwy effeithlon o lawer o ddatganoli pwerau i'r Cynulliad, yn hytrach na mynd drwy 270 o gamau cwmpasog y broses ar gyfer Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, sydd wedi mynd yn dipyn o jôc i lawer ohonom. Gwyddom y gall gymryd bron i ddwy flynedd i gynnig Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, felly gadewch inni gael gwared arnynt cyn gynted ag sy'n bosibl.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you wind up, please?

Eleanor Burnham: The legislative programme is also strong on the environment, and we now have the benefit of Chris Huhne as the Secretary of State for Energy and Climate Change; I look forward to having some interesting and productive discussions on the energy security and green economy Bill and so on.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you wind up, please?

Eleanor Burnham: I will. I also urge the Secretary of State to ensure that the banking situation is taken in hand.

Alun Davies: One is never quite sure how to follow Eleanor Burnham, is one? I have to say to the Member of Parliament for Chesham and Amersham that she does not enjoy the confidence of the Chamber. We heard, this afternoon, from the representative of Westminster in Wales rather than the voice of Wales in Westminster. We know that because we have seen the result of her endeavours on our behalf; we have seen how Wales was not included in the coalition agreement and how Wales was the invisible part of the United Kingdom when it came to the Queen's Speech. We know this because Peter Black has already told us. He described, in technicolor detail—and we welcome him back to the Chamber—calamity Clegg's blind spot when it comes to Wales. However, of course, when he talks about calamity Clegg, he could have been talking about the whole of the UK Government. There is a blind spot when it comes to Wales and they all have one, not only the leader of the Liberal Democrats.

Peter Black: Will you give way?

Alun Davies: I will not be giving way this afternoon. I was glad to hear that Nick Bourne's new deputy, Kirsty Williams, reassured us that she stands by everything that she said prior to the election, so I assume that she also stands by her comments about

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

Eleanor Burnham: Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol hefyd yn gryf o ran yr amgylchedd, ac yn awr mae gennym y fantais o gael Chris Huhne yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd; edrychaf ymlaen at gael trafodaethau diddorol a chynhyrchiol ar y Mesur diogelu ffynonellau ynni a'r economi werdd ac yn y blaen.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

Eleanor Burnham: Gallaf. Yr wyf hefyd yn annog yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod y sefyllfa o ran bancio'n cael sylw.

Alun Davies: Nid wyf byth yn hollol siŵr sut i ddilyn Eleanor Burnham. Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod Seneddol dros Chesham ac Amersham nad oes gan y Siambr ffydd ynddi. Y prynhawn yma, clywsom gan gynrychiolydd San Steffan yng Nghymru yn hytrach na llais Cymru yn San Steffan. Gwyddom hynny oherwydd yr ydym wedi gweld canlyniad ei hymdrechion ar ein rhan; yr ydym wedi gweld y modd na chafodd Cymru ei chynnwys yng nghytundeb glymblaid, ac mai Cymru oedd rhan anweledig y Deyrnas Unedig yn Araith y Frenhines. Gwyddom hynny gan fod Peter Black eisoes wedi dweud wrthym. Disgrifiodd, yn fanwl ac yn lliwgar—ac yr ydym yn ei groesawu'n ôl i'r Siambr—ddiffyg gweld Clegg di-glem yng nghyswllt Cymru. Fodd bynnag, wrth sôn am Clegg di-glem, gallai fod wedi bod yn sôn am Lywodraeth gyfan y DU wrth gwrs. Mae diffyg gweld yng nghyswllt Cymru, ac mae hynny'n wir amdanynt i gyd, ac nid am arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn unig.

Peter Black: A wnewch chi ildio?

Alun Davies: Ni fyddaf yn ildio y prynhawn yma. Yr oeddwn yn falch o glywed i ddirprwy newydd Nick Bourne, Kirsty Williams, roi sicrwydd inni ei bod yn glynu at bopeth a ddywedodd cyn yr etholiad. Felly, tybiaf ei bod hefyd yn glynu at ei sylwadau

the MP for Chesham and Amersham, when she said, ‘Goodness knows how we will survive with the meddling of governor Gillan, if she can pick and choose which parts of the law we can have and what we can do in Wales’. I assume that she still stands by that because we have so far seen almost a failure a week from the UK Government to recognise the needs and interests of Wales. We have seen Wales become the invisible nation in the coalition—

Nick Bourne: Will you give way?

The Deputy Presiding Officer: Order. Are you taking interventions?

Alun Davies: I will not give way; I have already said that and the leader of the opposition should recognise that fact. There has been a Scotland Bill in this Queen’s Speech, but no equivalent Wales Bill. We have seen that the Holtham recommendations have been put on the back burner. So much for the assurances from all of the supporters of the new Government that the Holtham recommendations would be part of the new Government agenda. The Member for Chesham and Amersham has failed to influence the new Government’s legislative agenda.

We have already spoken about the failure of the Government to recognise the needs of Wales in terms of the independently funded news consortium. Wales will be relegated to receiving local news in the same way as some of the cities of England. That is not good enough. When we needed a strong voice for Wales in Westminster, all we had was a weak voice for Westminster in Wales. That is simply not good enough.

Furthermore, and even worse, a cuts agenda has been pushed on to this country and the Welsh Assembly Government and we all accept it. Many of us across the Chamber accepted the impact of those cuts on the Welsh economy and in terms of creating the double-dip recession. We know that because Kirsty told us that, under the Tory proposals,

am yr Aelod Seneddol dros Chesham ac Amersham, pan ddywedodd, Duw’n unig a wŷyr sut y down i ben ag ymyrraeth y llywodraethwr Gillan, os bydd hi’n gallu dewis a dethol pa rannau o’r gyfraith y gallwn eu cael a beth y gallwn ei wneud yng Nghymru. Tybiaf ei bod yn dal i lynu at hynny, oherwydd, hyd yma, yr ydym wedi gweld bron i un methiant yr wythnos gan Lywodraeth y DU i gydnabod anghenion a buddiannau Cymru. Yr ydym wedi gweld Cymru yn mynd yn wlad anweledig yn y glymblaid—

Nick Bourne: A wnewch chi ildio?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A ydych am dderbyn ymyriadau?

Alun Davies: Nid wyf am ildio; yr wyf eisoes wedi dweud hynny, a dylai arweinydd yr wrthblaid gydnabod y ffaith honno. Cafwyd Mesur ar gyfer yr Alban yn yr Araith hon gan y Frenhines, ond ni chafwyd Mesur cyfatebol ar gyfer Cymru. Gwelsom i argymhellion Holtham gael eu rhoi o’r neilltu. Dyna werth y sicrwydd a gafwyd gan holl gefnogwyr y Llywodraeth newydd y byddai argymhellion Holtham yn rhan o agenda’r Llywodraeth newydd. Mae’r Aelod dros Chesham ac Amersham wedi methu â dylanwadu ar agenda ddeddfwriaethol y Llywodraeth newydd.

Yr ydym eisoes wedi sôn am fethiant y Llywodraeth i gydnabod anghenion Cymru o ran y consortiwm newyddion a ariennir yn annibynnol. Bydd Cymru yn cael ei darostwng i gael newyddion lleol yn yr un modd â rhai o ddinasoedd Lloegr. Nid yw hynny’n ddigon da. Pan oedd angen llais cryf arnom dros Gymru yn San Steffan, y cyfan a gawsom oedd llais gwan dros San Steffan yng Nghymru. Nid yw hynny’n bendant yn ddigon da.

At hynny, ac yn waeth fyth, mae agenda doriadau wedi cael ei gwthio ar y wlad hon a Llywodraeth y Cynulliad, ac yr ydym i gyd yn ei derbyn. Derbyniodd llawer ohonom ar draws y Siambr effaith y toriadau hynny ar economi Cymru ac o safbwynt creu’r ail ddirwasgiad. Gwyddom hynny oherwydd dywedodd Kirsty wrthym y byddai torri

an immediate cut to services would threaten jobs in Wales. I would argue that we need to continue with the immediate stimulus programme to continue to offset the worst aspects of this recession. That was in April; nothing has changed in June. We know that; we know the impact that these cuts will have on the Welsh economy. It is a matter of profound regret that we do not have an effective voice for Wales in the British Cabinet in a UK Government that will campaign and stand up for Wales. All too often, we have heard UK Ministers say how they will lead an innovative agenda to cut waste and push through changes in the way that public services are delivered, and to abolish the quangos. We have already done that in Wales and it is a shame that we do not have a Secretary of State who understands that. It is a tragedy for Wales, a tragedy for our economy and a tragedy—[*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order.

Alun Davies: It is all right, Deputy Presiding Officer, I can shout above this rabble.

The Deputy Presiding Officer: Order. Excuse me, but you do not need to shout about anything. Some people are interested in what Alun Davies is saying. However, would you refer to the Secretary of State by her proper title please, Alun, and will you wind up?

Alun Davies: At a time when Wales has been through one of the most difficult recessions in living memory, we needed a UK Government to be sympathetic to Welsh interests and a Secretary of State who would fight for those interests. What we have seen is that we have neither of those things.

5.30 p.m.

Nick Ramsay: It is always good to follow the graceful contributions of the Member for Mid and West Wales—via Blaenau Gwent. [*Laughter.*]

gwasanaethau'n syth, dan gynigion y Torïaid, yn bygwth swyddi yng Nghymru. Byddwn yn dadlau bod angen inni barhau â'r rhaglen ysgogi uniongyrchol er mwyn parhau i leddfu agweddau gwaethaf y dirwasgiad hwn. Yr oedd hynny ym mis Ebrill; nid oes dim wedi newid ym mis Mehefin. Gwyddom hynny; gwyddom yr effaith y bydd y toriadau hyn yn ei chael ar economi Cymru. Mae'n drueni mawr nad oes gennym lais effeithiol dros Gymru yng Nghabinet Prydain mewn Llywodraeth yn y DU, a fydd yn ymgychu dros Gymru ac yn ei hamddiffyn. Yn rhy aml o lawer, yr ydym wedi clywed Gweinidogion y DU yn dweud sut y byddant yn arwain agenda arloesol i dorri ar wastraff a chyflwyno newidiadau i'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu, a chael gwared ar y cwangos. Yr ydym eisoes wedi gwneud hynny yng Nghymru, ac mae'n drueni nad oes gennym Ysgrifennydd Gwladol sy'n deall hynny. Mae'n drychineb i Gymru, yn drychineb i'n heconomi ac yn drychineb—[*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Alun Davies: Mae'n iawn, Ddirprwy Lywydd, gallaf weiddi uwchben y dorf hon.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Esgusodwch fi, ond nid oes angen ichi weiddi ynghylch dim. Mae gan rai pobl ddiddordeb yn yr hyn y mae Alun Davies yn ei ddweud. Fodd bynnag, a wnewch chi gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ei theitl cywir, os gwelwch yn dda, Alun, ac a wnewch chi dynnu at y terfyn?

Alun Davies: Ar adeg pan fo Cymru wedi bod drwy un o'r dirwasgiadau anoddaf o fewn cof, yr oedd arnom angen Llywodraeth yn y DU a fyddai'n cydymdeimlo â buddiannau Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol a fyddai'n brwydro dros y buddiannau hynny. Yr ydym wedi gweld nad oes yr un o'r pethau hynny gennym.

Nick Ramsay: Mae bob amser yn braf dilyn cyfraniadau graslon yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru—drwy Flaenau Gwent. [*Chwerthin.*]

I welcome the Secretary of State's earlier statement. The enormously positive tone that she set was a refreshing change compared with some of the contributions of the previous incumbents of that job. We all agree that we are in economically turbulent times, and now, more than ever, there is a need for a strong, helpful and cordial relationship between Westminster and the Assembly. That is essential and is to be welcomed. I want to raise two points on the statement, and I will focus on the financial aspect of the Queen's Speech.

First, the coalition Government's commitment to the independent Office for Budget Responsibility making twice-yearly forecasts to the Treasury is to be welcomed. It is possibly one of the most significant developments in UK economics since the Bank of England became independent; it is certainly the most significant for a long time. It will give the Treasury a new insight into the problems that are being faced, and the way in which the Government should respond.

The second issue that I wanted to raise was that of fairer funding and the Barnett formula, and points in that regard have been made forcefully in the Chamber today. I am pleased that, in her statement, the Secretary of State dealt with that in a way in which it has not been dealt with before. Whatever your views on this, and irrespective of whether you think that we are moving fast enough towards a fairer funding formula for Wales, at least now a commitment has been made. Sadly, that has been lacking for a long time—and I heard what Helen Mary Jones and Plaid Cymru said about that earlier. Any pressure that can be put on a Government to make a decision about giving Wales the funding that it deserves is to be welcomed, but it is sad that we have not seen that over the past 13 years, taking out the last month. In responding, I ask the Secretary of State to acknowledge that this is enormous progress that should not, and I believe will not, be underestimated.

Yr wyf yn croesawu datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn gynharach. Yr oedd ei hagwedd hynod gadarnhaol yn chwa o awyr iach, o'i chymharu â rhai o gyfraniadau deiliaid blaenorol y swydd dan sylw. Yr ydym i gyd yn cytuno ein bod mewn cyfnod cythryblus o safbwynt economaidd, ac yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen perthynas gref, ddefnyddiol a chyfeillgar rhwng San Steffan a'r Cynulliad. Mae hynny'n hanfodol ac yn rhywbeth i'w groesawu. Yr wyf am godi dau bwynt am y datganiad, a hoffwn ganolbwyntio ar agwedd ariannol Araith y Frenhines.

Yn gyntaf, dylid croesawu ymrwymiad y Llywodraeth glymbleidiol i'r ffaith y bydd y Swyddfa annibynnol dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn llunio rhagolygon ddwywaith y flwyddyn i'r Trysorlys. Mae'n bosibl mai hwn yw un o'r datblygiadau pwysicaf yn economeg y DU ers i Fanc Lloegr fynd yn annibynnol; hwn, yn bendant, yw'r datblygiad pwysicaf ers tro. Bydd yn rhoi cipolwg newydd i'r Trysorlys ar y problemau a wynebir, a'r ffordd y dylai'r Llywodraeth ymateb.

Yr ail fater yr oeddwn am ei godi oedd trefn ariannu decach a fformiwla Barnett, ac mae pwyntiau ynghylch hynny wedi cael eu gwneud yn rymus yn y Siambr heddiw. Yr wyf yn falch i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ei datganiad, ymdrin â'r mater hwnnw mewn modd nad ymdriniwyd ag ef o'r blaen. Beth bynnag yw eich barn am y mater, ac ni waeth a ydych yn credu ein bod yn symud yn ddigon cyflym tuag at fformiwla ariannu decach i Gymru ai peidio, o leiaf ceir ymrwymiad erbyn hyn. Yn anffodus, cafwyd diffyg ymrwymiad ers tro—a chlywais yr hyn a ddywedodd Helen Mary Jones a Phlaid Cymru am hynny'n gynharach. Dylid croesawu unrhyw bwysau y gellir ei roi ar Lywodraeth i wneud penderfyniad ynghylch sicrhau bod Cymru yn cael yr arian y mae'n ei haeddu, ond mae'n drist nad ydym wedi gweld hynny dros y 13 blynedd diwethaf, ar wahân i'r mis diwethaf. Wrth ymateb, gofynnaf i'r Ysgrifennydd Gwladol gydnabod bod hynny'n gynnydd enfawr na ddylid ei fychanu, ac na fydd yn cael ei fychanu, mi gredaf.

We are interested to see how the process of the Calman commission will pan out, but there is a need to accept that the issue of the Holtham commission should be kept separate from the issue of a referendum, and there was confusion earlier on the part of some Members as to whether they should be separated. If there is to be a referendum on whether the Assembly should have further legal powers as part of the devolved settlement, I would like to be able to explain that fully to my constituents and then to explain the fiscal situation separately. We should not confuse the two. My goodness me, it is difficult enough for some of us to understand the full ramifications of those aspects as it is, so let us give the electorate the opportunity and the time to understand the full details of those arguments before they have to take a decision.

I want to mention briefly a question that was raised with the Secretary of State on loan guarantees to car firms. I am pleased to hear that, following pressure by the Secretary of State, it has been announced that £360 million of loan guarantees will be made available to Ford. That is progress, and it is a tribute to the Government that, in the short time for which it has been in power, it is falling over itself to do things as quickly as it can, and far faster than has happened in the past.

Earlier, the issue of the downscaling of growth projections was raised, and another element of that is the overestimation, which has now been corrected, of the level of borrowing. I think that it was Lynne Neagle who mentioned it. The growth projections side of this issue cannot be underestimated. The previous Government recklessly overestimated the amount by which the country's economy would grow, and if the current Government had come in and taken those projections at face value, that would have been scandalous, constituting a betrayal of people—

Rhodri Morgan *rose*—

Nick Ramsay: Sorry, I do not have time. I am winding up now.

Mae gennym ddiddordeb mewn gweld sut yr aiff proses comisiwn Calman rhagddi, ond mae angen derbyn y dylid cadw'r mater sy'n ymwneud â chomisiwn Holtham ar wahân i'r mater sy'n ymwneud â refferendwm, ac yr oedd rhai Aelodau wedi drysu'n gynharach ynghylch a ddylid eu gwahanu. Os cynhelir refferendwm ynghylch a ddylai'r Cynulliad gael rhagor o bwerau cyfreithiol yn rhan o'r setliad datganoli, hoffwn allu egluro hynny'n llawn i'm hetholwyr, ac yna egluro'r sefyllfa ariannol ar wahân. Ni ddylem ddrysu'r ddaud beth. Bobol bach, mae'n ddigon anodd i rai ohonom ddeall goblygiadau llawn yr agweddau hynny fel y mae, felly gadewch inni roi cyfle ac amser i'r etholwyr ddeall manylion llawn y dadleuon hynny cyn iddynt orfod gwneud penderfyniad.

Yr wyf am sôn yn fyr am gwestiwn a godwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch gwarantau benthyciadau i gwmnïau ceir. Yr wyf yn falch o glywed am y cyhoeddiad, yn dilyn pwysau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sy'n datgan y bydd gwerth £360 miliwn o warantau benthyciadau ar gael i Ford. Mae hynny'n gynnydd, ac mae'n deyrnged i'r Llywodraeth ei bod, yn y cyfnod byr y mae wedi bod mewn grym, yn gwneud ei gorau glas i wneud pethau mor gyflym ag y gall, ac yn gyflymach o lawer nag sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Yn gynharach, codwyd y mater sy'n ymwneud â lleihau rhagolygon ar gyfer twf, ac elfen arall o hynny yw'r goramcangyfrif o lefel y benthyca, sydd wedi'i gywiro bellach. Credaf mai Lynne Neagle a soniodd am hynny. Ni ellir bychanu'r agwedd ar y mater sy'n ymwneud â rhagolygon ar gyfer twf. Bu i'r Llywodraeth flaenorol oramcangyfrif yn fyrbwyll faint y byddai economi'r wlad yn tyfu, a phe bai'r Llywodraeth bresennol wedi dod i rym ac wedi cymryd y rhagolygon hynny heb eu hamau, byddai wedi bod yn gywilyddus, a byddai'n gyfystyr â bradychu pobl—

Rhodri Morgan *a gododd*—

Nick Ramsay: Mae'n ddrwg gennyf, nid oes gennyf amser. Yr wyf yn tynnu at y terfyn yn awr.

I can see Brian Gibbons shaking his head, but earlier he said that the unfairness in Wales's funding has been a result of Government generosity in the past. I found that most intriguing. The tone that Brian took just shows the situation that we are in. At the end of the day, this is not the Government's money to give; this is the people's money, the country's money. It is not a question of generosity; it is a question of future generations having to pick up the tab for the past 13 years of mismanagement at Westminster. The sooner we all realise that, the better for everyone.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o allu cyfrannu at y ddatl bwysig hon i gyflwyno'r materion sy'n bwysig i ni yng Nghymru gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol. Hoffwn ganolbwyntio am ychydig funudau ar y sector 'dai'—nid oherwydd fy enw, ond oherwydd y nod sylfaenol o sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl. Bydd rhai ohonoch yn ymwybodol o'r ffaith fy mod yn feddyg teulu, ac wedi bod ers rhai blynnyddoedd, ac mae ffaith feddygol sy'n darogan bod tai gwael yn golygu iechyd gwael. Dyna un o'r rhesymau pam yr euthum i wleidyddiaeth yn y lle cyntaf, i geisio gwneud rhywbeth am gyflwr tai pobl yma yng Nghymru. Mae eu cyflwr yn echrydus mewn sawl man, sy'n tanseilio iechyd ein pobl.

Mae'r digartref yn byw nes eu bod yn 47 oed ar gyfartaledd, gyda'r rhan fwyaf ohonom nad ydym yn ddigartref yn byw ar gyfartaledd nes ein bod yn 81 oed. Er gwaith arwrol Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, yr ydym yn parhau i wynebu galw cynyddol am dai fforddiadwy. Er y cynllun arbed morgeisi arloesol a llwyddiannus, hyd yn hyn, ac er yr holl adeiladu o dai fforddiadwy ychwanegol sydd eisoes wedi digwydd, mae'n rhaid cael rhagor.

Mae'n destun siom, felly, nad oedd tai yn flaenoriaeth i glymblaid newydd San Steffan yn Araith y Frenhines y tro hwn. Gosodwn yn gryf yr angen i dai gael eu hystyried yn flaenoriaeth gref i'r glymblaid yn San Steffan. Nid yw torri £100 miliwn o raglen tai fforddiadwy Lloegr yn argoeli'n dda i ni

Gallaf weld Brian Gibbons yn ysgwyd ei ben, ond yn gynharach, dywedodd fod yr annhegwch o safbwynt ariannu Cymru wedi digwydd o ganlyniad i haelioni'r Llywodraeth yn y gorffennol. Yr oedd hynny'n ddiddorol tu hwnt yn fy marn i. Mae'r agwedd a fabwysiadodd Brian yn dangos yn union y sefyllfa yr ydym ynddi. Yn y pen draw, nid arian y Llywodraeth mo hwn i'w roi; arian y bobl ydyw, ac arian y wlad. Nid oes a wnelo â haelioni; mae a wnelo â chenedlaethau'r dyfodol yn gorfod talu am y 13 blynedd diwethaf o gamreoli yn San Steffan. Gorau i bawb po gyntaf y byddwn i gyd yn sylweddoli hynny.

David Lloyd: I am pleased to be able to contribute to this important debate to present the issues that are important to us in Wales before the Secretary of State. I want to focus on the *sector 'dai'*—that is, the housing sector—not because my name is Dai, but because of the fundamental aim of ensuring affordable housing for people. Some of you will be aware of the fact that I am a general practitioner, and have been for some years, and it is a medical fact that poor health can be predicted by poor housing. That is one reason why I went into politics in the first place, to try to do something about the state of people's housing in Wales. Their condition is terrible in many areas, which undermines people's health.

Homeless people have a life expectancy of 47 years of age on average, and the vast majority of us who are not homeless have a life expectancy of 81, on average. Despite the heroic efforts of Jocelyn Davies, the Deputy Minister for Housing and Regeneration, we continue to face an increasing demand for affordable housing. Despite the innovative and so far successful mortgage rescue scheme, and despite the additional affordable housing that has been built, we need more.

It is a cause of disappointment, therefore, that housing was not a priority for the new coalition Government at Westminster in the Queen's Speech this time around. I would submit strongly that housing needs to be considered a great priority by the coalition at Westminster. Cutting £100 million from the

yng Nghymru.

Ni ddylid anghofio i'r Ceidwadwyr bleidleisio yn erbyn yr LCO drafft ar dai cyn yr etholiad cyffredinol. Dyna a danseiliodd yr holl broses. Er i'r sector tai cyfan, gan gynnwys Shelter, Cartrefi Cymunedol Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Cymorth Cymru, a hyd yn oed Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grefu ar y Torïaid i beidio â gwrthwynebu'r LCO drafft, dyna a wnaethant, gan fradychu'r sector a phobl sy'n aros am ddy yma yng Nghymru.

Yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad, cawsom dagrau crocodeil y Ceidwadwyr wrth iddynt geisio dadlau am yr union bwnc hwn, er mai hwy a danseiliodd bopeth ynglŷn â thai fforddiadwy a'r LCO drafft ynghylch tai fforddiadwy. Mae gwir angen symud ar y pwnc pwysig hwn. Mae'r holl waith wedi cael ei wneud; mae angen gweithredu yn awr. Fel arall, byddwn yn tanseilio'r holl waith a wnaed yn y Cynulliad dros y blynnyddoedd ac yn tanseilio addewidion y pleidiau a etholwyd ar fanifesto sy'n cynnwys yr hyn sydd yn yr LCO drafft.

Mae angen sicrwydd arnom yn y Cynulliad y bydd symud ar yr LCO drafft ar fyrder, Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid inni weld symud o ran ein deddfwriaeth, fel ein bod yn cael tegwch i'n pobl ac yn gwella safon eu hiechyd.

Nid yw amser yn caniatáu imi olrhain fy holl bryderon am y Mesur a geir yn Araith y Frenhines i breifateiddio'r gwasanaeth post, a fyddai'n beth hollol wallgof i'w wneud—dyna yw ideoleg asgell dde eithafol. Yr un ideoleg sy'n gyrru'r newidiadau, bid siŵr, yn y Mesur diwygio lles, gyda'n dinasyddion mwyaf bregus unwaith eto ar eu colled. Y cefndir i hyn oll, wrth gwrs, yw'r toriadau cyllid enfawr a'n hanallu yn y Cynulliad i amddiffyn ein pobl. Ariennwch ni'n deg i ddechrau, ac wedyn gallwch dorri. Heb ariannu teg, mae torri yn awr yn pentyrru anghyfiawnder ar ben anghyfiawnder oesol ein pobl.

affordable housing programme in England does not bode well for us in Wales.

It should not be forgotten that the Conservatives voted against the draft housing LCO before the general election. That was what undermined the entire process. Despite the fact that the entire housing sector, including Shelter, Community Housing Cymru, the Chartered Institute of Housing Cymru, Cymorth Cymru, and even the Welsh Local Government Association, implored the Tories not to oppose the draft LCO, but that is what they did, thereby betraying the sector and those who are waiting for a house in Wales.

Last week in the Assembly, we saw the crocodile tears of the Conservatives as they attempted to argue on this very subject, even though it was they who undermined everything to do with affordable housing and the draft affordable housing LCO. There is a real need to move forward on this important subject. All of the work has been done; there is now a need for action. Otherwise, we will be undermining all of the work that the Assembly has done over the years and the promises made by parties that were elected on manifestos that included the contents of the draft LCO.

The Assembly needs assurance that there will be movement on the draft LCO shortly, Secretary of State. We have to see movement with regard to our legislation, so that there is fairness for the people of Wales and an improvement in the standard of their health.

Time does not permit me to outline all of my concerns about the Bill in the Queen's Speech regarding the privatisation of the postal service, which it would be madness to enact—that is the extreme right-wing ideology. It is the same ideology that is surely driving the changes in the welfare reform Bill, with our most vulnerable citizens once again losing out. The background to all of this, of course, is the enormous financial cuts and our inability in the Assembly to defend the people of Wales. Fund us fairly to begin with, and then you can cut. Without fair funding, cutting now heaps further injustice on top of the historical injustice that the people of Wales have faced.

5.40 p.m.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to speak in this debate on the Queen's Speech. I particularly commend the Secretary of State on her positive engagement, which is in quite stark contrast with that of her predecessor during last year's debate on the Queen's Speech.

We attach great significance to the budget responsibilities of any Government and to its ability to provide resources for public services. That is vital and it has to be the critical priority for any Government. I take great comfort from the Bill to set up the Office for Budget Responsibility in the Queen's Speech, as it will give an impetus of impartiality and objectiveness. Brian Gibbons touched earlier on how the borrowing figures were not as great as first estimated and that they had marginally decreased. However, the interim Office for Budget Responsibility made the implication that the long-term fiscal deficit that we have to service—and that is the critical goal because it is the interest rate on that that we are servicing—will be a massive drag on the economy. Unless the Government attacks and addresses that deficit, future generations will not be able to enjoy the expenditure on public services that we would like to see. If we do not make significant savings in the budget by 2012-13, for every £100 we take in taxation, £10 will be going on interest payments. That is a fact.

Brian Gibbons: As I said in my speech, did the Office for Budget Responsibility not say that the proposals of the previous Chancellor would have halved that deficit within five years without having to use the high-risk draconian strategy being proposed? That is precisely what the Office for Budget Responsibility said.

Andrew R.T. Davies: No, I cannot agree with that. If you look across Europe, you will see that all Governments, whether left of centre or right of centre, have to make these

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon am Araith y Frenhines. Yr wyf yn canmol yn arbennig yr Ysgrifennydd Gwladol am ei hymwneud cadarnhaol, sy'n hollol wahanol i ymwneud ei rhagflaenydd yn ystod dadl y llynedd am Araith y Frenhines.

Yr ydym yn rhoi pwys mawr ar gyfrifoldebau cyllidebol unrhyw Lywodraeth, a'i gallu i ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n hanfodol, a rhaid bod hynny'n brif flaenoriaeth i unrhyw Lywodraeth. Caf fy nghysuro'n fawr gan y Mesur i sefydlu'r Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn Araith y Frenhines, oherwydd bydd yn ysgogi tegwch a gwrthrychedd. Soniodd Brian Gibbons yn gynharach am y ffaith nad oedd y ffigurau benthyca mor uchel â'r amcangyfrif gwreiddiol, a'u bod wedi gostwng fymryn. Fodd bynnag, awgrymodd y Swyddfa interim dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb y bydd y diffyg ariannol hirdymor y mae'n rhaid inni ei gynnal—a dyna'r nod hollbwysig, oherwydd y gyfradd llog ar y diffyg hwnnw yw'r hyn yr ydym yn ei gynnal—yn fwrn enfawr ar yr economi. Oni bai bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r diffyg hwnnw ac yn rhoi sylw iddo, ni fydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus y byddem yn hoffi ei weld. Os na wnawn arbedion sylweddol yn y gyllideb erbyn 2012-13, o bob £100 y byddwn yn ei gymryd mewn trethi, bydd £10 yn cael ei wario ar daliadau llog. Mae hynny'n ffaith.

Brian Gibbons: Fel y dywedais yn fy araith, oni ddywedodd y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb y byddai cynigion y Canghellor blaenorol wedi haneru'r diffyg hwnnw cyn pen pum mlynedd heb orfod defnyddio'r strategaeth ffyrnig, fentrus iawn sy'n cael ei chynnig? Dyna'n union a ddywedodd y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb.

Andrew R.T. Davies: Ni allaf gytuno â hynny. Os edrychwch ar draws Ewrop, fe welwch fod pob Llywodraeth, boed i'r chwith o'r canol neu i'r dde o'r canol, yn

difficult calls. If we cannot keep the confidence of the markets, we will not be able to attract the funding that we need to protect our communities.

Of the many Bills in the Queen's Speech, I welcome the welfare reform Bill, which we hope will eradicate many of the complexities of the welfare system. Anyone who has doubts about the capabilities of the Secretary of State for Work and Pensions, Iain Duncan Smith—along with Frank Field, who has been called in to advise—should look at themselves in the mirror and ask where we have been going for the past 13 years with 33 per cent of households in the United Kingdom relying on benefits for more than 50 per cent of their income. That is clearly unsustainable and cannot be protecting the most vulnerable in our society. We need to focus on those who depend on benefits, rather than those who see them as an easy touch.

Leanne Wood: You seem to be quite concerned about people living in poverty, yet the Government is planning to cut benefits and force people into jobs that do not exist. Do you not think that that might make poverty levels worse?

Andrew R.T. Davies: That is complete rubbish, Leanne. I have given you the statistics that show that there is a dependency culture at the moment, and that the vulnerable are not being protected. There is a higher number of children in poverty in Wales today than there has ever been. That cannot be sustainable. There is also a higher number of people on incapacity benefits than there have ever been. If you are on incapacity benefit for two years or more, you are likely to die on incapacity benefit. That cannot be a sensible way of continuing the welfare state, and we have to rebalance that, which the welfare reform Bill will do.

The identity documents Bill has to be welcomed, and I am sure that everyone who has a libertarian streak will welcome it. We look across with envy at the England-only

gorfod gwneud y penderfyniadau anodd hyn. Os na allwn gadw hyder y marchnadoedd, ni fyddwn yn gallu denu'r arian y mae ei angen arnom i amddiffyn ein cymunedau.

O'r Mesurau niferus yn Araith y Frenhines, yr wyf yn croesawu'r Mesur diwygio lles, yr ydym yn gobeithio y bydd yn dileu llawer o gymhlethdodau'r system les. Dylai pawb sy'n amau gallu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Iain Duncan Smith—ynghyd â Frank Field, sydd wedi'i alw i mewn i gynghori—edrych ar eu hunain yn y drych a gofyn i ble'r ydym wedi bod yn mynd yn ystod y 13 blynedd diwethaf, gyda 33 y cant o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yn dibynnu ar fudd-daliadau i gael dros 50 y cant o'u hincwm. Mae'n amlwg nad yw hynny'n gynaliadwy, ac ni all fod yn ffordd o amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae angen inni ganolbwyntio ar y sawl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau, yn hytrach na'r sawl sy'n eu hystyried yn opsiwn rhwydd.

Leanne Wood: Ymddengys eich bod yn eithaf pryderus ynghylch pobl sy'n byw mewn tlodi, ond eto mae'r Llywodraeth yn bwriadu torri budd-daliadau a gorfodi pobl i gymryd swyddi nad ydynt yn bodoli. Onid ydych yn credu y gallai hynny waethygu lefelau tlodi?

Andrew R.T. Davies: Nonsens llwyr yw hynny, Leanne. Yr wyf wedi rhoi'r ystadegau ichi sy'n dangos bod diwylliant o ddibyniaeth yn bodoli ar hyn o bryd, ac nad yw'r bobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn. Mae mwy o blant mewn tlodi yng Nghymru heddiw nag erioed o'r blaen. Ni all hynny fod yn gynaliadwy. Yn ogystal, mae mwy o bobl yn cael budd-daliadau analluogrwydd nag erioed o'r blaen. Os ydych yn cael budd-dal analluogrwydd am ddwy flynedd neu fwy, yr ydych yn debygol o gael budd-dal analluogrwydd nes byddwch yn marw. Ni all hynny fod yn ffordd synhwyrol o barhau â'r wladwriaeth les, a rhaid inni ailfantoli hynny, a dyna y bydd y Mesur diwygio lles yn ei wneud.

Rhaid croesawu'r Mesur dogfennau adnabod, ac yr wyf yn siŵr y bydd pawb sy'n rhyddfrydol eu natur yn ei groesawu. Edrychwn draw'n eiddgeddus ar y Mesurau

Bills in the Queen's Speech, which will free the education system from bureaucracy and will make other improvements, empowering teachers, governors and schools to make the decisions. Many people in Wales will look across and wonder why that power cannot be given to them.

They will also look at the health Bill that will come before the House of Commons, which will empower clinicians to make the decisions in the health service, rather than politicians, which seems to be the ideology of the One Wales Government for the Welsh system, as I highlight week in, week out in this institution.

I also wish to focus on the armed services Bill that is to be brought before the Commons, which I hope everyone in the Chamber will welcome. As the Secretary of State mentioned in her opening remarks, we owe a debt of gratitude to our armed services. Wales has a noble tradition of providing recruits for our armed services, and the resources and provisions in that Bill will go a long way towards addressing the deficit that the previous Government ran up in the armed services, particularly in the field of mental health services, provision for families back home and, above all, tours of duty and supporting our troops on the front line. We have to welcome that in Wales to support our armed services. Therefore, I commend the Queen's Speech to Plenary and I also commend the consensual and constructive manner in which the Secretary of State addressed Plenary. I look forward to working with you in the future, Secretary of State.

Jeff Cuthbert: I will begin by saying how pleased I was, some minutes ago, to hear David Melding say how pleased he was to see that there were real socialists in the Chamber. If he wishes to swell our ranks, I am sure that he would be very welcome.

I was unable to intervene on your statement, Secretary of State, but the one issue on which I agreed with you was on celebrating the

ar gyfer Lloegr yn unig yn Araith y Frenhines, a fydd yn rhyddhau'r system addysg oddi wrth fiwrocratiaeth ac a fydd yn gwneud gwelliannau eraill, gan rymuso athrawon, llywodraethwyr ac ysgolion i wneud penderfyniadau. Bydd llawer o bobl yng Nghymru yn edrych draw ac yn meddwl tybed pam na allant hwy gael y grym hwnnw hefyd.

Byddant hefyd yn edrych ar y Mesur iechyd a gyflwynir gerbron Tŷ'r Cyffredin, a fydd yn grymuso clinigwyr, yn hytrach na gwleidyddion, i wneud penderfyniadau yn y gwasanaeth iechyd, sef ideoleg Llywodraeth Cymru'n Un ar gyfer system Cymru, yn ôl pob golwg, fel y pwysleisiaf bob wythnos yn y sefydliad hwn.

Yr wyf hefyd am ganolbwyntio ar y Mesur lluoedd arfog a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin, a gobeithiaf y bydd pawb yn y Siambr yn ei groesawu. Fel y soniodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei sylwadau agoriadol, yr ydym yn ddyledus iawn i'n lluoedd arfog. Mae gan Gymru draddodiad anrhydeddus o ddarparu recriwtiaid i'n lluoedd arfog, a bydd yr adnoddau a'r darpariaethau yn y Mesur hwnnw'n cyfrannu'n fawr at fynd i'r afael â'r diffyg a greodd y Llywodraeth flaenorol yn y lluoedd arfog, yn enwedig o ran gwasanaethau iechyd meddwl, darpariaeth i deuluoedd gartref ac, yn anad dim, tymhorau dyletswydd a chefnogaeth i'n milwyr yn y rheng flaen. Rhaid inni groesawu hynny yng Nghymru er mwyn cefnogi ein lluoedd arfog. Felly, cymeradwyaf Araith y Frenhines i'r Cyfarfod Llawn, a chymeradwyaf hefyd y ffordd gydsyniol ac adeiladol y bu i'r Ysgrifennydd Gwladol annerch y Cyfarfod Llawn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol, Ysgrifennydd Gwladol.

Jeff Cuthbert: Dechreuaf drwy ddweud cymaint o bleser a gefais, rai munudau'n ôl, o glywed David Melding yn dweud mor falch yr oedd o weld bod sosialwyr go iawn yma yn y Siambr. Os yw'n dymuno ymuno â'n rhengoedd, yr wyf yn siŵr y byddai croeso mawr iddo.

Nid oedd yn bosibl imi ymyrryd yn ystod eich datganiad, Ysgrifennydd Gwladol, ond yr un mater yr oeddwn yn cytuno â chi yn ei

work of our armed forces, particularly as Cardiff has been selected to host National Armed Forces Day later this month. However, that is where it ends. I welcome the opportunity to speak in today's important debate, but I will focus my contribution on the role of European structural funds in helping to boost our economy and also in protecting us from the more unfortunate consequences of slash and burn spending cuts.

A few weeks ago, we in Wales were presented with a cut of over £162 million in our budget. Quite rightly, the Welsh Assembly Government expressed its disappointment, but has said that it will work constructively with the UK Government to manage the cut and handle it in a way that minimises the impact on front-line public services. On the progressive side of the Chamber—which used to include the Liberal Democrats—we recently campaigned on the need to secure economic recovery and avoid immediate spending cuts; sadly, immediate, swingeing cuts are coming our way. However, we are where we are. We now have to work within these parameters and do everything that we can to protect the most vulnerable members of our society. Now that we know that we are facing a £162 million cut in our budget, we have to look at other measures that can help us to stave off its worst effects. Unfortunately, as my comrade Lynne Neagle mentioned, the Child Trust Fund Cymru, which has benefited around 5,000 children in my constituency will do so no more and the Future Jobs fund, which benefited 75 young people in my constituency alone, has been abolished. That means that a generation of young people in the Caerphilly area could simply be cast aside as spending cuts bite.

Peter Black: You will realise, because you were listening to the Secretary of State earlier, that the Future Jobs fund is not being abolished, but is being put into another benefit, which will equally benefit those people and, hopefully, get them back to work permanently.

gylch oedd yr un ar glodfori gwaith ein lluoedd arfog, yn enwedig gan fod Caerdydd wedi cael ei dewis i gynnal Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn nes ymlaen y mis hwn. Fodd bynnag, nid oeddwn yn cytuno â dim byd arall. Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw, ond hoffwn ganolbwyntio, yn fy nghyfraniad, ar rôl cronfeydd strwythurol Ewropeaidd o ran helpu i hybu ein heconomi a'n hamddiffyn rhag canlyniadau mwyaf anffodus toriadau dinistriol ar wariant.

Rai wythnosau'n ôl, cyflwynwyd toriad gwerth dros £162 miliwn i'n cyllideb ni yng Nghymru. Yn gywir ddigon, mynegodd Llywodraeth y Cynulliad ei siom, ond mae wedi dweud y bydd yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i reoli'r toriad ac ymdrin ag ef mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Ar ochr flaengar y Siambr—a arferai gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol—bu inni ymgyrchu'n ddiweddar dros yr angen i sicrhau adferiad economaidd ac osgoi torri'n syth ar wariant; yn anffodus, mae toriadau llym yn dod i'n cyfeiriad yn syth. Fodd bynnag, dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi. Yn awr, rhaid inni weithio o fewn y terfynau hyn a gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn y sawl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gan ein bod yn gwybod yn awr ein bod yn wynebu toriad gwerth £162 miliwn yn ein cyllideb, rhaid inni edrych ar fesurau eraill a all ein helpu i osgoi ei effeithiau gwaethaf. Yn anffodus, fel y soniodd fy nghyfaill, Lynne Neagle, bydd Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru, sydd wedi helpu oddeutu 5,000 o blant yn fy etholaeth i, yn methu â helpu plant mwyach, ac mae cronfa Swyddi'r Dyfodol, a helpodd 75 o bobl ifanc yn fy etholaeth i'n unig, wedi cael ei dileu. Golyga hynny y gallai cenhedlaeth o bobl ifanc yn ardal Caerffili gael eu taflu o'r neilltu wrth i doriadau ar wariant frathu.

Peter Black: Byddwch yn sylweddoli, oherwydd yr oeddech yn gwrandao ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn gynharach, nad yw cronfa Swyddi'r Dyfodol yn cael ei dileu, oherwydd caiff ei chynnwys mewn budd-dal arall a fydd yr un mor fuddiol i'r bobl hynny, ac a fydd, gobeithio, yn eu cael i ddychwelyd i waith yn barhaol.

Jeff Cuthbert: So you say, but you have abolished the fund before putting anything in its place. Unfortunately, those of my age who have memories that go back to the 1980s can remember what the Conservative Government did to young people at that time. As we face the prospect of rising unemployment and the real spectre of a double-dip recession, we need to look at how else we can help the most vulnerable people in our constituencies—those who rely on public services, especially the young people who will be hardest hit by the culling of the two schemes that I have mentioned. We do not want to see a return to the 1980s, when thousands of young people in Wales were put on the scrapheap, leading to many of the social problems that blight our communities today.

That is where European structural funds come in. In the current round of programmes, several key initiatives have been financed by the European Union, helping the parts of Wales that need support the most. Those initiatives include the ProAct and ReAct schemes, which exist to support training during lean periods in order to upskill people for when order books start filling up. Our modern apprenticeships programme, which raises skills and training levels, has also been enabled by structural fund support. During the recession from which we have recently emerged, we were also able to bring spending on our allocated funds forward so that we could pump prime demand in Wales and get the motor for our economy going again.

Secretary of State, I hope that we receive your assurance today that the UK Government will work constructively with the Welsh Assembly Government to maintain use of structural funds and to look at ways in which we can carry on spending them to a certain level once the current round of funds dries up in 2013. However, the example of what happened the last time that your party was in Government does not fill me with confidence. I hope that it will be more positive this time, and that your response will be more positive. Due to the spending cuts

Jeff Cuthbert: Meddech chi, ond yr ydych wedi dileu'r gronfa cyn rhoi dim byd arall yn ei lle. Yn anffodus, mae'r bobl hynny sydd yr un oed â mi, a all gofio'r 1980au, yn cofio'r hyn a wnaeth y Llywodraeth Geidwadol i bobl ifanc ar y pryd. Wrth inni wynebu'r posibilrwydd o gynnydd mewn diweithdra a'r perygl gwirioneddol o ail ddirwasgiad, mae angen inni edrych ar ffyrdd eraill y gallwn helpu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein hetholaethau—y sawl sy'n dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y bobl ifanc a fydd yn dioddef waethaf yn sgil dileu'r ddau gynllun y soniais amdanynt. Nid ydym am ddychwelyd i'r 1980au, pan gafodd miloedd o bobl ifanc yng Nghymru eu taflu ar y domen, gan arwain at nifer o'r problemau cymdeithasol sy'n bla yn ein cymunedau heddiw.

Dyma lle gall cronfeydd strwythurol Ewropeaidd fod yn berthnasol. Yn y cylch cyfredol o raglenni, mae llawer o fentrau allweddol wedi cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, gan helpu'r rhannau o Gymru y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Ymhlith y mentrau hynny mae cynlluniau ProAct a ReAct, sy'n bodoli i gefnogi hyfforddiant yn ystod cyfnodau o gyni er mwyn gwella sgiliau pobl erbyn yr adeg pan fydd y llyfrau archebion yn dechrau llenwi. Mae ein rhaglen prentisiaethau modern, sy'n gwella sgiliau a lefelau hyfforddiant, hefyd yn bodoli oherwydd cymorth gan gronfeydd strwythurol. Yn ystod y dirwasgiad y daethom allan ohono'n ddiweddar, bu modd hefyd inni ddwyn gwariant yng nghyswllt ein cronfeydd dyranedig ymlaen er mwyn gallu ysgogi galw yng Nghymru ac aildanio injan ein heconomi.

Ysgrifennydd Gwladol, gobeithiaf y byddwn yn cael sicrwydd gennych heddiw y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y Cynulliad i ddal i ddefnyddio cronfeydd strwythurol ac ystyried ffyrdd y gallwn barhau i'w gwario hyd at lefel benodol pan fydd y cylch cyfredol o gronfeydd yn dod i ben yn 2013. Fodd bynnag, nid yw'r hyn a ddigwyddodd y tro diwethaf yr oedd eich plaid mewn Llywodraeth yn rhoi llawer o hyder imi. Gobeithiaf y bydd yn fwy cadarnhaol y tro hwn, ac y bydd eich ymateb yn fwy

that we face in Wales, vulnerable people will need all the help that they can get. We have to ensure that the impact on jobs and front-line services is kept to a minimum.

5.50 p.m.

Mark Isherwood: It is strange that Jeff Cuthbert did not say that when Labour cut the Welsh budget by £400 million in the current year.

The Secretary of State always reminds me of the motto on one of my daughters' t-shirts:

'You can take the girl out of Wales, but you cannot take Wales out of the girl'.

I hope to see her in this Senedd many more times in the future.

The legislative programme of the UK coalition Government is a positive and progressive response to a poisoned and pernicious inheritance. It is regrettable that Labour delayed a decision on the date and question of the referendum on further powers until after the general election. However, it is good news that the Secretary of State is aiming to hold the vote before the end of March next year in accordance with the law. I commend the Secretary of State for including the Welsh Language Board—[*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. Mark Isherwood is making a speech. If other Members wish to hold a conversation, they should do so outside.

Mark Isherwood: I commend the Secretary of State for including the Welsh Language Board as part of the project team looking at the referendum question.

If Labour had not imposed the wasteful legislative competence Order process on us, we could have moved to primary law-making powers in existing devolved areas earlier.

cadarnhaol. Yn sgil y toriadau ar wariant a wynebwn yng Nghymru, bydd ar bobl sy'n agored i niwed angen yr holl gymorth y gallant ei gael. Rhaid inni sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o effaith ar swyddi a gwasanaethau rheng flaen.

Mark Isherwood: Mae'n rhyfedd na ddywedodd Jeff Cuthbert hynny pan dorrodd y Blaid Lafur gyllideb Cymru £400 miliwn yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol bob amser yn fy atgoffa o'r moto sydd ar un o grysau Ti fy merch:

Gallwch fynd â'r ferch allan o Gymru, ond ni allwch fynd â Chymru allan o'r ferch.

Gobeithiaf ei gweld yn y Senedd hon yn aml eto yn y dyfodol.

Mae rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth glymbleidiol y DU yn ymateb cadarnhaol a blaengar i etifeddiaeth ddinistriol sydd wedi'i gwenwyno. Mae'n anffodus i'r Blaid Lafur oedi tan ar ôl yr etholiad cyffredinol cyn penderfynu ar ddyddiad a chwestiwn ar gyfer y refferendwm ynghylch rhagor o bwerau. Fodd bynnag, mae'n newyddion da bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu cynnal y bleidlais cyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf yn unol â'r gyfraith. Cymeradwyaf yr Ysgrifennydd Gwladol am gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg—[*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae Mark Isherwood yn traddodi araith. Os yw Aelodau eraill am sgwrsio, dylent wneud hynny y tu allan.

Mark Isherwood: Cymeradwyaf yr Ysgrifennydd Gwladol am gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhan o'r tîm prosiect sy'n edrych ar gwestiwn y refferendwm.

Pe na bai'r Blaid Lafur wedi gorfodi'r broses wastraffus ar gyfer Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol arnom, gallem fod wedi symud ymlaen yn gynharach at bwerau deddfu sylfaenol mewn meysydd sydd wedi eu datganoli eisoes.

The freedom Bill is great news for all libertarians, reducing Government intrusion into our private lives. As John Major said:

‘If we are seen to defend our own values in a manner that does violence to them, then we run the risk of losing those values’.

Winston Churchill scrapped second world war identity cards in 1952, and it is encouraging that identity cards are to be scrapped now.

Joyce Watson: Thank you for giving way. I take it that you are speaking to amendment 7, and the commitment to cancel identity cards and ‘other unnecessary and intrusive laws’. Do you think that health and safety measures, which have saved people’s lives and have been effective at producing a much more healthy workforce, thereby saving £10 million since 2000, should also be scrapped, because the relevant laws are ‘intrusive’ and a burden? Are they not a price worth paying for the safety of the workforce in Wales?

Mark Isherwood: I was talking about ID cards.

Access to protection for winter fuel payments and television licences, added to the restoration next April of the link between earnings and state pensions, is fantastic news. The new independent Office for Budgetary Responsibility puts the UK at the forefront of international best practice. Britain’s budget deficit is still forecast to be the worst in the EU after Gordon Brown broke his own economic rules, and the truth is that, this week, the OBR revised downwards Labour’s growth forecasts, and revised upwards Labour’s claimed structural deficit. More robust and independent figures are needed so that no future Labour Government can fiddle the economic figures. As I warned for years, Gordon Brown was driving debt-driven growth in order to maintain the mirage of an end to boom and bust, and delay the inevitable day of reckoning, which is now causing so much pain. It was he who removed powers for the Bank of England to control the amount of debt in the economy, and he who scrapped the mortgage code

Mae’r Mesur rhyddid yn newyddion gwych i bob rhyddfrydolwr, ac yn lleihau ymyrraeth y Llywodraeth yn ein bywydau preifat. Fel y dywedodd John Major:

Os ymddengys ein bod yn amddiffyn ein gwerthoedd ein hunain mewn modd sy’n eu treisio, mae perygl inni golli’r gwerthoedd hynny.

Bu i Winston Churchill ddileu cardiau adnabod yr ail ryfel byd yn 1952, ac mae’n galonogol y bydd cardiau adnabod yn cael eu dileu’n awr.

Joyce Watson: Diolch am ildio. Tybiaf eich bod yn siarad am welliant 7, a’r ymrwymiad i ganslo cardiau adnabod a ‘cyfreithiau diangen ac ymwithiol eraill’. A gredwch y dylid dileu mesurau iechyd a diogelwch hefyd, sydd wedi achub bywydau pobl ac sydd wedi bod yn effeithiol o ran creu gweithlu llawer mwy iach gan arbed £10 miliwn er 2000, am fod y cyfreithiau perthnasol yn ‘ymwithiol’ ac yn feichus? Onid ydynt yn bris gwerth ei dalu am ddiogelwch y gweithlu yng Nghymru?

Mark Isherwood: Yr oeddwn yn siarad am gardiau adnabod.

Mae gallu amddiffyn taliadau tanwydd gaeaf a thrwyddedau teledu, yn ychwanegol at adfer y cysylltiad rhwng enillion a phensiynau’r wladwriaeth fis Ebrill nesaf, yn newyddion gwych. Mae’r Swyddfa annibynnol newydd dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn rhoi’r DU ar flaen y gad o ran arfer gorau rhyngwladol. Rhagwelir o hyd mai’r diffyg yng nghyllideb Prydain fydd y diffyg gwaethaf yn yr Undeb Ewropeaidd, ar ôl i Gordon Brown dorri ei reolau economaidd ei hun, a’r gwir amdani yw i’r Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, yr wythnos hon, adolygu rhagolygon y Blaid Lafur ar gyfer twf gan eu lleihau, ac adolygu diffyg strwythurol honedig y Blaid Lafur gan ei gynyddu. Mae angen ffigurau mwy cadarn ac annibynnol fel na all yr un Llywodraeth Lafur yn y dyfodol chwarae â’r ffigurau economaidd. Fel y rhybuddiais ers blynnyddoedd, yr oedd Gordon Brown yn hybu twf ar sail dyled er mwyn cynnal rhithlun o ddiwedd ar ffynnu a methu, a gohirio dydd y farn, sydd bellach yn achosi

compliance board. I therefore welcome the financial services Bill, giving the Bank of England control over financial sector regulation. I also welcome legislation that will require a referendum on any future treaties handing powers to the EU, giving the people more say.

We recognise the concern of the Holtham commission that devolution funding should be on a needs basis. However, that would require a needs assessment across the whole of the UK, and I note that the SNP and Scottish Labour oppose that, and describe it as an appalling idea.

Wales risks being the last outpost of free school breakfasts. The outgoing Labour Government at UK level planned to cut funding for them. A 2007 Welsh-Government-commissioned report found no educational benefits from them. Official figures this year reveal that fewer than a quarter of primary school pupils who receive free school breakfasts come from a poor background. Meanwhile, the gap in per-pupil funding and educational performance between England and Wales widens.

Labour rejected a Conservative offer to get the sustainable housing legislative competence Order through the last Parliament. I therefore welcome the commitment of the new UK Government to taking the Order forward now, and the positive dialogue that I have had with the UK Minister for Housing and Local Government on this. Given that one in three adults of working age in Wales are not in work, and the fact that this is a time of record youth unemployment, I welcome the welfare reform Bill to integrate Labour's numerous and piecemeal programmes into one single back-to-work programme. I welcome action to tackle alcohol-related violence and anti-social behaviour, and after Labour's shameful post office closure programme, I particularly welcome a postal services Bill in which post

cymaint o boen. Ef a gymerodd bwerau oddi wrth Fanc Lloegr i reoli'r ddyled yn yr economi, ac ef a ddiddymodd y bwrdd cydymffurfio â'r cod morgaeisi. Felly, croesawaf y Mesur gwasanaethau ariannol, sy'n rhoi rheolaeth i Fanc Lloegr dros reoleiddio'r sector ariannol. Croesawaf hefyd y ddeddfwriaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal refferendwm ynghylch unrhyw gytuniadau sy'n trosglwyddo pwerau i'r Undeb Ewropeaidd, gan roi mwy o lais i'r bobl.

Yr ydym yn cydnabod pryder comisiwn Holtham, sef y dylai arian datganoli gael ei seilio ar anghenion. Fodd bynnag, byddai hynny'n gofyn am asesiad anghenion ar draws y DU gyfan, a sylwaf fod Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Blaid Lafur yn yr Alban yn gwrthwynebu hynny, ac yn ei ddisgrifio fel syniad gwarthus.

Mae perygl mai Cymru fydd y lle olaf i gynnig brecwast am ddim mewn ysgolion. Yr oedd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf ar lefel y DU yn bwriadu torri'r cyllid ar gyfer y cynllun. Ni chanfu adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2007 ddim buddion addysgol yn sgil y cynllun. Mae ffigurau swyddogol eleni'n datgelu bod llai na chwarter y disgyblion cynradd sy'n cael brecwast am ddim mewn ysgolion yn dod o gefndir tlawd. Yn y cyfamser, mae'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr o ran arian fesul disgybl a pherfformiad addysgol yn ehangu.

Gwrthododd y Blaid Lafur gynnig y Ceidwadwyr i fynd â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch tai cynaliadwy drwy'r Senedd ddiwethaf. Felly, croesawaf ymrwymiad Llywodraeth newydd y DU i fynd â'r Gorchymyn rhagddo'n awr, a'r trafodaethau cadarnhaol yr wyf wedi'u cael gyda Gweinidog y DU dros Dai a Llywodraeth Leol ar hyn. O ystyried nad yw un oedolyn o bob tri sydd o oedran gweithio yng Nghymru yn gweithio, a'r ffaith ein bod mewn cyfnod lle mae diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ei lefel uchaf erioed, croesawaf y Mesur diwygio lles i integreiddio rhaglenni niferus a thameidiog y Blaid Lafur i greu un rhaglen ar gyfer dychwelyd i'r gwaith. Croesawaf y camau gweithredu i fynd i'r afael â thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ar ôl

offices will remain in public ownership and be allowed to offer a wide range of services to sustain the network.

Ann Jones: As I suspected, this year's Queen's Speech shows the risk that this coalition Government poses to our economy and society as a whole. Cameron has said time and again that the challenging decisions that his Government will take will not be based on ideology or theory. Yet, every announcement is filled with ideological language. The 'big society, small Government' slogan is nothing more than a return to a Victorian vision of Britain. That can be contrasted with Labour's priorities in 1997: devolution and the minimum wage have been delivered, and there were pledges for an independent Bank of England, cuts to NHS waiting times, more jobs for young people and the windfall tax on utility companies. Those bold policies were based on progress and fairness, and I am afraid to say that the Conservatives' public relations front is masking a political vision that turns Britain backwards. That has been proven straight away, with children becoming the first to take a hit from the Tories and their Lib Dem helpers, with the axing of the child trust fund, at a time when incentives to save for low-income families are needed more than ever.

This coalition Government is grossly irresponsible. It does not believe in its responsibility to create opportunities for children growing up in the UK, whatever their postcode, or in its responsibility to offer job guarantees to young unemployed people. That is why the Future Jobs fund has been scrapped, without anything appearing in its place. Within the first month of this Government, people in the most deprived areas of my constituency in the Vale of Clwyd have been hit twice and hit hard. Labour Ministers were often lectured by Liberal Democrat politicians about access to higher education—they were wrong then and they are disgraced now. Thanks to Labour, more people than ever before have gone to

rhaglen gywilyddus y Blaid Lafur i gau swyddfeydd post, croesawaf yn arbennig y Mesur gwasanaethau post, lle bydd swyddfeydd post yn parhau'n eiddo cyhoeddus ac yn cael cynnig ystod eang o wasanaethau i gynnal y rhwydwaith.

Ann Jones: Fel yr oeddwn yn amau, mae Araith y Frenhines eleni'n dangos perygl y Llywodraeth glymbleidiol hon i'n heconomi a'n cymdeithas yn gyffredinol. Dywedodd Cameron droeon na fydd y penderfyniadau anodd y bydd ei Lywodraeth yn eu gwneud yn seiliedig ar ideoleg na damcaniaeth. Eto, mae pob cyhoeddiad yn llawn iaith ideolegol. Nid yw'r slogan 'cymdeithas fawr, Llywodraeth fach' yn ddim byd mwy na cham yn ôl at weledigaeth Fictoriaidd o Brydain. Gellir cyferbynnu hynny â blaenoriaethau'r Blaid Lafur yn 1997: mae datganoli a'r isafswm cyflog wedi cael eu gwireddu, a chafwyd addewidion ynghylch Banc Lloegr annibynnol, toriadau i amseroedd aros y GIG, mwy o swyddi i bobl ifanc, a threth ar elw gormodol cwmnïau cyfleustodau. Yr oedd y polisiau beiddgar hynny'n seiliedig ar gynnydd a thegwch, ac mae arnaf ofn bod wyneb cysylltiadau cyhoeddus y Ceidwadwyr yn cuddio gweledigaeth wleidyddol sy'n troi Prydain tuag yn ôl. Profwyd hynny ar unwaith, gyda phlant yn dioddef yr ergyd gyntaf gan y Toriaid a'u cynorthwywyr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol, yn sgil dileu'r gronfa ymddiriedolaeth plant ar adeg pan fo angen cymhellion i gynilo ar deuluoedd sydd ar incwm isel, yn fwy nag erioed.

Mae'r Llywodraeth glymbleidiol hon yn eithriadol o anghyfrifol. Nid yw'n credu yn ei chyfrifoldeb i greu cyfleoedd i blant sy'n cael eu magu yn y DU, beth bynnag fo'u cod post, na'i chyfrifoldeb i gynnig sicrwydd swyddi i bobl ifanc ddi-waith. Dyna pam mae cronfa Swyddi'r Dyfodol wedi'i dileu, heb i ddim byd arall ymddangos yn ei lle. O fewn mis cyntaf y Llywodraeth hon, mae'r bobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig fy etholaeth yn Nyffryn Clwyd wedi dioddef dwy ergyd galed. Byddai gwleidyddion o blith y Democratiaid Rhyddfrydol yn aml yn pregethu wrth Weinidogion yn y Blaid Lafur am fynediad i addysg uwch—yr oeddent yn anghywir bryd hynny, ac maent yn cywilyddio'n awr. Diolch i'r Blaid Lafur,

university. We helped young people from poorer backgrounds reach their full potential, but the Lib Dems are now helping the Conservatives to close the doors to these young people once more.

Alun Cairns: Will you take an intervention?

Ann Jones: Yes, of course. I forgot that you were here.

Alun Cairns: I am grateful to Ann Jones for giving way. Will she reflect on Labour's performance in making Wales the poorest part of the United Kingdom? Will she comment on what Lord Myners said in the House of Lords about the economic policies that Labour pursued—that there is nothing progressive about racking up debt?

Ann Jones: It is all very well and good for you to come here from another place, and for you to have read all of those briefings. I am proud of what the Labour Government has done here, and no-one will tell me that what the Labour Government did for people in my constituency did not make a difference to their lives. That is what I came into politics to do—not to play games with people on your benches.

I am proud that this Labour-led Assembly Government believes in equality of opportunity and I join many in noting the absence of the word 'equality' in the coalition Government's statement. Freedom, fairness, responsibility; without equality, that means nothing. In place of equality sits this unwritten line that every Tory signs up to, which states, 'It's free for those who can afford it, but incredibly expensive for those who can't'. This Victorian legislative experiment will be incredibly expensive for the people of the Vale of Clwyd, and will represent a real risk for everyone in the UK.

I now turn to the proposed changes to crime and justice. The coalition Government plans to introduce elected police commissioners. I have represented for 10 years the

mae mwy o bobl nag erioed wedi mynd i brifysgol. Bu inni helpu pobl ifanc o gefndiroedd tlotach i wireddu eu potensial llawn, ond bellach mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn helpu'r Ceidwadwyr i gau'r drysau ar y bobl ifanc hynny unwaith eto.

Alun Cairns: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Ann Jones: Gwnaf, wrth gwrs. Anghofiais eich bod yma.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i Ann Jones am ildio. A wnaiff fyfyrion ynghylch perfformiad y Blaid Lafur wrth sicrhau mai Cymru yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig? A wnaiff sylwadau ar yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd Myners yn Nhŷ'r Arglwyddi am y polisiau economaidd a ddilynwyd gan y Blaid Lafur—sef nad oes dim byd blaengar ynghylch cronni dyled?

Ann Jones: Mae'n ddigon hawdd ichi ddod yma o fan arall, ac ichi fod wedi darllen yr holl bapurau briffio dan sylw. Yr wyf yn falch o'r hyn y mae'r Llywodraeth Lafur wedi ei gyflawni yma, ac ni chaiff neb ddweud wrthyf na wnaeth yr hyn a gyflawnodd y Llywodraeth Lafur dros bobl yn fy etholaeth i wahaniaeth i'w bywydau. Dyna'r rheswm pam y mentrais i fyd gwleidyddiaeth—nid i chwarae gemau gyda phobl ar eich meinciau chi.

Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth hon yn y Cynulliad, a arweinir gan y Blaid Lafur, yn credu mewn cyfle cyfartal, ac ymunaf â llawer wrth nodi absenoldeb y gair 'cydraddoldeb' yn natganiad y Llywodraeth glymbleidiol. Rhyddid, tegwch, cyfrifoldeb; heb gydraddoldeb, nid yw hynny'n golygu dim. Yn lle cydraddoldeb, ceir y llinell anysgrifenedig y mae pob Tori'n cytuno â hi, sy'n datgan, 'Mae am ddim i'r sawl a all ei fforddio, ond yn anhygoel o ddrud i'r sawl na allant'. Bydd yr arbrawf deddfwriaethol Fictoraidd hwn yn anhygoel o ddrud i bobl Dyffryn Clwyd, a bydd yn risg wirioneddol i bawb yn y DU.

Trof yn awr at y newidiadau arfaethedig ym maes trosedd a chyfiawnder. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol yn bwriadu cyflwyno comisiynwyr heddlu a gaiff eu

constituency in which I grew up, and have, during that time, worked closely with all emergency services. Their joint working has helped bring about real reductions in crime, making north Wales one of the safest places to live. Not once has anyone said to me that they wanted an elected police chief. The appetite for better protection is always there, but there is no demand for a proposal that could be exploited by fascists. What would you do if the British National Party won a police election on a very low turnout? The Conservatives and the Lib Dems will have to answer to those communities where black and gay people are victimised. It is a foolish experiment that has no place in our justice system.

hethol. Yr wyf wedi cynrychioli ers 10 mlynedd yr etholaeth y cefais fy magu ynddi, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, yr wyf wedi gweithio'n agos gyda'r holl wasanaethau brys. Mae eu cydweithio wedi helpu i sicrhau gostyngiadau gwirioneddol mewn lefelau troseddu, sy'n golygu mai'r gogledd yw un o'r mannau mwyaf diogel i fyw ynddo. Nid oes neb erioed wedi dweud wrthyf eu bod am gael prif swyddog heddlu a gaiff ei ethol. Ceir dyhead bob amser am well trefniadau amddiffyn, ond nid oes galw am gynnig a allai gael ei gamddefnyddio gan ffasgwyr. Beth y byddech yn ei wneud pe bai Plaid Genedlaethol Prydain yn ennill etholiad heddlu, pe bai canran isel iawn o bobl yn bwrw eu pleidlais? Bydd yn rhaid i'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol fod yn atebol i'r cymunedau hynny lle caiff pobl ddu a phobl hoyw eu herlid. Mae'n arbrawf gwirion nad oes lle iddo yn ein system gyfiawnder.

I asked Nick Bourne to come with me to a police station to give a DNA sample. I believe that that is a good and safe way to do things, keeping our streets safer and helping stop criminals of the worst kind.

Gofynnais i Nick Bourne ddod gyda mi i orsaf heddlu i roi sampl DNA. Credaf fod hynny'n ffordd dda a diogel o wneud pethau, ac mae'n cadw ein strydoedd yn fannau mwy diogel ac yn helpu i atal y troseddwyd gwaethaf.

Nick Bourne: I thought that I had made it clear that I will not do that, because I do not think that it is right that innocent people should participate in a DNA bank. You take a different view on that, but I have made my view absolutely clear.

Nick Bourne: Yr oeddwn yn credu imi ddatgan yn glir na fyddaf yn gwneud hynny, oherwydd ni chredaf ei bod yn iawn i bobl ddiueuog fod yn rhan o fanc DNA. Mae gennych farn wahanol am hynny, ond yr wyf wedi datgan fy marn i'n gwbl glir.

6.00 p.m.

Ann Jones: Okay, that is fine. I did not hear you say that you will not. However, thank you for answering me; now that I know that, that is good.

Ann Jones: Popeth yn iawn. Ni chlywais mohonoch yn dweud na fyddech yn fodlon gwneud hynny. Fodd bynnag, diolch am fy ateb; mae'n dda o beth fy mod yn gwybod hynny'n awr.

I believe that that will keep our streets safer and help stop criminals of the worst kind. It is not just me who says that. The Association of Chief Police Officers supports this. Its lead on forensic science, Chief Constable Chris Sims, has said that he is absolutely certain that further limiting the DNA database, as has been done in Scotland, would mean that quite serious crimes would not be solved by police and that the offenders could commit further

Credaf y bydd hynny'n cadw ein strydoedd yn fannau mwy diogel ac yn helpu i atal y troseddwyd gwaethaf. Nid fi'n unig sy'n dweud hynny. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn cefnogi hynny. Mae ei harweinydd ar wyddoniaeth ffforensig, y Prif Gwnstabl Chris Sims, wedi dweud ei fod yn gwbl sicr y byddai cyfyngu ymhellach ar y gronfa ddata DNA, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban, yn golygu na fyddai

serious offences. I refer you back to the fact that 23 murderers and rapists have been prevented from walking free in the last year alone.

The speed with which this Government has abandoned the fight for equality within the UK is breathtaking. From jobs to children's rights, and from welfare to fair pay, this coalition will let down Wales and the UK.

Darren Miller: I will keep my remarks brief. First, I want to thank the Secretary of State for the manner in which she delivered her statement this afternoon. It was excellent to see the Secretary of State starting her career in that office in such a positive way, and with clear respect for this institution. It is refreshing to see that positive attitude here in this Chamber.

I am disappointed that not everybody in this Chamber has contributed in like manner to this debate. We have had the usual bilge from Alun Davies, in particular, which I thought was below the belt, quite frankly, and stepped beyond the mark. Picking up on the point—*[Interruption.]* I will come back to you if I have time, Alun. I want to pick up on a point that was made by Ann Jones about elected police commissioners. I am astonished that she takes that view, coming from north Wales, where we had the most unpopular chief constable in the country—someone people would have been delighted to see the back of. This would give people the opportunity to sack such people and to ensure direct accountability to the public.

Ann Jones: Whatever your views on a chief constable, you are entitled to them. However, if you have elected chief police officers, you will allow someone from the British National Party to be elected on a low turnout. *[Interruption.]* If he cannot answer the question himself, Nick, he does not need you to prompt him. All I am saying to you is: if you are happy to have fascists involved in such things, then that is fine. That is what is

troseddau eithaf difrifol yn cael eu datrys gan yr heddlu, ac y gallai troseddwyd gyflawni rhagor o droseddau difrifol. Hoffwn eich cyfeirio'n ôl at y ffaith bod 23 o lofruddion a threiswyr wedi eu hatal rhag cael eu traed yn rhydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Mae'r ffaith bod y Llywodraeth hon wedi rhoi'r gorau mor gyflym i ymladd dros gydraddoldeb o fewn y DU yn syfrdanol. O swyddi i hawliau plant, o les i gyflog teg, bydd y glymblaid hon yn siomi Cymru a'r DU.

Darren Millar: Cadwaf fy sylwadau'n fyr. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Ysgrifennydd Gwladol am y modd y bu iddi gyflwyno ei datganiad y prynhawn yma. Yr oedd yn rhagorol gweld yr Ysgrifennydd Gwladol yn dechrau ei gyrfa yn y swydd mewn ffordd mor gadarnhaol, a chyda pharch amlwg at y sefydliad hwn. Mae'n chwa o awyr iach gweld agwedd gadarnhaol o'r fath yn y fan hon yn y Siambr.

Yr wyf yn siomedig nad yw pawb yn y Siambr wedi cyfrannu mewn ffordd debyg at y ddadl hon. Cawsom yr un hen sothach gan Alun Davies, yn benodol, a oedd yn amhriodol yn fy marn i, a dweud y gwir, ac a oedd yn mynd yn rhy bell. Gan gyfeirio at y pwynt—*[Torri ar draws.]* Dychwelaf atoch os bydd gennyf amser, Alun. Hoffwn gyfeirio at bwynt a wnaed gan Ann Jones ynghylch comisiynwyr heddlu a gaiff eu hethol. Yr wyf yn synnu ei bod o'r farn honno, a hithau'n dod o'r gogledd, lle'r oedd gennym y prif gwnstabl mwyaf amhoblogaidd yn y wlad—rhywun y byddai pobl wedi bod yn falch o'i weld yn mynd. Byddai'r datblygiad hwn yn rhoi cyfle i bobl ddiswyddo unigolion o'r fath a sicrhau atebolrwydd uniongyrchol i'r cyhoedd.

Ann Jones: Mae gennych hawl i farn am brif gwnstabl, beth bynnag y bo. Fodd bynnag, os bydd gennych brif swyddogion heddlu a gaiff eu hethol, byddwch yn caniatáu i rywun o Blaid Genedlaethol Prydain gael ei ethol, pe bai canran isel o bobl yn bwrw eu pleidlais. *[Torri ar draws.]* Os na all ateb y cwestiwn ei hun, Nick, nid oes angen eich help chi arno i'w ateb. Y cyfan a ddywedaf yw hyn: os ydych yn fodlon cael ffasgwyr yn ymwneud â

going to happen.

The Deputy Presiding Officer: Order. I think that you have made the point.

Darren Millar: I support the principle of policing by consent, and accountability to local people. Unfortunately, Ann, you clearly do not. Rather than talking about the whole Queen's Speech, I want to mention in particular the decentralisation and localism Bill, which is an extremely positive part of the Government's progressive programme over the next 12 months. Real devolution is a theme that we as a party in Wales have been championing a great deal in recent times. It is very encouraging to see a Bill come forward that seeks to achieve this. I am concerned, however, that many parts of that Bill will, unfortunately, not apply in Wales. I ask whether the Counsel General, in his response, could consider looking at which parts of the Bill's provisions could be applied here in Wales, and whether there is an opportunity for further devolution to this place to enable that to happen. When the people of Wales voted to establish this Assembly, they were not voting simply to replace centralised state control of their lives from London with centralised control from Cardiff. They voted for devolution—real devolution and a greater say in the decision-making that affects their everyday lives. Instead, we have seen centralisation, and we have seen powers stripped from local authorities through ministerial guidance, direction, interference and intervention.

Leanne Wood: In the last referendum in 1997, many of your colleagues were campaigning for a 'no' vote. You are pro-devolution now. Does that mean that you will all now be joining us in the campaign for a 'yes' vote in the next referendum?

Darren Millar: I have made my views on devolution abundantly clear to you, Leanne, in the Chamber and outside it. What you will find is that the Conservative Party reflects the

materion o'r fath, popeth yn iawn. Dyna a fydd yn digwydd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Credaf eich bod wedi gwneud eich pwynt.

Darren Millar: Yr wyf yn cefnogi'r egwyddor o blismona drwy gydsyniad, ac atebolrwydd i bobl leol. Yn anffodus, Ann, mae'n amlwg nad ydych chi. Yn hytrach na siarad am holl Araith y Frenhines, hoffwn sôn yn benodol am y Mesur datganoli a gweithredu'n lleol, sy'n rhan gadarnhaol tu hwnt o raglen flaengar y Llywodraeth yn ystod y 12 mis nesaf. Mae datganoli gwirioneddol yn thema yr ydym ni fel plaid yng Nghymru wedi bod yn ei hyrwyddo gryn dipyn yn ddiweddar. Mae'n galonogol iawn gweld Mesur yn cael ei gyflwyno sy'n ceisio cyflawni hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu na fydd sawl rhan o'r Mesur hwnnw'n berthnasol yng Nghymru, yn anffodus. Gofynnaf a allai'r Cwnsler Cyffredinol, yn ei ymateb, ystyried edrych ar ba rannau o ddarpariaethau'r Mesur y gellid eu cymhwysu yma yng Nghymru, a ph'un a oes cyfle i ddatganoli ymhellach i'r lle hwn er mwyn galluogi hynny i ddigwydd. Pan bleidleisiodd pobl Cymru dros sefydlu'r Cynulliad hwn, nid oeddent yn pleidleisio dros gael gwared ar reolaeth y wladwriaeth ar eu bywydau, wedi'i chanoli yn Llundain, er mwyn rhoi rheolaeth wedi'i chanoli yng Nghaerdydd yn ei lle. Yr oeddent yn pleidleisio o blaid datganoli—datganoli gwirioneddol a mwy o lais yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd. Yn hytrach, gwelsom broses ganoli, a gwelsom bwerau'n cael eu cymryd oddi wrth awdurdodau lleol drwy arweiniad, cyfarwyddyd, ymyrraeth ac ymyriadau gan Weinidogion.

Leanne Wood: Yn y refferendwm diwethaf yn 1997, yr oedd llawer o'ch cyd-Aelodau yn ymgyrchu dros bleidlais 'na'. Yr ydych chi o blaid datganoli'n awr. A yw hynny'n golygu y byddwch chi gyd yn awr yn ymuno â ni yn yr ymgyrch dros bleidlais 'ie' yn y refferendwm nesaf?

Darren Millar: Yr wyf wedi datgan fy marn am ddatganoli'n gwbl glir ichi, Leanne, yn y Siambr a'r tu allan iddi. Yr hyn a welwch chi bod y Blaid Geidwadol yn adlewyrchu barn

views of the people of Wales very closely. There will, of course, be some people who support further devolution to this place and there will be others who do not. Everybody knows that that is the case; we are not trying to hide anything. I will now get back to the subject of my speech, which is the decentralisation and localism Bill. We have seen more centralisation and power stripped away from people. That is wrong, and that is why I welcome the UK Government's proposals. Take planning for example: I have lost track, as must have other Members in this place, of the number of occasions on which locally elected community and town councils and local people have thrown their hands up in disbelief and despair at planning decisions made by the Planning Inspectorate that walk all over their local knowledge and opinions. That must change. Another aspect of what is proposed is the scrapping of the Infrastructure Planning Commission, a totally unelected, unaccountable quango. I hope that all sides of this Chamber will welcome that proposal.

I want to see a Wales in which people's lives are changed by them making decisions about their own futures as much as possible. The decentralisation and localism Bill will help to achieve that, and I hope very much that its provisions will extend to the people of Wales.

The Secretary of State for Wales (Cheryl Gillan): I said earlier that I was looking forward to hearing the contributions of Assembly Members this afternoon, and I have certainly not been disappointed. We have had some 18 contributions this afternoon and many interventions, and I have made an enormous list of things that I have picked up from what everyone has been saying. I welcome the frank, honest and wide-ranging debate that we have had this afternoon, which was mostly in the spirit of co-operation and respect. That was the way in which many Members made their contributions; I shall skirt over some of the contributions. This has been a first for me, as the first female Secretary of State for Wales, as so many Members have commented. Of course, this is also the first legislative programme of the new coalition Government.

pobl Cymru yn agos iawn. Wrth gwrs, bydd rhai pobl yn cefnogi datganoli pellach i'r lle hwn, a bydd eraill na fyddant yn cefnogi hynny. Gŵyr pawb fod hynny'n wir; nid ydym yn ceisio cuddio dim. Dychwelaf yn awr at destun fy araith, sef y Mesur datganoli a gweithredu'n lleol. Yr ydym wedi gweld mwy o ganoli ac wedi gweld grym yn cael ei gymryd oddi wrth bobl. Mae hynny'n anghywir, a dyna pam yr wyf yn croesawu cynigion Llywodraeth y DU. Ystyriwch gynllunio, er enghraifft: yr wyf fi, fel y mae Aelodau eraill yn y fan hon, mae'n siŵr, wedi colli cyfrif o nifer y troeon y mae pobl leol a chynghorwyr cymuned a thref, a etholwyd yn lleol, wedi methu â chredu penderfyniadau cynllunio ac wedi anobeithio ynghylch penderfyniadau cynllunio a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sy'n diystyru eu gwybodaeth leol a'u barn. Rhaid i hynny newid. Un agwedd arall ar yr hyn a gynigir yw dileu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, sy'n gwango nad yw'n atebol ac nad yw wedi'i ethol. Gobeithiaf y bydd pob ochr i'r Siambr yn croesawu'r cynnig hwnnw.

Hoffwn weld Cymru lle caiff bywydau pobl eu newid wrth iddynt hwy wneud cynifer o benderfyniadau ag sy'n bosibl am eu dyfodol eu hunain. Bydd y Mesur datganoli a gweithredu'n lleol yn helpu i gyflawni hynny, a gobeithiaf yn fawr y bydd ei ddarpariaethau'n ymestyn i bobl Cymru.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cheryl Gillan): Dywedais yn gynharach fy mod yn edrych ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau'r Cynulliad y prynhawn yma, ac yn bendant, ni chefais fy siomi. Cawsom oddeutu 18 o gyfraniadau y prynhawn yma a llawer o ymyriadau, ac yr wyf wedi llunio rhestr faith o'r pethau yr wyf wedi'u nodi o'r hyn a ddywedodd pawb. Croesawaf y ddadl agored, onest ac eang a gawsom y prynhawn yma, yr oedd y rhan fwyaf ohoni'n adlewyrchu parch ac awydd i gydweithredu. Dyna'r ffordd y gwnaeth llawer o'r Aelodau eu cyfraniadau; hoffwn gyfeirio'n fras at rai o'r cyfraniadau. Bu hwn yn brofiad newydd i mi, fel Ysgrifennydd Gwladol benywaidd cyntaf Cymru, fel y mae cynifer o'r Aelodau wedi dweud. Wrth gwrs, dyma raglen ddeddfwriaethol gyntaf y Llywodraeth glymbleidiol newydd hefyd.

To start with the First Minister's contribution, I agree with him entirely that there are many challenges. I am grateful for his words on the respect agenda. I think that we are making good progress. I have noted what he said about the draft LCO on housing, and many other Members have spoken about it with passion. I have certainly taken on board their remarks. However, this Assembly would not thank me for just rubber-stamping something straight away. I am going through the proper processes. Rubber-stamping is not good practice, and, as other Members in the Chamber have acknowledged, I repeat that the Labour Government could have put this draft LCO on the books. It failed to do so.

Alun Davies: Will you take an intervention?

Cheryl Gillan: I am sorry, but I have so much to get through.

The Deputy Presiding Officer: Order. The Secretary of State is not taking any interventions.

Cheryl Gillan: I hope that the meetings with the Chief Secretary to the Treasury went well and that future meetings will go even better, but I have noted again the concerns about Holtham and, of course, I have noted every single remark that was made about funding. The points that the First Minister made about MPs and the number of Members of the Assembly were well made. That is understood. There is no intention that any reduction to the numbers of MPs should do damage to the numbers of Members in the Assembly, and I hope that we will work closely together to ensure that we move forward in an agreed fashion. I am grateful to him for a constructive and meaningful contribution to the debate.

It was a great pleasure to hear the contribution of the former First Minister, and the announcement made by my colleague the Secretary of State for Business, Innovation and Skills that the loan guarantee scheme for £360 million pounds to Ford will go ahead has to be some sort of instant result, as

Gan ddechrau gyda chyfraniad y Prif Weinidog, cytunaf ag ef yn llwyr y ceir llawer o heriau. Yr wyf yn ddiolchgar am ei eiriau ynghylch yr agenda o ran parch. Credaf ein bod yn gwneud cynnydd da. Yr wyf wedi nodi'r hyn a ddywedodd am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai, ac mae llawer o Aelodau eraill wedi siarad yn angerddol amdano. Yn sicr, yr wyf wedi nodi eu sylwadau. Fodd bynnag, ni fyddai'r Cynulliad hwn yn diolch imi am gymeradwyo rhywbeth ar unwaith. Yr wyf am ddilyn y prosesau cywir. Nid yw cymeradwyo pethau ar unwaith yn arfer da ac, fel y mae Aelodau eraill yn y Siambr wedi cydnabod, ailadroddaf y gallai'r Llywodraeth Lafur fod wedi rhoi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn ar y llyfrau. Methodd â gwneud hynny.

Alun Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Cheryl Gillan: Mae'n flin gennyf, ond mae gennyf gymaint i'w ddweud.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol am dderbyn ymyriadau.

Cheryl Gillan: Gobeithiaf i'r cyfarfodydd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys fynd rhagdynt yn dda, ac y bydd cyfarfodydd yn y dyfodol hyd yn oed yn well, ond yr wyf wedi nodi unwaith eto'r pryderon am Holtham ac, wrth gwrs, yr wyf wedi nodi pob sylw a wnaed am ariannu. Cafodd pwyntiau'r Prif Weinidog am Aelodau Seneddol a nifer Aelodau'r Cynulliad eu gwneud yn dda iawn. Deallir hynny. Ni fwriedir i unrhyw gamau i leihau niferoedd Aelodau Seneddol effeithio'n andwyol ar niferoedd Aelodau yn y Cynulliad, a gobeithiaf y byddwn yn cydweithio'n agos i sicrhau ein bod yn symud ymlaen yn gytûn. Yr wyf yn ddiolchgar iddo am gyfraniad adeiladol ac ystyrlon i'r ddadl.

Yr oedd yn bleser mawr gwranddo ar gyfraniad y cyn-Brif Weinidog, a rhaid bod y cyhoeddiad a wnaed gan fy nghydweithiwr, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, sef y bydd y cynllun gwarantu benthyciadau ar gyfer £360 miliwn i Ford yn mynd rhagddo, yn rhyw fath o

alluded to by one of the speakers. I am delighted that that should be so.

Jenny Randerson made an excellent speech in moving the amendments, and I welcome those amendments—*[Interruption.]*

The Deputy Presiding Officer: Order.

Cheryl Gillan: I speak as I find, and I think that it was an excellent contribution. I believe that, as we negotiated the coalition, we got the best of both manifestos. There was give and take and, as you know in this Chamber and in this coalition, you have to give a little and take a little. We put the Government in the right place.

6.10 p.m.

Brian Gibbons tried to make the Office for Budget Responsibility's report good news; I am afraid that I do not think that it is good news. It revised down the growth figures for the economy, and it pointed out that the structural deficit is worse than we anticipated. I am afraid that, on that front, he gets no brownie points from me. However, I thought that it was a brave effort.

Alun Davies: In that case, you cannot blame me for trying.

Cheryl Gillan: Well, that is good.

In response to his serious speech and contribution, I will also say that if we do not get on top of our debt, every family in this country and throughout the UK will be poorer, and the dreams of millions of young people will be dashed. He should know that the Governor of the Bank of England has welcomed our plan for savings this year, and said that our approach will change dramatically the outlook for growth while reducing some of the downside risks. He should be aware of that.

On the Office for Budget Responsibility, the days of fixing the figures to fit the budget, which is what happened under the last Labour Government, are over. We must instead fix the budget to fit the figures. When we have our budget on 22 June, we will

ganlyniad sydyn, fel y soniodd un o'r siaradwyr. Yr wyf yn falch iawn o hynny.

Gwnaeth Jenny Randerson araith wych wrth gynnig y gwelliannau, a chroesawaf y gwelliannau hynny—*[Torri ar draws.]*

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Cheryl Gillan: Mae gennyf innau fy marn, a chredaf iddi wneud cyfraniad rhagorol. Wrth inni drafod y glymblaid, credaf inni gael y gorau o'r ddau fanifesto. Bu'n rhaid cyfaddawdu ac, fel y gwyddoch yn y Siambr hon a'r glymblaid hon, rhaid ichi roi ychydig a chymryd ychydig. Bu inni roi'r Llywodraeth yn y man iawn.

Ceisiodd Brian Gibbons ddweud bod adroddiad y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn newyddion da; mae arnaf ofn nad wyf o'r farn ei fod yn newyddion da. Adolygodd y ffigurau ar gyfer twf yr economi gan eu lleihau, a nododd fod y diffyg strwythurol yn waeth na'r disgwyl. Yn hynny o beth, mae arnaf ofn nad yw'n cael pwyntiau bonws gennyf. Fodd bynnag, yr oedd yn ymdrech ddewr yn fy marn i.

Alun Davies: Os felly, ni allwch fy meio i am roi cynnig arni.

Cheryl Gillan: Wel, mae hynny'n beth da.

Wrth ymateb i'w araith a'i gyfraniad difrifol, hoffwn ddweud hefyd y bydd pob teulu yn y wlad hon a ledled y DU yn dlotach ac y bydd breuddwydion miliynau o bobl ifanc yn cael eu chwalu, os na reolwn ein dyled. Dylai wybod bod Llywodraethwr Banc Lloegr wedi croesawu ein cynllun ar gyfer arbedion eleni, ac iddo ddweud y bydd ein dull gweithredu'n newid yn ddramatig y rhagolygon ar gyfer twf, gan leihau rhai o'r risgiau anfanteisiol. Dylai fod yn ymwybodol o hynny.

O ran y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, mae'r diwrnodau o newid y ffigurau i gyd-fynd â'r gyllideb, sef yr hyn a ddigwyddodd dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, wedi dod i ben. Yn awr, rhaid inni newid y gyllideb i gyd-fynd â'r ffigurau. Pan

announce the path that we intend to pursue for public finances and against which the new Office for Budget Responsibility will judge our fiscal policy, which I think is good.

In response to Lynne Neagle, most importantly, the OBR report revealed that a further £44 billion of spending cuts would have had to have been made to fund the last Government's spending plans. As the Chancellor said in the House of Commons on Monday, he had not found a single piece of evidence of how a single £1 of that £44 billion would ever have been achieved. What we did find was that note saying, 'We have run out of money. Good luck'.

I say to my friend Nick Bourne—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Well, actually, he is my honourable friend Nick Bourne. In his wide-ranging speech and his sound analysis he touched upon the OBR and the financial services regulation Bill and he agreed—as do so many Assembly Members—that our priority must be to deal with the debt. I thank him for his contribution. I am afraid that the system of regulation designed by the former Prime Minister, Gordon Brown, has significantly failed our financial services. We need to restructure, and that is what the financial services regulation Bill will do.

I will just look at other contributions briefly. Helen Mary, I listened very carefully to what you said in a very passionate speech. However, I remind you that I have only been in this job for four weeks. I have hardly got my feet under the table. I am doing my best to cover the full range of topics that we need to cover. I hear what you say. I liked your remark about 'bankers going bonkers'; I made a note of that, but I do not want people to be fearful. I want people to see that we are looking for a practical way to deliver fair funding and fairness. This is a Government that, as Kirsty Williams said, has based its coalition agreement on fairness, and we will

gawn ein cyllideb ar 22 Mehefin, byddwn yn cyhoeddi'r trywydd y bwriadwn ei ddilyn ar gyfer arian cyhoeddus, ac y bydd y Swyddfa newydd dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn barnu ein polisi ariannol yn ei erbyn, sy'n beth da yn fy marn i.

Wrth ymateb i Lynne Neagle, yn bwysicaf oll, datgelodd adroddiad y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb y byddem wedi gorfod gwneud gwerth £44 biliwn arall o doriadau ar wariant i ariannu cynlluniau gwario'r Llywodraeth ddiwethaf. Fel y dywedodd y Canghellor yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun, ni ddaeth ar draws yr un darn o dystiolaeth a ddangosai sut y bwriedid casglu'r un £1 o'r £44 biliwn hwnnw. Yr hyn a welsom oedd y nodyn a ddywedai, 'Yr ydym wedi gwario pob ceiniog. Pob lwc'.

Hoffwn ddweud wrth fy nghyfaill, Nick Bourne—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Wel, mewn gwirionedd, fy nghyfaill anrhydeddus, Nick Bourne, ydyw. Yn ei araith eang ei chwmpas, ac yn ei ddadansoddiad cadarn, soniodd am y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb a'r Mesur rheoleiddio gwasanaethau ariannol, a chytunodd—fel y mae cynifer o Aelodau'r Cynulliad yn cytuno—fod yn rhaid inni sicrhau mai ymdrin â'r ddyled yw ein blaenoriaeth. Diolchaf iddo am ei gyfraniad. Mae arnaf ofn bod y system reoleiddio a luniwyd gan y cyn-Brif Weinidog, Gordon Brown, wedi gwneud anghymwynas enfawr â'n gwasanaethau ariannol. Mae angen inni ailstrwythuro, a dyna y bydd y Mesur rheoleiddio gwasanaethau ariannol yn ei wneud.

Hoffwn ystyried rhai o'r cyfraniadau eraill yn fras. Helen Mary, gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedwyd gennych mewn araith angerddol iawn. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa mai ers pedair wythnos yn unig y bŵm yn y swydd hon. Prin yr wyf wedi cael fy nhraed dan y bwrdd. Yr wyf yn gwneud fy ngorau glas i ymdrin â'r ystod lawn o bynciau y mae angen inni ymdrin â hwy. Deallaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Yr oeddwn yn hoffi eich sylw am y bancwyr yn mynd yn benwan; gwneuthum nodyn o hynny, ond nid wyf am i bobl fod yn bryderus. Yr wyf am i bobl weld ein bod yn chwilio am ffordd ymarferol o sicrhau arian

do our best. We may not always be able to satisfy you—

Leanne Wood: Will you take an intervention?

Cheryl Gillan: Sorry, I have too much to cover, Leanne.

The Deputy Presiding Officer: Order. The Secretary of State is not taking any interventions. I have already said that.

Cheryl Gillan: On the incarceration of children, I want to make that clear and I would like to write back to Helen Mary on that. She also raised a very important point about reciprocal arrangements on immigration representations. That point has been raised with me before. I do not know the answer now, but it seems that there must be some commonsense way of sorting this out between Assembly Members and Members of Parliament—we have a very proud Member of Parliament and Assembly Member sitting over there. We also have a Presiding Officer that sits in the House of Lords. I am also glad to see Mike German in his place, because I can now congratulate him personally; he was not here earlier. Let me have a look at that, and let me see what I can do. I may not be able to find a solution. I certainly do not want to presume on my sphere of influence, but I think that we need to try, because it seems to me that it is the electorate that misses out otherwise.

I only have such a very short time left in which to speak, and I wanted to cover the welfare reform Bill and tax credits; but I will just make a brief point on employment. Some valuable points were made by Members on the Future Jobs fund. I assure Members that the existing placements on the Future Jobs fund and the grant letters in place will not be affected. We are, however, going to focus on getting people back into permanent employment rather than providing temporary publicly funded work placements. I think that

teg a thegwch. Fel y dywedodd Kirsty Williams, mae hon yn Llywodraeth sydd wedi seilio'i chytundeb clymbleidiol ar degwch, a byddwn yn gwneud ein gorau. Mae'n bosibl na fyddwn bob amser yn gallu eich bodloni—

Leanne Wood: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Cheryl Gillan: Mae'n flin gennyf, mae gennyf ormod i'w drafod, Leanne.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol am dderbyn ymyriadau. Yr wyf wedi dweud hynny eisoes.

Cheryl Gillan: O ran carcharu plant, hoffwn egluro hynny a hoffwn ysgrifennu'n ôl at Helen Mary ynghylch y mater. Cododd bwynt pwysig iawn hefyd am drefniadau cytbwys o'r ddwy ochr ynghylch sylwadau'n ymwneud â mewnfudo. Codwyd y pwynt hwnnw gyda mi o'r blaen. Ni wn yr ateb yn awr, ond rhaid bod rhyw ffordd synhwyrol o ddatrys y mater rhwng Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, yn ôl pob golwg—mae gennym Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad balch iawn yn eistedd yn y fan acw. Mae gennym hefyd Lywydd sy'n eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yr wyf hefyd yn falch o weld Mike German yn ei le, oherwydd gallaf ei longyfarch yn bersonol yn awr; nid oedd yma'n gynharach. Gadewch imi edrych ar y mater hwnnw, a gadewch imi weld beth y gallaf ei wneud. Efallai na fydd modd imi ddod o hyd i ateb. Yn sicr, nid wyf am ragdybio rhychwant fy nylanwad, ond credaf fod angen inni roi cynnig arni, oherwydd ymddengys i mi mai'r etholwyr sydd ar eu colled fel arall.

Amser byr iawn sydd gennyf ar ôl i siarad, ac yr oeddwn am drafod y Mesur diwygio lles a chredydau treth; ond hoffwn wneud pwynt cryno am gyflogaeth. Gwnaed rhai pwyntiau gwerthfawr gan yr Aelodau am gronfa Swyddi'r Dyfodol. Hoffwn sicrhau'r Aelodau nad effeithir ar y lleoliadau cyfredol sy'n perthyn i gronfa Swyddi'r Dyfodol, na'r llythyrau grant sydd mewn grym. Fodd bynnag, yr ydym yn bwriadu canolbwyntio ar gael pobl yn ôl i gyflogaeth barhaol yn hytrach na darparu lleoliadau gwaith dros dro

the single back-to-work programme will provide numerous new opportunities for national and local partners to contribute to the coalition Government's programme to tackle unemployment.

Ann Jones: You have not convinced me.

Cheryl Gillan: I may not have convinced the honourable lady, as she says from a sedentary position, but I am—

Ann Jones: I am not an honourable lady, I am an Assembly Member.

The Deputy Presiding Officer: Order. Excuse me—

Cheryl Gillan: The honourable Assembly Member, then.

Ann Jones: No, I am an Assembly Member.

Cheryl Gillan: I am not trying to convince the Assembly Member; I am trying to reassure the people that she might have frightened outside this Chamber.

Ann Jones: I am not the one who is frightening them.

The Deputy Presiding Officer: Order. Ann Jones, please do not interrupt.

Cheryl Gillan: We are looking at this area, and we will approach it with compassion. In closing, Deputy Presiding Officer, I reiterate how impressed I have been, in my first few weeks as Secretary of State, by the new relationship that we are trying to forge, and are forging, between Westminster and Cardiff. I say in all sincerity that I want this relationship to be based on mutual respect and cooperation, because I believe that Wales has a great future. However, this future relies on all of us—the coalition Government, the Assembly coalition Government, Parliament and the National Assembly—working together to benefit the Welsh people. I thank you for your welcome today; if there are any matters that I have omitted to mention as I have wound up I will try to write to Assembly Members where possible.

a ariennir gan arian cyhoeddus. Credaf y bydd cael un rhaglen dychwelyd i'r gwaith yn darparu cyfleoedd newydd niferus i bartneriaid cenedlaethol a lleol gyfrannu at raglen y Llywodraeth glymbleidiol i fynd i'r afael â diweithdra.

Ann Jones: Nid ydych wedi'm darbwyllo.

Cheryl Gillan: Efallai nad wyf wedi darbwyllo'r Aelod anrhydeddus, sy'n siarad ar ei heistedd, ond yr wyf—

Ann Jones: Nid Aelod anrhydeddus mohonof, ond Aelod Cynulliad.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Esgusodwch fi—

Cheryl Gillan: Aelod Cynulliad anrhydeddus, felly.

Ann Jones: Na, yr wyf yn Aelod Cynulliad.

Cheryl Gillan: Nid wyf yn ceisio darbwyllo'r Aelod Cynulliad; yr wyf yn ceisio rhoi sicrwydd i'r bobl y gallai fod wedi codi ofn arnynt y tu allan i'r Siambr hon.

Ann Jones: Nid fi sy'n codi ofn arnynt.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ann Jones, peidiwch â thorri ar draws, os gwelwch yn dda.

Cheryl Gillan: Yr ydym yn edrych ar y maes hwn, a byddwn yn ei ystyried yn garedig. Wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, dywedaf eto fod y berthynas newydd yr ydym yn ceisio'i ffurfio, ac yr ydym yn ei ffurfio, rhwng San Steffan a Chaerdydd wedi creu argraff fawr arnaf yn ystod fy wythnosau cyntaf fel Ysgrifennydd Gwladol. Dywedaf yn gwbl ddidwyll fy mod am i'r berthynas fod yn seiliedig ar gydweithrediad a pharch gan y naill ochr at y llall, oherwydd credaf fod gan Gymru ddyfodol disglair. Fodd bynnag, mae'r dyfodol yn dibynnu ar sicrhau bod pob un ohonom—y Llywodraeth glymbleidiol, Llywodraeth glymbleidiol y Cynulliad, Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol—yn cydweithio er lles pobl Cymru. Diolchaf ichi am eich croeso heddiw. Os oes unrhyw faterion yr wyf wedi'u hepgor wrth imi

dynnu at y terfyn, ceisiaf ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad os oes modd.

The Deputy Presiding Officer: I call on the Counsel General to reply to the debate.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar y Cwnsler Cyffredinol i ymateb i'r ddadl hon.

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): I begin by thanking everyone who has taken part in this important debate. The Queen's Speech remains a very important matter for Wales, not least as an important source of legislative opportunities for us. We will continue to seek to build a constructive relationship with the new UK Government. Some of the Bills in the Queen's Speech have particular relevance for Wales; for example, in education and training, health, energy and governance. In answer to the points on framework powers raised by Kirsty Williams, and on decentralisation and localism by Darren Millar, I will say that it is rather early to say what framework powers and particular provisions might be sought by Welsh Assembly Government Ministers, so we will have to wait and see on that front. However, they should rest assured that a great deal of work is going on at the moment by Ministers and their officials to consider the implications and opportunities for Wales as more detail emerges.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Dechreuaf drwy ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Mae Araith y Frenhines yn parhau'n fater pwysig iawn i Gymru, yn enwedig fel ffynhonnell bwysig o gyfleoedd deddfwriaethol inni. Byddwn yn parhau i geisio ffurfio perthynas adeiladol â Llywodraeth newydd y DU. Mae rhai o'r Mesurau yn Araith y Frenhines yn arbennig o berthnasol i Gymru; er enghraifft, ym maes addysg a hyfforddiant, iechyd, ynni a llywodraethu. Wrth ymateb i'r pwyntiau ynghylch pwerau fframwaith, a godwyd gan Kirsty Williams, a'r pwyntiau ynghylch datganoli a gweithredu'n lleol, a godwyd gan Darren Millar, dywedaf ei bod braidd yn gynnar i ddweud pa bwerau fframwaith a darpariaethau penodol y gallai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad eu ceisio, felly bydd yn rhaid aros i weld o ran hynny. Fodd bynnag, gallant fod yn dawel eu meddwl bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Weinidogion a'u swyddogion i ystyried y goblygiadau a'r cyfleoedd i Gymru wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg.

A number of varied points were raised in the debate, and I will have to deal with most of them in general terms, rather than singularly. However, I will respond to some of the specific questions that were raised with me. With regard to Nick Bourne's question on ID cards and DNA, the Welsh Assembly Government does not take a policy position on matters that are not devolved, but I can say on ID cards that the Welsh Assembly Government made it clear some time ago that it would not require the production of ID cards to access public services in Wales.

Codwyd nifer o bwyntiau amrywiol yn y ddadl, a bydd yn rhaid imi ymdrin â'r rhan fwyaf ohonynt yn gyffredinol, yn hytrach nag yn unigol. Fodd bynnag, hoffwn ymateb i rai o'r cwestiynau penodol a godwyd gyda mi. O ran cwestiwn Nick Bourne ynghylch cardiau adnabod a DNA, nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad safbwynt polisi ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli, ond o ran cardiau adnabod gallaf ddweud i Lywodraeth y Cynulliad egluro ychydig amser yn ôl na fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bobl ddangos cardiau adnabod i gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Andrew R.T. Davies raised issues with the proposals for education in England, stating that people in Wales will, very soon, be looking at what is happening in England with considerable envy. We see the situation differently; Leighton Andrews has made it clear that academies will have no place in

Cododd Andrew R.T. Davies faterion ynghylch y cynigion ar gyfer addysg yn Lloegr, gan nodi y bydd pobl yng Nghymru, cyn bo hir, yn edrych yn llawn eiddgedd ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Yr ydym ni'n gweld y sefyllfa'n wahanol; mae Leighton Andrews wedi nodi'n glir na fydd

Wales. What we are seeing at the moment are proposals for academies and free schools that would create a two-tier system, with resources pulled away from state schools to benefit those who are already advantaged. We do not, therefore, expect to see any envious glances being cast towards education in England as it is set to develop.

Dirprwy Lywydd, as Members have rightly stated, we face major challenges in working to protect the interests of Wales through the turbulent waters ahead.

6.20 p.m.

We know that there will be swingeing cuts to public spending, which will endanger economic recovery. Two of the parties here—Labour and Plaid Cymru—believe that these cuts should not happen this year because of that real risk of plunging us back into recession. The Liberal Democrats also believed that, before undergoing a rapid conversion to the Tory position of imposing cuts this year when they agreed to enter the UK coalition Government.

As many people pointed out, Wales is particularly vulnerable to these cuts and to the UK coalition proposals. We are particularly reliant on the public sector for jobs, for our economy and for the vital services provided. The public sector, of course, buys goods and services from the private sector, as do its employees. It seems, and Members on the Government side made this point on a few occasions, that the price of the world recession and the bankers' folly will be paid by the poorest and most vulnerable in the form of job losses and loss of relied-upon services. This is not a picture that we can accept as a Welsh Assembly Government here in Wales. We all know that the deficit has to be tackled, but the question is: how and when? Those most able to bear the cost and impact should do so; it must not be done with anything but fairness and it must not be done too early.

lle i academiâu yng Nghymru. Yr hyn yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd yw cynigion ar gyfer academiâu ac ysgolion rhydd a fyddai'n creu system ac iddi ddwy haen, gydag adnoddau'n cael eu cymryd oddi wrth ysgolion gwladol er mwyn rhoi budd i'r sawl sydd eisoes yn freintiedig. Felly, nid ydym yn disgwyl gweld neb yn edrych draw'n eiddigeddus ar addysg yn Lloegr wrth iddi ddatblygu.

Ddirprwy Lywydd, fel y nododd yr Aelodau yn gywir ddigon, yr ydym yn wynebu heriau sylweddol wrth weithio i amddiffyn buddiannau Cymru drwy'r dyfroedd tymhestlog sydd o'n blaen.

Gwyddom y bydd toriadau llym ar wariant cyhoeddus, a fydd yn peryglu'r adferiad economaidd. Mae dwy o'r pleidiau sydd yn y fan hon—y Blaid Lafur a Phlaid Cymru—o'r farn na ddylai'r toriadau hyn ddigwydd eleni, oherwydd y perygl gwirioneddol y gallent beri inni lithro'n ôl i ddirwasgiad. Dyna oedd barn y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd, cyn iddynt gael trôedigaeth sydyn i safbwynt y Toriaid, sef gweithredu'r toriadau eleni, wedi iddynt gytuno i fod yn rhan o Lywodraeth glymbleidiol y DU.

Fel y nododd llawer o bobl, mae Cymru yn arbennig o agored i'r niwed a achosir gan y toriadau hyn a chynigion clymblaid y DU. Yr ydym yn dibynnu'n helaeth ar y sector cyhoeddus o ran swyddi, ein heconomi a'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir. Wrth gwrs, mae'r sector cyhoeddus yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan y sector preifat, fel y mae ei weithwyr. Ymddengys, a gwnaeth Aelodau o ochr y Llywodraeth y pwynt hwn droeon, mai'r sawl a fydd yn talu am ddirwasgiad y byd a ffolineb y bancwyr fydd y bobl dlotaf a'r bobl fwyaf agored i niwed, wrth iddynt golli swyddi a cholli gwasanaethau y dibynnir arnynt. Nid yw'n ddarlun y gallwn ei dderbyn fel Llywodraeth y Cynulliad yma yng Nghymru. Gwyddom i gyd fod yn rhaid mynd i'r afael â'r diffyg, ond y cwestiwn yw: sut a phryd? Dylai'r sawl sy'n gallu ysgwyddo'r gost a'r effaith wneud hynny; ni ddylid gweithredu'n annheg o gwbl, ac ni ddylid gweithredu'n rhy gynnar.

Wales's position is not helped by the underfunding identified by the Holtham commission, which amounts to around £300 million per year and which is worsening. We now see progress in the Queen's Speech for Scottish funding, taking forward the Calman commission's proposals in the Scotland Bill, but there is a lack of recognition of the situation in Wales, with nothing in the Queen's Speech on that front as far as Wales is concerned. So, we look to this being addressed and remedied as a matter of urgency.

I am not someone who regularly looks at blogs, but Peter Black's blog is particularly interesting and of quality. So, I sometimes look at his and I did so recently. It was interesting to find a reinforcement of that view, namely that Wales is not clearly visible on the new UK coalition Government's radar screen. Peter pointed out that Nick Clegg seems to have a blind spot as far as Wales is concerned, particularly with regard to crucial issues like Holtham's recommendations, Wales's underfunding and the Assembly's referendum.

Peter Black: Thank you for giving way, John. You are obviously not used to reading blogs. If you had read what I had written, you would know that I had said that Nick Clegg has a blind spot because he was not promoting the benefits of the coalition enough.

John Griffiths: I can assure you, Peter, that I read your blog carefully just before coming to the Chamber for this debate and that description of Nick Clegg having a blind spot about Wales is very telling indeed.

The Queen's Speech proposes considerable constitutional change. In Wales, we have made good use of our powers under the Government of Wales Act 2006. Around 14 LCOs and eight Measures have been passed, with several further proposed Measures proceeding at the current time. However, of course, there are difficulties involved in that process and they should be recognised, not least in the run up to the referendum campaign and vote.

Nid yw'r diffyg cyllid digonol, a nodwyd gan gomisiwn Holtham ac sy'n cyfateb i oddeutu £300 miliwn y flwyddyn ac sy'n gwaethygu, yn helpu sefyllfa Cymru. Gwelwn gynnydd yn Araith y Frenhines yng nghyswllt arian i'r Alban yn awr, wrth i gynigion comisiwn Calman gael eu symud ymlaen yn y Mesur ar gyfer yr Alban, ond ceir diffyg cydnabyddiaeth o'r sefyllfa yng Nghymru, ac nid oes dim yn Araith y Frenhines o ran hynny yng nghyswllt Cymru. Felly, yr ydym yn disgwyl i'r cam hwnnw gael sylw a chael ei unioni ar frys.

Nid wyf yn un sy'n edrych yn rheolaidd ar flogiau, ond mae blog Peter Black yn arbennig o ddiddorol a safonol. Byddaf yn ei ddarllen weithiau, felly, a gwneuthum hynny'n ddiweddar. Yr oedd yn ddiddorol gweld un farn yn cael ei chadarnhau, sef nad yw Cymru yn gwbl amlwg ar sgrîn radar Llywodraeth glymbleidiol newydd y DU. Nododd Peter ryw ddiffyg gweld ar ran Nick Clegg yng nghyswllt Cymru, yn enwedig o ran materion allweddol megis argymhellion Holtham, tanariannu Cymru a refferendwm y Cynulliad.

Peter Black: Diolch am ildio, John. Mae'n amlwg nad ydych wedi arfer darllen blogiau. Pe baech wedi darllen yr hyn a ysgrifennais, byddech yn gwybod imi ddweud bod diffyg gweld yn perthyn i Nick Clegg am nad oedd yn hyrwyddo manteision y glymblaid yn ddigonol.

John Griffiths: Gallaf eich sicrhau, Peter, imi ddarllen eich blog yn ofalus ychydig cyn imi ddod i'r Siambr ar gyfer y ddadl hon, ac mae'r disgrifiad hwnnw o ddiffyg gweld ar ran Nick Clegg yng nghyswllt Cymru yn ddadlennol iawn yn wir.

Mae Araith y Frenhines yn cynnig newid cyfansoddiadol sylweddol. Yng Nghymru, yr ydym wedi defnyddio ein pwerau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dda. Pasiwyd oddeutu 14 Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ac wyth Mesur, ac mae sawl Mesur arfaethedig arall yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ceir anawsterau yng nghyswllt y broses honno, wrth gwrs, a dylid eu cydnabod, yn enwedig yn ystod y cyfnod sy'n arwain at ymgyrch y refferendwm a'r bleidlais.

The National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010 is something about which Members feel strongly. In responding to this debate, I feel that I should set the record straight: that draft LCO was obstructed by the Conservatives at Westminster, who would not allow the necessary consensus to be in place to enable it to proceed through the wash-up at the end of the last UK Parliament. That is clearly the case and is something that we regret. We now look to the UK coalition Government to make good its commitment to take it forward as it stands, recognising the strong consensus in Wales for the LCO and the positive scrutiny that it received here and by the Welsh Affairs Committee.

We need to move to having primary law-making powers via a successful referendum. It is regrettable that this autumn has been ruled out as a date for the referendum, but we look forward to a date before the Assembly elections next year and to a strong 'yes' vote. We know that we all face very big challenges, and there is a big job to be done by the Welsh Assembly Government, Assembly Members, Welsh MPs, the Secretary of State for Wales and the UK Government. In this arena, the Welsh Assembly Government will make it absolutely clear that we are determined to protect the most vulnerable in these very difficult times. We and the people of Wales expect the UK Tory and Liberal Democrat coalition and the Secretary of State for Wales to recognise the particular difficulties in Wales and to implement policy accordingly. The Welsh Assembly Government, the UK Government and the Secretary of State will all, rightly, be judged on how well we are able to protect the people of Wales in these difficult years ahead.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 yn rhywbeth y mae'r Aelodau yn teimlo'n gryf yn ei gylch. Wrth ymateb i'r ddadl hon, teimlaf y dylwn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r ffeithiau: rhwystrwyd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwnnw gan y Ceidwadwyr yn San Steffan, nad oeddent yn fodlon i'r consensws angenrheidiol fodoli i'w alluogi i fynd drwy'r sesiwn ar gyfer cau pen y mwddwl ddiwedd Senedd ddiwethaf y DU. Dyna'r sefyllfa yn amlwg, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn gresynu ato. Yr ydym yn awr yn disgwyl i Lywodraeth glymbleidiol y DU gyflawni ei hymrwymiad i'w symud yn ei flaen fel y mae, gan gydnabod y consensws cryf sydd yng Nghymru o blaid y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, a'r gwaith craffu cadarnhaol a gafodd yma a chan y Pwyllgor Materion Cymreig.

Mae angen inni symud ymlaen i gael pwerau deddfu sylfaenol drwy refferendwm llwyddiannus. Mae'n drueni bod yr hydref wedi cael ei ddiystyru fel dyddiad ar gyfer y refferendwm, ond edrychwn ymlaen at ddyddiad cyn etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf ac at bleidlais 'ie' gref. Gwyddom ein bod i gyd yn wynebu heriau sylweddol iawn, a bod llawer iawn o waith i'w wneud gan Lywodraeth y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU. Yn y maes hwn, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'n gwbl glir ein bod yn benderfynol o amddiffyn y sawl sydd fwyaf agored i niwed yn ystod yr amseroedd anodd iawn hyn. Yr ydym ni a phobl Cymru yn disgwyl i'r glymblaid yn y DU, rhwng y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru gydnabod yr anawsterau penodol sydd yng Nghymru, a gweithredu polisi'n unol â hynny. Yn gywir ddigon, caiff perfformiad Llywodraeth y Cynulliad, Llywodraeth y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyd ei farnu ar sail pa mor dda y gallwn amddiffyn pobl Cymru yn ystod y blynyddoedd anodd hyn sydd o'n blaen.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad.

objections. Therefore, I will defer all the votes until voting time.

Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

It is past 5 p.m., so I intend to move straight to voting time. Does any Member wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

Mae hi bellach wedi 5 p.m., felly cynigiau ein bod yn mynd yn syth at y cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
Amendment 1 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 32.
Amendment 2 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 3 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn

Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 4 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 5 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine

Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM4495: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 6 to NDM4495: For 18, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David

Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 7 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 8 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 8 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane

Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 9 i NDM4495: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
 Amendment 9 to NDM4495: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Cairns, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy

Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.

Cynnig NDM4495: O blaid 19, Ymatal 1, Yn erbyn 30.
Motion NDM4495: For 19, Abstain 1, Against 30.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Hart, Edwina

Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.

Daeth William Graham i'r Gadair am 6.29 p.m.
William Graham took the Chair at 6.29 p.m.

Dadl Fer Short Debate

Yr Hawl i Anadlu The Right to Breathe

Peter Black: As the summer approaches and we all begin to think about taking a holiday, many of us will no doubt be trawling the internet to find destinations, book accommodation and make travel arrangements. The internet makes things so much easier, and within an hour you can have everything booked and paid for. All that is needed is to shop for clothes, pack and get to the airport on time. However, it is not such a simple process if you suffer from a disability, especially if that disability is a lung disease, which means that you need to have supplementary oxygen with you at all times.

Peter Black: Wrth i'r haf agosáu ac wrth inni i gyd ddechrau meddwl am fynd ar wyliau, mae'n siŵr y bydd llawer ohonom yn troi at y rhyngwrwyd i chwilio am gyrchfannau, trefnu llety a gwneud trefniadau teithio. Mae'r rhyngwrwyd yn gwneud pethau gymaint yn haws, ac mae'n bosibl ichi drefnu a thalu am bopeth cyn pen awr. Y cyfan y mae angen ei wneud yw siopa am ddillad, pacio a chyrraedd y maes awyr yn brydlon. Fodd bynnag, nid yw'n broses mor syml os oes gennych anabledd, yn enwedig os yw'r anabledd hwnnw'n glefyd yr ysgyfaint, sy'n golygu bod angen ichi gael cyflenwad o ocsigen ychwanegol gyda chi bob amser.

6.30 p.m.

One in five people in Wales is affected by a lung disease. This could be chronic obstructive pulmonary disease, pulmonary hypertension, pulmonary fibrosis, cystic fibrosis and bronchiectasis. People who suffer from these diseases have low levels of oxygen in their blood. Some of them need supplementary oxygen for as much as 15 hours a day, which allows them to breathe in air with a higher concentration of oxygen to correct their low oxygen levels. Without a portable cylinder or concentrator, many of the people who are dependent on oxygen would have severely limited mobility. When travelling by air, this supply needs to be in addition to the emergency oxygen supply, which has to be left untouched, as it is for use only in an emergency.

Mae clefyd yr ysgyfaint yn effeithio ar un o bob pump o bobl yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, pwysedd gwaed uchel ysgyfeiniol, ffibrosis ysgyfeiniol, ffibrosis systig a bronchiectasis. Mae gan bobl sy'n dioddef o'r clefydau hyn lefelau isel o ocsigen yn eu gwaed. Mae angen ocsigen ychwanegol ar rai ohonynt am gymaint â 15 awr y dydd, sy'n eu galluogi i anadlu aer sydd â chrynhoad uwch o ocsigen er mwyn unioni eu lefelau ocsigen isel hwy. Heb silindr neu grynhöwr cludadwy, cyfyngedig iawn fyddai gallu llawer o'r bobl sy'n dibynnu ar ocsigen i fynd o le i le. Wrth deithio mewn awyren, mae angen i'r cyflenwad hwn fod yn ychwanegol i'r cyflenwad ocsigen brys, ac mae'n rhaid gadael y cyflenwad hwnnw heb ei gyffwrdd, gan mai dim ond mewn argyfwng y gellir ei ddefnyddio.

In short, oxygen for people with breathing difficulties is as important as wheelchairs are to people with walking difficulties, yet oxygen users often face a lottery of charges and poor service when they wish to fly. This is evidenced by a survey of 71 major airlines, conducted earlier this year by the Pulmonary Hypertension Association UK. It found that less than a quarter of airlines surveyed supply free supplementary oxygen, and that a quarter

Yn gryno, mae ocsigen yr un mor bwysig i bobl ag anawsterau anadlu ag y mae cadair olwyn i bobl ag anawsterau cerdded, ond yn aml mae pobl sy'n defnyddio ocsigen yn wynebu loteri o daliadau a gwasanaethau gwael pan fyddant yn dymuno hedfan. Ceir tystiolaeth o hyn mewn arolwg o 71 o'r prif gwmnïau awyrennau, a gynhaliwyd yn gynharach eleni gan Gymdeithas Pwysedd Gwaed Uchel Ysgyfeiniol y DU. Canfu

of the airlines approached do not supply supplementary oxygen at all. Two thirds of airlines in the study would not allow disabled air travellers with lung conditions to bring their own oxygen for use in flight. Of the airlines that provide supplemental oxygen but charge for it, each levies a different fee, ranging from £50 to £500 per trip. In too many instances, airlines were only prepared to share information about their supplemental oxygen policy if the secret shopper used had first bought a ticket to fly first.

The survey was supported by one conducted by British Lung Foundation Wales of airlines operating from Cardiff Airport. It found that some airlines are imposing charges for providing oxygen, amounting to up to £200 for a return flight, and that the three airlines at Cardiff that charge for oxygen also ban people from using their own. It also found that some airlines do provide oxygen for free and/or allow passengers to bring their own, but the inconsistency of approach makes booking flights stressful and uncertain, and it can often leave people out of pocket. At the British Lung Foundation event held earlier today at the Assembly, I was talking to a member of the foundation who had come to lobby Assembly Members. She had with her a portable oxygen generator, which had cost her thousands of pounds. It was the size of a small laptop, if that. She told me that airlines often refuse to allow her to use it on their planes because it has a battery in it, even though people sitting next to her can use a laptop. Instead, they charge her hundreds of pounds for a supply of oxygen. That is a disgrace.

The inconsistency of approach is exacerbated by the fact that it is often difficult to find out

arolwg y Gymdeithas fod llai na chwarter y cwmnïau awyrennau a gymerodd ran yn yr arolwg yn darparu ocsigen ychwanegol am ddim, ac nad yw chwarter y cwmnïau awyrennau y cysylltwyd â hwy yn darparu dim ocsigen ychwanegol o gwbl. Ni fyddai dwy ran o dair o'r cwmnïau awyrennau yn yr astudiaeth yn caniatáu i deithwyr anabl â chlefyd yr ysgyfaint ddod â'u hocsigen eu hunain gyda hwy i'w ddefnyddio ar yr awyren. O'r cwmnïau awyrennau sy'n darparu ocsigen ychwanegol ond sy'n codi tâl amdano, mae pob un yn codi ffi wahanol, gan amrywio o £50 i £500 am bob taith. Mewn gormod o achosion, nid oedd cwmnïau awyrennau'n barod i rannu gwybodaeth am eu polisi o ran ocsigen ychwanegol oni bai fod y siopwr cudd a ddefnyddiwyd yn prynu tocyn i hedfan yn gyntaf.

Ategwyd yr arolwg gan arolwg arall a gynhaliwyd gan Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru o'r cwmnïau awyrennau sy'n gweithredu o Faes Awyr Caerdydd. Canfu'r arolwg fod rhai cwmnïau awyrennau yn codi tâl am ddarparu ocsigen, sydd gymaint â £200 am hedfan yn ôl ac ymlaen, a bod y tri chwmni awyrennau yng Nghaerdydd sy'n codi tâl am ocsigen hefyd yn gwahardd pobl rhag defnyddio eu hocsigen eu hunain. Canfu hefyd fod rhai cwmnïau awyrennau yn darparu ocsigen am ddim a/neu'n caniatáu i deithwyr ddod â'u hocsigen eu hunain gyda hwy, ond mae'r anghysondeb yn gwneud y broses o brynu tocyn yn brofiad llawn straen ac ansicrwydd, ac yn aml gall pobl fod ar eu colled. Yn y digwyddiad a drefnwyd gan Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint a gynhaliwyd yn y Cynulliad yn gynharach heddiw, bûm yn siarad ag aelod o'r sefydliad a oedd wedi dod i lobio Aelodau'r Cynulliad. Yr oedd ganddi gynhyrchydd ocsigen cludadwy gyda hi, a oedd wedi costio miloedd o bunnoedd iddi. Yr oedd o'r un maint â gliniadur bach, os hynny. Dywedodd wrthyf fod cwmnïau awyrennau yn aml yn gwrthod gadael iddi ei ddefnyddio ar eu hawyrennau oherwydd bod batri ynddo, er y gall pobl sy'n eistedd nesaf ati ddefnyddio gliniadur. Yn hytrach, maent yn codi cannoedd o bunnoedd arni am gyflenwad ocsigen. Mae hynny'n warthus.

Mae'r anghysondeb yn y polisiâu'n cael ei waethygu gan y ffaith ei bod yn aml yn

what airlines' rules are for oxygen. Some do not have information on their website, and staff are often unsure and long telephone calls are often required, at rates of 65p a minute. Supplemental oxygen is as important to people with breathing problems as a wheelchair is to people who have difficulty walking, as I have already stated. However, I have seen airlines make arrangements to assist people with physical disabilities without any extra charge. It is part of the service. Why, then, should those in need of oxygen be any different? All airlines should allow people who are dependent on supplemental oxygen to travel with it free of charge, if they have medical clearance to do so. Disability rights are not about having different rights, but equal rights.

I believe that the case is clear: this is a matter of fairness. That people who have a debilitating illness should be charged extra for trying to have a holiday in the same way as anybody else is unfair. That there should be no requirement on airlines to clearly state their policies on supplemental oxygen and their approach to other disabilities upfront on their website and other promotional literature is wrong. Many of those who suffer pulmonary problems may be unable to work because of their disability; they may be on benefits or a small pension and so cannot afford to pay over the odds for holidays. There needs to be consistent guidance for airlines as to how they approach these issues so that travellers are not unfairly penalised because of their illness or disability. That must apply to charter flights as it does to scheduled services.

It is unlikely that the Welsh Government has the authority or legislative competence to put this right, but I would hope that, in responding to this debate, the Deputy First Minister will accept that there is a case to be answered, and undertake to raise it with the appropriate authority—the Civil Aviation Authority, the UK Government, and possibly at a European level. This is a very serious issue, and goes to the heart of the Assembly's

anodd cael gwybod beth yw rheolau cwmnïau awyrennau ar gyfer ocsigen. Nid oes gan rai ohonynt wybodaeth ar eu gwefan, ac mae staff yn aml yn ansicr ac mae angen gwneud galwadau ffôn hir yn aml, ar gyfradd o 65c y funud. Fel y dywedais yn gynharach, mae ocsigen ychwanegol yr un mor bwysig i bobl â phroblemau anadlu ag y mae cadair olwyn i bobl sy'n cael anhawster cerdded. Fodd bynnag, yr wyf wedi gweld cwmnïau awyrennau yn gwneud trefniadau i gynorthwyo pobl ag anableddau corfforol a hynny heb godi tâl ychwanegol arnynt. Mae'n rhan o'r gwasanaeth. Pam, felly, y dylai'r sawl y mae arnynt angen ocsigen fod yn wahanol? Dylai pob cwmni awyrennau ganiatáu i bobl sy'n ddibynnol ar ocsigen ychwanegol ei gario yn rhad ac am ddim, os ydynt wedi cael caniatâd meddygol i deithio. Nid yw hawliau anabledd yn golygu cael hawliau gwahanol, ond hawliau cyfartal.

Credaf fod yr achos yn glir: mater o degwch yw hyn. Nid yw'n deg bod yn rhaid i bobl sydd â salwch gwanychol dalu tâl ychwanegol am geisio cael gwyliau yn yr un ffordd ag unrhyw un arall. Mae'r ffaith nad oes yn rhaid i gwmnïau awyrennau nodi'n glir eu polisiau ar ocsigen ychwanegol a'u dull gweithredu mewn cysylltiad ag anableddau eraill ar eu gwefan ac yn eu deunydd hyrwyddo arall, yn anghywir. Hwyrach bod eu hanabledd yn golygu na all llawer o'r bobl sy'n dioddef problemau â'r ysgyfaint weithio; efallai eu bod ar fudd-daliadau neu ar bensiwn bach ac felly'n methu â fforddio talu mwy na'r pris arferol am wyliau. Mae angen canllawiau cyson ar gyfer cwmnïau awyrennau ar sut i ymdrin â'r materion hyn fel na fydd teithwyr yn cael eu cosbi'n annheg oherwydd eu salwch neu'u hanabledd. Mae'n rhaid i hyn fod yn berthnasol i deithiau siartredig yn ogystal â gwasanaethau rhestredig.

Mae'n annhebygol bod gan Lywodraeth Cymru'r awdurdod na'r cymhwysedd deddfwriaethol i unioni'r sefyllfa hon, ond byddwn yn gobeithio, wrth ymateb i'r ddadl hon, y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn derbyn bod achos i'w ateb, ac y bydd yn addo codi'r mater gyda'r awdurdod priodol—yr Awdurdod Hedfan Sifil, Llywodraeth y DU ac ar lefel Ewropeidd o bosibl. Mae'r mater hwn yn un difrifol iawn, ac mae'n mynd i

commitment to fairness, equality and treating all disabled people with dignity. I therefore hope that the Deputy First Minister can take on board the points that I have raised, and give some assurances that he will be able to take this forward.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I thank Peter for raising this important issue in the National Assembly today. I believe that the Breathe Freely campaign, promoted by the Pulmonary Hypertension Association UK and the British Lung Foundation, is raising important issues regarding the difficulties and charges that some passengers face when travelling by air. As Peter has outlined, people with lung conditions can require supplemental oxygen to counteract low levels of oxygen in their blood. The problem becomes worse when flying, as air pressure in the cabin is lower than at ground level, resulting in a lower concentration of oxygen.

The British Lung Foundation has made the case for supplemental oxygen being as important to people with breathing problems as a wheelchair is to people who have a walking difficulty. It was therefore a concern to learn about the findings of the Pulmonary Hypertension Association UK. As you indicated, it undertook a survey of 71 major airlines, and rather than repeat what you said about the survey, I will just agree that it is a matter of some concern—particularly the cost and the fees charged per trip by most airlines, which range from £50 to £500.

Peter, you acknowledged that the responsibility for civil aviation is a non-devolved matter and rests with the Department for Transport. This means that neither the Assembly Government nor Welsh Ministers have the powers to make regulations regarding the provision of oxygen on board aircraft. I want to remind the Assembly that the main legal requirements are set out in European regulations concerning the rights of disabled persons and

wraidd ymrwymiad y Cynulliad i degwch, cydraddoldeb a thrin pobl ag anabledd â pharch. Felly, yr wyf yn gobeithio y gall y Dirprwy Brif Weinidog ystyried y pwyntiau a godwyd gennyf, a rhoi rhywfaint o sicrwydd y bydd yn gallu symud y mater hwn yn ei flaen.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Hoffwn ddiolch i Peter am godi'r mater pwysig hwn yn y Cynulliad Cenedlaethol heddiw. Credaf fod yr ymgyrch *Breathe Freely*, sy'n cael ei hyrwyddo gan Gymdeithas Pwysedd Gwaed Uchel Ysgyfeiniol y DU a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, yn codi materion pwysig ynglŷn â'r anawsterau a'r taliadau y mae rhai teithwyr yn eu hwynebu wrth hedfan. Fel y bu i Peter sôn, mae angen ocsigen ychwanegol ar rai pobl sydd â chlefyd yr ysgyfaint er mwyn gwrthbwysu'r lefelau isel o ocsigen yn eu gwaed. Mae'r broblem yn gwaethygu wrth hedfan, oherwydd bod y pwysedd aer yn yr awyren yn is nag y mae ar y ddaear, sy'n arwain at grynhoad is o ocsigen.

Mae Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint wedi pwysleisio bod ocsigen ychwanegol yr un mor bwysig i bobl â phroblemau anadlu ag y mae cadair olwyn i bobl sy'n cael anhawster cerdded. Felly, yr oedd canfyddiadau Cymdeithas Pwysedd Gwaed Uchel Ysgyfeiniol y DU yn peri pryder. Fel y bu ichi sôn, cynhaliodd arolwg o 71 o'r prif gwmnïau awyrennau, ac yn hytrach nag ailadrodd yr hyn a ddywedasoeh am yr arolwg, y cyfan a wnaeth yw cytuno bod hyn yn peri pryder mawr—yn enwedig y gost a'r ffioedd sy'n cael eu codi fesul taith gan y rhan fwyaf o'r cwmnïau awyrennau, sy'n amrywio o £50 i £500.

Peter, bu ichi gydnabod nad yw'r cyfrifoldeb dros hedfan sifil yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mai'r Adran dros Drafnidiaeth sy'n gyfrifol amdano. Mae hyn yn golygu nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad na Gweinidogion Cymru y pwerau i lunio rheoliadau ynghylch darparu ocsigen ar awyrennau. Hoffwn atgoffa'r Cynulliad bod y prif ofynion cyfreithiol wedi'u nodi mewn rheoliadau Ewropeaidd ynglŷn â hawliau pobl anabl a phobl ag anawsterau symud wrth

persons with reduced mobility when travelling by air; and, to a lesser extent, in the Disability Discrimination Act 1995 and other guidance and codes of practice. The 1995 Act applies to facilities and services provided by airports, such as check-in facilities and booking services. The means of transport—the aircraft—is exempt from the Disability Discrimination Act, and the Equality Act 2010, in Schedule 3, Part 9, section 33, maintained that exemption. Regulation 1107/2006 of the European Parliament and of the Council on 5 July 2006 established the rights of disabled persons and persons with reduced mobility when travelling by air. This regulation is fully supported by the UK Government, is directly applicable in UK law, and is enforced by statutory instrument in the Civil Aviation (Access to Air Travel for Disabled Persons and Persons with Reduced Mobility) Regulations 2007. In situations where both the DDA and the EC regulations could apply, the EC regulations take precedence since no overlap is permitted between domestic and European law. The EC regulations imposed legal obligations on airport-managing bodies, air carriers, their agents and tour operators. The regulations established that no person can be refused carriage on a commercial flight, starting or finishing within the European Community, on the basis of a disability or reduced mobility. This right is subject to a number of exemptions, such as those of air safety.

The regulations also required airport-managing bodies to organise the provision of the services necessary to enable disabled and reduced mobility passengers to board, disembark and transit between flights. This includes the obligation to carry passengers' essential medical equipment and medicines free of charge. However, the regulation does not impose specific obligations on airlines to carry or provide oxygen in the cabin. To help the airline industry to comply with its obligations under the regulation, the Department for Transport has published a revised code of practice. This was published in July 2008.

deithio ar awyrennau; ac, i raddau llai, yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a chanllawiau a chodau ymarfer eraill. Mae Deddf 1995 yn berthnasol i gyfleusterau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan feysydd awyr, megis cyfleusterau cofrestru a gwasanaethau prynu tocynnau. Mae'r dull o deithio—yr awyren—wedi'i eithrio o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, ac mae Deddf Cydraddoldeb 2010, yn Atodlen 3, Rhan 9, adran 33 yn cadarnhau'r eithriad hwnnw. Sefydlwyd hawliau pobl anabl a phobl ag anawsterau symud wrth deithio ar awyrennau gan Reoliad 1107/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 5 Gorffennaf 2006. Caiff y rheoliad hwn ei gefnogi'n llwyr gan Lywodraeth y DU, caiff ei gymhwyso'n uniongyrchol yng nghyfreithiau'r DU, ac fe'i gorfodir gan offeryn statudol yn Rheoliadau Hedfan Sifil (Mynediad i Deithiau Awyr i Bobl Anabl a Phobl ag Anawsterau Symud) 2007. Mewn sefyllfaoedd lle gallai'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd fod yn berthnasol, rhoddir blaenoriaeth i reoliadau'r Gymuned Ewropeaidd oherwydd ni chaniateir unrhyw orgyffwrdd rhwng cyfraith ddomestig a chyfraith Ewropeaidd. Yr oedd rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyrff sy'n rheoli meysydd awyr, cwmnïau awyrennau, eu gweithredwyr a threfnwyr teithiau. Yr oedd y rheoliadau'n datgan na ellir gwrthod cludo unrhyw berson ar hediad masnachol, sy'n dechrau neu'n gorffen yn y Gymuned Ewropeaidd, ar sail anabledd neu anawsterau symud. Mae nifer o bethau wedi'u heithrio o'r hawl hon, megis materion yn ymwneud â diogelwch awyr.

Yr oedd y rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sy'n rheoli meysydd awyr drefnu darparu'r gwasanaethau angenrheidiol er mwyn galluogi pobl anabl a phobl ag anawsterau symud i fynd ar yr awyren, gadael yr awyren a symud rhwng hediadau. Mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaeth i gludo offer meddygol a meddyginiaethau angenrheidiol teithwyr yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliad yn rhoi rhwymedigaethau penodol ar gwmnïau awyrennau i gludo neu ddarparu ocsigen ar yr awyren. Er mwyn helpu'r diwydiant awyrennau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau dan y rheoliad, mae'r Adran

dros Drafnidiaeth wedi cyhoeddi cod ymarfer diwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008.

6.40 p.m.

During the consultation on the revised code, a number of disability organisations and individuals raised the need for stronger guidance on oxygen provision. They outlined the case that, first, all aircraft should carry a portable oxygen concentrator that can be booked by passengers. Secondly, there should be no charge for providing supplemental oxygen and airlines should also allow passengers to travel with their own supplemental oxygen. Finally, airlines should make onboard power available to reduce battery usage. The then UK Government rejected the proposal that oxygen should be provided free of charge. However, the code of practice included a section on oxygen that advised that airlines may approve the carriage of small gaseous oxygen or air cylinders not exceeding 5 kg gross mass required for medical use, but noted that:

‘air carriers will wish to ensure that these do not pose a risk to security.’

The code also noted that:

‘As an alternative to oxygen cylinders, passengers may wish to use their own portable oxygen concentrator device.’

It recommends that airlines should normally allow portable oxygen concentrator devices to be carried if they are battery powered, that is, not dependent on any of the aircraft’s systems for power. In addition, the code acknowledged that:

‘Although not required to do so under the EC Regulation, air carriers may wish to supply medical oxygen to passengers on request. This Code acknowledges that it would be possible to make a charge for this service to cover the provision of the oxygen.’

Passengers who are dissatisfied with the

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y cod diwygiedig, cododd nifer o sefydliadau anabledd ac unigolion yr angen am ganllawiau mwy cadarn ar ddarparu ocsigen. Yr oeddent yn dadlau, yn gyntaf, y dylai pob awyren gludo crynhöwr ocsigen cludadwy y gall teithwyr drefnu ei ddefnyddio. Yn ail, ni ddylid codi tâl am ddarparu ocsigen ychwanegol a dylai cwmnïau awyrennau hefyd ganiatáu i deithwyr deithio gyda’u hocsigen ychwanegol eu hunain. Yn olaf, dylai cwmnïau awyrennau sicrhau bod cyflenwad pŵer ar gael ar yr awyren er mwyn defnyddio llai ar y batris. Gwrthododd Llywodraeth y DU ar y pryd y cynnig y dylid darparu ocsigen yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, yr oedd y cod ymarfer yn cynnwys adran ar ocsigen a oedd yn cynghori y gall cwmnïau awyrennau gytuno i gludo silindrau ocsigen nwyol neu silindrau aer bach nad ydynt yn pwyso mwy na 5 cilogram i gyd, at ddefnydd meddygol, ond nododd:

bydd cwmnïau awyrennau yn dymuno sicrhau nad oes risg i ddiogelwch yn gysylltiedig â’r rhain.

Dyweddodd y cod hefyd:

Yn hytrach na defnyddio silindrau ocsigen, efallai y bydd teithwyr yn dymuno defnyddio eu crynhöwr ocsigen cludadwy eu hunain.

Mae’n argymhell y dylai cwmnïau awyrennau ganiatáu i grynhowyr ocsigen cludadwy gael eu cario os ydynt yn rhedeg ar fatri, hynny yw, os nad ydynt yn dibynnu ar yr un o systemau’r awyren i gael pŵer. Yn ogystal, cydnabu’r cod:

Er nad yw’n ofynnol o dan Reoliad y Gymuned Ewropeaidd, efallai y bydd cwmnïau awyrennau’n dymuno darparu ocsigen meddygol i deithwyr ar gais. Mae’r Cod hwn yn cydnabod y byddai’n bosibl codi tâl am y gwasanaeth hwn er mwyn talu am ddarparu’r ocsigen.

Gall teithwyr sy’n anfodlon â’r gwasanaeth y

service that they receive from air carriers may make a formal complaint to the Equality and Human Rights Commission, which, in turn, liaises with the Civil Aviation Authority, which has the power to enforce the regulation in the UK. Any company found to be in breach of its obligations could be subject to prosecution. In addition, an individual may enforce their rights in the civil courts without the involvement of those bodies. The Equality and Human Rights Commission has questioned whether airlines' refusal to carry passengers' oxygen cylinders or concentrators without charge, or at all, is contrary to the existing legislation, since that may be in breach of the obligation to carry essential medical equipment and medicines free of charge. We are seeking to have the regulations interpreted so that airlines do not charge people who are dependent on oxygen.

The UK Government also considers that the issue of carriage of medical oxygen is best addressed at a European level, due to the international nature of the industry, and because the regulation that I have referred to takes precedence over UK law. The European Commission is due to review the regulation later this year. However, as this is a new European law, it is unlikely that it will be changed quickly. However, this provides an opportunity for the concerned parties to make representations to the European Commission.

The Department for Transport, on behalf of the UK Government, also encourages airlines to make their conditions of carriage clear, which is a point that Peter made, so that passengers considering travelling on a particular airline are aware of its policy and can make an informed choice when they come to purchase their ticket. We would also urge them to do that. Many UK airlines, including British Airways, Eastern Airways, easyJet, Flybe, Jet2, Thomson Airways, First Choice and Virgin Atlantic Airways, allow passengers, subject to certain conditions, to bring their oxygen and to use their portable oxygen concentrator free of charge. One way forward for passengers with a requirement for oxygen is to buy flights from those airlines that already offer oxygen or allow people to

maent yn ei gael gan gwmnïau awyrennau gyflwyno cwyn ffurfiol i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a fydd, yn ei dro, yn cydgysylltu â'r Awdurdod Hedfan Sifil, sydd â'r grym i orfodi'r rheoliad yn y DU. Gellid erlyn unrhyw gwmni y canfyddir ei fod yn torri ei rwymedigaethau. Yn ogystal, gall unigolyn orfodi ei hawliau yn y llysoedd sifil heb droi at y cyrff hynny. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gofyn a yw gwrthodiad cwmnïau awyrennau i gludo silindrau neu grynhowyr ocsigen teithwyr yn ddi-dâl, os o gwbl, yn mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth bresennol, oherwydd gallai hynny fod yn torri'r rhwymedigaeth i gludo offer meddygol a meddyginiaethau angenrheidiol yn rhad ac am ddim. Yr ydym yn ceisio trefnu i'r rheoliadau gael eu dehongli mewn modd sy'n sicrhau na fydd cwmnïau awyrennau'n codi tâl ar bobl sy'n dibynnu ar ocsigen.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried mai'r peth gorau yw ymdrin â'r mater o gludo ocsigen meddygol ar lefel Ewropeaidd, oherwydd natur ryngwladol y diwydiant, ac oherwydd bod y rheoliad y bu imi sôn amdano'n cymryd blaenoriaeth dros gyfreithiau'r DU. Bydd Comisiwn Ewrop yn adolygu'r rheoliad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, gan ei bod yn gyfraith Ewropeaidd newydd, mae'n annhebygol y bydd yn cael ei newid yn gyflym. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnig cyfle i'r partion dan sylw gyflwyno sylwadau i Gomisiwn Ewrop.

Mae'r Adran dros Drafnidiaeth, ar ran Llywodraeth y DU, hefyd yn annog cwmnïau awyrennau i esbonio eu hamodau cludo yn glir, sy'n bwynt a wnaed gan Peter, er mwyn sicrhau bod teithwyr sy'n ystyried teithio gyda chwmni awyrennau penodol yn ymwybodol o'i bolisi ac yn gallu gwneud dewis gwybodus wrth brynu eu tocyn. Byddem ni hefyd yn eu hannog i wneud hynny. Mae llawer o gwmnïau awyrennau yn y DU, gan gynnwys British Airways, Eastern Airways, easyJet, Flybe, Jet2, Thomson Airways, First Choice a Virgin Atlantic Airways, yn caniatáu i deithwyr ddod â'u hocsigen eu hunain gyda hwy a defnyddio eu crynhöwr ocsigen cludadwy yn rhad ac am ddim, dim ond iddynt fodloni rhai amodau penodol. Un ffordd ymlaen i deithwyr y mae

use their own as a free service to those who need it. However, we want all airlines to provide that service so that people with disabilities have the same choice as all other passengers.

angen ocsigen arnynt yw prynu tocynnau gan y cwmnïau awyrennau hynny sydd eisoes yn cynnig ocsigen neu sy'n caniatáu i bobl ddefnyddio eu hocsigen eu hunain fel gwasanaeth rhad ac am ddim i'r rhai y mae arnynt ei angen. Fodd bynnag, yr ydym yn awyddus i bob cwmni awyrennau ddarparu'r gwasanaeth hwnnw er mwyn sicrhau bod pobl ag anableddau yn cael yr un dewis â theithwyr eraill.

Already, in response to the work of the Pulmonary Hypertension Association UK and the British Lung Foundation, some airline operators have ended charging and I think that we would both urge other airlines to follow their example. Peter has invited me to make representations to bodies such as the Department for Transport and others about this issue. I will make them aware of this debate, by sending them a copy of the debate, asking for their comments and for them to ensure that the European Commission is also aware of this debate.

Mewn ymateb i waith Cymdeithas Pwysedd Gwaed Uchel Ysgyfeiniol y DU a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, mae rhai cwmnïau awyrennau eisoes wedi rhoi'r gorau i godi tâl a chredaf y byddem ni'n dau yn annog cwmnïau awyrennau eraill i ddilyn eu hesiampl hwy. Mae Peter wedi fy ngwahodd i gyflwyno sylwadau i gyrff megis yr Adran dros Drafnidiaeth ac eraill am y mater hwn. Byddaf yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddadl hon, drwy anfon copi ohoni atynt, ac yn gofyn am eu sylwadau ac am iddynt sicrhau bod Comisiwn Ewrop hefyd yn ymwybodol ohoni.

William Graham: That brings today's proceedings to a close.

William Graham: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.44 p.m.
The meeting ended at 6.44 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)

Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)